# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 23/06/2015

Cynnwys Contents

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Taith Cyllideb 2015—Buddsoddi yn y Gymru a Garem
3. Statement: Budget Tour 2015—Investing in the Wales We Want

4. Datganiad: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2015
4. Statement: Wales Infrastructure Investment Plan for Wales Annual Report 2015

5. Datganiad: Y Diweddaraf ar Borthladdoedd
5. Statement: An Update on Ports

6. Datganiad: Buddsoddi mewn Cynlluniau Cyflenwi
6. Statement: Investment in Delivery Plans

7. Datganiad: Camau Gweithredu sy'n Cael eu Cymryd i Fynd i'r Afael â Risgiau sy'n ymwneud â Thanau Glaswellt yng Nghymru
7. Statement: Actions Being Taken to Combat the Risks of Grass Fires in Wales

8. Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i 'Addysgu Athrawon Yfory—Dewisiadau ar gyfer Dyfodol Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru'
8. Statement: Welsh Government Response to 'Teaching Tomorrow's Teachers—Options for the Future of Initial Teacher Education in Wales'

9. Datganiad: Gweithrediadau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i Drechu Tlodi
9. Statement: European Structural Fund Operations to Tackle Poverty

10. Datganiad: Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) Drafft
10. Statement: The Draft Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:29 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:29

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:29

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I'm sure you'd like to join with me in welcoming members of the public accounts committees from the States of Jersey and Northern Ireland who are here watching in the public gallery this afternoon.

Rwy'n siŵr yr hoffech chi ymuno â mi i groesawu aelodau pwyllgorau cyfrifon cyhoeddus Taleithiau Jersey a Gogledd Iwerddon sydd yma'n gwylio yn yr oriel gyhoeddus y prynhawn yma.

13:29

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Now we move to item 1, which is questions to the First Minister, and question 1 is from Elin Jones.

Symudwn at eitem 1 nawr, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog, a daw cwestiwn 1 gan Elin Jones.

### Hybu'r Iaith Gymraeg

### Promoting the Welsh Language

13:29 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau'r Llywodraeth o ran hybu'r iaith Gymraeg? OAQ(4)2351(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the Government's priorities in relation to promoting the Welsh language? OAQ(4)2351(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rŷm ni'n parhau i weithredu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn natganiad polisi Bwrw Mlaen i hyrwyddo'r Gymraeg, gyda'r nod o weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.

We continue to deliver the priorities set out in the Bwrw Mlaen policy statement to promote the Welsh language, with the aim of seeing the Welsh language thrive in Wales.

Senedd.tv Fideo Video

13:29 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Mae'n debyg y byddai'r cwestiwn yma wedi bod yn go wahanol os na fyddai yna ddatrysiad wedi digwydd ddoe ar Bantycelyn, a'r sicrwydd a'r amserlen wedi'u rhoi gan y brifysgol nawr, fel roeddech chi a finnau wedi gofyn amdanynt yr wythnos diwethaf. Felly, Brif Weinidog, a gaf i ofyn i chi am ddiweddariad ar ble ydych chi ar wireddu un o argymhellion adroddiad Rhodri Llwyd Morgan i'ch Llywodraeth chi ychydig flynyddoedd yn ôl ar greu Aberystwyth, Caerfyrddin a Bangor yn dair tref strategol rhanbarthol pwysig i hybu'r Gymraeg?

I suppose that the answer to this question would've been quite different had there been no resolution yesterday on the issue of Pantycelyn hall of residence, with the assurance and timetable now provided by the university, as you and I requested last week. So, First Minister, may I ask you for an update on where you are in terms of achieving one of the recommendations of the Rhodri Llwyd Morgan report for your Government just a few years ago, on creating Aberystwyth, Carmarthen and Bangor as three important strategic regional towns to promote the Welsh language?

Senedd.tv Fideo Video

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rŷm ni'n deall eu bod nhw'n drefi pwysig dros ben ac yn dal i fwrw ymlaen—a defnyddio'r term—i sicrhau bod hwnnw yn digwydd. Un ffordd o gryfhau ym mha ffordd y gallwn ni wneud hwn yw defnyddio'r prosiect peilot, er enghraifft yn Nyffryn Teifi, i weld sut mae hynny'n gweithio ynglŷn â busnesau, ac i weld wedyn fel y gall hynny effeithio ar beth sy'n digwydd yn y trefi rydych wedi sôn amdanynt.

We understand that they're exceptionally important towns, and we continue to make progress—or 'bwrw ymlaen', to use our phrase—to ensure that that happens. One way to strengthen the way in which we could do that is by using the pilot project, for example in the Teifi valley, to evaluate how that is working with businesses, and to see what impact that can have on the towns that you mentioned.

Mae'n newyddion da dros ben ynglŷn â Phantycelyn. Fe ysgrifennais i at y brifysgol i ddweud faint mor bwysig oedd hi i gael neuadd breswyl lle oedd y Gymraeg yn brif gyfrwng y neuadd honno, ac rwy'n falch o weld beth sydd wedi digwydd ynglŷn â dyfodol yr iaith Gymraeg o du fewn i Bantycelyn.

It's extremely good news about Pantycelyn. I wrote to the university to say how important it was to have a hall of residence where the Welsh language was the main medium, and I'm pleased to see what has happened as regards the future of the Welsh language in Pantycelyn.

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Mae dyfodol ein hiaith yn nwylo ein plant. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi grwpiau fel Ti a Fi a'r Mudiad Meithrin?

The future of our language is in the hands of our children. What is the Government doing to support groups like Ti a Fi and the Mudiad Meithrin?

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A gaf i longyfarch yr Aelod am ei Gymraeg? Dyna'r tro cyntaf iddo ofyn cwestiwn yn Gymraeg, a Chymraeg da dros ben.

May I congratulate the Member on his Welsh? It's the first time he has posed a question in Welsh, and it was exceptionally good Welsh.

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ddweud bod y Mudiad Meithrin yn cael tua £3.772 miliwn trwy ffynonellau gwahanol y tu fewn i Lywodraeth Cymru? Mae hwnnw'n cynnwys dros £1 miliwn drwy'r grant mae'n ei gael trwy'r uned Cymraeg mewn addysg, a hefyd yr arian sydd ar gael trwy ffynonellau eraill mewn addysg. Rydym yn gwybod ynglŷn â chylchoedd Ti a Fi, a hefyd y mudiadau meithrin, a'r cyfle sydd yna i rieni gael addysg Gymraeg i'w plant, fod y rheini'n bwysig dros ben, nid dim ond yn yr ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol, ond rwyf wedi gweld yr effaith maent wedi cael mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg o dan bwysau, ac rwyf wedi gweld cynnydd yn nifer y rhieni sy'n moyn sicrhau bod eu plant nhw nid dim ond yn siarad Cymraeg, ond yn defnyddio'r Gymraeg yn y pen draw.

May I say that Mudiad Meithrin receives about £3.772 million via various sources within Welsh Government? That includes over £1 million via the grant it receives through the Welsh in education unit and also the funding available through other sources in education. As regards the Ti a Fi parent and toddler groups and also the nursery groups, and the opportunities available for parents to access Welsh-medium education for their children, we know that they're exceptionally important, not only in those areas where Welsh isn't a community language, but I've seen the impact they have in areas where the Welsh language is under pressure, and I've seen an increase in the number of parents who wish to ensure that their children not only speak Welsh but use the Welsh language ultimately, too.

13:32 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n siŵr taw un o flaenoriaethau'ch Llywodraeth chi fydd sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n amlach yn ein cymunedau ni, yn ein siopau ni ar y stryd fawr, ac mewn canolfannau manwerthu. Yn y gorffennol, mae cwmnïau fel John Lewis wedi comisiynu dosbarthiadau Cymraeg i annog staff i ddefnyddio peth Cymraeg gyda chwsmeriaid. Yn sgil hyn, a allwch chi ddweud wrthym ni yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r arfer hwn ac i annog busnesau eraill ledled Cymru i ariannu cyrsiau Cymraeg?

First Minister, I'm sure that one of your Government's priorities will be to ensure that the Welsh language is used more often in our communities, in our high-street stores, and in other retail outlets. In the past, companies such as John Lewis have commissioned Welsh classes to encourage staff to use the Welsh language with their customers. In light of that, can you tell us what the Welsh Government is doing to promote this practice and to encourage other businesses throughout Wales to fund Welsh-language courses?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n bwysig dros ben bod siaradwyr Cymraeg yn gallu adnabod ei gilydd. Nid oeddwn i ar un adeg yn gefnogol iawn o'r bathodyn, ond rwyf wedi newid fy meddwl ers hynny. Mae'n bwysig dros ben, mewn rhai rhannau o Gymru, fod ffordd o ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei rhoi i unigolion, ac un ffordd o wneud hynny yw sicrhau eu bod nhw'n gallu gwybod pwy arall sy'n siarad Cymraeg. So, mae gyda ni'r bathodyn arferol y mae pobl yn gyfarwydd ag e, a hefyd y bathodyn 'Cymraeg' sydd gyda ni fel Llywodraeth. Beth rydym yn ei wneud yw sicrhau ein bod yn annog busnesau i gael staff i wisgo'r bathodynnau hynny er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd hollol naturiol pan fyddan nhw'n prynu rhywbeth neu'n delio â'r busnes.

It's exceptionally important that Welsh speakers are able to identify each other. At one point, I wasn't very supportive of the badge, but I've changed my mind since then. It's exceptionally important in some areas of Wales that you can give people the opportunity to use the Welsh language, and one way of doing that is to ensure that they know who else can speak Welsh. So, we have the usual badge that people are used to and also the 'Cymraeg' badge that we have as a Government. What we are doing is ensuring that we encourage businesses to get their staff to wear these badges, so that people can use the Welsh language in a totally natural way when they are buying something, or in their dealings with that business.

13:33 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Plans by Powys County Council to close the Welsh language unit at Brecon High School have left many in the community very concerned about the impact that will have on Welsh in the Brecon area. Already, parents are deciding to move their children out of Welsh-medium education because of a lack of continuum. Whilst the council have carried out a community impact assessment, it's not clear that they've carried out any detailed research into the effect of this change on the numbers choosing Welsh-medium education into the future. What would your expectations be of a county council to carry out such an impact assessment, and would you agree with me that any changes to Welsh-medium education provision should increase the number of children who are studying through the medium of Welsh and not decrease the numbers?

Mae cynlluniau Cyngor Sir Powys i gau uned y Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu wedi gadael llawer yn y gymuned yn bryderus iawn am yr effaith y bydd hynny'n ei chael ar y Gymraeg yn ardal Aberhonddu. Mae rhieni eisoes yn penderfynu symud eu plant allan o addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd diffyg dilyniant. Er bod y cyngor wedi cynnal asesiad o effaith ar y gymuned, nid yw'n eglur ei fod wedi cynnal unrhyw waith ymchwil manwl i effaith y newid hwn ar y niferoedd sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dyfodol. Beth fyddai eich disgwyliadau o gyngor sir i gynnal asesiad effaith o'r fath, ac a fyddech chi'n cytuno â mi y dylai unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gynyddu nifer y plant sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac nid lleihau'r niferoedd?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Each local authority, of course, is required to submit its Welsh in education plan, to show how it proposes to increase the use of Welsh and the delivery of Welsh as a medium of education in their particular county. If there is any attempt by a local authority to restrict the availability of Welsh-medium education, particularly at secondary level, that is something that we'll not seek to approve as part of their plans for the future. We know, for example, that Ysgol y Bannau is a well-established primary school in the Brecon area, and there has to be a way for children to be able to use Welsh—as a medium of education, not as a subject—in order for the language to be fully integrated in their educational experience. I certainly would not be supportive of anything that restricted the availability of Welsh-medium education in that part of Powys.

Byddwn. Mae'n ofynnol, wrth gwrs, i bob awdurdod lleol gyflwyno ei gynllun Cymraeg mewn addysg, i ddangos sut y mae'n bwriadu cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a darparu'r Gymraeg fel cyfrwng addysg yn ei sir benodol. Os oes unrhyw ymgais gan awdurdod lleol i gyfyngu ar yr addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, yn enwedig ar lefel uwchradd, mae hynny'n rhywbeth na fyddwn yn mynd ati i'w gymeradwyo yn rhan o'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gwybod, er enghraifft, bod Ysgol y Bannau yn ysgol gynradd sydd wedi'i hen sefydlu yn ardal Aberhonddu, ac mae'n rhaid bod modd i blant allu defnyddio'r Gymraeg—fel cyfrwng addysg, nid fel pwnc—er mwyn i'r iaith gael ei hintegreiddio'n llawn yn eu profiad addysgol. Yn sicr, ni fyddwn yn cefnogi unrhyw beth sy'n cyfyngu ar yr addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y rhan honno o Bowys.

Senedd.tv Fideo Video

## Adeiladu Economïau Rhanbarthol

## Building Regional Economies

13:35 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag adeiladu economïau rhanbarthol yng Nghymru? OAQ(4)2353(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on Welsh Government policy to build regional economies in Wales? OAQ(4)2353(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We're working to support jobs and growth in every part of Wales, taking wide-ranging actions to help individuals, communities and businesses. They include, of course, support for our enterprise zones, the city regions, and local growth zones.

Rydym ni'n gweithio i gefnogi swyddi a thwf ym mhob rhan o Gymru, gan gymryd camau pellgyrhaeddol i helpu unigolion, cymunedau a busnesau. Maen nhw'n cynnwys, wrth gwrs, cefnogaeth i'n hardaloedd menter, y dinas-ranbarthau, ac ardaloedd twf lleol.

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

First Minister, the south-east Wales economy is very important for the Welsh economy as a whole, and obviously we need to develop that economy further—and I'm sure we will. Will you agree with me that the Cardiff capital region city bid has great potential in terms of building the south-east Wales economy, and could you explain what part Welsh Government will play, alongside UK Government and the local authorities, to make sure that delivers maximum benefits for south-east Wales?

Brif Weinidog, mae economi'r de-ddwyrain yn bwysig iawn i economi Cymru yn ei gyfanrwydd, ac yn amlwg mae angen i ni ddatblygu'r economi hwnnw ymhellach—ac rwy'n siŵr y gwnawn hynny. A wnewch chi gytuno â mi bod gan gais prifddinas-ranbarth Caerdydd botensial mawr o ran datblygu economi'r de-ddwyrain, ac a allech chi esbonio pa ran fydd Llywodraeth Cymru yn ei chwarae, ochr yn ochr â Llywodraeth y DU a'r awdurdodau lleol, i wneud yn siŵr bod hynny'n sicrhau'r manteision gorau posibl i'r de-ddwyrain?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for the question. I think he may be referring to the city deal. In principle, we support the idea, but we're short on detail at the moment. We don't know what contribution will be made by UK Government, and we don't know what contribution will be expected by Welsh Government, or, indeed, from local authorities. So, while we remain supportive of the principle, we have yet to see how that would work in detail, but we remain open, of course, to discussion. In any economy, infrastructure is important, and that's why, of course, we're moving forward with the metro. There will be a statement soon by the Minister, explaining what is now being done to move that project forward.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwy'n meddwl efallai ei fod yn cyfeirio at y cytundeb dinas. Mewn egwyddor, rydym ni'n cefnogi'r syniad, ond rydym ni'n brin o fanylion ar hyn o bryd. Nid ydym yn gwybod pa gyfraniad fydd yn cael ei wneud gan Lywodraeth y DU, ac nid ydym yn gwybod pa gyfraniad a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru, nac, yn wir, gan awdurdodau lleol. Felly, er ein bod yn dal i gefnogi'r egwyddor, nid ydym wedi gweld eto sut y byddai hynny'n gweithio'n fanwl, ond rydym yn dal i fod yn agored, wrth gwrs, i drafodaeth. Mae seilwaith yn bwysig mewn unrhyw economi, a dyna pam, wrth gwrs, rydym ni'n bwrw ymlaen â'r metro. Bydd datganiad gan y Gweinidog yn fuan, yn esbonio'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i symud y prosiect hwnnw yn ei flaen.

13:36 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, last week, your local government Minister unveiled your Government's plan to reorganise councils in Wales. Many of those councils have been working together to improve their regional economies, particularly in my region, where we have the Swansea bay city region. What assessments have you made of the impact your proposal will have on the city regions?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, datgelodd eich Gweinidog llywodraeth leol gynllun eich Llywodraeth i ad-drefnu cynghorau yng Nghymru. Mae llawer o'r cynghorau hynny wedi bod yn cydweithio i wella eu heconomïau rhanbarthol, yn enwedig yn fy rhanbarth i, lle mae gennym ni ddinas-ranbarth bae Abertawe. Pa asesiadau ydych chi wedi eu gwneud o'r effaith y bydd eich cynnig yn ei chael ar y dinas-ranbarthau?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It'll make things better. Local authorities will be able to provide services more robustly than is the case at the moment and at a lesser cost to the taxpayer. They will still have to work together. It certainly isn't the case that, with a new structure of local authorities, there is therefore no need for the new local authorities to work together—that will have to continue in the future. We see, of course, local authorities that have been individually successful in attracting investment into some parts of Wales, but it's absolutely crucial they continue to work together, both now and when the new structure comes into place.

Bydd yn gwneud pethau'n well. Bydd awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau yn fwy cadarn na'r hyn sy'n wir ar hyn o bryd ac am lai o gost i'r trethdalwr. Bydd yn rhaid iddyn nhw barhau i weithio gyda'i gilydd. Yn sicr, nid yw'n wir, gyda strwythur newydd o awdurdodau lleol, nad oes angen felly i'r awdurdodau lleol newydd weithio gyda'i gilydd—bydd yn rhaid i hynny barhau yn y dyfodol. Rydym ni'n gweld, wrth gwrs, awdurdodau lleol sydd wedi llwyddo'n unigol i ddenu buddsoddiad i rai rhannau o Gymru, ond mae'n hollbwysig eu bod yn parhau i gydweithio, nawr a phan roddir y strwythur newydd ar waith.

13:37 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A ydy'r Prif Weinidog yn cytuno bod angen cymryd camau pendant iawn—drwy ddeddfwriaeth, o bosibl—i sicrhau bod ffyniant economaidd yn rhywbeth sy'n cael ei rannu ledled Cymru? Nid yw gogledd Cymru, nid wy'n meddwl, yn cael y gefnogaeth angenrheidiol ar hyn o bryd i alluogi'r rhanbarth i gyrraedd ei botensial, yn cynnwys y buddsoddiad angenrheidiol mewn isadeiledd. A wnaiff y Prif Weinidog, felly, gefnogi addewid Plaid Cymru i gyflwyno Bil a fyddai'n rhoi ymrwymiad clir i ddatblygu y gogledd fel pwerdy—neu 'powerhouse'—economaidd?

Does the First Minister agree that we need to take very significant steps—through legislation, perhaps—to ensure that economic prosperity is something that is shared across Wales? North Wales is not, I don't think, given the necessary support at present to enable the region to achieve its potential, including the necessary investment in infrastructure. Would the First Minister therefore support the Plaid Cymru pledge to introduce a Bill that would provide a clear commitment to develop the north of Wales as an economic powerhouse?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid wy'n gweld sut mae cyfraith, neu ddeddfwriaeth, yn gwneud hwnnw. Mae buddsoddwyr yn mynd i fynd lle mae'n nhw'n moyn mynd, nid lle mae'r Llywodraeth yn dweud eu bod nhw'n gorfod mynd. Mae'n wir dweud, wrth gwrs, fod Llywodraeth yn gallu dodi yn eu lle bethau i dynnu neu i demtio buddsoddwyr i mewn i rannau o Gymru. Mae hwnnw wedi digwydd ar Ynys Môn, er enghraifft, ynglŷn â'r Wylfa newydd, ynglŷn â beth sy'n digwydd o ran ynni'r môr, ynglŷn â beth sy'n digwydd o ran gwynt y môr, gyda'r ail fferm wynt fwyaf yn y byd. Yng Nglannau Dyfrdwy, er enghraifft, mae llawer iawn o fuddsoddiad wedi mynd i mewn i Lannau Dyfrdwy, yn enwedig, yn ddiweddar, celfi Westbridge—neu ai dodrefn y dylwn i ei ddweud yn y gogledd? Maen nhw wedi dod i mewn i Gymru o achos y gwaith y maen nhw wedi'i wneud yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Mae rhai rhannau o Gymru, er enghraifft, Dyffryn Conwy, ac mae gyda ni Surf Snowdonia hefyd, wrth gwrs—felly, mae yna fuddsoddiad wedi dod mewn i'r gogledd. Nid wy'n gweld y byddai cyfraith yn helpu i newid pethau. Beth sy'n bwysig yw bod gyda ni bolisïau—fel y parthau menter, ac fel Ynys Ynni Môn—sydd yn tynnu'r buddsoddiad yna i mewn.

I don't see how a law, or legislation, can achieve that. Investors are going to go where they want to go, not where Government tells them they have to go. However, of course, it's true to say that Government can actually put things in place to attract or to tempt investors into certain parts of Wales. That's happened on Anglesey, for example, as regards the new Wylfa, as regards what's happening with marine energy, and what's happening with wind energy, with the second largest windfarm in the world. On Deeside, for example, a great deal of investment has gone into Deeside, particularly Westbridge furniture, recently in north Wales. They've come into Wales because of the work that they've been doing in collaboration with the Welsh Government. There are some parts of Wales, for example the Conwy valley, and we also have Surf Snowdonia, of course—so, there is investment coming into the north. I don't see how a law would actually help to change things. However, what is important is that we do have policies in place—such as the enterprise zones and such as the Ynys Ynni Môn on Anglesey—that attract that inward investment.

13:39 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, if the city deal and city region strategies are going to build the kind of regional economy that's going to benefit everyone in south-east Wales, clearly, a fast, effective public transport system is going to be critical to that. But it can still take two hours to get by public transport from one valley to another, and even an hour to get from the northern suburbs of Cardiff to the city centre, which is clearly a barrier for people who want to reach employment. When the metro proposals are brought forward later in this term, what kind of improvements to travel times do you expect them to be able to achieve?

Brif Weinidog, os yw'r strategaethau cytundeb dinas a dinas-ranbarth yn mynd i adeiladu'r math o economi rhanbarthol sy'n mynd i fod o fudd i bawb yn y de-ddwyrain, yn amlwg, mae system cludiant cyhoeddus cyflym, effeithiol yn mynd i fod yn hanfodol i hynny. Ond gall gymryd dwy awr o hyd i fynd ar gludiant cyhoeddus o un cwm i'r llall, a hyd yn oed awr i deithio o faestrefi gogledd Caerdydd i ganol y ddinas, sy'n amlwg yn rhwystr i bobl sydd eisiau cyrraedd eu gwaith. Pan gyflwynir y cynigion metro yn ddiweddarach yn y tymor hwn, pa fath o welliannau i amseroedd teithio ydych chi'n disgwyl iddyn nhw allu eu cyflawni?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are several objectives to the metro. Improvement in travel times, of course, is one objective. Greater comfort, in terms of rolling stock, for passengers is another, and, of course, in time, the extension of the existing network. Part of the metro will need to consider bus routes cross-valley, because we know that the railway lines in the main run north to south. Those that ran cross-valley have long gone; they were taken away in the 1960s. But it's correct to say that we also need to look carefully at cross-valley transport and not simply at moving people north to south within the Valleys themselves. That's part of the thinking around the metro.

Ceir nifer o amcanion i'r metro. Mae gwella amseroedd teithio, wrth gwrs, yn un amcan. Mae mwy o gysur, o ran cerbydau, i deithwyr yn un arall, ac, wrth gwrs, mewn amser, ymestyn y rhwydwaith presennol. Bydd angen i ran o'r metro ystyried llwybrau bysiau rhwng cymoedd, gan ein bod yn gwybod bod y rheilffyrdd yn rhedeg o'r gogledd i'r de ar y cyfan. Mae'r rhai a oedd yn rhedeg ar draws y cymoedd wedi hen ddiflannu; fe'u dilëwyd yn y 1960au. Ond mae'n gywir dweud bod angen hefyd i ni edrych yn ofalus ar drafnidiaeth rhwng cymoedd ac nid dim ond ar symud pobl o'r gogledd i'r de o fewn y Cymoedd eu hunain. Mae hynny'n rhan o'r syniadau ynghylch y metro.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from party leaders, and first this afternoon we have the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, the regeneration investment fund for Wales was set up by the Welsh Government, obviously, to create a regeneration fund for town centre regeneration. It was important that the moneys were maximised by the sale of Government-owned land, in particular valuable Government-owned land, and the greater amount that was achieved by that sale obviously would mean a greater impact for regeneration. Do you believe that the land sales that the Welsh Government undertook some years ago now did reflect good value for money for the Welsh taxpayer?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, sefydlwyd cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio gan Lywodraeth Cymru, yn amlwg, i greu cronfa adfywio ar gyfer adfywio canol trefi. Roedd yn bwysig cael cymaint o arian â phosibl trwy werthu tir a oedd yn eiddo i'r Llywodraeth, yn enwedig tir gwerthfawr a oedd yn eiddo i'r Llywodraeth, a'r mwyaf y byddai'r swm a geid drwy'r gwerthiant hwnnw yna'r mwyaf fyddai'r effaith ar gyfer adfywio, yn amlwg. A ydych chi'n credu bod y tir a werthwyd gan Lywodraeth Cymru rai blynyddoedd yn ôl bellach yn cynrychioli gwerth da am arian i drethdalwyr Cymru?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The answer is that we had concerns about some of the transactions that were taking place. That's why the decision was taken to pause some of those transactions so that an investigation could take place, and that was done.

Yr ateb yw bod gennym ni bryderon ynghylch rhai o'r trafodion a oedd yn digwydd. Dyna pam y gwnaed y penderfyniad i oedi rhai o'r trafodion hynny fel y gellid cynnal ymchwiliad, a gwnaed hynny.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You will be aware, First Minister, that, obviously, the auditor general has been undertaking a very detailed and comprehensive report into this matter, and there have been many interested parties with deep concerns over the way this sale was undertaken and, in particular, the return to the taxpayer—some £21 million back to the taxpayer. That report is nearly 12 months overdue now. It was due last year. Can you confirm what interaction, if any, the Welsh Government have had with the audit office in making their observations known, which could have led to a delay in this report coming forward?

Byddwch yn ymwybodol, Brif Weinidog, yn amlwg, bod yr archwilydd cyffredinol wedi bod yn ymgymryd ag adroddiad manwl a chynhwysfawr iawn ar y mater hwn, ac roedd gan lawer o bartïon â buddiant bryderon sylweddol am y ffordd y cyflawnwyd y gwerthiannau hyn ac, yn benodol, yr enillion i'r trethdalwyr—tua £21 miliwn yn ôl i'r trethdalwr. Mae'r adroddiad hwnnw bron i flwyddyn yn hwyr erbyn hyn. Fe'i disgwyliwyd y llynedd. A allwch chi gadarnhau pa ryngweithio, os o gwbl, a fu rhwng Llywodraeth Cymru a'r swyddfa archwilio o ran gwneud eu harsylwadau'n hysbys, a allai fod wedi arwain at oedi cyhoeddiad yr adroddiad hwn?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

No. It's a matter for the auditor general to produce that report. It's not for Government to interfere with that report in any way, nor would we do that.

Na allaf. Mater i'r archwilydd cyffredinol yw cyflwyno'r adroddiad hwnnw. Nid lle'r Llywodraeth yw ymyrryd â'r adroddiad hwnnw mewn unrhyw ffordd, ac ni fyddem yn gwneud hynny.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, it is a fact, First Minister, that the report has been ready, but, under the Maxwell principle, when reports are provided, the people who are mentioned in that report do have the opportunity to comment on and correct the record. This is what I'm seeking from you today, First Minister. Given that we are 12 months overdue, I would suggest, in this report's publication and in particular the evidence that I've had and the conversations I've had with the auditor general indicate there has been a very long process of cross-referencing people who've been cited in the report, are you able to confirm that the Welsh Government have not been unduly slow in coming forward and addressing any concerns that might have been put to them? Would you join me in imploring now that that report come forward for full public scrutiny so that we can see exactly whether the taxpayer did get fair value for money on these land sales?

Wel, mae'n ffaith, Brif Weinidog, bod yr adroddiad wedi bod yn barod, ond, o dan egwyddor Maxwell, pan ddarperir adroddiadau, ceir cyfle i'r bobl sy'n cael eu crybwyll yn yr adroddiad hwnnw wneud sylwadau ar y cofnod a'i gywiro. Dyna'r hyn rwy'n gofyn amdano gennych chi heddiw, Brif Weinidog. O ystyried ein bod ni flwyddyn yn hwyr, byddwn yn awgrymu, yn cyhoeddi'r adroddiad hwn, ac yn arbennig, bod y dystiolaeth yr wyf i wedi ei chael a'r sgyrsiau yr wyf i wedi eu cael gyda'r archwilydd cyffredinol, yn dangos y bu proses hir iawn o groesgyfeirio pobl a enwyd yn yr adroddiad, a allwch chi gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhy araf yn dod ymlaen a rhoi sylw i unrhyw bryderon a allai fod wedi cael eu derbyn ganddi? A wnewch chi ymuno â mi i erfyn nawr bod yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyflwyno ar gyfer craffu cyhoeddus llawn er mwyn i ni allu gweld yn union a gafodd y trethdalwr werth teg am arian yn yr achosion hyn o werthu tir?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the report will be published when the auditor general feels the report should be published. It's a matter entirely for the auditor general, not for us. Yes, he's right to refer to the Maxwell principle, and it's right that that principle is adhered to, but I suspect the answer as to when the report will be published lies with the auditor general rather than with us as a Government. We do not, nor should we, control the timing or the content of that report.

Wel, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi pan fydd yr archwilydd cyffredinol yn teimlo y dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Mater i'r archwilydd cyffredinol yn llwyr yw hwn, nid i ni. Ydy, mae'n iawn i gyfeirio at egwyddor Maxwell, ac mae'n iawn y dylid glynu at yr egwyddor honno, ond rwy'n amau mai'r archwilydd cyffredinol, yn hytrach na ni fel Llywodraeth, sydd â'r ateb ynghylch pryd y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Nid ydym, ac ni ddylem, reoli amseriad na chynnwys yr adroddiad hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, how many children in Wales live in poverty?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, faint o blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi?

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Too many.

Gormod.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

First Minister, I would've thought that you would've known the answer to that question. Figures suggest that 31 per cent of children in Wales—that's around 200 children—are living in poverty. Now, we know that the UK Government are going to make a further £12 billion-worth of welfare cuts. Your party, of course, has said that you want to be tougher than the Tories on welfare. Now, last week's publication of the Communities, Equality and Local Government Committee report argues that you've not done enough to tackle poverty, and also that you've been treating the symptoms rather than the root causes. Do you think that you are doing enough, First Minister, and do you intend to maintain your current approach in your forthcoming budget?

Brif Weinidog, byddwn i wedi meddwl y byddech chi'n gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwnnw. Mae ffigurau'n awgrymu bod 31 y cant o blant yng Nghymru—sef tua 200 o blant—yn byw mewn tlodi. Nawr, rydym ni'n gwybod bod Llywodraeth y DU yn mynd i wneud gwerth £12 biliwn arall o doriadau lles. Mae eich plaid chi, wrth gwrs, wedi dweud eich bod eisiau bod yn fwy llym na'r Torïaid o ran lles. Nawr, mae cyhoeddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yr wythnos diwethaf yn dadlau nad ydych chi wedi gwneud digon i fynd i'r afael â thlodi, a hefyd eich bod wedi bod yn trin y symptomau yn hytrach na'r achosion sylfaenol. A ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gwneud digon, Brif Weinidog, ac a ydych chi'n bwriadu parhau â'ch agwedd bresennol yn eich cyllideb nesaf?

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think she means 200,000 rather than 200. But there are two issues here: first of all, the actions of the UK Government, and secondly, as she fairly asks, what we as a Government are doing. We did not agree with what has been done with the bedroom tax. We await with some trepidation the proposals that will come forward on 8 July. I noted yesterday the Prime Minister would not rule out cuts to disability benefits, and that is something that should send a chill down the spines of many, many people.

Rwy'n credu ei bod hi'n golygu 200,000 yn hytrach na 200. Ond mae dau fater yma: yn gyntaf oll, gweithredoedd Llywodraeth y DU, ac yn ail, fel y mae'n ei ofyn yn deg, yr hyn yr ydym ni fel Llywodraeth yn ei wneud. Nid oeddem yn cytuno â'r hyn a wnaed gyda'r dreth ystafell wely. Rydym ni'n aros gyda rhywfaint o anesmwythder am y cynigion a fydd yn cael eu cyflwyno ar 8 Gorffennaf. Sylwais ddoe nad oedd y Prif Weinidog yn fodlon diystyru toriadau i fudd-daliadau anabledd, ac mae hynny'n rhywbeth a ddylai anfon ias i lawr asgwrn cefn llawer iawn o bobl.

For us as a Government, there are challenges. We note the report and we will respond to the report, of course, formally, as the process demands, but we have already embarked on a process of examining carefully the anti-poverty programmes that we have in order to see whether they should be made more effective.

Ceir heriau i ni fel Llywodraeth. Rydym ni'n nodi'r adroddiad a byddwn yn ymateb i'r adroddiad, wrth gwrs, yn ffurfiol, fel y mae'r broses yn mynnu, ond rydym ni eisoes wedi cychwyn proses o archwilio'n ofalus y rhaglenni gwrthdlodi sydd gennym ni er mwyn gweld a ddylid eu gwneud yn fwy effeithiol.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the communities and tackling poverty budget is worth £240 million of revenue spend every year, and that's not including capital and European funds. Now, we wouldn't call for that budget to be cut, but we do contend that it could be spent more effectively. There are similar regions in England that have reduced poverty much quicker than we've managed to do here in Wales, so it's essential, now, that you ask yourself why you keep doing the same thing. Plaid Cymru would've abolished zero-hours contracts in the social care sector, for example. We would've abolished priority need in homelessness law, and we would've adopted a no evictions policy for those victims of the bedroom tax. What new measures are you going to introduce to effectively tackle poverty in Wales?

Brif Weinidog, mae'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi yn werth £240 miliwn o refeniw sy'n cael ei wario bob blwyddyn, ac nid yw hynny'n cynnwys cyfalaf a chyllid Ewropeaidd. Nawr, ni fyddem yn galw am i'r gyllideb honno gael ei thorri, ond rydym ni yn dadlau y gellid ei gwario'n fwy effeithiol. Ceir rhanbarthau tebyg yn Lloegr sydd wedi lleihau tlodi'n llawer cyflymach nag yr ydym ni wedi llwyddo i'w wneud yma yng Nghymru, felly mae'n hanfodol, nawr, eich bod yn gofyn i chi eich hun pam yr ydych chi'n parhau i wneud yr un peth. Byddai Plaid Cymru wedi diddymu contractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol, er enghraifft. Byddem wedi diddymu angen blaenoriaethol mewn cyfraith ddigartrefedd, a byddem wedi mabwysiadu polisi dim troi allan i'r rhai hynny sy'n dioddef yn sgil y dreth ystafell wely. Pa fesurau newydd ydych chi'n mynd i'w cyflwyno i fynd i'r afael â thlodi yn effeithiol yng Nghymru?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We invest over £323 million towards tackling poverty programmes in Wales. There are two ways of tackling poverty: one, of course, is to make sure that people are supported when they need that support, and the second is investing in skills—the more skills you can give people, the more chance they have of getting a job and of increasing their own household income. One of the ways we've done that, of course, is through Jobs Growth Wales, with almost 15,000 young people finding a meaningful job opportunity with the help of Welsh Government support. And, of course, we have work within Communities First areas to help people to get those skills that they need in order to—

Rydym ni'n buddsoddi dros £323 miliwn mewn rhaglenni trechu tlodi yng Nghymru. Mae dwy ffordd o fynd i'r afael â thlodi: un, wrth gwrs, yw sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi pan fydd angen y gefnogaeth honno arnynt, a'r ail yw buddsoddi mewn sgiliau—y mwyaf o sgiliau y gallwch chi eu rhoi i bobl y mwyaf o siawns sydd ganddyn nhw o gael swydd a chynyddu incwm eu cartrefi eu hunain. Un o'r ffyrdd yr ydym ni wedi gwneud hynny, wrth gwrs, yw drwy Twf Swyddi Cymru, gyda bron i 15,000 o bobl ifanc yn dod o hyd i gyfle ystyrlon am swydd gyda chymorth y gefnogaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru. Ac, wrth gwrs, mae gennym ni'r gwaith yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i helpu pobl i gael y sgiliau hynny sydd eu hangen arnynt er mwyn—

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You've had 15 years to sort out skills—15 years.

Rydych chi wedi cael 15 mlynedd i gael trefn ar sgiliau—15 mlynedd.

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would remind her that her party was in Government at one point, as well. So, don't try and avoid that, as if it was nothing to do with you. Also, it's not for me to defend the actions of the UK Government. It's right to say that, with her three MPs, there's not an awful lot she can actually do in Parliament. But, what we have done is introduce Jobs Growth Wales. We see that the attainment gap between those pupils eligible for free school meals and those who are not is closing. We are seeing more and more people going into apprenticeships and we're helping to support the Welsh economy in terms of the jobs that have already been created.

Byddwn yn ei hatgoffa bod ei phlaid hi mewn Llywodraeth ar un adeg, hefyd. Felly, peidiwch â cheisio osgoi hynny, fel pe byddai'n ddim i'w wneud â chi. Hefyd, nid fy nghyfrifoldeb i yw amddiffyn gweithredoedd Llywodraeth y DU. Mae'n iawn i ddweud, gyda'i thri Aelod Seneddol, nad oes llawer iawn y gall hi ei wneud yn y Senedd mewn gwirionedd. Ond, yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud yw cyflwyno Twf Swyddi Cymru. Rydym ni'n gweld bod y bwlch mewn cyrhaeddiad yn cau rhwng y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. Rydym ni'n gweld mwy a mwy o bobl yn mynd i mewn i brentisiaethau ac rydym ni'n helpu i gefnogi economi Cymru o ran y swyddi sydd eisoes wedi cael eu creu.

On top of that, one of our main manifesto commitments was to double the number of families with access to Flying Start, and we have done just that and many, many families are accessing that support. But, we cannot do it all by ourselves. The UK Government also needs to play its part and it seems to be going in the opposite direction.

Yn ogystal â hynny, un o'n prif ymrwymiadau maniffesto oedd dyblu nifer y teuluoedd â mynediad at Dechrau'n Deg, ac rydym ni wedi gwneud yn union hynny ac mae llawer iawn o deuluoedd yn cael mynediad at y gefnogaeth honno. Ond, ni allwn wneud y cwbl ar ein pennau ein hunain. Mae angen i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan hefyd ac mae'n ymddangos ei bod yn mynd i'r cyfeiriad arall.

13:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:47

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, the National Institute for Health and Care Excellence, NICE, has issued new guidance to enable GPs to better spot the signs and symptoms of cancer to allow for earlier diagnosis. NICE believes that, should this guidance be followed in England, some 5,000 lives a year will be saved. Is it your expectation that that guidance be followed in Wales?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, NICE, wedi cyhoeddi canllawiau newydd i alluogi meddygon teulu i adnabod arwyddion a symptomau canser yn well i ganiatáu diagnosis cynharach. Mae NICE yn credu, pe dilynid y canllawiau hyn yn Lloegr, y byddai 5,000 o fywydau y flwyddyn yn cael eu hachub. A ydych chi'n disgwyl i'r canllawiau hynny gael eu dilyn yng Nghymru?

13:48

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We wouldn't have inferior guidance in Wales. I think it's fair to point out that our GPs have done exceptionally well in terms of referring people quickly if they suspect cancer. The vast majority of people turn out not to have cancer, but the fact that they've been referred quickly is something that we very much welcome. If we look at the 31-day and 62-day statistics, they show that we're doing very well in terms of making sure people have access to the right treatment when they need it. So, I would argue that, in Wales, we're actually ahead, because our GPs have, in fairness to them, stepped up to the plate and they are making sure that people are being referred and being seen as quickly as possible.

Ni fyddai gennym ganllawiau israddol yng Nghymru. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod ein meddygon teulu wedi gwneud yn eithriadol o dda o ran atgyfeirio pobl yn gyflym os ydynt yn amau canser. Nid oes gan y mwyafrif llethol o bobl ganser yn y pen draw, ond mae'r ffaith eu bod wedi cael eu hatgyfeirio'n gyflym yn rhywbeth yr ydym ni'n ei groesawu'n fawr. Os edrychwn ni ar yr ystadegau 31 diwrnod a 62 diwrnod, maen nhw'n dangos ein bod ni'n gwneud yn dda iawn o ran sicrhau bod gan bobl fynediad at y driniaeth gywir pan fydd ei hangen arnynt. Felly, byddwn yn dadlau, yng Nghymru, ein bod ni ar y blaen mewn gwirionedd, gan fod ein meddygon teulu, er tegwch iddynt, wedi ymateb i'r her ac maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu hatgyfeirio ac yn cael eu gweld cyn gynted â phosibl.

13:48

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I'm glad that you are upholding the principle of implementing NICE guidance in Wales as part of the agreement that your Government has with NICE that it will follow clinical guidance. In that case, if it's your intention it should be so, what assessment will your Government make to ensure that GPs will have access to diagnostic services as quickly as they need them, because that's seen as key in the NICE guidance as making the difference?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy'n falch eich bod chi'n cynnal yr egwyddor o weithredu canllawiau NICE yng Nghymru yn rhan o'r cytundeb sydd gan eich Llywodraeth gyda NICE y bydd yn dilyn canllawiau clinigol. Yn yr achos hwnnw, os mai dyna yw eich bwriad, pa asesiad fydd eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau y bydd gan feddygon teulu fynediad at wasanaethau diagnostig mor gyflym ag y mae eu hangen arnynt, gan yr ystyrir bod hynny'n allweddol yn y canllawiau NICE o ran gwneud y gwahaniaeth?

13:49

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Diagnostic waiting times have not been acceptable for some months, but they are now moving in the right direction. The waiting times are being reduced and that is something we intend to see continue over the next few months and beyond.

Nid yw amseroedd aros diagnostig wedi bod yn dderbyniol ers rhai misoedd, ond maen nhw'n symud i'r cyfeiriad cywir erbyn hyn. Mae'r amseroedd aros yn cael eu lleihau ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n bwriadu ei weld yn parhau dros y misoedd nesaf a thu hwnt.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I appreciate your candour, First Minister; diagnostic waiting times have not been good, but they are beginning to improve. NICE guidance talks about diagnostics being available within a matter of days and a matter of two weeks. That's a long way from where we currently are, at present. Will you carry out an assessment as to what steps your Government will need to take to comply with NICE guidance with regard to access to diagnostics? I hear what you say about treatment, but that's after a diagnosis. If we're to save lives, we need to get access to diagnostics quickly. Will you carry out an assessment to ensure that your Government will be able to comply with the new NICE guidance?

Rwy'n gwerthfawrogi eich gonestrwydd, Brif Weinidog; nid yw amseroedd aros diagnostig wedi bod yn dda, ond maen nhw'n dechrau gwella. Mae canllawiau NICE yn sôn am sicrhau bod diagnosteg ar gael o fewn mater o ddiwrnodau ac o fewn mater o bythefnos. Mae hynny'n bell iawn o'n sefyllfa bresennol, ar hyn o bryd. A wnewch chi gynnal asesiad o ran pa gamau y bydd angen i'ch Llywodraeth eu cymryd i gydymffurfio â chanllawiau NICE o ran mynediad at ddiagnosteg? Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch am driniaeth, ond mae hynny ar ôl diagnosis. Os ydym ni'n mynd i achub bywydau, mae angen i ni gael mynediad at ddiagnosteg yn gyflym. A wnewch chi gynnal asesiad er mwyn sicrhau y bydd eich Llywodraeth yn gallu cydymffurfio â'r canllawiau NICE newydd?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We're confident we can comply in terms of the diagnostic waiting times. I think it's worth pointing out that performance against the 31-day target has improved; 97.2 per cent of people started treatment within the target time. That's up from 96.7 per cent in March. So, the NHS is moving in the right direction in terms of 31-day performance. We're also doing better, when compared with England, in terms of 62-day performance as well. So, when it comes to cancer, we do know that patients in Wales will start their treatment more quickly as a result of what we have put in place.

Rydym ni'n hyderus y gallwn ni gydymffurfio o ran yr amseroedd aros diagnostig. Rwy'n credu ei bod yn werth nodi bod perfformiad yn erbyn y targed 31 diwrnod wedi gwella; dechreuodd 97.2 y cant o bobl driniaeth o fewn yr amser targed. Mae hynny i fyny o 96.7 y cant ym mis Mawrth. Felly, mae'r GIG yn symud i'r cyfeiriad iawn o ran y perfformiad 31 diwrnod. Rydym ni hefyd yn gwneud yn well, o'n cymharu â Lloegr, o ran perfformiad 62 diwrnod hefyd. Felly, pan ddaw i ganser, rydym ni yn gwybod y bydd cleifion yng Nghymru yn dechrau eu triniaeth yn gyflymach o ganlyniad i'r hyn yr ydym ni wedi ei roi ar waith.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Sandy Mewies.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Sandy Mewies.

### Buddsoddiad yr Undeb Ewropeaidd

### European Union Investment

13:51 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddiad yr UE yn Sir y Fflint? OAQ(4)2354(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on EU investment in Flintshire? OAQ(4)2354(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Since 2007, EU-funded projects have created 1,200 jobs and over 400 businesses in Flintshire. They've also supported 900 people into work and 2,900 people to gain qualifications, demonstrating the value to Wales, and indeed to Flintshire, of UK membership of the EU.

Ers 2007, mae prosiectau a ariannwyd gan yr UE wedi creu 1,200 o swyddi a mwy na 400 o fusnesau yn Sir y Fflint. Maen nhw hefyd wedi cefnogi 900 o bobl i gael gwaith a 2,900 o bobl i ennill cymwysterau, gan ddangos gwerth aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru, i Sir y Fflint, yn wir.

13:51 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much indeed. I think the statistics that you've just quoted do show exactly what the position is, but all this could be jeopardised if Eurosceptics in the Conservative Party, aided by their friends in the right-wing London press, jeopardise this and have their way. Therefore, First Minister, would you agree with me it's essential that here in Wales we get our message out loud and clear that Wales without Europe would be a poorer place?

Diolch yn fawr iawn. Rwy'n meddwl bod yr ystadegau yr ydych chi newydd eu dyfynnu yn dangos yn union beth yw'r sefyllfa, ond gallai hyn oll gael ei beryglu os bydd Eurosceptics yn y Blaid Geidwadol, gyda chymorth eu ffrindiau yn y wasg asgell dde yn Llundain, yn peryglu hyn ac yn cael eu ffordd. Felly, Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi ei bod yn hanfodol ein bod ni yma yng Nghymru yn cyfleu ein neges yn uchel ac yn eglur y byddai Cymru'n lle tlotach heb Ewrop?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. I mean, if you look at Flintshire, it has done very well indeed through EU membership, access to the single market, large employers such as Airbus and, of course, the access to training that I've already mentioned. I do not believe that the question of the UK's membership of the EU should be guided by a particularly blinkered form of nationalism that we see coming out of some parties in London. It should be determined according to what is best for Wales. It is in Wales's interest to remain a member of the two unions that we are a member of. As David Melding has eloquently pointed out in years gone by, you can't argue to leave one and yet still say that it needs to stay in the other. That applies whether it is the EU or the UK. I think his words on that matter are very wise.

Yn sicr. Hynny yw, os edrychwch chi ar Sir y Fflint, mae wedi gwneud yn dda iawn yn wir trwy aelodaeth o'r UE, mynediad at y farchnad sengl, cyflogwyr mawr fel Airbus ac, wrth gwrs, y mynediad at hyfforddiant yr wyf wedi ei grybwyll eisoes. Nid wyf yn credu y dylai'r cwestiwn o aelodaeth y DU o'r UE gael ei lywio gan fath arbennig o gul o genedlaetholdeb yr ydym yn ei weld yn dod allan o rai pleidiau yn Llundain. Dylai gael ei benderfynu ar sail yr hyn sydd orau i Gymru. Mae o fudd i Gymru barhau i fod yn aelod o'r ddau undeb yr ydym ni'n aelod ohonynt. Fel y mae David Melding wedi ei nodi'n huawdl yn y blynyddoedd a fu, ni allwch chi ddadlau dros adael un a pharhau i ddweud bod angen iddi aros yn y llall. Mae hynny'n berthnasol boed yn yr UE neu'r DU. Rwy'n credu bod ei eiriau ar y mater hwnnw'n ddoeth iawn.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth.

Janet Haworth.

13:52 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I'm the Presiding Officer today.

Na, fi yw'r Llywydd heddiw.

13:52 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry about that; I didn't mean to demote you.

Mae'n ddrwg gen i am hynna; nid oeddwn i'n bwriadu eich israddio chi.

First Minister, the Environment Wales project has been awarding European grants throughout Wales to environment projects since 1992. Community groups and volunteers across my region have engaged with these projects. For some, it has been the first tentative steps towards taking over works that have been previously undertaken or not by public bodies. However, the scheme is due to come to an end in September of this year. What alternative streams of funding does your Government have in place to continue the good work that Environment Wales has undertaken in Flintshire and across north Wales once it ceases to operate?

Brif Weinidog, mae prosiect Amgylchedd Cymru wedi bod yn dyfarnu grantiau Ewropeaidd ledled Cymru i brosiectau amgylcheddol ers 1992. Mae grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr ar draws fy rhanbarth i wedi ymgysylltu â'r prosiectau hyn. I rai, y rhain fu'r camau petrus cyntaf tuag at gymryd drosodd gwaith sydd wedi cael ei wneud neu heb gael ei wneud gan gyrff cyhoeddus yn flaenorol. Fodd bynnag, bydd y cynllun yn dod i ben ym mis Medi eleni. Pa ffrydiau ariannu eraill sydd gan eich Llywodraeth ar waith i barhau â'r gwaith da y mae Amgylchedd Cymru wedi ei wneud yn Sir y Fflint ac ar draws y gogledd ar ôl iddo roi'r gorau i weithredu?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, funding for Environment Wales isn't stopping. We've put in place new grant funding arrangements. There's no intention for the new arrangements to lead to a reduction in the funding available for voluntary environmental schemes. I know that the Minister's had constructive meetings with the Wales Council for Voluntary Action, and there is continuing dialogue with officials. So, I can put her concerns to rest.

Wel, nid yw cyllid ar gyfer Amgylchedd Cymru yn dod i ben. Rydym ni gwneud trefniadau cyllid grant newydd. Nid oes unrhyw fwriad i'r trefniadau newydd arwain at ostyngiad i'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau amgylcheddol gwirfoddol. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi cael cyfarfodydd adeiladol gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a cheir deialog barhaus gyda swyddogion. Felly, gallaf dawelu ei phryderon.

13:53 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae sir y Fflint, wrth gwrs, mewn sefyllfa unigryw o allu edrych i'r dwyrain ar gyfer twf economaidd, a hefyd i'r gorllewin, ac mae nifer o awdurdodau ac unigolion yn poeni braidd, efallai, nad yw'r edrych i'r gorllewin yn ddigon cryf. A fyddech chi'n cytuno â mi fod gan sir y Fflint botensial mawr o safbwynt twf economaidd, ond ei bod hi'n bwysig bod y twf yna'n cael ei drosglwyddo ar draws y gorllewin ac y byddai hynny'n helpu i greu y pwerdy economaidd ar draws y gogledd yr ydym ni i gyd yn awyddus i'w weld?

Flintshire, of course, is in a unique position in terms of being able to look eastward for economic growth, but also westward, but many authorities and individuals are a little concerned perhaps that the westbound look isn't strong enough. Would you agree with me that Flintshire has great potential in terms of economic growth, but that it is important that that growth is disseminated across the west, and that that, of course, would help to create this economic powerhouse across north Wales that we are all keen to see?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae sir y Fflint, yn enwedig Glannau Dyfrdwy, wedi bod yn amlwg iawn o ran denu buddsoddiad. Mae hynny wedi bod yn wir o achos y clystyru sy'n digwydd yn fanna ynglŷn â rhai diwydiannau. Mae Ynys Môn, wrth gwrs, yn datblygu nawr o ran ynni, ac mae rhai rhannau eraill o'r gogledd yn edrych yn fwy ar dwristiaeth. Mae'n bwysig dros ben ein bod ni'n sylweddoli bod sir y Fflint wedi bod yn llwyddiannus o ran tynnu buddsoddiad i mewn, ac mae llawer o bobl sy'n gweithio i'r gorllewin o'r sir yn gweithio ar Lannau Dyfrdwy ac yn sir y Fflint yn gyfan gwbl. Mae'n bwysig dros ben ein bod ni'n gallu sicrhau bod y twf economaidd hwnnw yn gallu lledu i'r gorllewin. Wrth gwrs, rydym yn gweld arwyddion o hynny ynglŷn ag, er enghraifft, agoriad Gwynt y Môr ac ymhellach i'r gorllewin gyda phrosiectau fel Surf Snowdonia ac, wrth gwrs, gyda'r hyn sy'n digwydd ar Ynys Môn.

Well, Flintshire, particularly Deeside, has been very prominent in attracting investment. That has been the case because of the clustering that happens there with some industries. Anglesey, of course, is now developing in the context of energy, while some other parts of north Wales are looking more to tourism. It is exceptionally important that we realise that Flintshire has been successful in attracting investment, and many people working to the west of the county work in Deeside and Flintshire as a whole. It's extremely important, of course, that we can disseminate that economic growth westwards and, of course, we see indications of that with the opening, for example, of Gwynt y Môr, and further west with projects such as Surf Snowdonia and, of course, with all the developments in Anglesey.

## Byrddau Iechyd Lleol

## Local Health Boards

13:55 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y mecanweithiau sydd ar waith i adolygu gwaith uwch reolwyr mewn byrddau iechyd lleol? OAQ(4)2350(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the mechanisms that are in place to review the work of senior management at local health boards? OAQ(4)2350(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. They are held to account through an established performance management framework and other mechanisms.

Gwnaf. Maen nhw'n cael eu dwyn i gyfrif trwy fframwaith rheoli perfformiad sefydledig a mecanweithiau eraill.

13:55 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. As you are very aware, the chief executive of Betsi Cadwaladr has been suspended. The Welsh Government say it is a neutral act and is not connected to the scandal at Tawel Fan. What is a neutral act, First Minister? Given his previous job at Hywel Dda, we need the confidence in his running of that board, given the controversy and the outcomes that surround the many decisions of restructuring that have happened. We need to know that that chief executive exercised probity in that role, as well as the current role.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Fel yr ydych chi'n gwbl ymwybodol, mae prif weithredwr Betsi Cadwaladr wedi cael ei wahardd. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn weithred niwtral ac nad yw'n gysylltiedig â'r sgandal yn Nhawel Fan. Beth yw gweithred niwtral, Brif Weinidog? O ystyried ei swydd flaenorol yn Hywel Dda, mae angen i ni gael yr hyder yn ei reolaeth o'r bwrdd hwnnw, o ystyried yr achosion dadleuol a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniadau lawer o ailstrwythuro sydd wedi digwydd. Mae angen i ni wybod bod y prif weithredwr wedi bod yn onest yn y swydd honno, yn ogystal â'r swydd bresennol.

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the Member will be aware that there is now an acting chief executive at Betsi Cadwaladr. There is work to do to rebuild public confidence in the local health board; that much we recognise. The new acting chief executive is an important part of rebuilding that confidence. We cannot pretend that the board finds itself in a position of strength in terms of its past actions, but we believe it will be in a position of strength in the future given the changes that have occurred and also the fact that Ministers hold the board to very close account. I know that the Deputy Minister is a weekly visitor to meet with the board. He will, of course, continue to monitor the situation very closely.

Wel, bydd yr Aelod yn ymwybodol bod prif weithredwr dros dro yn Betsi Cadwaladr erbyn hyn. Mae gwaith i'w wneud i ailadeiladu hyder y cyhoedd yn y bwrdd iechyd lleol; rydym ni'n cydnabod hynny. Mae'r prif weithredwr dros dro newydd yn rhan bwysig o ailadeiladu'r hyder hwnnw. Ni allwn gymryd arnom bod y bwrdd yn canfod ei hun mewn sefyllfa o gryfder o ran ei weithredoedd yn y gorffennol, ond rydym ni'n credu y bydd mewn sefyllfa o gryfder yn y dyfodol o ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd a hefyd y ffaith bod Gweinidogion yn dwyn y bwrdd i gyfrif mewn modd gofalus iawn. Gwn fod y Dirprwy Weinidog yn ymwelydd wythnosol i gyfarfod â'r bwrdd. Bydd ef, wrth gwrs, yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus iawn.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

First Minister, should managers that fail in their duty receive a six-figure pay-off?

Brif Weinidog, a ddylai rheolwyr sy'n methu yn eu dyletswydd dderbyn taliad terfynol chwe ffigur?

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nobody could argue that that is something that anybody could support. Unfortunately, it is not unknown in the public sector, and that is something, I'm afraid, that sometimes gives some in the public sector a bad name. We've seen, of course, it happening with chief executives in local authorities. We've seen it happen in other areas of the public sector. No, it's much better to have proper performance management so that people are held to account. That's true not just in local health boards but across the public sector.

Ni allai neb ddadlau bod hynny'n rhywbeth y gallai unrhyw un ei gefnogi. Yn anffodus, mae wedi digwydd yn y sector cyhoeddus, ac mae hynny'n rhywbeth, mae gen i ofn, sydd weithiau'n rhoi enw drwg i rai yn y sector cyhoeddus. Rydym ni wedi ei weld yn digwydd, wrth gwrs, gyda phrif weithredwyr mewn awdurdodau lleol. Rydym ni wedi ei weld yn digwydd mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus. Na, mae'n llawer gwell cael trefn rheoli perfformiad briodol fel bod pobl yn cael eu dwyn i gyfrif. Mae hynny'n wir nid yn unig mewn byrddau iechyd lleol, ond ar draws y sector cyhoeddus.

Senedd.tv Fideo Video

## Ad-drefnu Llywodraeth Leol

## Local Government Reorganisation

13:57 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynigion a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)2362(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the recently published proposals for local government reorganisation in Wales? OAQ(4)2362(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We want better and better-value public services.

Gwnaf. Rydym ni eisiau gwell gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig gwell gwerth.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The release of the maps last week has undoubtedly caused anger and dismay to those charged with delivering our vital services across Wales, including the north, with experienced leaders and senior politicians doubting your Government's own credibility as to whether you understand local government at all. Wrexham: Welsh Ministers have been foolish and rushed, taking people for granted. Ynys Môn: covering populations of around 300,000 would make local democracy remote. Flintshire: mergers alone are not radical enough to cope with the financial pressures, adding that Welsh Labour needs change at the top. I wouldn't disagree—

Diolch yn fawr. Nid oes amheuaeth bod cyhoeddi'r mapiau yr wythnos diwethaf wedi achosi dicter a siom i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu ein gwasanaethau hanfodol ledled Cymru, gan gynnwys y gogledd, gydag arweinwyr profiadol a gwleidyddion uwch yn amau hygrededd eich Llywodraeth eich hun o ran ba un a ydych chi'n deall llywodraeth leol o gwbl. Wrecsam: mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ffôl ac wedi rhuthro, gan gymryd pobl yn ganiataol. Ynys Môn: byddai darparu ar gyfer poblogaethau o tua 300,000 yn gwneud democratiaeth leol yn bell. Sir y Fflint: nid yw achosion o uno ar eu pennau eu hunain yn ddigon sylfaenol i ymdopi â'r pwysau ariannol, gan ychwanegu bod angen newid ar frig Llafur Cymru. Ni fyddwn yn anghytuno—

13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you coming to a question?

A ydych chi'n dod i gwestiwn?

13:58 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—but do you not recognise these concerns, and how are you going to restore some confidence and credibility back into any local government reorganisation in Wales?

[Yn parhau.]—ond onid ydych chi'n cydnabod y pryderon hyn, a sut ydych chi'n mynd i adfer rhywfaint o hyder a hygrededd o ran unrhyw ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

If her party had any policy at all with regard to local government, I would take them more seriously. They have lurched from being in favour of reorganisation, except for some authorities that they want to control, now to not being in favour of any kind of reorganisation. Can I ask her this? Education authorities: there are four of them still in special measures, including Monmouthshire, which is the only council that they actually run, incidentally. We have seen social services departments struggle because, once they lose one or two people on the sick, they struggle. In the last week, I've had businesses—one of which is familiar to him, but I'm not going to mention it—saying to me, 'The problem we have in Wales is we don't get pre-app advice from departments. They are overrun with other applications. They can't give us the kind of advice that we want, but we can get it in England.' Well, I'm not prepared for the situation to be better in England. I want the situation to be better in Wales. That's why I want to see local authorities that are properly structured, not strung together on the back of a fag packet by John Redwood—properly structured and with powers. This is an exciting opportunity for local government to gain the powers that it needs, to shape the communities that local government serves, and to empower local councillors. No wonder the Tories are against it.

Pe byddai gan ei phlaid unrhyw bolisi o gwbl o ran llywodraeth leol, byddwn yn eu cymryd nhw fwy o ddifrif. Maen nhw wedi symud o fod o blaid ad-drefnu, heblaw ar gyfer rhai awdurdodau maen nhw eisiau eu rheoli, i beidio â bod o blaid unrhyw fath o ad-drefnu erbyn hyn. A gaf i ofyn hyn iddi? Awdurdodau addysg: mae pedwar ohonyn nhw'n dal i fod yn destun mesurau arbennig, gan gynnwys Sir Fynwy, sef yr unig gyngor maen nhw'n ei redeg, gyda llaw. Rydym ni wedi gweld adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd oherwydd, ar ôl iddyn nhw golli un neu ddau o bobl sy'n sâl, maen nhw'n ei chael hi'n anodd. Yn yr wythnos ddiwethaf, rwyf wedi cael busnesau—mae un ohonynt yn gyfarwydd iddo fe, ond nid wyf yn mynd i'w enwi—yn dweud wrthyf, 'Y broblem sydd gennym ni yng Nghymru yw nad ydym yn cael cyngor cyn ymgeisio gan adrannau. Maen nhw'n cael eu gorlethu gan geisiadau eraill. Nid ydyn nhw'n gallu rhoi'r math o gyngor yr ydym ni ei eisiau i ni, ond gallwn ei gael yn Lloegr.' Wel, nid wyf yn fodlon i'r sefyllfa fod yn well yn Lloegr. Rwyf fi eisiau i'r sefyllfa fod yn well yng Nghymru. Dyna pam rwyf eisiau gweld awdurdodau lleol sydd wedi eu strwythuro'n iawn, nid wedi eu glynu at ei gilydd ar gefn paced sigaréts gan John Redwood—wedi'u strwythuro'n iawn a chyda phwerau. Mae hwn yn gyfle cyffrous i lywodraeth leol ennill y pwerau sydd eu hangen arni, er mwyn llywio'r cymunedau y mae llywodraeth leol yn eu gwasanaethu, ac i rymuso cynghorwyr lleol. Does dim rhyfedd bod y Toriaid yn ei wrthwynebu.

13:59 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Aneurin Bevan said that the purpose of winning power is to be able to give it away. Do you agree with me that the reorganisation map gives us a once-in-a-lifetime opportunity now to really continue the devolution process and to look at how we actually devolve further power down from the Assembly to give greater empowerment to the new format of councils and regional authorities?

Brif Weinidog, dywedodd Aneurin Bevan mai diben ennill pŵer yw gallu ei roi i ffwrdd. A ydych chi'n cytuno â mi bod y map ad-drefnu'n rhoi cyfle unwaith mewn oes i ni wir barhau â'r broses ddatganoli nawr ac i edrych ar sut yr ydym ni'n datganoli rhagor o bŵer i lawr o'r Cynulliad i rymuso mwy ar y fformat newydd o gynghorau ac awdurdodau rhanbarthol?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely right. The Tories want a northern powerhouse, that's clear, but they don't want it in Wales, or similar. So, there's a certain element of double standards there, which we all expect—the leader of the opposition is going higher and higher in his voice; he'll become soprano, soon. [Laughter.]

Hollol gywir. Mae'r Torïaid eisiau pwerdy gogleddol, mae hynny'n eglur, ond nid ydyn nhw ei eisiau yng Nghymru, na rhywbeth tebyg. Felly, yn sicr ceir elfen benodol o safonau dwbl yn y fan yna, yr ydym ni i gyd yn ei ddisgwyl—mae llais arweinydd yr wrthblaid yn mynd yn uwch ac yn uwch; bydd yn soprano cyn bo hir. [Chwerthin.]

As far as the point that he makes, he's right. I've spent much of my time arguing for the devolution of power to the people of Wales from London. I cannot then argue that there shouldn't be equal consideration of devolution to local authorities. I want to see local authorities that are robust, that are strong, that have the powers that they need in the future to shape the communities that they serve. The natural tendency of the Conservatives is to remove power from local government, which is what Thatcher did in the 1980s. If you don't control it, abolish it. We saw that with the GLC. It's about time the opposition came up with ideas of its own in terms of improving local government in Wales and acted as a responsible opposition, rather than simply coming in here and creating a shouting match.

O ran y pwynt mae'n ei wneud, mae'n iawn. Rwyf wedi treulio llawer o fy amser yn dadlau dros ddatganoli grym i bobl Cymru o Lundain. Ni allaf ddadlau wedyn na ddylid cael ystyriaeth gyfartal o ddatganoli i awdurdodau lleol. Rwyf eisiau gweld awdurdodau lleol sy'n gadarn, sy'n gryf, sydd â'r pwerau sydd eu hangen arnyn nhw yn y dyfodol i lunio'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Tuedd naturiol y Ceidwadwyr yw cymryd pŵer oddi ar lywodraeth leol, sef yr hyn a wnaeth Thatcher yn y 1980au. Os nad ydych chi'n ei reoli, dilëwch ef. Gwelsom ni hynny gyda'r GLC. Mae'n hen bryd i'r wrthblaid feddwl am syniadau ei hun o ran gwella llywodraeth leol yng Nghymru a gweithredu fel gwrthblaid gyfrifol, yn hytrach na dim ond dod i mewn yma a chreu cweryl.

14:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A throi yn ôl at y map rŷch chi wedi ei gynhyrchu, Brif Weinidog, o'ch gweledigaeth chi ar gyfer awdurdodau lleol, beth sy'n anodd ei ddirnad o'r map yma yw beth sy'n digwydd i nifer o gonsortia, cyrff a phartneriaethau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, mae ERW, consortiwm addysg Dyfed, hefyd yn cynnwys Powys a gorllewin Morgannwg. Mae Ceredigion yn cydweithio gyda Phowys ar wasanaethau cymdeithasol, ond roedd Powys, wrth gwrs, yn Williams, i fod i droi'n un awdurdod iechyd ac awdurdod lleol gyda'i gilydd. Mae gweledigaeth Plaid Cymru yn uno'r pethau yma ar lefel ranbarthol ac yn ei gwneud yn gliriach lle mae ffiniau rhwng y gwahanol bartneriaethau, byrddau ac ati. Nid yw eich gweledigaeth chi yn esbonio hynny. A fedrwch chi fanteisio ar y cyfle nawr i ddweud beth sy'n digwydd i'r lefel ranbarthol yna, os gwireddwch chi'r map arbennig yma?

Turning back to the map that you've produced, First Minister, in terms of your vision for local authorities, what's difficult to understand from this map is what happens to many of the consortia, bodies and regional partnerships that already exist. For example, ERW, the education consortium for Dyfed, also includes Powys and west Glamorgan. Ceredigion is collaborating with Powys on social services, and Powys, of course, in Williams, is to become a single health authority and local authority, jointly. Plaid Cymru's vision actually unites these things at a regional level and clarifies where the boundaries between the various partnerships, boards and so on exist. Your vision doesn't explain that. Will you take this opportunity to tell us what's happening to that regional level if this particular map is adopted?

14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn gyntaf, wrth gwrs, byddai'n rhaid i awdurdodau lleol gydweithredu gyda'i gilydd ta beth yw canlyniad y map, ac yn ail, mae'r cynllun y mae Plaid Cymru wedi ei ddodi o flaen pobl Cymru yn britach. Rŷch chi'n moyn cadw 22 prif weithredwr, 22 arweinydd cyngor, ac wedi hynny gael cyrff ar ben hynny. Mae hynny'n bownd o gosti mwy o arian, ac nid wy'n gweld bod hwnnw'n mynd i wella pethau. Beth yn gymwys y byddai'r cynghorau yn ei wneud? Os yw addysg a gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio'n cael eu gwneud ar lefel ranbarthol, beth sydd ar ôl, mwy neu lai? Na, nid ydym ni yn yr un sefyllfa. Yn fy marn i, rwy'n croesawu'r ffaith bod syniad wedi dod o Blaid Cymru o leiaf —mae hwnnw'n well na beth sydd wedi digwydd o'r pleidiau eraill—ond nid wy'n gallu gweld ym mha ffordd y byddai'n gwella pethau na hefyd yn sicrhau bod mwy o werth. Achos, dyna i gyd y gallaf ei ddweud yw y byddai'n llawer yn britach a hefyd yn rhywbeth sydd yn creu mwy o gwangos ar lefel y rhanbarthau a chadw cynghorau lleol. Nid wy'n gweld bod hwnnw'n mynd i ddigwydd a safio arian yr un pryd a chreu gwasanaethau sy'n well.

First of all, local authorities would have to collaborate regardless of the outcome of the map, and secondly, the plan that Plaid Cymru has proposed for the people of Wales is more expensive. You want to retain 22 chief executives, 22 council leaders, and then to have bodies on top of that. That's bound to cost more money, and I don't see that that's going to improve things. What exactly would the councils do? If education and social services and planning are undertaken on a regional level, what's left, more or less? No, we're not in the same position at all. In my opinion, I welcome the fact that at least Plaid Cymru has presented an idea—that's better than the what's happened in terms of other parties—but I can't see how it improves things or gives better value for money. Because all I can see is that it's much more expensive and would create more quangos on the regional level and would retain the local councils. I don't think that that's going to happen and that money will be saved and that better services will be produced.

## Velothon Cymru

## Velothon Wales

14:03 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*6. Pa fanteision economaidd a ddaeth i dde Cymru o ganlyniad i'r Velothon diweddar? OAQ(4)2361(FM)*

*6. What economic benefits did the recent Velothon bring to south Wales? OAQ(4)2361(FM)*

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It was a successful event, enjoyed by thousands of visitors to Wales and local participants. It has raised a significant amount for charity, but it is right to say that the organisers need to be far better at organising the event. There will be a full post-event review, and that will, of course, include an assessment of the economic benefits.

Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus, a fwynhawyd gan filoedd o ymwelwyr â Chymru a chyfranogwyr lleol. Mae wedi codi swm sylweddol i elusennau, ond mae'n iawn i ddweud bod angen i'r trefnwyr fod yn llawer gwell am drefnu'r digwyddiad. Bydd adolygiad ôl-ddigwyddiad llawn, a bydd hwnnw, wrth gwrs, yn cynnwys asesiad o'r manteision economaidd.

14:03 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Well, First Minister, the first Velothon organised in Berlin, which had similar numbers to the Welsh event, generated €3.5 million for that local community, and I appreciate your answer that it is perhaps a little too early, but you also agree with me, clearly, that public opinion was divided on the benefits, and, I agree, lots more organisation will have to be done. There was good news for charities, clearly, and for many businesses in Wales, but the bad news was that many businesses suffered losses, lots more of the public were inconvenienced, and some communities were literally cut off. My question, Minister, is: what compensation could be made available to those businesses in particular that can prove a financial loss?

Wel, Brif Weinidog, cynhyrchodd y Velothon cyntaf a drefnwyd yn Berlin, a gafodd niferoedd tebyg i'r digwyddiad yng Nghymru, €3.5 miliwn i'r gymuned leol honno, ac rwy'n gwerthfawrogi eich ateb efallai ei bod braidd yn rhy gynnar, ond rydych chi hefyd yn cytuno â mi, yn amlwg, bod barn y cyhoedd ar y manteision wedi'i rhannu, ac, rwy'n cytuno, bydd angen gwneud llawer mwy o drefnu. Roedd newyddion da i elusennau, yn amlwg, ac i lawer o fusnesau yng Nghymru, ond y newyddion drwg oedd bod llawer o fusnesau wedi dioddef colledion, achoswyd anghyfleustra i lawer mwy o'r cyhoedd, a chafodd rhai cymunedau eu hynysu'n llythrennol. Fy nghwestiwn i, Weinidog, yw: pa iawndal a ellid ei roi ar gael i'r busnesau hynny'n arbennig sy'n gallu profi colled ariannol?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, they would have to pursue the organisers. Now, how they can prove that loss is a matter for them. That would have to be balanced against the economic benefit that the event actually brought, and they would have to prove, I suppose, that there was something wrong in some way with the organisation of the event, particularly whether roads were closed appropriately. That's a matter for them to pursue in terms of their legal advice, but if it is always going to be the case that businesses are in some way compensated when major events come to Wales, then where does it stop? Certainly, this is not an event that we organised as Government, but it is a matter for individual businesses to take the advice as they see fit.

Wel, byddai'n rhaid iddyn nhw fynd ar drywydd y trefnwyr. Nawr, mater iddyn nhw yw sut y gallan nhw brofi'r golled honno. Byddai'n rhaid cydbwyso hynny â'r budd economaidd a grëwyd mewn gwirionedd gan y digwyddiad, a byddai'n rhaid iddyn nhw brofi, mae'n debyg, bod rhywbeth o'i le mewn rhyw ffordd gyda'r ffordd y trefnwyd y digwyddiad, yn enwedig pa un a gafodd ffyrdd eu cau'n briodol. Mater iddyn nhw fynd ar ei drywydd yw hynny o ran eu cyngor cyfreithiol, ond os yw bob amser yn mynd i fod yn wir fod busnesau'n cael iawndal o ryw fath pan ddaw digwyddiadau mawr i Gymru, yna ble bydd diwedd hynny? Yn sicr, nid yw hyn yn ddigwyddiad a drefnwyd gennym ni fel Llywodraeth, ond mater i fusnesau unigol yw cymryd y cyngor fel maen nhw'n ei ystyried sy'n briodol.

14:05 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you agree with me, First Minister, that the velothon, along with other big cycling events and the landmark Active Travel (Wales) Act 2013, is helping to build Wales as a cycling nation, and that has health benefits, quality-of-life benefits, integrated transport and environmental benefits, as well as some of the economic benefits we've heard about?

A fyddech chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, bod y velothon, ynghyd â digwyddiadau beicio mawr eraill a Deddf Teithio Llesol arloesol (Cymru) 2013, yn helpu i adeiladu Cymru fel cenedl feicio, a bod hynny'n creu manteision iechyd, manteision ansawdd bywyd, trafnidiaeth integredig a manteision amgylcheddol, yn ogystal â rhai o'r manteision economaidd yr ydym ni wedi clywed amdanynt?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, and the active travel Act, of course, was a significant milestone in terms of saying to people that cycling is not just a leisure pursuit, but a viable form of getting to work, and to get to work safely. There are many people who would cycle to work, but are not happy, for example, with sharing the road with cars. Some are, some aren't, and how we develop cycle-only lanes and cycle-only paths in the future will be key to making sure that more people are able to cycle. Cycling is undoubtedly popular. It's undoubtedly popular amongst middle-aged men in Lycra—the MAMILs, as they're called—but it's important, of course, that that popularity continues, and where there are issues where events have not been organised as well as they should have been, that doesn't damage the popularity of cycling. It's crucial that, in years to come, the velothon is organised in such a way that people do get more notice, and it's organised more effectively in the future.

Yn sicr, ac roedd y Ddeddf teithio llesol, wrth gwrs, yn garreg filltir arwyddocaol o ran dweud wrth bobl mai nad gweithgaredd hamdden yn unig yw beicio, ond mae'n ffordd ymarferol o fynd i'r gwaith, ac o gyrraedd y gwaith yn ddiogel. Mae llawer o bobl a fyddai'n beicio i'r gwaith, ond nad ydynt yn hapus, er enghraifft, i rannu'r ffordd gyda cheir. Mae rhai yn hapus, ond ceir eraill nad ydynt, a bydd sut rydym ni'n datblygu lonydd i feiciau yn unig a llwybrau i feiciau yn unig yn y dyfodol yn allweddol i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu beicio. Mae beicio'n sicr yn boblogaidd. Mae'n sicr yn boblogaidd ymhlith dynion canol oed mewn Lycra—y MAMILs, fel y'u gelwir—ond mae'n bwysig, wrth gwrs, bod y poblogrwydd hwnnw'n parhau, a phan geir problemau lle nad yw ddigwyddiadau wedi cael eu trefnu cystal ag y dylent, nad yw hynny'n niweidio poblogrwydd beicio. Mae'n hanfodol, yn y blynyddoedd i ddod, bod y velothon yn cael ei drefnu yn y fath fodd fel bod pobl yn cael mwy o rybudd, a'i fod yn cael ei drefnu'n fwy effeithiol yn y dyfodol.

14:06 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you expressed earlier that the organisers of Velothon Wales should have communicated information about road closures sooner, which we all agree with. In order to make this a much better event, and even more popular, could I just inform you that the bus company Stagecoach Wales was only informed of the—in fact, they were never contacted by the organisers, which is pretty incredible, really. They relied on information from local councils. Caerphilly gave out information two to three months before the event; Torfaen and Cardiff the week before. In order to make this a really successful event that can be supported by all, how will you make sure that there's improved communication to all communities and businesses?

Brif Weinidog, dywedasoch yn gynharach y dylai trefnwyr Velothon Cymru fod wedi cyfleu gwybodaeth am gau ffyrdd ynghynt, ac rydym ni i gyd yn cytuno â hynny. Er mwyn gwneud hwn yn ddigwyddiad llawer gwell, a hyd yn oed yn fwy poblogaidd, a gaf i roi gwybod i chi yr hysbyswyd y cwmni bysiau Stagecoach Cymru—a dweud y gwir, ni chysylltwyd â nhw gan y trefnwyr o gwbl, sydd braidd yn anhygoel, mewn gwirionedd. Bu'n rhaid iddyn nhw ddibynnu ar wybodaeth gan gynghorau lleol. Rhannodd Caerffili wybodaeth ddau neu dri mis cyn y digwyddiad; Torfaen a Chaerdydd yr wythnos flaenorol. Er mwyn gwneud hwn yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn y gall pawb ei gefnogi, sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr y ceir cyfathrebu gwell â'r holl gymunedau a busnesau?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can't dispute what the Member has said. I think that are numerous examples of where communication was not as it should have been, and the event organisers have to learn that for the years that are to come. Not enough notice, it's clear, from the reports that I've seen, was given to various businesses and organisations, and you mentioned one example there. We will work with the velothon in future years to make sure that these problems don't occur in the future, and that sufficient notice is given when the event returns to Wales.

Ni allaf ddadlau â'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud. Rwy'n credu bod llawer o enghreifftiau o bryd nad oedd cyfathrebu fel ag y dylai fod, ac mae'n rhaid i drefnwyr y digwyddiad ddysgu hynny ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'n amlwg, o'r adroddiadau yr wyf i wedi eu gweld, na roddwyd digon o rybudd i wahanol fusnesau a sefydliadau, a soniasoch am un enghraifft yn y fan yna. Byddwn yn gweithio gyda'r velothon yn y dyfodol i wneud yn siŵr nad yw'r problemau hyn yn digwydd yn y dyfodol, ac y rhoddir digon o rybudd pan fydd y digwyddiad yn dychwelyd i Gymru.

14:07 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say I broadly welcome the velothon, and I'm pleased that it passed through my constituency? Certainly, it brought the benefits of active travel to many people, and it was an opportunity to showcase Caerphilly to a much wider audience. Nevertheless, like other Members, I was contacted by a number of constituents recently who were unhappy with the extensive road closures. So, First Minister, do you agree with me that, if the velothon is to pass through Caerphilly next year, there needs to be much better and earlier communication between the organisers and local residents and businesses, perhaps beginning as early as the beginning of 2006, and perhaps they should explore issues such as rolling, rather than blanket, road closures?

A gaf i ddweud fy mod i'n croesawu'r velothon yn gyffredinol, ac rwy'n falch ei fod wedi teithio drwy fy etholaeth i? Yn sicr, daeth â manteision teithio llesol i lawer o bobl, ac roedd yn gyfle i arddangos Caerffili i gynulleidfa llawer ehangach. Serch hynny, fel Aelodau eraill, cysylltodd nifer o etholwyr â mi yn ddiweddar a oedd yn anhapus gyda'r cau ffyrdd helaeth. Felly, Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi, os bydd y velothon yn teithio trwy Gaerffili y flwyddyn nesaf, bod angen cyfathrebu llawer gwell a chynharach rhwng y trefnwyr a thrigolion a busnesau lleol, gan gychwyn mor gynnar â dechrau 2006 efallai, ac efallai y dylent archwilio materion fel cau ffyrdd mewn modd hyblyg yn hytrach na'n llwyr?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely right. It's never the case that it's too early to start consultation and too early to start working with businesses that are affected by events such as this. It's absolutely crucial that the lessons—harsh lessons—that have been taught this time around are taken forward next year, and that the problems that have occurred this year are not repeated.

Hollol gywir. Nid yw byth yn wir ei bod yn rhy gynnar i ddechrau ymgynghori ac yn rhy gynnar i ddechrau gweithio gyda busnesau sy'n cael eu heffeithio gan ddigwyddiadau fel hyn. Mae'n gwbl hanfodol bod y gwersi —gwersi llym—a addysgwyd y tro hwn yn cael eu dwyn ymlaen y flwyddyn nesaf, ac nad yw'r problemau a gafwyd eleni'n cael eu hailadrodd.

14:08 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I declare an interest as a keen cyclist myself. I think we can all agree that we support the development of events such as the velothon in Wales, but is the First Minister aware that the existence of the velothon, run by a French company, did have a detrimental effect on a huge sporting event in Wales, which is Etape Eryri, whose numbers were dramatically reduced because of the velothon taking place the weekend before. Does the First Minister accept that there are Welsh companies that can organise events such as the velothon equally as well as large multinational companies?

Rwy'n datgan buddiant fel beiciwr brwd fy hun. Rwy'n meddwl y gallwn ni i gyd gytuno ein bod yn cefnogi datblygiad digwyddiadau fel y velothon yng Nghymru, ond a yw'r Prif Weinidog yn ymwybodol bod bodolaeth y velothon, a redir gan gwmni o Ffrainc, wedi cael effaith andwyol ar ddigwyddiad chwaraeon enfawr yng Nghymru, sef Etape Eryri, lle y bu gostyngiad sylweddol iawn mewn niferoedd oherwydd cynnal y velothon y penwythnos cynt. A yw'r Prif Weinidog yn derbyn bod cwmnïau yng Nghymru sy'n gallu trefnu digwyddiadau fel y velothon cystal â chwmnïau amlwladol mawr?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that much is true. I would always say that Welsh companies are the equal of anyone when it comes to organising events such as this. As I say, there are lessons to be learned. We do try to ensure that there is sufficient distance between events, but sometimes that's not possible. I welcome the Member's declaration that he's a keen cyclist, though I don't look forward to the day when he turns up in this Chamber in Lycra. [Laughter.]

Mae cymaint â hynny'n wir yn fy marn i. Byddwn bob amser yn dweud bod cwmnïau Cymru cystal ag unrhyw un pan ddaw i drefnu digwyddiadau fel hyn. Fel y dywedais, mae gwersi i'w dysgu. Rydym ni'n ceisio sicrhau bod digon o amser rhwng digwyddiadau, ond nid yw hynny'n bosibl weithiau. Rwy'n croesawu datganiad yr Aelod ei fod yn feiciwr brwd, er nad wyf yn edrych ymlaen at y diwrnod pan ddaw i'r Siambr hon mewn Lycra. [Chwerthin.]

## Y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol

## The National Police Air Service

14:09

**Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol? OAQ(4)2364(FM)*

*7. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government on the National Police Air Service? OAQ(4)2364(FM)*

14:10

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid yw hwn yn rhywbeth sydd wedi'i ddatganoli—wel, nid eto—ac nid ydym wedi cael trafodaeth gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hyn. Ond mae'n wir i ddweud bod pryder gyda ni ynglŷn â fel bydd y gwasanaeth yn parhau yn y dyfodol.

This is not a devolved matter—well, not yet—and we haven't had a discussion with the United Kingdom Government on this issue. But it's true to say that we are concerned about how the service will continue in the future.

14:10

**Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Mae'r cynlluniau presennol yn cynnwys un safle yn y gogledd, yn Hawarden, lle bydd hofrennydd, ac un yn y de, yng Nghaerdydd. Ond, os bydd unrhyw argyfwng yn Lerpwl neu Manceinion, a'r un peth yn y de, ym Mryste neu Gaerfaddon, byddem yn colli'r ddau hofrennydd. Wythnos diwethaf, bûm ym Mhen-bre i weld y ganolfan ym Mhen-bre lle mae comisiynydd yr heddlu wedi gwario, tair blynedd yn ôl, £1.5 miliwn i adeiladu safle bendigedig. Mae pobl yn dweud wrthyf, gyda'r system genedlaethol, bydd raid i Heddlu Dyfed Powys dalu £800,000 y flwyddyn—a dim hofrennydd yno. Ond, os byddai comisiynydd yr heddlu yn fodlon talu £300,000 yn ychwanegol, fe allem ni gadw'r hofrennydd ym Mhen-bre a byddai gweddill Cymru yn elwa o'r peth. A ydych yn cytuno gyda fi?

Thank you. The current plans include one site in north Wales, in Hawarden, where there will be a helicopter, and one in south Wales, in Cardiff. But, if there is any problem or emergency in Liverpool or Manchester, and the same in the south, in Bristol or Bath, we would lose both helicopters. Last week I went to Pembrey to see the centre there where the police and crime commissioner, three years ago, spent £1.5 million to build a wonderful site. People tell me that with the national approach, Dyfed-Powys Police will have to pay £800,000 per annum—with no helicopter there. But, if the police and crime commissioner was willing to pay an additional £300,000 we could retain the helicopter at Pembrey and the rest of Wales would benefit from that, too. Would you agree with me?

14:11

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mae hynny lan i'r comisiynydd, wrth gwrs. Ond, enw'r gwasanaeth yw'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol. Wel, nid yw'n genedlaethol o gwbl; Lloegr a Chymru ydyw. Yn fy marn i , rydym yn siarad am ddwy genedl, nid un, ond mae hynny'n eithaf 'typical' o'r ffordd maen nhw'n delio gyda phethau fel hyn yn Llundain. Ni fyddai hyn wedi digwydd, wrth gwrs, os byddai'r peth wedi cael ei ddatganoli. Unwaith eto, nid yw Cymru yn cael ei thrin yn y ffordd iawn. Mae'n cael ei thrin fel rhyw fath o ran o Loegr. Mae hynny'n eithaf 'typical' o'r ffordd mae'r Llywodraeth bresennol yn delio â Chymru. Ond, mae'n wir i ddweud bod opsiwn yna i'r comisiynydd, mae hynny'n wir, i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau, ac mae'n bwysig, wrth gwrs, bod y comisiynydd yn ystyried hynny. Ond, unwaith eto, rydym yn gweld Cymru'n colli mas o achos y ffaith nad yw plismona wedi cael ei ddatganoli.

Well, that's a matter for the commissioner, of course. But, the name of the service is the National Police Air Service. Well, it's not national at all; it's England and Wales. In my view, you're talking about two nations, not one, but that's quite typical of the way in which they deal with these issues in London. This, of course, wouldn't have happened if it was devolved. Once again, Wales isn't being treated fairly. It's being treated as some kind of part of England. That's quite typical of the way in which the current Government deals with Wales. But, it's true to say there is an option there for the commissioner, that is true, to ensure that the service continues, and it's important, of course, that the commissioner considers it. But, once again, we're seeing Wales lose out because the fact that policing is not devolved.

14:12 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In stating that it will close the base in Rhuddlan, the National Police Air Service says that cover will come from other bases, including Hawarden. But, North Wales Police told me that there's been poor engagement with forces, police and crime commissioners and regions, and that for high-priority calls, the average response time in north Wales will increase from 13 to 18 minutes. Notwithstanding your comments about this not being directly a Welsh Government responsibility, how can or will the Welsh Government engage with the regional workshops the National Police Air Service says it will now carry out to engage forces and commissioners to better understand how the modelling has been arrived at and to assure forces it is accurate?

Wrth ddatgan y bydd yn cau'r ganolfan yn Rhuddlan, mae Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn dweud y bydd cymorth yn dod o ganolfannau eraill, gan gynnwys Penarlâg. Ond, fe'm hysbyswyd gan Heddlu Gogledd Cymru y bu ymgysylltu gwael gyda heddluoedd, comisiynwyr a rhanbarthau heddlu a throseddu, ac ar gyfer galwadau blaenoriaeth uchel, y bydd yr amser ymateb cyfartalog yn y gogledd yn cynyddu o 13 i 18 munud. Er gwaethaf eich sylwadau nad cyfrifoldeb uniongyrchol Llywodraeth Cymru yw hyn, sut all neu wnaiff Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r gweithdai rhanbarthol y mae Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn dweud y bydd yn eu cynnal nawr i ymgysylltu â heddluoedd a chomisiynwyr i ddeall yn well sut y penderfynwyd ar y modelu ac i sicrhau heddluoedd ei fod yn gywir?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Look, this is your party's decision, not mine. We will work, of course, with the police and crime commissioners—of course we will—and the police services. But, it's your decision at the end of the day. If the people of Wales were able to have the level of control over policing that Scotland, Northern Ireland and England gets, this wouldn't have happened. So, your party refuses to give those powers to the people of Wales—something that we support. We have a decision now where Wales is effectively being cut out of the picture and your party does bear responsibility. Please don't try and make out that, somehow, it's the fault of the Welsh Government.

Edrychwch, penderfyniad eich plaid chi yw hwn, nid fy un i. Byddwn yn gweithio, wrth gwrs, gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu—wrth gwrs y byddwn—a gwasanaethau'r heddlu. Ond, eich penderfyniad chi yw hwn yn y pen draw. Pe gallai pobl Cymru gael y lefel o reolaeth dros blismona sydd gan yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ni fyddai hyn wedi digwydd. Felly, mae eich plaid chi yn gwrthod rhoi'r pwerau hynny i bobl Cymru—rhywbeth yr ydym ni'n ei gefnogi. Mae gennym ni benderfyniad nawr lle mae Cymru'n cael ei thorri allan o'r darlun i bob pwrpas a'ch plaid chi sy'n gyfrifol am hynny. Peidiwch â cheisio awgrymu mai bai Llywodraeth Cymru, rywsut, yw hyn.

14:13 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch iawn, Brif Weinidog, eich bod mor frwdfrydig dros ddatganoli plismona i Gymru. Nid dyna oedd ymateb eich Gweinidog chi pan wnes i godi'r mater rhai blynyddoedd yn ôl yn y Siambr yma, ac nid dyna oedd ymateb y Llywodraeth Lafur ddiwethaf yn San Steffan ychwaith. Ond a fyddech yn cytuno gyda fi ein bod yn gweld, yn y fan hyn, yn sicr yng nghyd-destun Heddlu Dyfed Powys, y camgymeriad sylfaenol a wnaeth y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan yn cyflwyno comisiynwyr heddlu, lle mae comisiynydd yn fwy ffyddlon i bolisi ei blaid ei hunan nag anghenion dinasyddion Dyfed Powys.

I'm very pleased, First Minister, that you're so enthusiastic for the devolution of policing to Wales. That wasn't the response of your Minister when I raised this issue some years ago in this Chamber, and that wasn't the response of the last Labour Government in Westminster either. But would you agree with me that we're seeing in this context, particularly in the context of Dyfed-Powys Police, the fundamental mistake made by the coalition Government in introducing police and crime commissioners, where a commissioner is more faithful to his own party's policies than the needs of the citizens of Dyfed-Powys?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, dau beth: nid ydym o blaid cael comisiynwyr heddlu ac nid yw'r cyhoedd chwaith. Fe welsom ni hynny gyda faint wnaeth droi mas i bleidleisio. Ynglŷn â datganoli plismona, a gaf i atgoffa'r Aelod, wrth gwrs, bod hwn wedi bod yn rhan o faniffesto'r Blaid Lafur mis diwethaf—i ddatganoli plismona i Gymru? Felly, mae pethau wedi newid. Mae'n wir i ddweud mai felly oedd pethau ar un adeg, ond mae pethau wedi newid ers hynny. Ond, y cwestiwn sylfaenol yw hwn: os bydd galwad am yr hofrennydd, pwy sy'n cael blaenoriaeth—Lloegr neu Gymru? Ar hyn o bryd, does dim ateb i'r cwestiwn hynny, sy'n dangos unwaith eto pa mor bwysig yw sicrhau bod gwasanaeth heddlu Cymru yn cael ei redeg o Gymru ac nid o Lundain.

Well, two things: we aren't in favour of police and crime commissioners and neither is the public. We saw that as regards the turnout for their election. As regards the devolution of policing, may I remind the Member, of course, that this was part of the Labour Party's manifesto last month—to devolve policing to Wales? So, things are changing. It's true to say that that was the case some time ago, but things have changed since then. But, the fundamental question is this: if there is a call made for the helicopter, who gets the priority—England or Wales? At the moment, there is no answer to that question, which illustrates once again how important it is that the Wales police service should be run from Wales and not from London.

## Cefnogaeth ar gyfer Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar

## Support for Early Years Provision

14:14

### David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar yng Nghymru? OAQ(4)2359(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on support for early years provision in Wales? OAQ(4)2359(FM)*

14:14

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We know that early years are a critical time in children's lives. We know that those times are crucially important for long-term development. That's why we provide free quality childcare for two to three-year-olds through Flying Start and free quality foundation phase early education for three and four-year-olds.

Gwnaf. Rydym ni'n gwybod bod y blynyddoedd cynnar yn gyfnod hollbwysig ym mywydau plant. Rydym ni'n gwybod bod y cyfnod hwnnw'n hanfodol bwysig i ddatblygiad hirdymor. Dyna pam rydym ni'n darparu gofal plant o ansawdd am ddim i blant dwy i dair oed drwy Dechrau'n Deg ac addysg gynnar cyfnod sylfaen o ansawdd am ddim i blant tair a phedair oed.

14:15

### David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that answer, First Minister, and I agree that the Flying Start programme has supported many young children and families within some of our most deprived areas here in Wales. As a result, we are seeing children benefit and develop, thus increasing their life opportunities. However, you may know that Action for Children has decided to terminate their contract to deliver early years development in two such communities in the upper Afan valley, citing financial difficulties for doing so, and the local authority is seeking alternative provision. Do you agree with me that any alternative provision should be located within the communities that the service is intended to support, and families should not be required to actually catch two buses to an alternative site? If so, will you ensure that the Welsh Government view is made clear to local authorities?

Diolchaf i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, ac rwy'n cytuno bod rhaglen Dechrau'n Deg wedi cefnogi llawer o blant ifanc a theuluoedd yn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig yma yng Nghymru. O ganlyniad, rydym ni'n gweld plant yn elwa ac yn datblygu, gan gynyddu eu cyfleoedd bywyd. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn gwybod bod Gweithredu dros Blant wedi penderfynu terfynu eu contract i ddarparu datblygiad y blynyddoedd cynnar mewn dwy gymuned o'r fath yn rhan uchaf cwm Afan, gan nodi anawsterau ariannol fel y rheswm dros wneud hynny, ac mae'r awdurdod lleol yn chwilio am ddarpariaeth arall. A ydych chi'n cytuno â mi y dylid lleoli unrhyw ddarpariaeth arall yn y cymunedau y bwriedir i'r gwasanaeth eu cefnogi, ac na ddylai fod yn ofynnol i deuluoedd ddal dau fws i safle arall? Os felly, a wnewch chi sicrhau bod safbwynt Llywodraeth Cymru yn cael ei wneud yn eglur i awdurdodau lleol?

14:15

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can make it absolutely clear that, where there is a need to change the provider of childcare, it cannot be in anyone's interests if that childcare is provided further away. The whole point of the provision of childcare as part of Flying Start is to make it as accessible as possible. If people face an expensive and laborious journey on public transport, they will not use those childcare facilities. So, yes, I think it's important to state that we would want to see childcare provision in the communities that they are meant to serve. I can say that there's no intention to end childcare provision in Croeserw and Glyncorrwg. There are options I understand that the council is looking at at the moment, but it will clearly be absolutely essential that the childcare provision continues in those communities in the future.

Gallaf ei gwneud yn gwbl eglur, pan fo angen newid y darparwr gofal plant, ni all fod o fudd i neb os darperir y gofal plant hwnnw ymhellach i ffwrdd. Holl bwynt y ddarpariaeth o ofal plant yn rhan o Dechrau'n Deg yw ei wneud mor hygyrch â phosibl. Os yw pobl yn wynebu taith ddrud a llafurus ar gludiant cyhoeddus, ni fyddant yn defnyddio'r cyfleusterau gofal plant hynny. Felly, ydw, rwy'n credu ei bod yn bwysig nodi y byddem ni eisiau gweld darpariaeth gofal plant yn y cymunedau y maen nhw i fod i'w gwasanaethu. Gallaf ddweud nad oes unrhyw fwriad rhoi terfyn ar y ddarpariaeth o ofal plant yng Nghroeserw a Glyncorrwg. Ceir dewisiadau yr wyf yn deall y mae'r cyngor yn eu hystyried ar hyn o bryd, ond bydd yn amlwg yn gwbl hanfodol bod y ddarpariaeth gofal plant yn parhau yn y cymunedau hynny yn y dyfodol.

14:16 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the early years, of course, are a crucial part of a child's development, and schools have a significant role to play in that development. In my own constituency, in Llanbedr Dyffryn Clwyd, there is a school that is delivering excellent standards of education, but unfortunately Denbighshire County Council are seeking to close that school. They've now embarked upon a second consultation. The first consultation resulted in a referral to the Minister; the Minister intervened in order to secure the future of that school, but the local authority, within days of that announcement, announced that it would seek a second consultation to close. What consideration do you think local authorities and others should have in respect of the psychological and emotional impact of second consultations on school closure for the children in those schools, given the potential impact on their development?

Brif Weinidog, mae'r blynyddoedd cynnar, wrth gwrs, yn rhan hanfodol o ddatblygiad plentyn, ac mae gan ysgolion swyddogaeth bwysig i'w chyflawni yn y datblygiad hwnnw. Yn fy etholaeth fy hun, yn Llanbedr Dyffryn Clwyd, ceir ysgol sy'n darparu safonau rhagorol o addysg, ond, yn anffodus, mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu cau'r ysgol honno. Maen nhw wedi cychwyn ail ymgynghoriad erbyn hyn. Arweiniodd yr ymgynghoriad cyntaf at atgyfeiriad at y Gweinidog; ymyrrodd y Gweinidog er mwyn sicrhau dyfodol yr ysgol honno, ond cyhoeddodd yr awdurdod lleol, o fewn diwrnodau i'r cyhoeddiad hwnnw, y byddai'n ceisio ail ymgynghoriad i gau. Pa ystyriaeth ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol ac eraill ei chael o ran effaith seicolegol ac emosiynol ail ymgynghoriadau ar gau ysgolion ar y plant yn yr ysgolion hynny, o ystyried yr effaith bosibl ar eu datblygiad?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I'm familiar with the situation that the Member outlines. It's clearly important that local authorities are able to take communities with them. If they consult on proposals that are no different from the original proposals—and I don't know what the new proposals look like; I need to state that—then clearly it will be more difficult for them to explain why they have done that. I've not seen the second consultation document. What is clear, though, is there needs to be a solution that is to the satisfaction of the local community.

Rwy'n gyfarwydd â'r sefyllfa y mae'r Aelod yn ei hamlinellu. Mae'n amlwg yn bwysig bod awdurdodau lleol yn gallu mynd â chymunedau gyda nhw. Os byddant yn ymgynghori ar gynigion nad ydynt yn wahanol i'r cynigion gwreiddiol—ac nid wyf yn gwybod sut mae'r cynigion newydd yn edrych; mae angen i mi ddweud hynny—yna mae'n amlwg y bydd yn fwy anodd iddyn nhw egluro pam maen nhw wedi gwneud hynny. Nid wyf wedi gweld yr ail ddogfen ymgynghori. Yr hyn sy'n eglur, fodd bynnag, yw bod angen cael ateb sy'n foddhaol i'r gymuned leol.

14:18 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, can I endorse David Rees's plea that the Flying Start provision in Croeserw and Glyncorrwg remains in that community? However, there are concerns about the way that Neath Port Talbot County Borough Council are handling the commissioning of this particular service. Action for Children will effectively be terminating that service in less than a month's time, and nobody knows—neither the parents nor the staff—what is going to replace it or when it is going to be replaced. Action for Children face redundancy payments of about £30,000 and yet the council do not seem to be coming forward with alternative provision that parents can rely on and which those staff may well be transferred to. Could I ask you, as a matter of urgency, to work with the relevant Minister to ensure that the commissioning arrangements in Neath Port Talbot council for this particular service are fit for purpose and that both parents and staff receive some certainty before that service finishes at the end of the school term?

Brif Weinidog, a gaf i gymeradwyo cais David Rees i'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yng Nghroeserw a Glyncorrwg i aros yn y gymuned honno? Fodd bynnag, ceir pryderon am y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn trin comisiynu'r gwasanaeth penodol hwn. Bydd Gweithredu dros Blant yn terfynu'r gwasanaeth hwnnw mewn llai na mis o amser i bob pwrpas, a does neb yn gwybod—nid y rhieni na'r staff—beth sy'n mynd i gymryd ei le na phryd y bydd hynny'n digwydd. Mae Gweithredu dros Blant yn wynebu taliadau diswyddo o tua £30,000 ac eto nid yw'n ymddangos bod y cyngor yn cynnig darpariaeth arall y gall rhieni ddibynnu arni ac y gallai'r staff hynny gael eu trosglwyddo iddi. A gaf i ofyn i chi, fel mater o frys, weithio gyda'r Gweinidog perthnasol er mwyn sicrhau bod y trefniadau comisiynu yng nghyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer y gwasanaeth penodol hwn yn addas i'w diben a bod rhieni a staff yn derbyn rhywfaint o sicrwydd cyn i'r gwasanaeth hwnnw ddod i ben ar ddiwedd y tymor ysgol?

14:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think the service finishes officially at the end of August, but the end of the school term as far as the children are concerned. It's absolutely essential that the service continues in the community, and it's absolutely essential that there is as little delay as possible in procuring a new service. I'm sure the council are aware of the challenges that are faced, and I would obviously urge the council to put new provision in place as quickly as possible. I understand they have committed to updating parents as quickly as possible, and they are moving forward with alternative arrangements, but clearly the last thing anybody wants to see is a gap between service provision arrangements or, indeed, a significant geographical move for that provision.

Rwy'n meddwl bod y gwasanaeth yn gorffen yn swyddogol ddiwedd mis Awst, ond ar ddiwedd y tymor ysgol cyn belled ag y mae'r plant yn y cwestiwn. Mae'n gwbl hanfodol bod y gwasanaeth yn parhau yn y gymuned, ac mae'n gwbl hanfodol bod cyn lleied o oedi â phosibl cyn caffael gwasanaeth newydd. Rwy'n siŵr bod y cyngor yn ymwybodol o'r heriau a wynebir, a byddwn yn amlwg yn annog y cyngor i roi darpariaeth newydd ar waith cyn gynted â phosibl. Rwy'n deall eu bod wedi ymrwymo i ddiweddaru rhieni cyn gynted â phosibl, ac maen nhw'n bwrw ymlaen â threfniadau eraill, ond yn amlwg y peth olaf y mae unrhyw un eisiau ei weld yw bwlch rhwng trefniadau darparu gwasanaeth neu, yn wir, symudiad daearyddol sylweddol ar gyfer y ddarpariaeth honno.

Senedd.tv
Fideo Video

14:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
Fideo Video

14:19

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes, a galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:19

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

There are three changes to report to the business statement for this week's business. The Minister for Economy, Science and Transport has postponed her statement on an update on ports to 7 July. The Minister for Education and Skills will be making a statement on the draft additional learning needs and education tribunal (Wales) Bill and the Deputy Minister for Health will be making a written rather than an oral statement on investment and delivery plans. As the only question tabled to the Counsel General has been withdrawn, the time for Government business tomorrow, on Wednesday, has been reduced to 45 minutes.

Mae tri newid i'w hadrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi gohirio ei datganiad ar y wybodaeth ddiweddaraf am borthladdoedd tan 7 Gorffennaf. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiad ar y Bil anghenion dysgu ychwanegol a'r tribiwnlys addysg (Cymru) a bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd yn gwneud datganiad ysgrifenedig yn hytrach na llafar ar gynlluniau buddsoddi a chyflawni. Gan fod yr unig gwestiwn a gyflwynwyd i'r Cwnsler Cyffredinol wedi cael ei dynnu'n ôl, lleihawyd yr amser ar gyfer busnes y Llywodraeth yfory, ddydd Mercher, i 45 munud.

Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Senedd.tv
Fideo Video

14:20 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, is it possible to either have a statement or a letter put in the Library in relation to the redundancy packages that have been given by the Welsh Government to the three departing director generals who have recently taken redundancy? It is perfectly a matter of public interest how much money has been paid out by the Welsh Government in redundancy settlements. All public organisations make this information freely available. On this particular occasion, the Welsh Government, for whatever reason, unbeknown to many people outside of its own decision-making process, has chosen not to allow this information into the public domain. If you're unwilling to allow this information to come forward, perhaps you could offer an explanation as to why the Welsh Government is not prepared to release this information.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl i naill ai gael datganiad neu roi llythyr yn y Llyfrgell o ran y pecynnau diswyddo a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r tri chyfarwyddwr cyffredinol sy'n gadael sydd wedi cymryd diswyddiad yn ddiweddar? Mae'n sicr yn fater o ddiddordeb i'r cyhoedd faint o arian sydd wedi cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru mewn setliadau dileu swyddi. Mae pob sefydliad cyhoeddus yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i bawb. Ar yr achlysur penodol hwn, mae Llywodraeth Cymru, am ba bynnag reswm, yn ddiarwybod i lawer o bobl y tu allan i'w phroses ei hun o wneud penderfyniadau, wedi dewis peidio â rhyddhau'r wybodaeth hon yn gyhoeddus. Os nad ydych chi'n fodlon caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi, efallai y gallech chi gynnig esboniad ynghylch pam nad yw Llywodraeth Cymru yn barod i ryddhau'r wybodaeth hon.

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm sure that the leader of the opposition will agree that the action that we are taking to ensure that we're making savings and streamlining the way we deliver our public services is important. Of course, this is a matter for the Permanent Secretary, but clearly you are well aware, as we are, of severe financial pressures across all public services in Wales, and we have to ensure that our organisation is fit for purpose in that context.

Wel, rwy'n siŵr y bydd arweinydd yr wrthblaid yn cytuno bod y camau yr ydym ni'n eu cymryd i sicrhau ein bod yn gwneud arbedion a symleiddio'r ffordd y rydym ni'n darparu ein gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig. Wrth gwrs, mater i'r Ysgrifennydd Parhaol yw hwn, ond mae'n amlwg eich bod yn gwbl ymwybodol, fel yr ydym ninnau, o bwysau ariannol difrifol ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein sefydliad yn addas i'w ddiben yn y cyd-destun hwnnw.

14:22 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in the last 10 years of the Labour Government we saw, probably, the most consistent reductions in child poverty in the post-war period and we now, as night follows day, have a Tory Government where the legacy is continued year-on-year increases in poverty and inequality. Proposals that are being proposed now with regard to working tax credits, disability benefits and other welfare reforms, may have a significant impact on Welsh Government policies and strategy. Will you make time for a statement so that we can actually analyse and look at what the Government strategy is in dealing with the impact of these Tory attacks on the poorest and most vulnerable?

Weinidog, mae'n debyg ein bod wedi gweld yn y 10 mlynedd diwethaf o Lywodraeth Lafur, y gostyngiadau mwyaf cyson mewn tlodi plant yn y cyfnod ar ôl y rhyfel, ac mae gennym ni nawr, fel y mae'r nos yn dilyn y dydd, Lywodraeth Doriaidd lle ceir yr etifeddiaeth o gynnydd parhaus o flwyddyn i flwyddyn mewn tlodi ac anghydraddoldeb. Gallai cynigion sy'n cael eu gwneud nawr o ran credydau treth gwaith, budd-daliadau anabledd a diwygiadau lles eraill, gael effaith sylweddol ar bolisïau a strategaeth Llywodraeth Cymru. A wnewch chi neilltuo amser ar gyfer datganiad fel y gallwn ddadansoddi ac ystyried beth yw strategaeth y Llywodraeth ar gyfer ymdrin ag effaith yr ymosodiadau hyn gan y Toriaid ar y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed?

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, you only have to read some of the comments from organisations like the Child Poverty Action Group at the weekend, such as Alison Garnham of the CPAG saying that the UK Government,

Wrth gwrs, does dim ond rhaid i chi ddarllen rhai o'r sylwadau gan sefydliadau fel y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant dros y penwythnos, fel Alison Garnham o'r CPAG yn dweud na all Llywodraeth y DU,

'can no longer claim that deficit reduction is about protecting children's futures... With child poverty expected to rise by nearly a third in the decade to 2020 as a result of its policies, it's clear the government's approach is failing.'

honni mwyach fod lleihau'r diffyg yn ymwneud â diogelu dyfodol plant... Disgwylir i dlodi plant gynyddi o bron i draean yn y degawd hyd at 2020 o ganlyniad i'w pholisïau, ac felly mae'n amlwg bod dull y llywodraeth yn methu.

What is clear is that we are taking action and the Minister for Communities and Tackling Poverty, of course, published her revised child poverty strategy in March.

Yr hyn sy'n eglur yw ein bod ni'n cymryd camau a chyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ei strategaeth tlodi plant ddiwygiedig ym mis Mawrth, wrth gwrs.

14:23 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae pamffled 'Rhoi Organau, Optio Allan' wedi'i ddosbarthu'n eang yn yr wythnos neu ddwy ddiwethaf yma ac mae etholwr i mi wedi cysylltu â'r llinell ffôn sy'n cael ei hargymell yn y pamffled yn gofyn am wybodaeth. Mae wedi gwneud hynny ddwsin o weithiau ac wedi pwyso botwm yr opsiwn Cymraeg ond nid ydyw wedi cael ateb eto. A gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog iechyd ar y methiant hwn i weithredu cynllun iaith y Llywodraeth ac i drin pobl sy'n dymuno cael gwasanaeth yn Gymraeg yn gyfartal?

A pamphlet has been distributed about opting out of organ donation. They've been distributed over the past two weeks and an elector of mine has contacted the telephone line that is recommended in the leaflet, asking for information. He's done so a number of times—a dozen times—and pressed the Welsh option, but still hasn't received a reply. Can we have a statement from the Minister for health on this breach in the Welsh Government's Welsh language scheme, in that Welsh speakers are not being treated equally?

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, that is a matter on which the Government wants to ensure that it is delivering in accordance with, not only our Welsh language scheme, but also in communicating with the people of Wales, on this very important development and change, which this Assembly has supported.

Yn amlwg, mae hwnnw'n fater y mae'r Llywodraeth eisiau sicrhau ei fod yn cyflawni'n unol â, nid yn unig ein cynllun iaith Gymraeg, ond hefyd wrth gyfathrebu â phobl Cymru, ar y datblygiad a'r newid pwysig iawn hwn, y mae'r Cynulliad hwn wedi ei gefnogi.

14:24 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder if I might request a statement from the Minister for health on progress in improving child and adolescent mental health service waiting times, as I've had reports of ongoing issues there, particularly with the co-ordination between CAMHS services and educational psychology. I would be very grateful for a written statement, perhaps, on that.

Weinidog, tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog iechyd ar gynnydd o ran gwella amseroedd aros yn y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed, gan fy mod wedi cael adroddiadau o broblemau parhaus yno, yn enwedig y cydgysylltu rhwng gwasanaethau CAMHS a seicoleg addysgol. Byddwn yn ddiolchgar iawn am ddatganiad ysgrifenedig, efallai, ar hynny.

The second issue is this: I wonder if I could request a statement from the Minister for Natural Resources on best practice to increase recycling in local authorities. Just over a week since Cardiff narrowly avoided a £500,000 fine for missing its recycling targets and going in the wrong direction. They've actually taken a decision to scrap the Tidy Text service that was informing residents of the right date to put out their recycling and their black bags. Given the fact that Cardiff has a highly mobile population, with people moving house frequently, this kind of service is vital in making sure that people know they're putting their bags out on the right day, so that those bags aren't waiting for 24 hours or 36 hours, being ripped open and causing litter and waste on the street. So, I think if we can please have a statement on that, it would be much appreciated.

Yr ail fater yw hwn: Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar arfer gorau i gynyddu ailgylchu mewn awdurdodau lleol. Mae ychydig dros wythnos ers i Gaerdydd osgoi dirwy o £500,000 o drwch blewyn am fethu ei thargedau ailgylchu a mynd i'r cyfeiriad anghywir; maen nhw mewn gwirionedd wedi gwneud penderfyniad i ddiddymu'r gwasanaeth Testun Taclus a oedd yn hysbysu trigolion am y dyddiad cywir i roi eu deunydd ailgylchu a'u bagiau du allan. O ystyried y ffaith fod gan Gaerdydd boblogaeth symudol iawn, â phobl yn symud tŷ yn aml, mae'r math hwn o wasanaeth yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn gwybod eu bod yn rhoi eu bagiau allan ar y diwrnod cywir, fel nad yw'r bagiau hynny'n aros am 24 awr neu 36 awr, yn cael eu rhwygo ar agor ac yn achosi sbwriel a gwastraff ar y stryd. Felly, rwy'n meddwl pe gallem ni gael datganiad ar hynny os gwelwch yn dda, byddai'n cael ei werthfawrogi'n fawr.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In response to your first question, Eluned Parrott, the priority that this Government gives to our child and adolescent mental health service is very clear. In the last four years, we have seen a 100 per cent increase in the number of children and young people referred to specialist child and adolescent mental health services. It is important that we ensure that for those referrals that don't necessarily require specialist treatment, those children are signposted elsewhere or discharged appropriately. But, it is quite clear that we are improving in terms of that 100 per cent increase that I've just cited in terms of this very important service for our children and young people.

I ymateb i'ch cwestiwn cyntaf, Eluned Parrott, mae'r flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth hon yn ei rhoi i'n gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed yn eglur iawn. Yn y pedair blynedd diwethaf, rydym ni wedi gweld cynnydd o 100 y cant i nifer y plant a phobl ifanc a atgyfeiriwyd at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau o ran yr atgyfeiriadau hynny nad ydynt o reidrwydd ag angen triniaeth arbenigol, bod y plant hynny'n cael eu cyfeirio at rywle arall neu'n cael eu rhyddhau yn briodol. Ond, mae'n eithaf amlwg ein bod yn gwella o ran y cynnydd o 100 y cant hwnnw yr wyf newydd ei nodi ar gyfer y gwasanaeth pwysig iawn hwn i'n plant a'n pobl ifanc.

In terms of your second question on recycling, I know the Minister for Natural Resources made this point in answer to questions last week. Wales is the fourth best country in Europe at recycling, and continues to lead the UK with its recycling targets. As to the delivery of that, he made it very clear that councils who don't hit the recycling target have to demonstrate how they're going to improve and reach future targets or face penalties. That is about how local authorities actually do respond to those challenges.

O ran eich ail gwestiwn am ailgylchu, rwy'n gwybod bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi gwneud y pwynt hwn wrth ateb cwestiynau yr wythnos diwethaf. Cymru yw'r bedwaredd wlad orau yn Ewrop am ailgylchu, ac mae'n parhau i arwain y DU o ran ei thargedau ailgylchu. O ran cyflawni hynny, fe'i gwnaeth yn eglur iawn bod yn rhaid i gynghorau nad ydynt yn cyrraedd y targed ailgylchu ddangos sut maen nhw'n mynd i wella a chyrraedd targedau yn y dyfodol neu wynebu cosbau. Mae hynny'n ymwneud â sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r heriau hynny.

14:27

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a single statement on building 45 at the former Valley Works at Rhydymwyn in Flintshire. As you may know, this was the site for the home of the research and development effort associated with Tube Alloys, the codename for the British effort to develop an atomic bomb during the second world war. Rudolf Peierls and Klaus Fuchs moved to the Manhattan project in the United States in spring 1944 from Rhydymwyn, and the rest is history. As the Manhattan project expanded in the US, Rhydymwyn slowed and in 1945 was converted into a general storage facility. In the US, the Atomic Heritage Foundation, backed by the President and by Congress, are organising a number of events to commemorate the seventieth anniversary of the first test—the Trinity test—of the atomic bomb on 16 July 1945. Rhydymwyn Valley History Society wants a commemoration event in Rhydymwyn, but Natural Resources Wales and the Welsh Government, working, I believe, with the Department for Environment, Food and Rural Affairs, have put a bat preservation order on the building, shutting it to access during this period and for nine months of the year. But, extensive inquiries—and I'll finish here—have shown that nobody has any knowledge of any buildings being retained for long-term bat conservation and no evidence of such in the succeeding years after the remediation works in the valley in 2003.

Galwaf am ddatganiad unigol ar adeilad 45 yn hen Waith Valley yn Rhyd-y-mwyn yn Sir y Fflint. Fel y gwyddoch efallai, hwn oedd y safle ar gyfer cartref yr ymdrech ymchwil a datblygu yn gysylltiedig â Tube Alloys, yr enw cod ar ymgais Prydain i ddatblygu bom atomig yn ystod yr ail ryfel byd. Symudodd Rudolf Peierls a Klaus Fuchs i brosiect Manhattan yn yr Unol Daleithiau yn ystod gwanwyn 1944 o Ryd-y-mwyn, ac mae pawb yn ymwybodol o'r hyn ddigwyddodd wedyn. Wrth i brosiect Manhattan ehangu yn yr Unol Daleithiau, arafodd Rhyd-y-mwyn ac fe'i trowyd yn gyfleuster storio cyffredinol ym 1945. Yn yr Unol Daleithiau, mae'r Atomic Heritage Foundation, gyda chefnogaeth yr Arlywydd a'r Gyngres, yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i ddathlu deg mlynedd a thrigain ers prawf cyntaf—prawf Trinity—y bom atomig ar 16 Gorffennaf, 1945. Mae Cymdeithas Hanes Dyffryn Rhyd-y-mwyn eisiau cynnal digwyddiad coffáu yn Rhyd-y-mwyn, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, gan weithio, rwy'n credu, gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, wedi cyflwyno gorchymyn cadwraeth ystlumod ar yr adeilad, gan ei gau i fynediad yn ystod y cyfnod hwn ac am naw mis o'r flwyddyn. Ond, mae ymholiadau helaeth—a byddaf yn gorffen yma—wedi dangos nad oes gan neb unrhyw wybodaeth am unrhyw adeiladau sy'n cael eu cadw ar gyfer cadwraeth ystlumod hirdymor a dim tystiolaeth o hyn yn y blynyddoedd yn dilyn y gwaith adfer yn y dyffryn yn 2003.

14:28

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I certainly wasn't familiar with the role in history of building 45 until you revealed it this afternoon. Clearly, we cannot be responsible for bat preservation or conservation orders, but I'm sure local representations will be made in this regard.

Yn sicr, nid oeddwn i'n gyfarwydd â swyddogaeth adeilad 45 mewn hanes tan i chi ei datgelu y prynhawn yma. Yn amlwg, ni allwn fod yn gyfrifol am gadwraeth ystlumod na gorchmynion cadwraeth, ond rwy'n siŵr y bydd sylwadau lleol yn cael eu gwneud am hyn.

14:29

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm sure the Minister will have heard the news this morning about the Prison Reform Trust review into why so many children in care in England and Wales end up in the criminal justice system. Children aged 10 to 17 in care are more than five times as likely to be in trouble with the law. I know that the Welsh Government has made great efforts to help and encourage children who are in care, but would it be possible to have a statement from the Minister for Health and Social Services to let us know the numbers of young people in care in Wales who are also in the criminal justice system? What preventative action are we taking to look after these children when they are in the care of the state?

Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog wedi clywed y newyddion y bore yma am adolygiad yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai i pam mae cymaint o blant mewn gofal yng Nghymru a Lloegr yn canfod eu hunain yn y system cyfiawnder troseddol yn y pen draw. Mae plant 10 i 17 oed sy'n derbyn gofal fwy na phum gwaith yn fwy tebygol o fod mewn trafferth gyda'r gyfraith. Gwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrechion helaethi helpu ac i annog plant sy'n derbyn gofal, ond a fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi gwybod i ni faint o bobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru sydd hefyd yn y system cyfiawnder troseddol? Pa gamau ataliol ydym ni'n eu cymryd i ofalu am y plant hyn pan fyddant dan ofal y wladwriaeth?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan for that important question, and I'm sure that the Minister for Health and Social Services will want to respond accordingly. Can I just say also that I think many Members visited the displays that were in Tŷ Hywel today, at lunchtime, marking National Youth Week, and one of the projects there was a project that was supporting and assisting, in terms of prevention, children and young people who had come into contact with the criminal justice system, and what an impact they were making in terms of preventing and supporting those young people accordingly.

Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn pwysig yna, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisiau ymateb yn briodol. A gaf i ddweud hefyd fy mod i'n credu bod llawer o Aelodau wedi ymweld â'r arddangosfeydd a oedd yn Nhŷ Hywel heddiw, yn ystod amser cinio, yn nodi Wythnos Genedlaethol Ieuenctid, ac roedd un o'r prosiectau yno yn brosiect a oedd yn cefnogi a chynorthwyo, o ran atal, plant a phobl ifanc a oedd wedi dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, a chymaint o effaith yr oedd yn ei chael o ran atal a chefnogi'r bobl ifanc hynny yn briodol.

14:30 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, may I ask that, through your kind offices, you will encourage the Minister for education to agree to a debate or statement on the additional learning needs Bill that is now coming forward to us in draft form, hopefully at the beginning of July? Although today we are debating very briefly why it is in draft form rather than as a fully functioning Bill, which is what most of us expected, it would be more than useful to be able to have a debate in this Assembly, with all Members present, on the actual subject of the Bill, once we know what it is.

Weinidog, a gaf i ofyn, trwy eich gweithredoedd caredig, i chi annog y Gweinidog addysg i gytuno i ddadl neu ddatganiad ar y Bil anghenion dysgu ychwanegol sydd bellach yn cael ei gyflwyno i ni ar ffurf drafft, ddechrau mis Gorffennaf gobeithio? Er ein bod yn trafod yn gryno iawn heddiw pam ei fod ar ffurf drafft yn hytrach na'i fod yn Fil cwbl weithredol, sef yr hyn yr oedd y rhan fwyaf ohonom ni'n ei ddisgwyl, byddai'n fwy na defnyddiol gallu cael dadl yn y Cynulliad hwn, gyda'r holl Aelodau'n bresennol, ar bwnc gwirioneddol y Bil, pan fyddwn yn gwybod beth ydyw.

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Angela Burns for that question on the business statement. Of course, there is an oral statement by the Minister this afternoon on the draft Bill, and I'm sure that will provide an opportunity to develop the issues and questions that you wish to raise.

Diolchaf i Angela Burns am y cwestiwn yna am y datganiad busnes. Wrth gwrs, bydd datganiad llafar gan y Gweinidog y prynhawn yma ar y Bil drafft, ac rwy'n siŵr y bydd hynny'n rhoi cyfle i ddatblygu'r materion a'r cwestiynau yr hoffech chi eu codi.

14:31 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In pursuing the questions raised by my colleague, Eluned Parrott, to the Minister for the environment, perhaps he could also look into the issue of how councils dispose of personal waste. Powys County Council are consulting on moving to a three-weekly cycle of collection of black bags, having last year discontinued their specialist collection of continence products and colostomy bags. People are very concerned that they will now be asked to put these products into black bin bags that will not be collected more frequently than a three-weekly cycle, often causing a great deal of embarrassment and fear that they're going to become a nuisance to their own neighbours. People struggling with continence issues feel isolated enough without adding further indignity to their suffering by this particular measure.

Yn dilyn y cwestiynau a godwyd gan fy nghyd-Aelod, Eluned Parrott, i Weinidog yr amgylchedd, efallai y gallai hefyd ymchwilio i'r mater o sut mae cynghorau'n cael gwared ar wastraff personol. Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar symud i gylch tair wythnos o gasglu bagiau du, ar ôl rhoi terfyn ar ei gasgliad arbenigol o gynhyrchion ymataliaeth a bagiau colostomi y llynedd. Mae pobl yn bryderus iawn y bydd gofyn iddyn nhw nawr roi'r cynhyrchion hyn mewn bagiau bin du na fydd yn cael eu casglu'n amlach na phob tair wythnos, gan achosi llawer iawn o embaras yn aml ac ofn eu bod yn mynd i fod yn niwsans i'w cymdogion eu hunain. Mae pobl sy'n cael trafferth gyda materion ymataliaeth yn teimlo'n ddigon ar wahân heb ychwanegu amarch pellach i'w dioddefaint drwy'r mesur penodol hwn.

But also in response to this consultation, people are very concerned about the issues of packaging. They feel that they would be better able to cope with a three-weekly cycle if companies did more to reduce the amount of unnecessary packaging. I wonder if the Minister would care to outline what steps he's taking with industry, and with the Westminster Government, to look at the issue of what we can do to reduce the amount of packaging that consumers are then asked to recycle or to dispose of, which causes them problems.

Ond hefyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae pobl yn bryderus iawn am broblemau deunydd pacio. Maen nhw'n teimlo y byddent yn gallu ymdopi â chylch tair wythnos pe byddai cwmnïau yn gwneud mwy i leihau deunydd pacio diangen. Tybed a hoffai'r Gweinidog amlinellu pa gamau mae'n eu cymryd gyda diwydiant, a chyda Llywodraeth San Steffan, i ystyried y mater o beth y gallwn ei wneud i leihau faint o ddeunydd pacio y gofynnir wedyn i ddefnyddwyr ei ailgylchu neu ei daflu, sy'n achosi problemau iddyn nhw.

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Kirsty Williams raises a number of important questions, and, in a sense, it's a testament to the progress that we've made, with Wales being the fourth best country in Europe at recycling, that we're now moving to the actual 'how do we deliver best practice?' across Wales. That is something where I know the Minister's working very closely with local government to ensure best practice is implemented, taking into account some of those wider issues, and, of course, there could be an interface again with representations with local health services as well.

Mae Kirsty Williams yn codi nifer o gwestiynau pwysig, ac, mewn un ystyr, mae'n dangos y cynnydd rydym ni wedi ei wneud, gan mai Cymru yw'r bedwaredd wlad orau yn Ewrop o ran ailgylchu, ein bod bellach mewn gwirionedd yn symud at 'sut ydym ni'n darparu arfer gorau'? ledled Cymru. Mae hynny'n rhywbeth y gwn fod y Gweinidog yn gweithio'n agos iawn arno gyda llywodraeth leol i sicrhau y rhoddir arfer gorau ar waith, gan gymryd rhai o'r materion ehangach hynny i ystyriaeth, ac, wrth gwrs, gellid cael rhyngwyneb eto drwy wneud sylwadau gyda gwasanaethau iechyd lleol hefyd.

14:33 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Professor Kevin Morgan of Cardiff University is giving a paper tomorrow lunchtime in the Senedd on what it would take for Wales to become a Good Food Nation. As it involves challenges for every single one of the Ministers in the Welsh Government, including public procurement, new business development, education, public health, prudent healthcare and tackling our climate change obligations, I wondered if it would be possible to have a debate in Government time, before recess, on this very important and challenging issue.

Mae'r Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yn cyflwyno papur yn ystod yr awr ginio yn y Senedd yfory ar yr hyn y byddai ei angen i Gymru fod yn Good Food Nation. Gan fod hyn yn golygu heriau i bob un o'r Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys caffael cyhoeddus, datblygu busnesau newydd, addysg, iechyd y cyhoedd, gofal iechyd doeth a mynd i'r afael â'n hymrwymiadau newid yn yr hinsawdd, roeddwn i'n meddwl tybed a fyddai'n bosibl cael dadl yn amser y Llywodraeth, cyn y toriad, ar y mater pwysig ac anodd iawn hwn.

14:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for that question, and we look forward to Professor Kevin Morgan's report tomorrow, 'Good Food for All'—a 'Good Food for All' discussion paper—which I'm sure will be very, very helpful. Of course, we do have 'Towards Sustainable Growth: An Action Plan for the Food and Drink Industry 2014-2020', and that's really outlining the delivery of priorities that we identified in the strategy 'Food for Wales, Food from Wales for 2010-2020' and many priority themes, which, I think, will accord with Professor Morgan's paper, and the Deputy Minister for Farming and Food, Rebecca Evans, and her officials, are engaging very closely with academic universities and also organising an event to encourage collaboration among universities in support of the food and drink industry in Wales.

Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn yna, ac edrychwn ymlaen at adroddiad yr Athro Kevin Morgan yfory, 'Good Food for All'—a 'Good Food for All' discussion paper—yr wyf yn siŵr fydd yn ddefnyddiol iawn, iawn. Wrth gwrs, mae gennym ni 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020', ac mae hwnnw wir yn amlinellu cyflawniad blaenoriaethau a nodwyd gennym yn y strategaeth 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru ar gyfer 2010-2020' a llawer o themâu blaenoriaeth, a fydd, rwy'n credu, yn cyd-fynd â phapur yr Athro Morgan, ac mae'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, Rebecca Evans, a'i swyddogion, yn ymgysylltu'n agos iawn â phrifysgolion academaidd a hefyd yn trefnu digwyddiad i annog cydweithrediad ymhlith prifysgolion i gefnogi'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.

14:34 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, can I call for two statements this afternoon please? First, a statement from the Minister for Public Services to provide an update to the Assembly on the support for the armed forces community. I had the pleasure of attending RAF Valley on Thursday and Friday of last week, and it was great to hear of the positive engagement of the local authority on Ynys Môn with the armed forces community there. But there was some concern that there's an inconsistent approach to the support of the armed forces community in different parts of Wales, and, clearly, it's important that the best practice that we've seen in Ynys Môn, and, indeed, in the Vale of Glamorgan, is rolled out to other local authority areas. So, it would be great to have an update on that, especially in this important year, which, of course, is the seventy-fifth anniversary of the battle of Britain.

Weinidog, a gaf i alw am ddau ddatganiad y prynhawn yma os gwelwch yn dda? Yn gyntaf, datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ar y gefnogaeth i'r gymuned lluoedd arfog. Cefais y pleser o fynd i RAF y Fali ddydd Iau a dydd Gwener yr wythnos diwethaf, ac roedd yn wych clywed am ymgysylltiad cadarnhaol yr awdurdod lleol ar Ynys Môn gyda'r gymuned lluoedd arfog yno. Ond roedd cryn bryder bod dull anghyson o gefnogi'r gymuned lluoedd arfog mewn gwahanol rannau o Gymru, ac, yn amlwg, mae'n bwysig bod yr arfer gorau rydym ni wedi ei weld ar Ynys Môn, ac, yn wir, ym Mro Morgannwg, yn cael ei gyflwyno mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill. Felly, byddai'n wych cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny, yn enwedig yn y flwyddyn bwysig hon, sydd, wrth gwrs, 75 mlynedd ers Brwydr Prydain.

Can I also ask for a statement from the Minister for Health and Social Services in relation to support for those with liver disease? Haemophilia Wales has raised concerns about the inequity in access to modern hepatitis C drugs in Wales versus those that are available in England. And, indeed, access also to consultant hepatologists is more difficult in Wales versus in England as a result of the individual patient funding request process—if we can have a statement on that, please. I know that there are very small numbers of individuals who could potentially benefit from appointments with hepatologists and from these very important new drugs, but it is important that there's equal access from both sides of the border, and I think that Welsh patients are being disadvantaged at the moment.

A gaf i ofyn hefyd am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gefnogaeth i'r rhai â chlefyd yr iau? Mae Haemoffilia Cymru wedi codi pryderon ynghylch annhegwch o ran mynediad at gyffuriau hepatitis C modern yng Nghymru o'u cymharu â'r rhai sydd ar gael yn Lloegr. Ac, yn wir, mae mynediad at hepatolegwyr ymgynghorol hefyd yn fwy anodd yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr o ganlyniad i'r broses cais ariannu cleifion unigol—pe gallem ni gael datganiad ar hynny, os gwelwch yn dda. Rwy'n gwybod mai niferoedd bach iawn o unigolion a allai o bosibl elwa ar gael apwyntiadau gyda hepatolegwyr ac o'r cyffuriau newydd pwysig iawn hyn, ond mae'n bwysig bod mynediad cyfartal o'r ddwy ochr i'r ffin, a chredaf fod cleifion Cymru yn cael eu rhoi dan anfantais ar hyn o bryd.

14:36

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't know whether you were here at the time, but the Minister has made a very clear statement on our Welsh Government support across a variety of responsibilities, in terms of support for the armed services and for veterans. But I also would say I'm sure all of us across the Chamber have taken the opportunity to support local activities as well on Armed Forces Day. Certainly, I did in the Vale of Glamorgan, on Monday, with the Vale of Glamorgan Council, and, of course, others will have shared in those events. But, of course, the Minister has been very clear about our support.

Nid wyf yn gwybod a oeddech chi yma ar y pryd, ond mae'r Gweinidog wedi gwneud datganiad eglur iawn ar ein cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar draws amrywiaeth o gyfrifoldebau, o ran cymorth i'r lluoedd arfog ac i gyn-filwyr. Ond byddwn hefyd yn dweud fy mod i'n siŵr bod pob un ohonom ni ar draws y Siambr wedi manteisio ar y cyfle i gefnogi gweithgareddau lleol ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog hefyd. Yn sicr, fe wnes i ym Mro Morgannwg, ddydd Llun, gyda Chyngor Bro Morgannwg, ac, wrth gwrs, bydd eraill wedi rhannu yn y digwyddiadau hynny. Ond, wrth gwrs, mae'r Gweinidog wedi bod yn eglur iawn am ein cefnogaeth.

On your second point, of course the Minister is aware of developments, and is very closely engaged with those who have been particularly affected by, particularly, hepatitis C.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn ymwybodol o'r datblygiadau, ac yn ymgysylltu'n agos iawn gyda'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio'n arbennig gan hepatitis C yn benodol.

14:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:37

# 3. Datganiad: Taith Cyllideb 2015—Buddsoddi yn y Gymru a Garem

# 3. Statement: Budget Tour 2015—Investing in the Wales We Want

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move on to item 3, which is a statement by the Minister for Finance and Government Business on the budget tour 2015—Investing in the Wales We Want. I call on Jane Hutt, the Minister.

Symudwn ymlaen at eitem 3 nawr, sef datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar ein taith gyllideb 2015—Buddsoddi yn y Gymru a Garem. Galwaf ar Jane Hutt, y Gweinidog.

14:37

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, the next spending review period will be a major challenge for the whole of the public sector in Wales, and for the people who use our public services. Set against the backdrop of the new UK Government's manifesto commitments, on 4 June the Chancellor announced a £50 million cut to our budget for the current year. On 8 July, the Chancellor will make a further announcement, which could well include additional reductions for 2015-16 in the light of election pledges. It will also start to establish a picture of the total financial envelope for the next spending review period.

Lywydd, bydd y cyfnod adolygu gwariant nesaf yn her fawr i'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, ac i'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau cyhoeddus. Yn erbyn y cefndir o ymrwymiadau maniffesto Llywodraeth newydd y DU, cyhoeddodd y Canghellor ar 4 Mehefin doriad o £50 miliwn i'n cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Ar 8 Gorffennaf, bydd y Canghellor yn gwneud cyhoeddiad pellach, y mae'n debyg y gallai gynnwys gostyngiadau ychwanegol ar gyfer 2015-16 yng ngoleuni'r addewidion etholiadol. Bydd hefyd yn dechrau creu darlun o gyfanswm yr amlen ariannol ar gyfer y cyfnod adolygu gwariant nesaf.

In spite of the uncertainty, past experience has highlighted the importance of early planning. It is crucial in preparing ourselves for the impact of a further period of austerity. In facing this challenge, it is more important than ever that we invest for the long term. We've done everything we can to maximise the resources available in Wales to support our priorities, and we're pressing ahead with new, innovative ways of investing in our infrastructure in health, education, housing, and transport, and this is reflected in the Wales infrastructure investment plan annual report, which I am publishing today.

Er gwaethaf yr ansicrwydd, mae profiad blaenorol wedi amlygu pwysigrwydd cynllunio cynnar. Mae'n hanfodol wrth baratoi ein hunain ar gyfer effaith cyfnod pellach o gyni cyllidol. Wrth wynebu'r her hon, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn buddsoddi ar gyfer yr hirdymor. Rydym ni wedi gwneud popeth a allwn i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi ein blaenoriaethau, ac rydym ni'n bwrw ymlaen â ffyrdd newydd, arloesol o fuddsoddi yn ein seilwaith ym meysydd iechyd, addysg, tai, a thrafnidiaeth, ac adlewyrchir hyn yn adroddiad blynyddol cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru, yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw.

We've also sought to work closely with partners, service providers, and service users to turn our priorities into budgets. And, once again, I'm undertaking a tour to talk to a wide range of people and organisations across Wales about how we can best respond to the budget challenges we face. This is my third budget tour. This year it is called 'Investing in the Wales We Want'. It will run through until September, and the tour provides a vital link to understanding how our budget decisions impact on people's lives across Wales.

Rydym ni hefyd wedi ceisio gweithio'n agos gyda phartneriaid, darparwyr gwasanaethau, a defnyddwyr gwasanaethau i droi ein blaenoriaethau yn gyllidebau. Ac, unwaith eto, rwy'n mynd ar daith i siarad ag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau ledled Cymru am sut y gallwn ymateb orau i'r heriau cyllidebol sy'n ein hwynebu. Dyma fy nhrydedd daith gyllideb. 'Buddsoddi yn y Gymru a Garem' yw ei henw eleni. Bydd yn para tan fis Medi, ac mae'r daith yn cynnig cyswllt hanfodol i ddeall sut mae ein penderfyniadau cyllidebol yn effeithio ar fywydau pobl ledled Cymru.

My budget tour for 2015 provides an important opportunity to listen to those delivering vital public services across Wales, to understand the challenges that are being faced on a daily basis, and to incorporate the views of our partners into our spending review considerations. These events will help to provide transparency around how we're preparing for the spending review, and provide our key delivery partners and stakeholders with as much warning as possible as to the financial outlook and prospects.

Mae fy nhaith gyllideb ar gyfer 2015 yn cynnig cyfle pwysig i wrando ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ledled Cymru, i ddeall yr heriau a wynebir o ddydd i ddydd, ac i ymgorffori barn ein partneriaid yn ein hystyriaethau adolygu gwariant. Bydd y digwyddiadau hyn yn helpu i gynnig tryloywder o ran sut yr ydym ni'n paratoi ar gyfer yr adolygiad o wariant, ac yn cynnig cymaint o rybudd â phosibl i'n partneriaid darparu a'n rhanddeiliaid allweddol am y rhagolygon ariannol.

The first event of the tour took place in Aberystwyth on 18 June, when I met staff from the Hywel Dda Local Health Board, local authorities, a young apprentice, and representatives from housing associations and the third sector. There was a clear understanding of the challenging times that we're facing. I was struck by the desire from all sectors to work together to share ideas and look for opportunities to innovate. It was encouraging to learn that prevention and the importance of investing for long-term gain are themes that matter to people. We must do all we can to support our partners to work together, and I will reflect on the suggestions that will come forward throughout the tour.

Cynhaliwyd digwyddiad cyntaf y daith yn Aberystwyth ar 18 Mehefin, gwrddais i â staff o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, awdurdodau lleol, prentis ifanc, a chynrychiolwyr o gymdeithasau tai a'r trydydd sector. Roedd dealltwriaeth eglur o'r cyfnod heriol rydym ni'n ei wynebu. Cefais fy nharo gan awydd pob sector i weithio gyda'i gilydd i rannu syniadau a chwilio am gyfleoedd i arloesi. Roedd yn galonogol clywed bod atal a phwysigrwydd buddsoddi er budd hirdymor yn themâu sy'n bwysig i bobl. Mae'n rhaid i ni wneud popeth a allwn i gefnogi ein partneriaid i weithio gyda'i gilydd, a byddaf yn myfyrio ar yr awgrymiadau a fydd yn cael eu gwneud trwy gydol y daith.

As part of our planning for the spending review, we are continuing to place evidence and evaluation at the centre of our considerations, ensuring that we're spending our resources on those interventions that deliver the maximum benefits and support delivery of our outcomes. We must do all we can to increase collaboration across the Welsh public sector to drive efficiencies, improve services for citizens, and improve the resilience of services to weather the difficult financial times ahead. We've been open about the challenges we face as a result of the UK Government's austerity measures. Although we don't know yet our exact settlement, we're planning on the basis that we will face at least the same scale of cuts over the next five years as over the last. I hope to have more clarity after 8 July, but we can't put off planning until we know the outcome of the spending review. Reducing resources will require us to continue to make difficult decisions, and to support those decisions we must draw on all the evidence available to understand what is working well and to share learning and best practice and to assess the impact of budget cuts on key sectors and vulnerable people.

Yn rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer yr adolygiad o wariant, rydym ni'n parhau i sicrhau bod tystiolaeth a gwerthuso yn ganolog i'n hystyriaethau, gan sicrhau ein bod yn gwario ein hadnoddau ar yr ymyraethau hynny sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl ac yn cefnogi darpariaeth ein canlyniadau. Mae'n rhaid i ni wneud popeth a allwn i gynyddu cydweithrediad ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, i wella gwasanaethau i ddinasyddion, ac i wella cydnerthedd gwasanaethau i ddod drwy'r cyfnod ariannol anodd sydd o'n blaenau. Rydym ni wedi bod yn agored am yr heriau sy'n ein hwynebu o ganlyniad i fesurai cyni cyllidol Llywodraeth y DU. Er nad ydym yn gwybod beth yw ein setliad yn union eto, rydym ni'n cynllunio ar y sail y byddwn yn wynebu o leiaf yr un raddfa o doriadau yn ystod y pum mlynedd nesaf ag yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rwy'n gobeithio cael mwy o eglurder ar ôl 8 Gorffennaf, ond ni allwn ohirio cynllunio tan y byddwn ni'n gwybod canlyniad yr adolygiad o wariant. Bydd lleihau adnoddau yn gofyn i ni barhau i wneud penderfyniadau anodd, ac mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r penderfyniadau hynny er mwyn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda ac i rannu dysgu ac arfer gorau, ac i asesu effaith toriadau i'r gyllideb ar sectorau allweddol a phobl agored i niwed.

Responding to a prolonged period of austerity is a challenge shared by everyone working in public services. We need to work across service boundaries to ensure the integrity of public services is maintained, and that's reflected in the approach we've taken to date. For example, in relation to health services, we have acknowledged the crucial and integral contribution of social services. Our combined spend on health and social services is higher per head than the combined spend in England by 5 per cent. We will need to prioritise. Throughout this period, we've been clear about our priorities. Underpinned by our commitment to social justice and fairness, we've focused on growth and jobs, educational attainment, health and wellbeing, and supporting children, families and deprived communities.

Mae ymateb i gyfnod estynedig o gyni cyllidol yn her a rennir gan bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen i ni weithio ar draws ffiniau gwasanaeth i sicrhau y cynhelir uniondeb gwasanaethau cyhoeddus, ac adlewyrchir hynny yn y dull yr ydym ni wedi ei fabwysiadu hyd yn hyn. Er enghraifft, o ran gwasanaethau iechyd, rydym ni wedi cydnabod cyfraniad hanfodol a hollbwysig gwasanaethau cymdeithasol. Mae ein gwariant cyfunol ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn uwch fesul pen na'r gwariant cyfunol yn Lloegr o 5 y cant. Bydd angen i ni flaenoriaethu. Rydym ni wedi bod yn eglur ynghylch ein blaenoriaethau trwy gydol y cyfnod hwn. Yn seiliedig ar ein hymrwymiad i gyfiawnder a thegwch cymdeithasol, rydym ni wedi canolbwyntio ar dwf a swyddi, cyrhaeddiad addysgol, iechyd a lles, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.

Our budget plans in the autumn will also be an important step in preparing for the full implementation of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which comes into force next April. The Act has been shaped by a year-long conversation on the 'The Wales We Want'—a sustainable Wales. The Act will require all of us to think more about the long term, how we can work better with communities and with each other and how we will prevent problems and take a more joined-up approach.

Bydd ein cynlluniau cyllidebol yn yr hydref hefyd yn gam pwysig i baratoi ar gyfer gweithrediad llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a ddaw i rym fis Ebrill nesaf. Lluniwyd y Ddeddf gan sgwrs blwyddyn o hyd ar y 'Y Gymru a Garem'—Cymru gynaliadwy. Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonom ni feddwl mwy am yr hirdymor, sut y gallwn weithio'n well gyda chymunedau a gyda'n gilydd a sut y byddwn yn atal problemau ac yn mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig.

That is why, in preparing for a further round of budget cuts, it's important to ask those providing vital services, as well as those who use them, what is working well and where there is scope to drive further integration of services and greater collaboration between those responsible for providing services. In doing so, we will build on the steps that have been taken across sectors to share best practice and learning. By working together, we can, once again, produce a responsible, fair and sustainable budget, which fully supports our priorities for Wales and our principles of social justice and fairness. I'm confident the spending plans we bring forward in the autumn will be a draft budget that enables us to meet the challenges we face, investing in the Wales we want.

Dyna pam, wrth baratoi ar gyfer rownd arall o doriadau i'r gyllideb, ei bod yn bwysig gofyn i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, yn ogystal â'r rhai sy'n eu defnyddio, beth sy'n gweithio'n dda a lle mae lle i fwrw ymlaen ag integreiddiad pellach o wasanaethau a mwy o gydweithredu rhwng y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. Trwy wneud hynny, byddwn yn adeiladu ar y camau a gymerwyd ar draws sectorau i rannu arfer gorau a dysgu. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn, unwaith eto, gynhyrchu cyllideb gyfrifol, deg a chynaliadwy, sy'n cefnogi'n llawn ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru a'n hegwyddorion o gyfiawnder a thegwch cymdeithasol. Rwy'n hyderus y bydd y cynlluniau gwariant y byddwn yn eu cyflwyno yn yr hydref yn gyllideb ddrafft a fydd yn ein galluogi i ymateb i'r heriau yr ydym ni'n eu hwynebu, gan fuddsoddi yn y Gymru a garem.

14:43

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for her statement today on investing in the Wales that we want and on the update on your latest budget tour 2015. It sounds very glamorous, Minister. It's good to know that you're getting out and about and listening to stakeholders and touring with your roadshow. I also hope I can take a little bit of credit for the creation of this tour in the first place. I think it's four years now since I embarked on a bit of a tour myself of community and town councils in my area. I remember telling you about it back in 2011 in advance of the further powers referendum, so I'm glad to see that best practice is being spread.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw ar fuddsoddi yn y Gymru a garem ac ar y wybodaeth ddiweddaraf am eich taith gyllideb ddiweddaraf yn 2015. Mae'n swnio'n gyfareddol iawn, Weinidog. Mae'n braf gwybod eich bod yn mynd allan ac yn gwrando ar randdeiliaid ac yn teithio gyda'ch sioe deithiol. Rwyf innau hefyd yn gobeithio y gallaf gymryd ychydig o'r clod am greu'r daith hon yn y lle cyntaf. Rwy'n credu ei bod yn bedair blynedd bellach ers i mi gychwyn ar dipyn o daith fy hun o gwmpas cynghorau cymuned a chynghorau tref yn fy ardal i. Rwy'n cofio dweud wrthych chi am y peth yn ôl yn 2011 cyn y refferendwm pwerau ychwanegol, felly rwy'n falch o weld bod arfer gorau'n cael ei rannu.

Can I ask you, Minister—. You've mentioned this is your third tour. Quite simply, what lessons have you learned over the three-year timescale? What have you learned about effective engagement and what best practice have you developed since that initial tour? We would expect to see over that time improvement in Welsh Government engagement. You say you've listened to those delivering public services. That's a very noble aim, and something that we would hope that Welsh Government would do. I think all of us in this Chamber would agree with engagement. What have they told you? How have you modified your budget plans in the light of what you have heard? I assume that this is a two-way process, so how have you learned from each other? What did stakeholders tell you specifically about the Welsh Government funding of the health budget? I notice in your statement you refer to the budget compared with England of health and social services combined, but of course that does disguise the fact that there has been a real-terms reduction in the health budget in Wales over the last four years. I'd be interested to know what stakeholders think of that. Clearly, these are difficult times in terms of spending, and budgets are being cut because of the effect of the last UK Labour Government on the finances of Wales. That aside, though, it is a question of your priorities here, and I would like to know what the stakeholders have made of the budget cuts here.

A gaf i ofyn i chi, Weinidog—. Rydych chi wedi sôn mai hon yw eich trydedd daith. Yn syml, pa wersi ydych chi wedi eu dysgu dros y cyfnod o dair blynedd? Beth ydych chi wedi ei ddysgu am ymgysylltu effeithiol a pha arfer gorau ydych chi wedi ei ddatblygu ers y daith wreiddiol honno? Byddem yn disgwyl gweld gwelliant i ymgysylltiad Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw. Rydych chi'n dweud eich bod wedi gwrando ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hwnnw'n nod clodwiw iawn, ac yn rhywbeth y byddem yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Rwy'n credu y byddai pob un ohonom ni yn y Siambr hon yn cytuno ag ymgysylltu. Beth maen nhw wedi ei ddweud wrthych chi? Sut ydych chi wedi addasu eich cynlluniau cyllideb yng ngoleuni'r hyn yr ydych chi wedi ei glywed? Rwy'n tybio bod hon yn broses ddwy ffordd, felly sut ydych chi wedi dysgu oddi wrth eich gilydd? Beth ddywedodd rhanddeiliaid wrthych chi'n benodol am ariannu'r gyllideb iechyd gan Lywodraeth Cymru? Rwy'n sylwi yn eich datganiad eich bod yn cyfeirio at y gyllideb o'i chymharu â Lloegr o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cyfuno, ond mae hynny, wrth gwrs, yn cuddio'r ffaith y bu gostyngiad mewn termau real i'r gyllideb iechyd yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf. Byddai gen i ddiddordeb mewn gwybod beth yw barn rhanddeiliaid am hynny. Yn amlwg, mae hwn yn gyfnod anodd o ran gwariant, ac mae cyllidebau'n cael eu torri oherwydd effaith Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU ar gyllid Cymru. Ac eithrio hynny, fodd bynnag, mae'n fater o'ch blaenoriaethau yma, a hoffwn wybod beth yw barn rhanddeiliaid ar y toriadau i'r gyllideb yma.

I do agree with you, Minister: of course we want to have a fair, sustainable budget, and sustainability does require difficult choices. I hope that this does feed into your budget-setting process in a productive way in the run-up to the draft and final budgets later this year, and I look forward to further updates from you on what you plan to do to, ultimately, get the Wales we want.

Rwy'n cytuno â chi, Weinidog: wrth gwrs ein bod ni eisiau cael cyllideb deg, gynaliadwy, ac mae cynaliadwyedd yn golygu dewisiadau anodd. Rwy'n gobeithio bod hyn yn cyfrannu at eich proses o bennu cyllideb mewn ffordd gynhyrchiol yn y cyfnod yn arwain at y cyllidebau drafft a therfynol yn ddiweddarach eleni, ac edrychaf ymlaen at ddiweddariadau pellach gennych chi ar yr hyn yr ydych chi'n bwriadu ei wneud, yn y pen draw, i gael y Gymru a garem.

14:46

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Nick Ramsay. I think one of the important points about the budget tour is that I am meeting people on the front line. On Thursday, in Aberystwyth, it included a carer, it included an apprentice, as well as a consultant from the hospital, and it included people from housing, the third sector, the over-50s strategy forum, and people at the front line in terms of local authority service delivery.

Diolch i chi, Nick Ramsay. Rwy'n credu mai un o'r pwyntiau pwysig am y daith gyllideb yw fy mod i'n cyfarfod â phobl ar y rheng flaen. Ddydd Iau, yn Aberystwyth, roedd yn cynnwys gofalwr, roedd yn cynnwys prentis, yn ogystal ag ymgynghorydd o'r ysbyty, ac roedd yn cynnwys pobl o faes tai, y trydydd sector, y fforwm strategaeth dros 50 oed, a phobl ar y rheng flaen o ran darparu gwasanaethau awdurdod lleol.

But also, I then followed on from the meeting, as I will in all of the tour dates that I've got over the next few weeks, over the summer, with visits. They were visits to see the impact of our investment. It's particularly pleasing to see the capital investment that we've made through the twenty-first century schools building programme in Llandysul, where there is a three to 19-year-olds' school being built—a fantastic school being built there—and also, a new Flying Start provision in Aberporth, where, of course, I met not only the staff, but the parents and those who work at Flying Start. Again, that's testament that we were right to double the investment in Flying Start.

Ond hefyd, dilynais ymlaen o'r cyfarfod wedyn fel y byddaf ar bob un o ddyddiadau'r daith sydd gen i dros yr wythnosau nesaf, dros yr haf, gydag ymweliadau. Ymweliadau i weld effaith ein buddsoddiad oedden nhw. Mae'n arbennig o braf gweld y buddsoddiad cyfalaf rydym ni wedi ei wneud drwy'r rhaglen adeiladu ysgolion unfed ganrif ar hugain yn Llandysul, lle mae ysgol tair i 19 oed yn cael ei hadeiladu—ysgol ardderchog yn cael ei hadeiladu yno—a hefyd, darpariaeth Dechrau'n Deg newydd yn Aberporth, lle, wrth gwrs, y cefais gyfle i gyfarfod â'r staff, yn ogystal â'r rhieni a'r rhai sy'n gweithio yn Dechrau'n Deg. Unwaith eto, mae hynny'n brawf ein bod ni'n iawn i ddyblu'r buddsoddiad yn Dechrau'n Deg.

On the lessons I learned from the last tour, I did publish an end-of-budget-tour report, which I'm sure you will have seen. It provides a summary of those meetings and visits that I undertook, and it did focus on those key issues. Of course, I did, over the last year, meet over 275 people and make 14 visits. A clear message that emerged last year, and was again reflected this year, is a focus on new ways that we can work together, integrating services. Data sharing came up as a key point last week, as did a focus on prevention, early intervention and ways in which we can protect and sustain those services that work well. I think you will be very clear that listening is not enough from your tour around the town and community councils. It's actually what you do with the information that you get, and the understanding and the experience at the sharp end that you can then respond to, which I think is very much reflected in the ways in which I've been approaching the budget process—and, of course, that's with Welsh Government, in terms of my colleagues' engagement.

O ran y gwersi a ddysgais i o'r daith ddiwethaf, cyhoeddais adroddiad diwedd taith gyllideb, yr wyf yn siŵr y byddwch chi wedi ei weld. Mae'n cynnig crynodeb o'r cyfarfodydd a'r ymweliadau hynny i mi ymgymryd â nhw, ac roedd yn canolbwyntio ar y materion allweddol hynny. Wrth gwrs, fe wnes i, dros y flwyddyn ddiwethaf, gyfarfod dros 275 o bobl a gwneud 14 o ymweliadau. Neges eglur a ddaeth i'r amlwg y llynedd, ac a adlewyrchwyd eto eleni, yw pwyslais ar ffyrdd newydd y gallwn ni weithio gyda'n gilydd drwyddynt, gan integreiddio gwasanaethau. Codwyd rhannu data fel pwynt allweddol yr wythnos diwethaf, ac felly hefyd pwyslais ar atal, ymyrryd yn gynnar a ffyrdd y gallwn ddiogelu a chynnal y gwasanaethau hynny sy'n gweithio'n dda. Rwy'n meddwl y byddwch chi'n eglur iawn nad yw gwrando'n ddigon o'ch taith o gwmpas y cynghorau tref a chymuned. Yr hyn yr ydych chi'n ei wneud â'r wybodaeth a gewch sy'n bwysig, a'r ddealltwriaeth a'r profiad yn y rheng flaen y gallwch chi ymateb iddynt wedyn, a chredaf fod hynny'n cael ei adlewyrchu'n helaeth yn y ffyrdd yr wyf wedi bod yn mynd i'r afael â phroses y gyllideb—ac, wrth gwrs, mae hynny gyda Llywodraeth Cymru, o ran ymgysylltiad fy nghydweithwyr.

I do have to say that, at those meetings, we have clear discussion about the fact that we've had a £1.4 billion cut in our budget over the past five years as a result of the then coalition Government. Now, of course, two weeks later, the same Chancellor then decides to take £50 million out of our budget for this financial year. Certainly, he was Chancellor a few weeks ago, and now, he decides to take £50 million out from Wales as part of a £4 billion cut. What's going to come in the next couple of weeks on 8 July? You're going to have to take responsibility. It's your party now that's entirely in charge of our economy and the relentless adherence to fiscal reduction and austerity.

Mae'n rhaid i mi ddweud, yn y cyfarfodydd hynny, ein bod ni'n cael trafodaeth glir am y ffaith ein bod wedi cael toriad o £1.4 biliwn i'n cyllideb dros y pum mlynedd diwethaf o ganlyniad i'r Llywodraeth glymblaid ar y pryd. Nawr, wrth gwrs, bythefnos yn ddiweddarach, mae'r un Canghellor yn penderfynu wedyn cymryd £50 miliwn allan o'n cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Yn sicr, roedd yn Ganghellor ychydig wythnosau yn ôl, a nawr, mae'n penderfynu cymryd £50 miliwn allan o Gymru yn rhan o doriad o £4 biliwn. Beth sy'n mynd i ddod yn y pythefnos nesaf ar 8 Gorffennaf? Rydych chi'n mynd i orfod cymryd cyfrifoldeb. Eich plaid chi sydd â chyfrifoldeb llawn am ein heconomi erbyn hyn a'r ymlyniad di-baid i leihad a chyni cyllidol.

But, of course, at these meetings, one can say, 'Yes, health and social care'—a strong acknowledgement of the impact of the integrated intermediate health and social care fund, and the fact that it's continuing is very much welcomed, as is the engagement of housing, as well as health and social care, and a recognition that we've put over £1 billion extra into the health service in Wales, but also the challenges that that has meant in terms of addressing the priorities across the budget.

Ond, wrth gwrs, yn y cyfarfodydd hyn, gall rhywun ddweud, 'Ie, iechyd a gofal cymdeithasol'—cydnabyddiaeth gref o effaith y gronfa iechyd a gofal cymdeithasol canolraddol integredig, ac mae'r ffaith ei bod yn mynd i barhau i'w groesawu yn fawr iawn, ac felly hefyd ymgysylltiad â maes tai, yn ogystal ag iechyd a gofal cymdeithasol, a chydnabyddiaeth ein bod ni wedi rhoi dros £1 biliwn yn ychwanegol i mewn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ond hefyd yr heriau y mae hynny wedi ei olygu o ran mynd i'r afael â'r blaenoriaethau ar draws y gyllideb.

14:50

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I welcome the Minister's statement? Can I, again, remind people it was the international banking crisis that got us into the mess the country ended up in? It had nothing to do with the last Labour Government. Austerity is not working. It is stifling growth in the economy. This, in turn, is reducing the income tax take of the Government and leading to further cuts—an unvirtuous circle. The more people cut, the bigger the problem they have, as they've discovered in Greece, though I'm sure that the Conservatives want to blame the Labour Government in London for the problem in Greece.

A gaf i groesawu datganiad y Gweinidog? A gaf i, unwaith eto, atgoffa pobl mai'r argyfwng bancio rhyngwladol a gafodd ni i mewn i'r llanast yr oedd y wlad ynddi yn y pen draw? Nid oedd ganddo unrhyw beth i'w wneud â'r Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Nid yw cyni cyllidol yn gweithio. Mae'n atal twf yn yr economi. Mae hyn, yn ei dro, yn lleihau cymeriant treth incwm y Llywodraeth ac yn arwain at fwy o doriadau—cylch di-rinwedd. Po fwyaf y mae pobl yn ei dorri, po fwyaf y broblem sydd ganddyn nhw, fel maen nhw wedi ei ddarganfod yng Ngwlad Groeg, er fy mod i'n siŵr fod y Ceidwadwyr eisiau rhoi'r bai ar y Llywodraeth Lafur yn Llundain am y broblem yng Ngwlad Groeg.

Whilst the Government has done everything possible to maximise the resources available to support their priorities, this has been done against a background of substantial cuts from Westminster. While areas such as local government and further education are suffering cuts in Wales, they are not at the level of their equivalent bodies in England. I again note that Wales spends 5 per cent more per head on health and social care compared to England. Does the Minister agree that we want to reduce health demand and reduce waiting times, and to get people out of hospital as quickly as possible, and that spending on social care is the way forward, to make sure that people are kept in their home by social care expenditure, and while they're in hospital are able to go home and be looked after in their homes rather than staying in hospital for an extended period? So, does the Minister really believe that the Government's view of spending money on social care is the right way as opposed to the Conservatives' view of cutting that along with everything else?

Er bod y Llywodraeth wedi gwneud popeth posibl i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi ei blaenoriaethau, gwnaed hyn yn erbyn cefndir o doriadau sylweddol gan San Steffan. Er bod meysydd fel llywodraeth leol ac addysg bellach yn dioddef toriadau yng Nghymru, nid ydynt ar yr un lefel â'u cyrff cyfatebol yn Lloegr. Nodaf unwaith eto bod Cymru yn gwario 5 y cant yn fwy fesul pen ar iechyd a gofal cymdeithasol o'i gymharu â Lloegr. A yw'r Gweinidog yn cytuno ein bod ni eisiau lleihau'r galw ar wasanaethau iechyd a chwtogi amseroedd aros, a chael pobl allan o'r ysbyty cyn gynted â phosibl, ac mai gwario ar ofal cymdeithasol yw'r ffordd ymlaen, i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cadw yn eu cartrefi gan wariant ar ofal cymdeithasol, a, thra eu bod yn yr ysbyty, eu bod yn gallu mynd adref a chael gofal yn eu cartrefi yn hytrach nag aros yn yr ysbyty am gyfnod estynedig? Felly, a yw'r Gweinidog yn credu o ddifrif mai safbwynt y Llywodraeth o wario arian ar ofal cymdeithasol yw'r ffordd gywir yn hytrach na safbwynt y Ceidwadwyr o dorri hynny ynghyd â phopeth arall?

14:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I thank Mike Hedges for putting the record straight and for recognising the fact that we've had five years of a Tory-led Government, now taking us into another five years. with not only £12 billion of cuts to welfare benefits but also at least £12 billion cuts to our departmental budgets, which of course are already now having an adverse impact on our Welsh budget, in terms of the block grant to Wales.

Wel, diolchaf i Mike Hedges am ei dweud hi fel y mae hi ac am gydnabod y ffaith ein bod wedi cael pum mlynedd o Lywodraeth dan arweiniad y Torïaid, sydd bellach yn mynd â ni i mewn i bum mlynedd arall, gyda gwerth £12 biliwn o doriadau i fudd-daliadau lles yn ogystal ag o leiaf £12 biliwn o doriadau i'n cyllidebau adrannol, sydd wrth gwrs eisoes yn cael effaith andwyol ar ein cyllideb yng Nghymru, o ran y grant bloc i Gymru.

Also, looking at the important lessons to be learned about the ways in which investing in health has to go alongside investing in social services as well, certainly, some of the representations that were coming forward in terms of commenting on that integration of health and social care, I think—and, again, this was demonstrated in terms of the response from participants in the budget tour not just this year but last year—were very clear. There was a recognition that not only do we want to have a speedy discharge, but we want to avert admission, of course. Of course, that's why we've been able to invest in our primary healthcare services as well as in health and social care.

Hefyd, mae'n rhaid i edrych ar y gwersi pwysig i'w dysgu am y ffyrdd yr ydym ni'n buddsoddi mewn iechyd fynd ochr yn ochr â buddsoddi mewn gwasanaethau cymdeithasol hefyd, yn sicr, roedd rhai o'r sylwadau a wnaed o ran cynnig sylwadau ar integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, rwy'n credu—ac, unwaith eto, dangoswyd hyn o ran yr ymateb gan y rhai a gymerodd ran yn y daith gyllideb, nid yn unig eleni ond y llynedd—yn eglur iawn. Roedd cydnabyddiaeth nid yn unig ein bod ni eisiau rhyddhau cyflym o'r ysbyty, ond ein bod ni eisiau osgoi derbyn pobl, wrth gwrs. Wrth gwrs, dyna pam rydym ni wedi gallu buddsoddi yn ein gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol yn ogystal ag mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

I would also say there was strong support for our investment in social housing, affordable housing, and indeed in extra care, to provide the best opportunities in terms of enabling people to live independently in their own homes and settings, with care packages. So, it's an opportunity for me to hear from people on the ground what is working and in what ways we can support those who are delivering our services with reducing finance, but also to be very clear about the priorities when we face a spending review and budget setting with yet more cuts and more impacts that it will have on the delivery of our public services.

Byddwn hefyd yn dweud bod cefnogaeth gref i'n buddsoddiad mewn tai cymdeithasol, tai fforddiadwy, ac, yn wir, mewn gofal ychwanegol, i gynnig y cyfleoedd gorau o ran galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u lleoliadau eu hunain, gyda phecynnau gofal. Felly, mae'n gyfle i mi glywed gan bobl ar lawr gwlad yr hyn sy'n gweithio ac ym mha ffyrdd y gallwn ni gefnogi'r rhai sy'n darparu ein gwasanaethau gyda chyllid sy'n lleihau, ond hefyd i fod yn eglur iawn ynghylch y blaenoriaethau pan fyddwn ni'n wynebu adolygiad o wariant a phennu cyllideb gyda mwy fyth o doriadau a mwy o effeithiau y bydd yn eu cael ar ddarpariaeth ein gwasanaethau cyhoeddus.

14:54 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr am y datganiad. Mae cyfarfod cyrff sy'n gweithredu ar lawr gwlad yn rhywbeth y byddwn i'n disgwyl i Weinidog y Llywodraeth ei wneud yn gyson. Felly, sut y byddwch chi'n sicrhau bod y daith yma yn rhoi gwerth am arian, a sut y bydd hi'n bwydo i mewn i'r broses o greu cyllideb y Llywodraeth, ac nid yn ymarferiad PR?

Thank you very much for the statement. Meeting bodies that work at grass-roots level is something that I would expect a Government Minister to do regularly. So, how will you ensure that this tour provides value for money, and how will it feed into the process of setting the Government's budget, rather than being simply a PR exercise?

Fe glywais i yn glir yr hyn yr oeddech chi'n ei ddweud am y toriad sydd wedi bod i gyllideb y Llywodraeth a'r effaith anochel y mae hwnnw'n ei gael ar wasanaethau cyhoeddus—ac rwy'n cytuno â hynny—ond a fyddech chi'n gallu jest dweud yn glir iawn a oedd hi'n fwriad gan y Llywodraeth Lafur hefyd i dorri'r gyllideb yn yr etholiad cyn diwethaf a'r etholiad presennol yma? Os oedd hi, a oes gennych chi ryw syniad faint oedd 'scale' y toriadau hynny?

I heard clearly what you said about the cut that there has been to the Government's budget and the inevitable impact that that has had on public services—and I agree with that—but could you just tell us very clearly whether it was also the Labour Government's intention to cut the budget in the election before last and in the most recent election? If so, do you have any idea as to what the scale of those cuts would have been?

Rydych chi wedi cyfeirio hefyd at y toriad sydd wedi digwydd, wrth gwrs, yn ystod cyllideb y flwyddyn bresennol yma gan y Llywodraeth, sy'n werth rhyw £50 miliwn yng Nghymru, meddech chi. O ble fydd yr arian hwnnw'n dod, a pha wasanaethau fydd yn cael eu heffeithio gan y toriad hwnnw? Rydych chi'n cyfeirio hefyd, fel y dywedodd Mike Hedges—ac roeddwn i'n cytuno 100 y cant efo'r hyn ddywedodd Mike Hedges, ac mi oedd o'n pwysleisio gwerth gwasanaethau cymdeithasol—yn eich datganiad at gyfraniad allweddol y gwasanaethau cymdeithasol. Ar eich taith rownd Cymru, a wnewch chi gyfarfod â pherchnogion a rheolwyr cwmnïau a grwpiau gofal sy'n dweud yn glir wrthyf i nad ydy eu sefyllfa bresennol yn gynaliadwy, ac na fydd hi'n gynaliadwy i'r dyfodol, ac y bydd bygythiad gwirioneddol i'r gwasanaethau gofal yma—gofal yn y cartref a'r math yna o beth? Felly, a gaf i ofyn i chi: a wnewch chi gyfarfod â rhai o'r rheolwyr yma? Rwy'n hapus iawn i gyflwyno enwau ichi. Maen nhw'n awyddus iawn i gyfarfod â Gweinidogion y Llywodraeth.

You have also referred to the cut that's happened, of course, during this current year's budget by the Government, which is worth some £50 million in Wales, according to you. Where will that money come from, and which services will be affected by that cut? You also referred, as Mike Hedges said—and I agree with what Mike Hedges said100 per cent, and he did emphasise the value of social services—in your statement to the key contribution of social services. On your tour around Wales, will you meet with the owners and managers of companies and groups providing care, who have made it clear to me that their current situation is not sustainable, and that it will not be sustainable for the future, and that there will be a very real threat to those care services—care provided at home, and those sorts of services? Therefore, may I ask you: will you meet with some of these managers? I would be very happy to present you with some names. They are very keen to meet with Government Ministers.

Yn olaf, y cwestiwn y dylech chi ei ofyn yw: beth fydd canlyniadau'r toriadau yma i lywodraeth leol? Er enghraifft, yng Ngwynedd—ac mae'r un peth yn wir ym mhob sir—maen nhw'n edrych am doriadau dros y tair blynedd nesaf o £34 miliwn, o gyllideb sydd o dan £300 miliwn, wrth gwrs. Rŵan 'te, o gofio'r pwysau cynyddol yma ar y gwasanaethau cymdeithasol—fedrwch chi ddim torri dim o'r gwariant hwnnw, mewn gwirionedd—rydych chi'n edrych, felly, am doriadau o 20 y cant a mwy, y byddwn i'n tybio, mewn gwasanaethau eraill. Yn sicr, yng Ngwynedd, maen nhw'n edrych am gael gwared ar werth £9 miliwn o wasanaethau uniongyrchol—hynny ydy, ni fyddan nhw'n bod. Y cwestiwn felly yw: o gofio'ch blaenoriaethau chi fel Llywodraeth, pa wasanaethau ydych chi'n credu allai ddiflannu o dan y toriadau sy'n anochel? Rydym ni'n gwybod eu bod nhw'n digwydd. Felly, pa wasanaethau ydych chi'n meddwl ydy'r rhai y dylai llywodraeth leol gredu y gallan nhw eu gwaredu? Nid wy'n credu ei bod o'n ddigon da i'r Llywodraeth ddweud, 'Wel, mater lleol yw hwnnw'. Rwy'n credu y dylem ni gael arweiniad clir gan y Llywodraeth ar y math o doriadau yr ydych chi'n credu fydd yn llai niweidiol, os yw hynny'n bosibl, o fewn ein gwasanaethau cyhoeddus ni. Diolch.

Finally, the question you should ask is: what will the consequences of these cuts be for local government? For example, in Gwynedd—and the same is true in every county—they are looking for cuts over the next three years of £34 million, from a budget of less than £300 million, of course. Now then, bearing in mind the increasing pressures on social services—and you can't cut any of that expenditure, in reality—you're looking, therefore, at cuts of 20 per cent or more, I would guess, to other services. Certainly, in Gwynedd, they are looking to abolish £9 million-worth of directly provided services—that is, they will cease to exist. The question therefore is: given your priorities as a Government, which services do you believe could disappear as a result of these cuts, which are inevitable? We know that they're happening. So, which services do you think are those that local government should actually get rid of? I don't think it's good enough for the Government to say, 'Well, that's a local matter'. I do think that there should be a clear steer from the Government on the kinds of cuts that you believe will be less damaging, if such a thing is possible, within our public services. Thank you.

14:57

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I thank Alun Ffred Jones for those very thoughtful questions to me about the point and the impact of the budget tour. Clearly, I am covering the whole of Wales. I've got meetings and visits scheduled, where I am going to be meeting with people—including people from local government, as well, as I've said, as those in the third sector, housing and health—who are now, and have been, at the sharp end of making difficult decisions about priorities. If you look to our final budget for this financial year—which now, of course, has been attacked by this £50 million cut that's coming our way, which was unexpected and unprepared for, in terms of the announcement a couple of weeks ago and the July 8 budget—our budget was clear, as supported through this Chamber, that it was investing in health and social services and in young people, and also demonstrating a commitment to a shift towards prevention and early intervention, which, of course, quite rightly, the Finance Committee was focusing on in terms of its scrutiny.

Wel, diolchaf i Alun Ffred Jones am y cwestiynau meddylgar iawn yna i mi am bwynt ac effaith y daith gyllideb. Yn amlwg, rwy'n teithio ar draws Gymru gyfan. Rwyf wedi trefnu cyfarfodydd ac ymweliadau, lle rwy'n mynd i fod yn cyfarfod â phobl—gan gynnwys pobl o lywodraeth leol, yn ogystal, fel yr wyf wedi dweud, â'r rhai yn y trydydd sector a meysydd tai ac iechyd—sydd bellach, ac sydd wedi bod, ar flaen y gad o ran gwneud penderfyniadau anodd am flaenoriaethau. Os edrychwch chi ar ein cyllideb derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon—yr ymosodwyd arni gan y toriad o £50 miliwn sydd ar ei ffordd erbyn hyn wrth gwrs, a oedd yn annisgwyl ac na chawsom ein paratoi ar ei gyfer, o ran y cyhoeddiad wythnos neu ddwy yn ôl a chyllideb 8 Gorffennaf—roedd ein cyllideb yn eglur, fel y'i cefnogwyd drwy'r Siambr hon, ei bod yn buddsoddi mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac mewn pobl ifanc, a hefyd yn dangos ymrwymiad i symud tuag at atal ac ymyrraeth gynnar, yr oedd y Pwyllgor Cyllid, wrth gwrs, yn gwbl gywir, yn canolbwyntio arnynt o ran ei waith craffu.

I think that, in terms of local government and our support for local government and social care, we did, if you recall, continue to fight for the interests of local government in Wales. An additional £10 million we invested for social services did mean that the local government settlement for this financial year was better, on average, than local authorities were expecting. But clearly, we had evidence, particularly in terms of health spend from the Nuffield report, to make sure that we did respond in prioritising investment in health.

Rwy’n credu, o ran llywodraeth leol a'n cefnogaeth i lywodraeth leol a gofal cymdeithasol, ein bod wedi parhau, os ydych chi’n cofio, i ymladd dros fuddiannau llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd £10 miliwn ychwanegol a fuddsoddwyd gennym ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod y setliad llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn well, ar gyfartaledd, nag yr oedd awdurdodau lleol yn ei ddisgwyl. Ond yn amlwg, cawsom dystiolaeth, yn enwedig o ran gwariant iechyd o adroddiad Nuffield, i wneud yn siŵr ein bod yn ymateb o ran blaenoriaethu buddsoddiad mewn iechyd.

We have a difficult challenge in terms of meeting the in-year cut, as you questioned me on, this year, and we have to look very carefully at those data. Today, of course, I’m publishing my supplementary budget for this year, in terms of how we’re managing already not only announcements made by the UK Government, which can provide us with consequentials, which, of course, are negative as well as, on occasion, positive—. I'd be very happy—and of course I am meeting people who are at the sharp end of providing care across Wales—to, again, engage with them. For example, I know there are organisations like Care Forum Wales that do provide a very good umbrella body for the independent care sector. But, of course, I'm also meeting people already—registered social landlords and local authorities—who are providing care at the sharp end.

Mae gennym her anodd o ran bodloni’r toriad yn ystod y flwyddyn, fel y gwnaethoch chi fy holi amdano, eleni, ac mae'n rhaid i ni edrych yn ofalus iawn ar y data hwnnw. Heddiw, wrth gwrs, rwy'n cyhoeddi fy nghyllideb atodol ar gyfer eleni, o ran sut yr ydym ni eisoes yn rheoli, nid yn unig cyhoeddiadau a wneir gan Lywodraeth y DU, a all roi symiau canlyniadol i ni, sydd, wrth gwrs, yn negyddol yn ogystal â chadarnhaol, weithiau—. Byddwn yn hapus iawn—ac, wrth gwrs, rwy’n cyfarfod â phobl sydd ar y rheng flaen o ran darparu gofal ledled Cymru—i ymgysylltu â nhw unwaith eto. Er enghraifft, rwy’n gwybod y ceir sefydliadau fel Fforwm Gofal Cymru sydd yn darparu corff ymbarél da iawn ar gyfer y sector gofal annibynnol. Ond, wrth gwrs, rwyf hefyd yn cyfarfod â phobl eisoes—landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol—sydd yn darparu gofal ar y rheng flaen.

I think the quite important question you pose is about the impact of the cuts that are forthcoming. You know, we have to take on board, as we prepare for the spending review later on this year and in terms of being a responsible Government, and we again have to learn from the experience of talking to people at the sharp end about: if there are more efficiencies that we can make, well we will make them; if we can do more out of procurement, we must take this forward. Someone has reported back how important and what progress we’ve made in terms of value for money, in terms of our Wales procurement policy statement, and the fact that we can now regulate in that area is very important. But also, not just in terms of efficiencies, but opportunities like invest-to-save, community asset transfer, all these, of course, will be discussed at these meetings and visits across Wales.

Rwy'n meddwl bod y cwestiwn eithaf pwysig yr ydych chi’n ei ofyn yn ymwneud ag effaith y toriadau sydd ar fin cael eu gwneud. Hynny yw, mae'n rhaid i ni ystyried, wrth i ni baratoi ar gyfer yr adolygiad o wariant yn ddiweddarach eleni, ac o ran bod yn Llywodraeth gyfrifol, ac mae’n rhaid i ni ddysgu eto o'r profiad o siarad â phobl ar y rheng flaen ynghylch: os oes mwy o arbedion effeithlonrwydd y gallwn ni eu gwneud, wel, byddwn ni yn eu gwneud; os gallwn ni wneud mwy allan o gaffael, mae'n rhaid i ni fwrw ymlaen â hynny. Mae rhywun wedi adrodd yn ôl pa mor bwysig a pha gynnydd rydym ni wedi ei wneud o ran gwerth am arian, o ran ein datganiad polisi caffael Cymru, ac mae'r ffaith y gallwn ni reoleiddio yn y maes hwnnw erbyn hyn yn bwysig iawn. Ond hefyd, nid yn unig o ran arbedion effeithlonrwydd, ond cyfleoedd fel buddsoddi i arbed, trosglwyddo asedau cymunedol; caiff pob un o’r rhain, wrth gwrs, eu trafod yn y cyfarfodydd a’r ymweliadau hyn ledled Cymru.

15:01 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, as excited as I am about you repeating your budget tour, I am a bit disappointed at how thin on detail this statement is in terms of dates and venues and where exactly you're going and who you'll actually be speaking to. I note you refer to one group you have already spoken to, but, clearly, I think it would be useful if we knew where you are going, how many venues you are going to and what the extent of the tour is going to be. I don't really want to wait for the tour T-shirt to find out the dates and venues; I hope that perhaps we can have more detail on that in answer to my questions or, possibly, at some future date. And I'd also suggest that, given Mike Hedges's comments, you may also want to take Greece into that tour as well, so you can see what actually happens when you try to ignore the economic situation and plough on regardless. I think that is something that does need to be taken into account.

Weinidog, er fy mod i wrth fy modd eich bod yn ailadrodd eich taith gyllideb, rwyf braidd yn siomedig am ba mor brin o fanylion yw’r datganiad hwn o ran y dyddiadau a'r lleoliadau a ble yn union yr ydych chi'n mynd a phwy y byddwch chi’n siarad â nhw mewn gwirionedd. Sylwaf eich bod yn cyfeirio at un grŵp yr ydych chi wedi siarad ag ef eisoes, ond, yn amlwg, rwy’n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe byddem ni’n gwybod ble rydych chi’n mynd, faint o leoliadau yr ydych chi’n mynd iddyn nhw a beth fydd hyd y daith. Nid wyf i wir eisiau aros am y grys-T y daith i ddarganfod beth yw’r dyddiadau a'r lleoliadau; rwy'n gobeithio efallai y gallwn ni gael rhagor o fanylion am hynny mewn ateb i fy nghwestiynau, neu, o bosibl, rywbryd yn y dyfodol. A byddwn hefyd yn awgrymu, o ystyried sylwadau Mike Hedges, efallai y byddwch chi hefyd eisiau cynnwys Gwlad Groeg yn y daith honno hefyd, fel y gallwch chi weld beth sydd wir yn digwydd pan fyddwch chi’n ceisio anwybyddu'r sefyllfa economaidd a bwrw ymlaen heb ei hystyried. Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae angen ei gymryd i ystyriaeth.

Minister, I have just three questions, really. In terms of the supplementary budget that you'll be publishing later today, can you confirm whether that supplementary budget will contain details of how you will find the £50 million in-year cuts that have been imposed on the Government by the Chancellor of the Exchequer? And, if not, when will you have details of how you will be accommodating or trying to accommodate that reduction in your budget?

Weinidog, dim ond tri chwestiwn sydd gen i, mewn gwirionedd. O ran y gyllideb atodol y byddwch chi’n ei chyhoeddi’n ddiweddarach heddiw, a allwch chi gadarnhau a fydd y gyllideb atodol honno’n cynnwys manylion sut y byddwch chi’n dod o hyd i'r toriadau o £50 miliwn y flwyddyn sydd wedi cael eu gorfodi ar y Llywodraeth gan Ganghellor y Trysorlys? Ac, os na allwch, pryd fydd gennych chi fanylion am sut y byddwch chi’n darparu ar gyfer y gostyngiad hwnnw yn eich cyllideb, neu’n ceisio darparu ar ei gyfer?

Secondly, when you're on tour, can I suggest that you talk to as many providers as possible around preventative spend, which is an issue that the Finance Committee has been particularly keen to look at, and, in particular, the value that many providers find in Supporting People in terms of a sort of Government spending that actually helps to offset other expenditure and actually produces real savings, I think, for this Government and for local authorities, so that when we come to have the new budget, that is taken account of?

Yn ail, pan fyddwch chi ar daith, a gaf i awgrymu eich bod yn siarad â chymaint o ddarparwyr â phosibl o ran gwariant ataliol, sy'n fater y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn arbennig o awyddus i’w ystyried, ac, yn enwedig, y gwerth y mae llawer o ddarparwyr yn dod o hyd iddo yn Cefnogi Pobl o ran rhyw fath o wariant Llywodraeth sydd wir yn helpu i wrthbwyso gwariant arall ac yn cynhyrchu arbedion gwirioneddol, rwy’n meddwl, i'r Llywodraeth hon ac i awdurdodau lleol, fel bod hynny’n cael ei gymryd i ystyriaeth pan fyddwn yn cael y gyllideb newydd?

And finally, Minister, I don't think I heard you mention talking to businesses at all. I heard you mentioning in the response to the last set of questions that you were looking at procurement. I think it's important, when you do talk to people about procurement, that you do talk to local businesses about their impression of how procurement is working out in terms of local authorities and whether contracts that local authorities design actually do assist local companies in bidding for them—on a level playing field, it has to be said—in actually making sure that they don't exclude local companies from bidding for those contracts and ensuring that procurement enables suppliers to be local, rather than having to go outside Wales to supply goods and services. Thank you.

Ac yn olaf, Weinidog, nid wyf yn credu i mi eich clywed chi’n sôn am siarad â busnesau o gwbl. Clywais chi'n sôn yn yr ymateb i'r gyfres ddiwethaf o gwestiynau eich bod yn edrych ar gaffael. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, pan fyddwch chi yn siarad â phobl am gaffael, eich bod yn siarad â busnesau lleol am eu hargraff o sut mae caffael yn gweithio o ran awdurdodau lleol a pha un a yw contractau y mae awdurdodau lleol yn eu cynllunio wir yn cynorthwyo cwmnïau lleol wrth wneud cais amdanynt—ar sail gyfartal, mae'n rhaid dweud—o ran gwneud yn siŵr nad ydynt yn eithrio cwmnïau lleol rhag cynnig am y contractau hynny a sicrhau bod caffael yn galluogi cyflenwyr i fod yn lleol, yn hytrach na gorfod mynd y tu allan i Gymru i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau. Diolch yn fawr.

15:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Peter Black. Well, you will be glad to hear that I shall be in your neck of the woods—well, in Swansea—on 23 July, but I will publish the list of venues and places that I'm going and visiting. Of course, it is very important that these are meetings for those at the front line who had been invited to come, but I'm sure, and I hope, that—. You know, my first meeting was last week, and we also accompanied that with visits where I met a number of people, and I'm sure there'll be some local publicity as a result of that, in terms of the projects that we were visiting.

Diolch yn fawr iawn, Peter Black. Wel, byddwch yn falch o glywed y byddaf yn eich ardal chi—wel, yn Abertawe—ar 23 Gorffennaf, ond byddaf yn cyhoeddi'r rhestr o leoliadau a lleoedd yr wyf yn mynd i ymweld â nhw. Wrth gwrs, mae'n bwysig iawn bod y rhain yn gyfarfodydd ar gyfer y rhai ar y rheng flaen a wahoddwyd i ddod, ond rwy'n siŵr, ac rwy'n gobeithio—. Wyddoch chi, roedd fy nghyfarfod cyntaf i yr wythnos diwethaf, ac ategwyd hynny gennym hefyd gydag ymweliadau lle cyfarfûm â nifer o bobl, ac rwy'n siŵr y bydd y bydd rhywfaint o gyhoeddusrwydd lleol o ganlyniad i hynny, o ran y prosiectau yr oeddem ni'n ymweld â nhw.

In answer to your question, my supplementary budget will of course account for how we are managing up to this point of the financial year, and of course that has to be brought forward in terms of the consequentials announced by the Chancellor in the March budget for this financial year. Any consequentials from any statement—autumn or budget—would be acknowledged in the supplementary budget. You'll have a chance to scrutinise me on that in terms of the Finance Committee. Clearly, as to the difficult decisions that we have to make in terms of finding the £50 million, I will be reporting to the Senedd on that in due course.

I ateb eich cwestiwn, bydd fy nghyllideb atodol, wrth gwrs, yn ystyried sut yr ydym ni'n ymdopi hyd at y pwynt hwn yn y flwyddyn ariannol, ac wrth gwrs mae'n rhaid dwyn hynny ymlaen o ran y symiau canlyniadol a gyhoeddwyd gan y Canghellor yng nghyllideb mis Mawrth ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Byddai unrhyw symiau canlyniadol o unrhyw ddatganiad—hydref neu gyllideb—yn cael eu cydnabod yn y gyllideb atodol. Bydd cyfle i chi graffu arnaf i yn hynny o beth drwy'r Pwyllgor Cyllid. Yn amlwg, o ran y penderfyniadau anodd y mae'n rhaid i ni eu gwneud o ran dod o hyd i'r £50 miliwn, byddaf yn adrodd i'r Senedd ar hynny maes o law.

Your point about prevention is very well taken. It's already a key theme in terms of budget setting, but also, with these visits and discussions with people on the front line, we can and are identifying where they feel we should invest in prevention, and that will form part of my report. Of course, we have had five years of managing cuts, of that £1.4 billion, and managing those cuts responsibly and making sure that we're clear on our principles and priorities and programme for government. I think, in terms of consulting with business, this is very much to do with how we meet people on the front line in delivery of public services and the third sector and in communities, but I am very engaged with business in terms of delivering on procurement. You know that I'm meeting shortly with the procurement board. They are also engaging more, and you made a very valuable point recently about how they engage with the business sector. Also, of course, last week, I was very glad to launch with Joyce Watson a very important report on procurement in construction, which was well attended by the private sector, particularly in construction.

Rwy'n croesawu eich pwynt ar atal yn fawr iawn. Mae eisoes yn thema allweddol o ran pennu'r gyllideb, ond hefyd, gyda'r ymweliadau hyn a thrafodaethau gyda phobl ar y rheng flaen, gallwn ac rydym yn nodi lle maen nhw'n teimlo y dylem ni fuddsoddi mewn atal, a bydd hynny'n rhan o fy adroddiad. Wrth gwrs, rydym ni wedi cael pum mlynedd o reoli toriadau, yr £1.4 biliwn hwnnw, a rheoli'r toriadau hynny'n gyfrifol a gwneud yn siŵr ein bod yn eglur ynghylch ein hegwyddorion a'n blaenoriaethau a'n rhaglen lywodraethu. Rwy'n credu, o ran ymgynghori â busnes, bod hyn yn ymwneud yn fawr iawn â sut yr ydym ni'n cyfarfod â phobl ar y rheng flaen o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector ac mewn cymunedau, ond rwy'n ymgysylltu'n helaeth â busnes o ran caffael. Rydych chi'n gwybod fy mod i'n cyfarfod â'r bwrdd caffael yn fuan. Maen nhw hefyd yn ymgysylltu mwy, a gwnaethoch bwynt gwerthfawr iawn yn ddiweddar ynghylch sut y maen nhw'n ymgysylltu â'r sector busnes. Hefyd, wrth gwrs, yr wythnos diwethaf, roeddwn i'n falch iawn o lansio gyda Joyce Watson adroddiad pwysig iawn ar gaffael mewn adeiladu, yr oedd nifer o bobl o'r sector preifat yn bresennol ynddo, yn enwedig o'r diwydiant adeiladu.

15:07 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Tories on the opposite benches laugh at the proposal that their UK Government colleagues have failed to regulate the banks, and we could once again see the economy pulled down by their gambling activities. We can only work with the money we get from the UK Government, so I strongly support you, Minister, in your tour of Wales to see how we can deliver some services more cost-effectively with less money by sharing ideas and opportunities to innovate. I'm certain, having accompanied you last time, last year, to visit a Flying Start in my area, that it wasn't inspired by the Member for Monmouth. I just wanted to focus on the particular cuts that we can expect in in-work benefits, particularly working families tax credits and child tax credits, which are what enables families with children to go out to work. How are we going to be able to address that and the cost of childcare so that it is not such a barrier for people who are not able to earn large sums of money?

Mae'r Torïaid ar y meinciau gyferbyn yn chwerthin ar yr awgrym bod eu cydweithwyr yn Llywodraeth y DU wedi methu â rheoleiddio'r banciau, ac y gallem ni weld yr economi'n cael ei thynnu i lawr gan eu gweithgareddau gamblo unwaith eto. Ni allwn ond gweithio gyda'r arian rydym ni'n ei gael gan Lywodraeth y DU, felly rwy'n eich cefnogi'n gryf, Weinidog, yn eich taith o gwmpas Cymru i weld sut y gallwn ni ddarparu rhai gwasanaethau'n fwy cost-effeithiol gyda llai o arian trwy rannu syniadau a chyfleoedd i arloesi. Rwy'n sicr, ar ôl dod gyda chi y tro diwethaf, y llynedd, i ymweld â Dechrau'n Deg yn fy ardal i, na chafodd ei ysbrydoli gan yr Aelod dros Fynwy. Roeddwn ni eisiau canolbwyntio ar y toriadau penodol y gallwn ni eu disgwyl i fudd-daliadau mewn gwaith, yn enwedig credydau treth i deuluoedd sy'n gweithio a chredydau treth plant, sef yr hyn sy'n galluogi teuluoedd â phlant i fynd allan i weithio. Sut ydym ni'n mynd i allu mynd i'r afael â hynny a chost gofal plant fel nad yw'n gymaint o rwystr i bobl nad ydynt yn gallu ennill symiau mawr o arian?

I just wondered what consideration has been given to how we can use community-focused schools more effectively in ensuring that they're open at all times of the working day, as well as the role that the voluntary sector can play in delivering a greater provision of childcare so that more people can go out to work and not suffer too much from the cuts that are no doubt going to be announced by the Government on 8 July.

Roeddwn i'n meddwl tybed pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i sut y gallwn ni ddefnyddio ysgolion bro yn fwy effeithiol o ran sicrhau eu bod ar agor ar bob adeg o'r diwrnod gwaith, yn ogystal â'r swyddogaeth y gall y sector gwirfoddol ei chyflawni o ran darparu mwy o ddarpariaeth o ofal plant fel y gall mwy o bobl fynd allan i weithio heb ddioddef gormod o'r toriadau sydd heb os yn mynd i gael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth ar 8 Gorffennaf.

15:09 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Jenny Rathbone. I think you are absolutely right: it is how we can, together with those in the front line, deliver our priority services that do work and which deliver more cost-effectively and with less money. But it isn't an easy discussion to have because, clearly, people, groups, individuals and communities have lost out as a result of the £1.4 billion of cuts that we've had to make, which have come our way and impacted on the budget decisions we have made. I was very struck, in looking at the big demonstration in London last week, on Saturday—the anti-austerity demonstration—how many young people were there, with one placard from a 15-year-old saying 'Your cuts, our future'. We've got to recognise that this is what the impact of these forthcoming—let alone what we've had—cuts are going to be.

Diolch i chi, Jenny Rathbone. Rwy'n meddwl eich bod chi yn llygad eich lle: dyma sut y gallwn ni, ynghyd â'r rheini ar y rheng flaen, ddarparu ein gwasanaethau blaenoriaeth sy'n gwneud gwaith ac sy'n darparu'n fwy cost-effeithiol a chyda llai o arian. Ond nid yw'n drafodaeth hawdd ei chael oherwydd, yn amlwg, mae pobl, grwpiau, unigolion a chymunedau wedi dioddef o ganlyniad i'r £1.4 biliwn o doriadau yr ydym ni wedi gorfod eu gwneud, sydd wedi dod i'n cyfeiriad ac wedi effeithio ar y penderfyniadau cyllidebol rydym ni wedi eu gwneud. Cefais fy nharo'n fawr, wrth edrych ar y brotest fawr yn Llundain yr wythnos diwethaf, ddydd Sadwrn—y brotest yn erbyn cyni cyllidol—faint o bobl ifanc oedd yno, gydag un arwydd gan berson ifanc 15 mlwydd oed yn dweud 'Your cuts, our future'. Mae'n rhaid i ni gydnabod mai dyma beth fydd effaith y toriadau newydd hyn—heb sôn am y rhai yr ydym ni wedi eu cael.

But, we can do things with what we've got here in Wales, with community-focused schools, working very closely with the childcare sector, with the Minister for Communities and Tackling Poverty, and in ways in which we can demonstrate, as we do around Wales, how we can integrate Flying Start in our schools, with free breakfast schemes and with after-school provision in order to find a way forward to have sustainable and affordable childcare. That is the important benefit of having these visits and these meetings with people at the front line. I think the frightening impact of what will happen in terms of in-work poverty, in terms of the announcements that are going to be forthcoming very shortly, with the £12 billion cuts for welfare benefits and what that could mean in terms of cuts to in-work benefits, on our poorest families and, indeed, on our children in Wales is obviously of great worry to us all.

Ond, gallwn wneud pethau gyda'r hyn sydd gennym ni yma yng Nghymru, gydag ysgolion bro, gan weithio'n agos iawn gyda'r sector gofal plant, gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, ac mewn ffyrdd y gallwn ni ddangos, fel rydym ni'n ei wneud ledled Cymru, sut y gallwn ni integreiddio Dechrau'n Deg yn ein hysgolion, gyda chynlluniau brecwast am ddim a chyda darpariaeth ar ôl ysgol er mwyn dod o hyd i ffordd ymlaen i gael gofal plant cynaliadwy a fforddiadwy. Dyna'r fantais bwysig o gael yr ymweliadau hyn a'r cyfarfodydd hyn gyda phobl ar y rheng flaen. Rwy'n meddwl bod effaith frawychus yr hyn a fydd yn digwydd o ran tlodi mewn gwaith, o ran y cyhoeddiadau sy'n mynd i gael eu gwneud yn fuan iawn, gyda'r toriadau o £12 biliwn i fudd-daliadau lles a'r hyn y gallai hynny ei olygu o ran toriadau i fudd-daliadau mewn gwaith, ar ein teuluoedd tlotaf ac, yn wir, ar ein plant yng Nghymru, yn amlwg yn destun pryder mawr i bob un ohonom.

15:11

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:11

## 4. Datganiad: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2015

## 4. Statement: Wales Infrastructure Investment Plan for Wales Annual Report 2015

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move on to item 4, which is another statement by the Minister for Finance and Government Business, on the Wales infrastructure investment plan for Wales annual report 2015. I call on the Minister, Jane Hutt.

Symudwn ymlaen at eitem 4 nawr, sef datganiad arall gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, ar adroddiad blynyddol 2015 cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

15:11

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, when I first launched the Wales infrastructure investment plan in 2012, I signalled a more strategic and focused approach for infrastructure development in Wales. Through the plan, the Government has set a clear direction for capital investment in Wales, shaped around seven investment priorities and based on collaboration. Central to the plan was a commitment to maximise capital resources that we had available to us and maximising the social and economic impact of our infrastructure projects. Today, I have published the latest annual report, setting out the significant progress that we've made.

Lywydd, pan lansiais i y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru gyntaf yn 2012, cyflwynais ddull mwy strategol gyda phwyslais o ddatblygu seilwaith yng Nghymru. Drwy'r cynllun, mae'r Llywodraeth wedi gosod cyfeiriad eglur ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yng Nghymru, wedi'i lunio ar saith blaenoriaeth fuddsoddi ac yn seiliedig ar gydweithredu. Roedd ymrwymiad i wneud y mwyaf o adnoddau cyfalaf a oedd ar gael i ni a gwneud y mwyaf o effaith gymdeithasol ac economaidd ein prosiectau seilwaith yn ganolog i'r cynllun. Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad blynyddol diweddaraf, gan nodi'r cynnydd sylweddol yr ydym ni wedi ei wneud.

It is evident that our approach is delivering for Wales. Through our focus and commitment, we have boosted levels of investment, despite the UK Government's cuts, and targeted this towards infrastructure projects, with an economic stimulus approach that is helping to increase and sustain growth and jobs and to deliver modernised public services in Wales.

Mae'n amlwg bod ein dull yn cyflawni dros Gymru. Trwy ein pwyslais a'n hymrwymiad, rydym ni wedi rhoi hwb i lefelau buddsoddi, er gwaethaf toriadau Llywodraeth y DU, ac wedi targedu hyn at brosiectau seilwaith, gyda dull ysgogiad economaidd sy'n helpu i gynyddu a chynnal twf a swyddi ac i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus wedi'u moderneiddio yng Nghymru.

The UK Government's cuts to the capital budget have been unprecedented. Our capital budget in this financial year, 2015-16, is 30 per cent lower in real terms than at its peak in 2009-10. In reflecting this, our published budget plans for this period presented a daunting picture of declining departmental capital budgets, with all indications pointing to more cuts to come. However, we have not allowed these cuts to define our capital ambitions. Instead, we have looked at every opportunity to supplement our capital resources and boost spending on infrastructure in Wales. Through additional allocations to departments and developing new innovative sources of funding, our plans are on track to provide additional investment of £3.6 billion across Wales. The impact of that investment can be seen the length and breadth of Wales in a range of projects and the economic contribution this investment makes.

Mae toriadau Llywodraeth y DU i'r gyllideb cyfalaf wedi bod yn ddigynsail. Mae ein cyllideb cyfalaf yn y flwyddyn ariannol hon, 2015-16, 30 y cant yn is mewn termau real nag ar ei hanterth yn 2009-10. Gan adlewyrchu hyn, cyflwynodd ein cynlluniau cyllideb cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod hwn ddarlun brawychus o gyllidebau cyfalaf adrannol dirywiol, gyda'r holl arwyddion yn awgrymu mwy o doriadau i ddod. Fodd bynnag, nid ydym ni wedi caniatáu i'r toriadau hyn ddiffinio ein huchelgeisiau cyfalaf. Yn hytrach, rydym ni wedi edrych ar bob cyfle i ategu ein hadnoddau cyfalaf a rhoi hwb i wariant ar seilwaith yng Nghymru. Trwy ddyraniadau ychwanegol i adrannau a datblygu ffynonellau cyllid newydd arloesol, mae ein cynlluniau ar y trywydd iawn i ddarparu buddsoddiad ychwanegol o £3.6 biliwn ar draws Cymru. Gellir gweld effaith y buddsoddiad hwnnw ar hyd a lled Cymru mewn amrywiaeth o brosiectau a'r cyfraniad economaidd y mae'r buddsoddiad hwn yn ei wneud.

We have developed a major programme of innovative finance schemes. We have already implemented around £0.5 billion of innovative finance schemes to invest in housing, schools and highway projects across Wales, through the housing finance grant and the local government borrowing initiative, continuing to deliver our priorities despite budget cuts.

Rydym ni wedi datblygu rhaglen fawr o gynlluniau cyllid arloesol. Rydym ni eisoes wedi cyflwyno tua £0.5 biliwn o gynlluniau cyllid arloesol i fuddsoddi mewn tai, ysgolion a phrosiectau priffyrdd ledled Cymru, drwy'r grant cyllid tai a'r fenter benthyca llywodraeth leol, gan barhau i gyflawni ein blaenoriaethau er gwaethaf toriadau i'r gyllideb.

I have also announced a forward pipeline of projects, forming an investment programme of a further £1.9 billion, which will provide vital economic and social infrastructure across Wales. Part of this programme will be delivered through the non-profit distributing—NPD—investment model. Our NPD schemes will allow us to develop specialist cancer care facilities that will enhance the work of Velindre NHS Trust and they will allow us to complete the dualling of the A465. They will also support a new wave of investment in our schools. In addition, we are developing innovative finance schemes to invest in flood and coastal risk management, and to extend provision of social and affordable housing through the housing finance grant. This, along with the £500 million of borrowing capability that is contained within the Wales Act 2014, completes our current programme.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi cyfres o brosiectau ar gyfer y dyfodol, sy'n ffurfio rhaglen fuddsoddi o £1.9 biliwn arall, a fydd yn darparu seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol ledled Cymru. Bydd rhan o'r rhaglen hon yn cael ei darparu drwy'r model buddsoddi dosbarthu dielw—NPD. Bydd ein cynlluniau NPD yn ein galluogi i ddatblygu cyfleusterau gofal canser arbenigol a fydd yn gwella gwaith Ymddiriedolaeth GIG Felindre a byddant yn ein galluogi ni i gwblhau gwaith deuoli'r A465. Byddant hefyd yn cefnogi cam newydd o fuddsoddiad yn ein hysgolion. Hefyd, rydym ni'n datblygu cynlluniau cyllid arloesol i fuddsoddi mewn rheoli perygl llifogydd ac arfordirol, ac i ymestyn y ddarpariaeth o dai cymdeithasol a fforddiadwy drwy'r grant cyllid tai. Mae hyn, ynghyd â'r gallu i fenthyg £500 miliwn sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Cymru 2014, yn cwblhau ein rhaglen bresennol.

When we have completed all of these initiatives, we will have delivered nearly £2.5 billion of additional investment. This is over and above the funding that we receive from the UK Government. We have also continued to explore European sources of funding to help deliver our priorities and enhance our budget. European funding has already supported projects across Wales and is helping to make a positive difference to communities. Last week, I provided an update on President Juncker's European fund for strategic investment and how it might benefit Wales. I've identified schemes that could benefit from the EFSI or other instruments, including dualling sections 5 and 6 of the A465 scheme, the Green Growth programme, the tidal lagoon schemes, Energy Island projects and the metro. We can use our own funds and our investment plans to lever in additional funds. With next generation broadband Wales, for example, we've worked in partnership with BT to improve vital communication networks both to businesses and households across Wales.

Pan fyddwn ni wedi cwblhau pob un o'r mentrau hyn, byddwn wedi darparu bron i £2.5 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol. Mae hyn yn ychwanegol i'r cyllid a gawn gan Lywodraeth y DU. Rydym ni hefyd wedi parhau i archwilio ffynonellau Ewropeaidd o gyllid i helpu i gyflawni ein blaenoriaethau a gwella ein cyllideb. Mae cyllid Ewropeaidd eisoes wedi cefnogi prosiectau ledled Cymru ac yn helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau. Yr wythnos diwethaf, rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf am gronfa Ewropeaidd Arlywydd Juncker ar gyfer buddsoddi strategol a sut y gallai fod o fudd i Gymru. Rwyf wedi nodi cynlluniau a allai elwa o'r EFSI neu offerynnau eraill, gan gynnwys adrannau deuoli 5 a 6 y cynllun A465, y rhaglen Twf Gwyrdd, y cynlluniau morlyn llanw, prosiectau Ynys Ynni a'r metro. Gallwn ddefnyddio ein cyllid ein hunain a'n cynlluniau buddsoddi i ddenu arian ychwanegol. O ran band eang cenhedlaeth nesaf i Gymru, er enghraifft, rydym ni wedi gweithio mewn partneriaeth â BT i wella rhwydweithiau cyfathrebu hanfodol i fusnesau a chartrefi ledled Cymru.

Taken together, these represent a significant boost to our capital plans and a significant boost to the economy, but all evidence highlights that we can maximise the impact of our investment by the way in which we invest our resources. So, the priorities and approaches set out in the plan have helped to shape our capital spending plans since 2012. Against a backdrop of cuts, we've strengthened our approach to prioritising between projects and improved our approach to business assurance. We've used these approaches to allocate an additional £1.2 billion of funding, over and above core departmental budgets, to projects that support our WIIP priorities and which provide real benefits to people across Wales.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cynrychioli hwb sylweddol i'n cynlluniau cyfalaf a hwb sylweddol i'r economi, ond mae'r holl dystiolaeth yn dangos y gallwn ni sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'n buddsoddiad drwy'r ffordd rydym ni'n buddsoddi ein hadnoddau. Felly, mae'r blaenoriaethau a'r dulliau a amlinellir yn y cynllun wedi helpu i lunio ein cynlluniau gwario cyfalaf ers 2012.Yn erbyn cefndir o doriadau, rydym ni wedi cryfhau ein dull o flaenoriaethu rhwng prosiectau ac wedi gwella ein dull o ran sicrwydd busnes. Rydym ni wedi defnyddio'r dulliau hyn i ddyrannu £1.2 biliwn ychwanegol o gyllid, yn ychwanegol at gyllidebau adrannol craidd, i brosiectau sy'n cefnogi ein blaenoriaethau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac sy'n darparu manteision gwirioneddol i bobl ledled Cymru.

Since our plan was launched, we've increased investment in housing and regeneration by over £350 million. We have boosted our investment in our education estate by £128 million to deliver learning facilities that will help support better educational outcomes for our young people. Our investment in health infrastructure has been increased by over £153 million, including investment in the Noah's Ark Children's Hospital for Wales, providing dedicated facilities to support children's surgical, diagnostic, outpatient and critical care services. There's been in the region of £45 million for flood and coastal defences and over £300 million to improve our transport networks.

Ers lansio ein cynllun, rydym ni wedi cynyddu buddsoddiad mewn tai ac adfywio o fwy na £350 miliwn. Rydym ni wedi rhoi hwb i'n buddsoddiad yn ein hystâd addysg o £128 miliwn i ddarparu cyfleusterau dysgu a fydd yn helpu i gefnogi gwell canlyniadau addysgol i'n pobl ifanc. Cynyddwyd ein buddsoddiad mewn seilwaith iechyd o fwy na £153 miliwn, gan gynnwys buddsoddiad yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, gan ddarparu cyfleusterau pwrpasol i gefnogi gwasanaethau llawfeddygol, diagnostig, cleifion allanol a gofal critigol. Bu tua £45 miliwn ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol a dros £300 miliwn i wella ein rhwydweithiau trafnidiaeth.

The projects that we invest in are making a major contribution to the delivery of our service priorities. For example, £19 million of additional capital funding has been provided to support the doubling of Flying Start. This has supported schemes such as the Flying Start centre at Bryn Deva primary school, helping families give their children the best possible start in life. Projects that we support are winning awards, such as at the recent Construction Excellence in Wales awards event, where amongst those recognised was the Penarth Learning Community, winning the integration and collaborative working award, as well as the project of the year.

Mae'r prosiectau yr ydym ni'n buddsoddi ynddynt yn gwneud cyfraniad mawr at gyflawni ein blaenoriaethau gwasanaeth. Er enghraifft, darparwyd £19 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol i gefnogi dyblu Dechrau'n Deg. Mae hyn wedi cefnogi cynlluniau fel y ganolfan Dechrau'n Deg yn ysgol gynradd Bryn Deva, gan helpu teuluoedd i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'w plant. Mae prosiectau yr ydym ni'n eu cefnogi yn ennill gwobrau, fel yn nigwyddiad gwobrwyo diweddar Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru, lle'r oedd Cymuned Ddysgu Penarth ymhlith y rhai a gydnabuwyd, gan ennill y wobr integreiddio a gweithio ar y cyd, yn ogystal â phrosiect y flwyddyn.

Throughout our investment, we've looked to deliver the maximum benefits across all of our priorities. Our community benefits approach is a prime example of how we can deliver benefits that go beyond the immediate construction jobs and beyond the bricks and mortar of our projects. This approach helps to ensure that we maximise the jobs in Wales, deliver lasting training and provide the widest benefit to communities. This is reflected in my refreshed Wales procurement policy statement published this month.

Trwy gydol ein buddsoddiad, rydym ni wedi ceisio darparu'r manteision mwyaf posibl ar draws pob un o'n blaenoriaethau. Mae ein dull manteision cymunedol yn enghraifft wych o sut y gallwn sicrhau manteision sy'n mynd y tu hwnt i'r swyddi adeiladu uniongyrchol a thu hwnt i frics a morter ein prosiectau. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn cael cymaint o swyddi â phosibl yng Nghymru, yn darparu hyfforddiant sy'n para ac yn darparu'r budd ehangaf i gymunedau. Adlewyrchir hyn yn fy natganiad polisi caffael Cymru ar ei newydd wedd a gyhoeddwyd y mis hwn.

With the publication of the Wales infrastructure investment plan, I signalled a change to how we plan, manage and deliver our capital projects. It acknowledged the impact that spending our money effectively can have. It stressed the importance of working closely with our partners in the public and private sectors to achieve our goal. The pipeline and its regular updates have provided information to a wide range of stakeholders. We've regularly expanded the pipeline to give a comprehensive picture of infrastructure investment in Wales. It supports private and public sector decision making, facilitates strategic planning and promotes collaboration.

Wrth gyhoeddi cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, cyflwynais newid i'r ffordd rydym ni'n cynllunio, yn rheoli ac yn darparu ein prosiectau cyfalaf. Roedd yn cydnabod yr effaith y gall gwario ein harian yn effeithiol ei chael. Pwysleisiodd bwysigrwydd gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i gyrraedd ein nod. Mae'r biblinell a'i diweddariadau rheolaidd wedi darparu gwybodaeth i amrywiaeth eang o randdeiliaid. Rydym ni wedi ehangu'r biblinell yn rheolaidd i roi darlun cynhwysfawr o fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru. Mae'n cefnogi gwneud penderfyniadau yn y sectorau preifat a chyhoeddus, yn hwyluso cynllunio strategol ac yn hyrwyddo cydweithrediad.

The seventh project pipeline update is published today as part of the annual report. We've looked to improve the pipeline at each update, and this year I'm making it more accessible by improving the ease with which partners can access and use the information. Collaboration with our partners and stakeholders is at the heart of our approach to infrastructure investment, and I look forward to building on these valued relationships during the coming year. The annual report provides a clear demonstration that we're both achieving the goals set out within the Wales infrastructure investment plan and helping to deliver economic and social benefits for the people of Wales.

Cyhoeddir y seithfed diweddariad i'r biblinell prosiectau heddiw yn rhan o'r adroddiad blynyddol. Rydym ni wedi ceisio gwella'r biblinell ym mhob diweddariad, ac rwy'n ei gwneud yn fwy hygyrch eleni trwy wella pa mor rhwydd y gall partneriaid gael mynediad at y wybodaeth a'i defnyddio. Mae cydweithrediad â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid yn ganolog i'n dull o fuddsoddi mewn seilwaith, ac edrychaf ymlaen at adeiladu ar y cysylltiadau gwerthfawr hyn yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi arwydd eglur ein bod yn bodloni'r nodau a amlinellir yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ac yn helpu i sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol i bobl Cymru.

Earlier this month, the new UK Government announced a £50 million in-year cut to our budget, which had been approved by the National Assembly in December. The UK Government is indicating that the financial constraints will continue and we await the 8 July budget to assess impacts for this year and in the forthcoming spending review. So, it's now more important than ever that we supplement our core capital budget, using innovative approaches and that we steer resources towards meeting the priorities set out in our plan. Our commitment to growth and jobs remains steadfast and I will continue to explore opportunities to increase funding for Wales. We will take advantage continually, too, of the agility and the flexibility we have within Wales to create the investment opportunities to support growth and jobs, continuing with an economic stimulus approach to boost our infrastructure and deliver our public services and economy.

Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd Llywodraeth newydd y DU doriad o £50 miliwn yn ystod y flwyddyn i'n cyllideb, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr. Mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd y cyfyngiadau ariannol yn parhau ac rydym ni'n aros am gyllideb 8 Gorffennaf i asesu effeithiau ar gyfer y flwyddyn hon ac yn yr adolygiad o wariant sydd ar ddod. Felly, mae'n bwysicach nag erioed erbyn hyn ein bod yn ychwanegu at ein cyllideb cyfalaf graidd, gan ddefnyddio dulliau arloesol a'n bod yn llywio adnoddau tuag at fodloni'r blaenoriaethau a nodir yn ein cynllun. Mae ein hymrwymiad i dwf a swyddi yn parhau i fod yn gadarn a byddaf yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu'r cyllid ar gyfer Cymru. Byddwn yn cymryd mantais yn barhaus, hefyd, o'r ystwythder a'r hyblygrwydd sydd gennym ni yng Nghymru i greu'r cyfleoedd buddsoddi i gefnogi twf a swyddi, gan barhau gyda dull ysgogiad economaidd i roi hwb i'n seilwaith a darparu ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi.

15:20

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for this, your second statement of the afternoon. There's a sense of déjà vu in many ways. In fact, some of the points that I raised in the previous statement I think would also hold true for this. We do, on this side of the Chamber, issue our broad support for the Wales infrastructure investment plan, which I've been reading through as you were speaking. I think some of the basic questions that we, and I, would ask is about a concern that was originally vented when the plan was first launched three years ago: how is the Welsh Government actually monitoring value for money from these investments, which you've spoken about this afternoon? We are three years on now: what specific mechanisms are being used to monitor value for money for the schemes? What real outcomes have been witnessed from the Wales infrastructure investment plan as a result of the implementation of the model you've gone through? There are a number of schemes, old and new, in your statement today: how are those schemes, and the numbers and figures associated with them, producing real outcomes? What are those outcomes? Where we are seeing best practice across the Welsh public sector, how is that best practice filtering across the country? Perhaps, you could highlight some examples of how that best practice is being spread. Your statement and the document contain a lot of figures; I don't propose to go into those or indeed the case studies, one by one. I will look at that after today's proceedings. But can you confirm, not only the total amount of private sector money the Welsh Government is levering into these projects, but also a breakdown per annum?

Diolch i chi, Weinidog, am hwn, eich ail ddatganiad o'r prynhawn. Ceir teimlad o déjà vu mewn sawl ffordd. Yn wir, rwy'n credu y byddai rhai o'r pwyntiau a godais yn y datganiad blaenorol hefyd yn wir ar gyfer hwn. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn cyhoeddi ein cefnogaeth eang i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, yr wyf wedi bod yn darllen drwyddo tra'r oeddech chi'n siarad. Rwy'n credu mai rhai o'r cwestiynau sylfaenol y byddem ni, ac y byddwn i yn eu gofyn yn ymwneud â phryder a fynegwyd yn wreiddiol pan lansiwyd y cynllun gyntaf dair blynedd yn ôl: sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro gwerth am arian o'r buddsoddiadau hyn, yr ydych chi wedi siarad amdanynt y prynhawn yma? Mae hi dair blynedd yn ddiweddarach erbyn hyn: pa fecanweithiau penodol sy'n cael eu defnyddio i fonitro gwerth am arian ar gyfer y cynlluniau? Pa ganlyniadau gwirioneddol a welwyd o'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn sgil cyflwyno'r model yr ydych chi wedi mynd drwyddo? Ceir nifer o gynlluniau, hen a newydd, yn eich datganiad heddiw: sut mae'r cynlluniau hynny, a'r rhifau a'r ffigurau sy'n gysylltiedig â nhw, yn cynhyrchu canlyniadau gwirioneddol? Beth yw'r canlyniadau hynny? Lle'r ydym ni'n gweld arfer gorau ar draws sector cyhoeddus Cymru, sut mae'r arfer gorau hwnnw'n cael ei rannu ar draws y wlad? Efallai y gallech chi amlygu rhai enghreifftiau o sut mae'r arfer gorau hwnnw'n cael ei ledaenu. Mae eich datganiad a'r ddogfen yn cynnwys llawer o ffigurau; nid wyf yn bwriadu trafod y rheini na'r astudiaethau achos yn wir, fesul un. Byddaf yn edrych ar hynny i gyd ar ôl trafodion heddiw. Ond a allwch chi gadarnhau, nid yn unig cyfanswm yr arian sector preifat y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyfrannu at y prosiectau hyn, ond hefyd ddadansoddiad fesul blwyddyn?

On targets, what targets have you set for the number of construction jobs to be created over the next 12 months? You've spoken about a number of construction projects in that document and in your statement, including the Heads of the Valleys A465 and the next phase of that, and you mentioned the developments in the rail infrastructure in Wales as well. I noticed Pye Corner in Newport is mentioned there, and that opened, I think, at the end of last year. But what about the number of jobs that you hope will be created and, indeed, the number of construction jobs that have grown out of the projects to date, because it's all well and good to say that you're putting this investment in and that you're supporting it with capital investment, but, at the same time, we need to know exactly what those outcomes on the job front are? Can you confirm, for the record, that the Welsh Government has met every jobs pledge that you have made since this plan's launch in 2012 and relating to the jobs that you previously promised? Indeed, perhaps, you could commit to publishing clear job creation statistics with each update so that Members of this Chamber can see exactly what new jobs have been created as a result of your plan.

O ran targedau, pa dargedau ydych chi wedi eu gosod ar gyfer y nifer o swyddi adeiladu i'w creu yn ystod y 12 mis nesaf? Rydych chi wedi siarad am nifer o brosiectau adeiladu yn y ddogfen yna ac yn eich datganiad, gan gynnwys A465 Blaenau'r Cymoedd a cham nesaf hynny, a soniasoch am y datblygiadau i'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru hefyd. Sylwais fod Pye Corner yng Nghasnewydd yn cael ei grybwyll yno, ac agorodd hwnnw, rwy'n credu, ddiwedd y flwyddyn diwethaf. Ond beth am nifer y swyddi yr ydych chi'n gobeithio y byddant yn cael eu creu ac, yn wir, nifer y swyddi adeiladu sydd wedi tyfu allan o'r prosiectau hyd yn hyn, gan ei bod yn hawdd iawn dweud eich bod chi'n gwneud y buddsoddiad hwn a'ch bod yn ei gefnogi gyda buddsoddiad cyfalaf, ond, ar yr un pryd, mae angen i ni gael gwybod yn union beth yw'r canlyniadau hynny o ran swyddi? A allwch chi gadarnhau, ar goedd, bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni pob addewid swyddi yr ydych chi wedi ei wneud ers lansio'r cynllun hwn yn 2012 ac o ran y swyddi a addawyd gennych yn y gorffennol? Yn wir, efallai y gallech chi ymrwymo i gyhoeddi ystadegau creu swyddi eglur gyda phob diweddariad fel y gall Aelodau'r Siambr hon weld yn union pa swyddi newydd sydd wedi eu creu o ganlyniad i'ch cynllun.

What reviews have you made of the sectoral priorities to ensure that each of the priorities are being met and that the Welsh Government is delivering outcomes in these areas? Are there any plans to review the framework to reflect any new emerging technologies or industries?

Pa adolygiadau ydych chi wedi eu gwneud o'r blaenoriaethau sectoraidd i sicrhau bod pob un o'r blaenoriaethau'n cael ei ddiwallu a bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni canlyniadau yn y meysydd hyn? A oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r fframwaith i adlewyrchu unrhyw dechnolegau neu ddiwydiannau newydd sy'n dod i'r amlwg?

15:23

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Nick Ramsay. And thank you for continuing to support the approach that we've taken with the Wales infrastructure investment plan. It certainly is an approach that is supported widely in the private sector, particularly in the construction sector. Of course, we've been engaging with the private sector to understand ways in which we can make the pipeline more open and available and accessible to them in terms of planning for the future.

Diolch i chi, Nick Ramsay. A diolch am barhau i gefnogi'r dull rydym ni wedi ei ddilyn gyda'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae'n sicr yn ddull a gefnogir yn eang yn y sector preifat, yn enwedig yn y sector adeiladu. Wrth gwrs, rydym ni wedi bod yn ymgysylltu â'r sector preifat i ddeall sut y gallwn wneud y biblinell yn fwy agored ac ar gael a hygyrch iddyn nhw o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol.

You raise important points about the impact of the delivery of the Wales infrastructure investment plan. I think, if you look again at the ways in which we are strengthening our approach to appraisal and prioritisation of resource allocation, this is crucial in terms of the impact, and driving through the delivery of the plan since 2012, it set the direction of infrastructure investment. Decisions are more outcome driven. They're evidence based and they're promoting the best use of available resources in the context of reducing resources. We have targeted £1.2 billion of additional Welsh Government capital funds to support our core investment priorities, as well as, of course, as I outlined, developing innovative finance solutions, boosting levels of investment by £2.4 billion. But, I think importantly in relation to your first question, we are standardising our approach to business assurance and scheme delivery across the Welsh Government and the wider public sector. To that extent, in terms of business assurance, we have a rigorous appraisal system to ensure that we deliver the outcomes that we want. And we have a Better Business Case approach, a collaborative cross-Government process, which maximises benefits, and, of course, then, that's identified through best practice for developing spending proposals, making sure we've got a strategic fit. Actually, that Better Business Case approach is jointly owned by HM Treasury and Welsh Government, and it's an accredited standard and global brand that is now being used elsewhere.

Rydych chi'n codi pwyntiau pwysig am effaith darpariaeth y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Rwy'n meddwl, os edrychwch chi eto ar y ffyrdd yr ydym ni'n cryfhau ein dull o werthuso a blaenoriaethu dyraniad adnoddau, bod hyn yn hanfodol o ran yr effaith, a bwrw ymlaen â chyflwyniad y cynllun ers 2012, gosododd y cyfeiriad ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae penderfyniadau'n cael eu seilio fwy ar ganlyniadau. Maen nhw'n seiliedig ar dystiolaeth ac maen nhw'n hyrwyddo'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau. Rydym ni wedi targedu £1.2 biliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol Llywodraeth Cymru i gefnogi ein blaenoriaethau buddsoddi craidd, yn ogystal, wrth gwrs, fel yr amlinellais, â datblygu atebion cyllid arloesol, gan roi hwb o £2.4 biliwn i lefelau buddsoddi. Ond, yn bwysig, rwy'n meddwl, o ran eich cwestiwn cyntaf, rydym ni'n safoni ein dull o ran sicrwydd busnes a chyflwyno'r cynllun ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach. I'r perwyl hwnnw, o ran sicrwydd busnes, mae gennym ni system werthuso gadarn i sicrhau ein bod yn darparu'r canlyniadau rydym ni eu heisiau. Ac mae gennym ni ddull Achos Busnes Gwell, proses gydweithredol ar draws y Llywodraeth, sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl, ac, wrth gwrs, wedyn, caiff y rheini eu nodi trwy arfer gorau ar gyfer datblygu cynigion gwariant, gan wneud yn siŵr bod pethau'n cyd-fynd yn strategol. A dweud y gwir, Trysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol ar y cyd am y dull Achos Busnes Gwell hwnnw, ac mae'n safon achrededig a brand byd-eang sy'n cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill erbyn hyn.

I think one of the important points about what this means for jobs and benefits is expressed, really, through the ways in which we've driven our community benefits policy through procurement, which has been widely adopted across Wales—78 projects worth over £674 million reporting outcomes, and projects seeing 84 per cent of the expenditure retained in Wales. But also, just to see the impact this has, for example, in terms of education with the investment in twenty-first century schools—the impact that has on educational attainment, and the fact that £40 million has been invested in supporting the improvement of transport networks, £10 million to support improvements to telecommunications networks and £32 million in terms of increased housing provision in Wales. These are the impacts, of course, that make a difference to our economy in terms of growth and jobs and, indeed, to our now modernised public services. Of course, this will continue in terms of our approach with the infrastructure investment plan, because we are committed to that investment against the backdrop of continuing cuts from the UK Government.

Rwy'n credu y mynegir un o'r pwyntiau pwysig am yr hyn y mae hyn yn ei olygu i swyddi a budd-daliadau, a dweud y gwir, drwy'r ffyrdd yr ydym ni wedi bwrw ymlaen â'n polisi budd i'r gymuned trwy gaffael, ac sydd wedi cael ei fabwysiadu'n eang ledled Cymru—78 o brosiectau gwerth dros £674 miliwn yn adrodd canlyniadau, ac 84 y cant o wariant prosiectau yn cael ei gadw yng Nghymru. Ond hefyd, dim ond i weld yr effaith mae hyn yn ei chael, er enghraifft, o ran addysg gyda'r buddsoddiad mewn ysgolion yr unfed ganrif ar hugain—yr effaith y mae hynny'n ei chael ar gyrhaeddiad addysgol, a'r ffaith fod £40 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn cefnogi'r gwaith o wella rhwydweithiau trafnidiaeth, £10 miliwn i gefnogi gwelliannau i rwydweithiau telathrebu a £32 miliwn ar gyfer mwy o ddarpariaeth tai yng Nghymru. Y rhain yw'r effeithiau, wrth gwrs, sy'n gwneud gwahaniaeth i'n heconomi o ran twf a swyddi ac, yn wir, i'n gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u moderneiddio erbyn hyn. Wrth gwrs, bydd hyn yn parhau o ran ein dull gyda'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith, gan ein bod wedi ymrwymo i'r buddsoddiad hwnnw yn erbyn cefndir o doriadau parhaus gan Lywodraeth y DU.

15:27 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My constituency of Swansea East has been a major beneficiary of Welsh Government capital expenditure. Morriston Hospital is continuing to receive substantial capital funds to update and expand the hospital, not just for the benefit of my constituents but for the whole of Swansea and the whole of west Wales. In education, we've seen the building of two new secondary schools in Swansea East—Morriston and Cefn Hengoed—based on the same sites as the old schools. Burlais school is to replace Manselton and Cwmbwrla schools is nearing completion. The Welsh-medium school Lôn Las, which my daughter attended, and which was a semi-derelict ex-junior comprehensive school, is now going to be replaced by a whole set of new buildings. I've got three questions for the Minister. Will the Minister commit to continuing the financial support for twenty-first century schools? Secondly, does the Minister agree that capital expenditure is one of the best ways of stimulating the economy? And thirdly, as someone who supports the tidal lagoon—which puts me in agreement, I think, with every other Member representing the South West Wales region—how can the tidal lagoon itself access the EFSI funding that you mentioned?

Mae fy etholaeth i yn Nwyrain Abertawe wedi elwa'n helaeth o wariant cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae Ysbyty Treforys yn parhau i dderbyn cyllid cyfalaf sylweddol i ddiweddaru ac ehangu'r ysbyty, nid yn unig er lles fy etholwyr ond ar gyfer Abertawe gyfan a'r gorllewin cyfan. Ym maes addysg, rydym ni wedi gweld dwy ysgol uwchradd newydd yn cael eu hadeiladu yn Nwyrain Abertawe—Treforys a Chefn Hengoed—wedi'u lleoli ar yr un safleoedd â'r hen ysgolion. Bydd ysgol Burlais yn disodli Manselton ac mae ysgol Cwmbwrla ar fin cael ei chwblhau. Mae ysgol Gymraeg Lôn Las, yr aeth fy merch iddi, ac a oedd yn gyn-ysgol gyfun iau lled-adfeiliedig, yn mynd i gael ei disodli gan gyfres gyfan o adeiladau newydd erbyn hyn. Mae gen i dri chwestiwn i'r Gweinidog. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i barhau â'r cymorth ariannol i ysgolion yr unfed ganrif ar hugain? Yn ail, a yw'r Gweinidog yn cytuno mai gwariant cyfalaf yw un o'r ffyrdd gorau o ysgogi'r economi? Ac yn drydydd, fel rhywun sy'n cefnogi'r morlyn llanw—sy'n golygu fy mod i'n cytuno, rwy'n credu, gyda phob Aelod arall sy'n cynrychioli'r rhanbarth De-orllewin Cymru—sut all y morlyn llanw ei hun gael gafael ar y cyllid EFSI y soniasoch amdano?

15:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for also highlighting the impact of our capital investment, not just in your constituency in terms of health and education, but also more widely, and regionally particularly, in terms of the role of Morriston Hospital. Yes, we're committed to continuing our investment in the twenty-first century schools programme, and this, of course, is being taken forward as a result of our approach in terms of the non-dividend financing model. And, of course, only in the specialist press over the last few weeks, there's been recognition of what this means in taking this forward. Also, clearly, it's not just myself as finance Minister, or this Welsh Labour Government, that is committed to capital investment to stimulate the economy. I think we're joined by many economists and, indeed, the Organisation for Economic Co-operation and Development, which says that investment in skills and infrastructure is the best way forward in terms of the regeneration recovery of the economy. Finally, not only have we expressed support for the tidal lagoon project by giving some financial support, but also by putting it in our bids for the Juncker package—the European fund for strategic investment.

Diolch i chi am dynnu sylw hefyd at effaith ein buddsoddiad cyfalaf, nid yn unig yn eich etholaeth chi o ran iechyd ac addysg, ond hefyd yn ehangach, ac yn rhanbarthol yn arbennig, o ran swyddogaeth Ysbyty Treforys. Ydym, rydym ni wedi ymrwymo i barhau ein buddsoddiad yn y rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, ac mae hyn, wrth gwrs, yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i'n dull o ran y model cyllido di-ddifidend. Ac, wrth gwrs, yn y wasg arbenigol dim ond yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu cydnabyddiaeth o beth y mae hyn yn ei olygu o ran bwrw ymlaen â hyn. Hefyd, yn amlwg, nid dim ond fi fel y Gweinidog cyllid, neu'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru, sydd wedi ymrwymo i fuddsoddiad cyfalaf i ysgogi'r economi. Rwy'n meddwl bod llawer o economegwyr ac, yn wir, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sy'n dweud mai buddsoddi mewn sgiliau a seilwaith yw'r ffordd orau ymlaen o ran adferiad adfywio'r economi, yn cytuno â ni. Yn olaf, nid yn unig yr ydym ni wedi mynegi cefnogaeth i'r prosiect morlyn llanw trwy roi rhywfaint o gymorth ariannol, ond hefyd trwy gyflwyno ein cynigion ar gyfer pecyn Juncker—y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol.

15:30 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement and congratulate the Government on seeking and enabling innovative ways of raising capital and borrowing money in the face of the cuts from Westminster—cuts that would have happened under Labour, of course, as various statements by those in the Labour leadership race prove. This search for innovative ways of raising capital was part of Plaid Cymru's manifesto in 2011 and one such vehicle was the Build 4 Wales company. This was pooh-poohed by the First Minister in a big way. According to the First Minister, this was pie in the sky, and yet, in this statement, we find the Government extoling the virtue of the non-profit distributing investment model. Giving it a boring title does not change the fact that this is Build 4 Wales under another name. There we go; all's well that ends well, I suppose.

Rwy'n croesawu'r datganiad ac yn llongyfarch y Llywodraeth ar geisio a hwyluso ffyrdd arloesol o godi cyfalaf a benthyg arian, a hynny yn wyneb y toriadau gan San Steffan—toriadau a fyddai wedi digwydd dan y Blaid Lafur, wrth gwrs, fel y mae gwahanol ddatganiadau gan y rhai yn ras arweinyddiaeth y Blaid Lafur yn ei brofi. Roedd y broses hon o chwilio am ffyrdd arloesol o godi cyfalaf yn rhan o faniffesto Plaid Cymru yn 2011 ac un dull o'r fath oedd y cwmni AdeiladuIGymru. Wfftiwyd hwn yn llwyr gan y Prif Weinidog. Yn ôl y Prif Weinidog, roedd hon yn freuddwyd gwrach, ac eto, yn y datganiad hwn, rydym ni'n gweld y Llywodraeth yn canmol rhinweddau'r model buddsoddi nad yw'n dosbarthu elw. Nid yw rhoi teitl diflas iddo'n newid y ffaith mai AdeiladuIGymru o dan enw arall yw hwn. Dyna ni; popeth yn dda a ddiweddo'n dda, mae'n debyg.

If I can refer to the Superfast Cymru programme with Government, private and European money, one problem with this scheme—and I extol its virtues as well—is that BT refuse to share information as to which areas will benefit from the scheme, and consequently we do not know which areas will be left out and therefore we cannot plan for that eventuality. So, what is the Government doing about that so that some forward planning can be done?

Os caf i gyfeirio at raglen Cyflymu Cymru gydag arian y Llywodraeth, y sector preifat ac Ewropeaidd, un broblem gyda'r cynllun hwn—ac rwy'n canmol ei rinweddau hefyd—yw bod BT yn gwrthod rhannu gwybodaeth ynghylch pa ardaloedd fydd yn elwa ar y cynllun, ac o ganlyniad nid ydym yn gwybod pa ardaloedd fydd yn cael eu gadael allan ac felly ni allwn gynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwnnw. Felly, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud ynglŷn â hynny fel y gellir gwneud rhywfaint o flaengynllunio?

Some of the programmes that you refer to, and are in the document as well, are all-Wales schemes, but most of the big schemes mentioned in your statement are in the south-east—not unexpected, not surprising. So, could you provide a map showing the distribution of the site-specific capital schemes in the pipeline, or recently completed, and their value? Of course, smaller scale capital spend brings greater benefits to businesses in Wales, although a few big bangs are necessary as game changers.

Mae rhai o'r rhaglenni yr ydych chi'n cyfeirio atynt, ac maen nhw yn y ddogfen hefyd, yn gynlluniau Cymru gyfan, ond mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau mawr a grybwyllir yn eich datganiad yn y de-ddwyrain—nid yw hynny'n annisgwyl, nid yw'n syndod. Felly, a allech chi ddarparu map yn dangos dosbarthiad y cynlluniau cyfalaf safle penodol sydd ar y gweill, neu a gwblhawyd yn ddiweddar, a'u gwerth? Wrth gwrs, mae gwariant cyfalaf ar raddfa lai yn dod â manteision mwy i fusnesau yng Nghymru, er bod angen ychydig o gamau mawr i newid y sefyllfa'n llwyr.

I cannot see any reference to the M4 relief road scheme in the statement. Is there any reason for that? Perhaps the Government has had a swift change of heart. Lastly, all our spend should be based on well-researched strategy, and presumably now you'll have to adhere to the principles laid out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. Can you explain whether the investment plan has been revised in any way, given that the FG Act is now the guiding principle for all Government activity? Will you make a commitment that all structures built by public money, or partly built by public money, be they housing or industrial units, will have to be built to the highest energy-efficient standards found in the best models in Europe?

Ni allaf weld unrhyw gyfeiriad at gynllun ffordd liniaru'r M4 yn y datganiad. A oes unrhyw reswm am hynny? Efallai fod y Llywodraeth wedi newid ei meddwl yn gyflym. Yn olaf, dylai ein holl wariant fod yn seiliedig ar strategaeth wedi'i hymchwilio'n dda, ac rwy'n tybio erbyn hyn y bydd yn rhaid i chi gadw at yr egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A allwch chi esbonio pa un a yw'r cynllun buddsoddi wedi cael ei adolygu mewn unrhyw ffordd, o gofio mai'r Ddeddf CD yw'r egwyddor arweiniol ar gyfer holl weithgarwch y Llywodraeth erbyn hyn? A wnewch chi ymrwymo y bydd yn rhaid i bob adeiledd sy'n cael ei adeiladu gydag arian cyhoeddus, neu'n cael ei adeiladu'n rhannol gydag arian cyhoeddus, boed yn dai neu'n unedau diwydiannol, gael ei adeiladu i'r safonau arbed ynni uchaf a geir yn y modelau gorau yn Ewrop?

15:33

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Alun Ffred Jones, for acknowledging that it is a Welsh Labour Government that's delivering on the all-important ways of levering in innovative finance through the non-profit distribution model. We are actually delivering on this and, indeed, we share the same goals in terms of using that innovative finance programme. It is about delivering a non-profit distributing investment model, and I just think that it's important that, out there, the people of Wales hear what that actually means in terms of, for example, the Velindre cancer campus and completing the dualling of the A465.

Diolch, Alun Ffred Jones, am gydnabod mai Llywodraeth Lafur Cymru sy'n cyflawni ar y ffyrdd hollbwysig o ddenu cyllid arloesol drwy'r model dosbarthu dielw. Rydym ni wir yn cyflawni yn hyn o beth ac, yn wir, rydym ni'n rhannu'r un nodau o ran defnyddio'r rhaglen gyllid arloesol honno. Mae'n ymwneud â darparu model buddsoddi dosbarthu dielw, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, allan yna, i bobl Cymru glywed yr hyn y mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd o ran, er enghraifft, campws canser Felindre a chwblhau'r gwaith o ddeuoli'r A465.

Also, I think you make an important point about all-Wales investment because the twenty-first century schools programme of course does include all-Wales investment, as do, indeed, many of the other aspects of the Wales infrastructure investment plan, not only pan-Wales investment in capital, not just in terms of transport, but pan-Wales in terms of housing. Also, more than once I've mentioned investment and our clear commitment to Energy Island and also, very importantly, to some of those capital investment projects that we are making, for example, in terms of Flying Start. I know that the Minister for Communities and Tackling Poverty has been opening new Flying Start buildings, where there is capital investment in every part of Wales. But I certainly can share the all-Wales investment plan that we have, in terms of the Wales infrastructure investment plan.

Hefyd, rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pwynt pwysig am fuddsoddi Cymru gyfan gan fod rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, wrth gwrs, yn cynnwys buddsoddiad Cymru gyfan, fel y mae llawer o agweddau eraill ar y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, yn wir, nid yn unig buddsoddiad Cymru gyfan mewn cyfalaf, nid yn unig o ran trafnidiaeth, ond ar gyfer Cymru gyfan o ran tai. Hefyd, rwyf wedi crybwyll buddsoddiad a'n hymrwymiad eglur i Ynys Ynni fwy nag unwaith, a hefyd, yn bwysig iawn, i rai o'r prosiectau buddsoddi cyfalaf hynny rydym ni'n eu creu, er enghraifft, o ran Dechrau'n Deg. Gwn fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi bod yn agor adeiladau Dechrau'n Deg newydd, lle ceir buddsoddiad cyfalaf ym mhob rhan o Gymru. Ond, yn sicr, gallaf rannu'r cynllun buddsoddi Cymru gyfan sydd gennym ni, o ran y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

I think it is important to see the fact that, in terms of the programme for government, just recently, the First Minister was able to account for delivery in terms of the programme for government, including, of course, superfast broadband. And, of course, that is something that is recognised not just here in Wales and the UK, but in Europe as well, in terms of delivery, and the ways in which we are making an impact. In fact, it's interesting—back to the outcomes of our capital investment—that our programme for government latest report shows that, despite tough financial times, more than 95 per cent of our commitments have been either delivered or are on track to be delivered.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig gweld y ffaith, o ran y rhaglen lywodraethu, dim ond yn ddiweddar, bod y Prif Weinidog yn gallu bod yn atebol am ddarpariaeth o ran y rhaglen lywodraethu, gan gynnwys, wrth gwrs, band eang cyflym iawn. Ac, wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei gydnabod nid yn unig yma yng Nghymru a'r DU, ond yn Ewrop hefyd, o ran darpariaeth, a'r ffyrdd rydym ni'n cael effaith. Yn wir, mae'n ddiddorol—yn ôl i ganlyniadau ein buddsoddiad cyfalaf—bod adroddiad diweddaraf ein rhaglen lywodraethu yn dangos, er gwaethaf cyfnod ariannol anodd, bod dros 95 y cant o'n hymrwymiadau naill ai wedi cael eu cyflawni neu ar y ffordd i gael eu cyflawni.

Of course, that does go back again to the opportunities that we have taken through. In terms of capital investment, we are using a clear scenario in terms of financial priorities: priorities on an all-Wales basis, and linking that to the budget for this financial year. That is expressed in terms of our commitment to innovative financing, which, of course, takes us beyond the restricted capital programme, which I know you recognise—the 30 per cent cut that we've had to our capital programme.

Wrth gwrs, mae hynny'n mynd yn ôl eto i'r cyfleoedd rydym ni wedi eu cyflwyno. O ran buddsoddiad cyfalaf, rydym ni'n defnyddio safbwynt eglur o ran blaenoriaethau ariannol: blaenoriaethau ar sail Cymru gyfan, ac yn cysylltu hynny â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mynegir hynny gan ein hymrwymiad i ariannu arloesol, sydd, wrth gwrs, yn mynd â ni y tu hwnt i'r rhaglen gyfalaf gyfyngedig, y gwn eich bod yn ei gydnabod—y toriad o 30 y cant rydym ni wedi ei gael i'n rhaglen gyfalaf.

So, it is about targeting our infrastructure investment appropriately, and making sure that we access all other sources of finance, like the Juncker package, which of course we hope that we will benefit from. Clearly, the impact, and it's reflected in the plan when you read it, on some of the key investments, such as construction costs for the M4 relief road, and clearly recognising there's a significant investment in the transport network of Wales. Much of this of course is also linked to—and within my portfolio—investment through the European structural funds.

Felly, mae'n ymwneud â thargedu ein buddsoddiad seilwaith yn briodol, a sicrhau ein bod yn cael mynediad at yr holl ffynonellau eraill o gyllid, fel pecyn Juncker, yr ydym ni'n gobeithio, wrth gwrs, y byddwn ni'n elwa arno. Yn amlwg, mae'r effaith, ac fe'i hadlewyrchir yn y cynllun pan fyddwch chi'n ei ddarllen, ar rai o'r buddsoddiadau allweddol, fel costau adeiladu ar gyfer ffordd liniaru'r M4, a chydnabod yn eglur bod buddsoddiad sylweddol yn rhwydwaith trafnidiaeth Cymru. Mae llawer o hyn, wrth gwrs, hefyd yn gysylltiedig â—ac yn fy mhortffolio i—buddsoddiad trwy gronfeydd strwythurol Ewrop.

15:37

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the statement. A cynic suggested to me that the Wales infrastructure investment plan was not really a plan as such, but more a gathering together of the six separate priorities of the service departments in one document. So I'd be grateful if you could enlighten me as to how exactly you determine the priorities for capital spend between those six departments, to ensure that you actually have an overall strategic view in terms of that capital investment.

Weinidog, diolch i chi am y datganiad. Awgrymodd sinig i mi nad oedd y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru wir yn gynllun fel y cyfryw, ond yn hytrach yn gasgliad o chwe blaenoriaeth ar wahân yr adrannau gwasanaeth mewn un ddogfen. Felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi fy hysbysu sut yn union rydych chi'n penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gwariant cyfalaf rhwng y chwe adran hynny, er mwyn sicrhau bod gennych chi safbwynt strategol cyffredinol o ran y buddsoddiad cyfalaf hwnnw.

Secondly, Minister, despite the substantial capital investment, unemployment in Wales does remain stubbornly high, indicating that the idea that investing in capital does not always lead to greater prosperity and reduced unemployment. Can I ask you exactly how you relate the expenditure in this plan to the targets of the Welsh Government in terms of reducing unemployment and getting people back to work? What training schemes or apprenticeship schemes, et cetera, are linked to these capital schemes, to ensure that we're able to get a benefit for jobs, and that Welsh companies are able to deliver on the scheme, employing local labour?

Yn ail, Weinidog, er gwaethaf y buddsoddiad cyfalaf sylweddol, mae diweithdra yng Nghymru yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel, sy'n dangos nad yw'r syniad bod buddsoddi mewn cyfalaf bob amser yn arwain at fwy o ffyniant a llai o ddiweithdra. A gaf i ofyn i chi sut yn union yr ydych chi'n cysylltu'r gwariant yn y cynllun hwn â thargedau Llywodraeth Cymru o ran lleihau diweithdra a chael pobl yn ôl i'r gwaith? Pa gynlluniau hyfforddi neu gynlluniau prentisiaeth, ac yn y blaen, sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau cyfalaf hyn, i sicrhau ein bod yn gallu cael budd i swyddi, a bod cwmnïau Cymru yn gallu cyflawni ar y cynllun, gan gyflogi llafur lleol?

Thirdly, Minister, I note in the statement, regarding what you've just said, about President Juncker's European fund for strategic investment, and how it might benefit Wales, and that the schemes you have identified in there—very important schemes, I think, which will be greatly beneficial to Wales, particularly in terms of the tidal lagoon scheme, the Energy Island project, and the metro—can benefit from that scheme. Can I ask you: what sort of timescale is now attached to getting the funding for those schemes so they can get under way? When would you expect to see—particularly, the metro—actually start work in Wales, so that we can all start reaping the benefits of that, and, hopefully, as a result of that, not need to extend the M4 at all in south-east Wales?

Yn drydydd, Weinidog, nodaf yn y datganiad, ynghylch yr hyn yr ydych chi newydd ei ddweud, am gronfa Ewropeaidd yr Arlywydd Juncker ar gyfer buddsoddi strategol, a sut y gallai fod o fudd i Gymru, ac y gall y cynlluniau yr ydych chi wedi eu nodi ynddo—cynlluniau pwysig iawn, rwy'n meddwl, a fydd o fudd mawr i Gymru, yn enwedig o ran y cynllun morlyn llanw, y prosiect Ynys Ynni, a'r metro—elwa ar y cynllun hwnnw. A gaf i ofyn i chi: pa fath o amserlen sydd ynghlwm erbyn hyn â chael y cyllid ar gyfer y cynlluniau hynny fel y gellir eu cychwyn? Pryd fyddech chi'n disgwyl gweld—y metro yn arbennig—yn dechrau gweithio yng Nghymru, fel y gallwn i gyd ddechrau gweld manteision hynny, a, gobeithio, o ganlyniad i hynny, peidio â bod angen ymestyn yr M4 o gwbl yn y de-ddwyrain?

And, finally, Minister, you referred to the next generation Broadband Wales initiative—and a very important initiative that is, as are, of course, Superfast Cymru and the broadband initiatives around Wales. However, there are still a large number of communities in Wales that do not yet benefit from that superfast broadband. In my own region, Skewen and Birchgrove, for example, were promised that they would have it in April. We're still waiting for that investment to take place in terms of the box, and even then BT tell me that, once they've upgraded the box, they still have to roll out the cabling. So, nobody will be able to benefit from it until that cabling's been rolled out. Can I ask you, therefore, if we could get a realistic update in terms of how that broadband is being rolled out across Wales and in terms of the number of households and businesses that actually have access to that broadband, as opposed to the number of boxes that have been upgraded and that are awaiting the cabling being installed? Thank you.

Ac, yn olaf, Weinidog, cyfeiriasoch at y fenter cenhedlaeth nesaf Band Eang Cymru—sy'n fenter bwysig iawn wrth gwrs, fel hefyd, wrth gwrs, Cyflymu Cymru a'r mentrau band eang ledled Cymru. Fodd bynnag, ceir nifer fawr o gymunedau yng Nghymru nad ydynt yn elwa ar y band eang cyflym iawn hyd yn hyn. Gwnaed addewid i fy rhanbarth i, Sgiwen a Birchgrove, er enghraifft, y byddent yn ei gael ym mis Ebrill. Rydym ni'n dal i aros am y buddsoddiad hwnnw i gael ei wneud o ran y blwch, a hyd yn oed wedyn mae BT yn dweud wrthyf, ar ôl iddyn nhw uwchraddio'r blwch, bydd yn rhaid iddyn nhw gyflwyno'r ceblau wedyn. Felly, ni fydd neb yn gallu elwa arno tan fydd y ceblau hynny wedi cael eu cyflwyno. A gaf i ofyn i chi, felly, pe gallem ni gael diweddariad realistig o ran sut mae'r band eang hwnnw'n cael ei gyflwyno ledled Cymru ac o ran nifer y cartrefi a busnesau sydd â mynediad at y band eang hwnnw mewn gwirionedd, yn hytrach na nifer y blychau sydd wedi cael eu huwchraddio ac sy'n aros i'r ceblau gael eu gosod? Diolch yn fawr.

15:40

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Peter Black. I think it's an important question about the benefits of investment via, for example, the £1.9 billion programme of innovative finance. That has the potential to create 6,500 sustainable jobs in the Welsh economy. That is the impact of a Wales infrastructure investment—around 6,500 sustainable jobs. You know, also, if you look at it—. I know your commitment to housing, for example. On the housing finance grant, we announced a £250 million extension of the housing finance grant, tripling the size of the scheme. We launched that back in September 2013. That's going to deliver a further 2,000 housing units and create 5,000 jobs in the construction sector. You should be cheering those figures as well as recognising that they have important benefits to the Welsh economy and are clearly creating those jobs.

Diolch i chi, Peter Black. Rwy'n credu ei fod yn gwestiwn pwysig am fanteision buddsoddiad trwy, er enghraifft, y rhaglen cyllid arloesol o £1.9 biliwn. Mae gan hynny'r potensial i greu 6,500 o swyddi cynaliadwy yn economi Cymru. Dyna effaith buddsoddiad yn seilwaith Cymru—tua 6,500 o swyddi cynaliadwy. Hefyd, wyddoch chi, os edrychwch chi arno—. Rwy'n ymwybodol o'ch ymrwymiad i dai, er enghraifft. O ran y grant cyllid tai, cyhoeddasom estyniad o £250 miliwn i'r grant cyllid tai, gan dreblu maint y cynllun. Lansiwyd hwnnw gennym yn ôl ym mis Medi 2013. Mae hynny'n mynd i ddarparu 2,000 o unedau tai ychwanegol a chreu 5,000 o swyddi yn y sector adeiladu. Dylech chi fod yn cymeradwyo'r ffigurau hynny yn ogystal â chydnabod bod ganddynt fanteision pwysig i economi Cymru ac maen nhw'n amlwg yn creu'r swyddi hynny.

Just in terms of new transport infrastructure, it's clearly having an important function in facilitating journeys to work and crucial for helping people into employment and work. Of course, there will be more on delivery in terms of the metro and plans for the metro in due course, and in terms of a statement from the Minister. So, clearly, we can show—. I think you will be able to go back pre-Wales infrastructure investment plan, Peter, when we did not have the strategic approach to infrastructure investment. I think that, if you engage with the private sector and business and our partners in the public sector, you will hear from them—and that, of course, includes local government—a recognition that this is more coherent, this is more strategic and we transparently today are publishing not only an annual report on past progress, but a project pipeline for the plan for the future.

Dim ond o ran seilwaith trafnidiaeth newydd, mae'n amlwg yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran hwyluso teithiau i'r gwaith ac yn hanfodol ar gyfer helpu pobl i gael gwaith a gweithio. Wrth gwrs, bydd mwy ar ddarparu o ran y metro a chynlluniau ar gyfer y metro maes o law, ac o ran datganiad gan y Gweinidog. Felly, yn amlwg, gallwn ddangos—. Rwy'n meddwl y byddwch chi'n gallu mynd yn ôl i'r cyfnod cyn cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, Peter, pan nad oedd gennym ni ddull strategol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Rwy'n credu, os gwnewch chi ymgysylltu â'r sector preifat a busnesau a'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, byddwch yn clywed ganddynt hwy—ac mae hynny, wrth gwrs, yn cynnwys llywodraeth leol—gydnabyddiaeth bod hwn yn fwy cydlynol, bod hwn yn fwy strategol ac rydym ni'n cyhoeddi'n dryloyw heddiw nid yn unig yn adroddiad blynyddol ar gynnydd yn y gorffennol, ond piblinell prosiectau ar gyfer y cynllun ar gyfer y dyfodol.

15:42

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in terms of the mention in your statement of borrowing ability and, indeed, the metro, could you confirm what the Welsh Government's position is with regard to that borrowing ability? For example, should Welsh Government be able to use that ability for whatever is its future preferred option regarding the problems on the M4 around Newport, so that it's not restricted to an M4 relief road, but could be used for the metro, for example?

Weinidog, o ran y cyfeiriad yn eich datganiad at allu i fenthyg ac, yn wir, y metro, a allech chi gadarnhau beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y gallu i fenthyg hwnnw? Er enghraifft, a ddylai Llywodraeth Cymru allu defnyddio'r gallu hwnnw ar gyfer beth bynnag yw'r dewis y mae'n ei ffafrio yn y dyfodol o ran y problemau ar yr M4 o amgylch Casnewydd, fel nad yw wedi'i gyfyngu i ffordd liniaru'r M4, ond y gellid ei defnyddio ar gyfer y metro, er enghraifft?

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:42.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:42.*

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

In terms of your mention of health infrastructure, obviously, it's very important to get the community facilities—health centres and so on—in place before provision is pulled out of the acute sector. I wonder if you could say anything in terms of Welsh Government's ability to provide capital to allow that rolling out of the community provision and health centres right across Wales in a timely manner to enable that reshaping of services to take place without any gaps at the community level.

O ran eich cyfeiriad at isadeiledd iechyd, yn amlwg, mae'n bwysig iawn i gael y cyfleusterau cymunedol—canolfannau iechyd ac yn y blaen—ar waith cyn tynnu darpariaeth allan o'r sector acíwt. Tybed a allech chi ddweud unrhyw beth o ran gallu Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfalaf i ganiatáu'r cyflwyniad hwnnw o'r ddarpariaeth gymunedol a chanolfannau iechyd ledled Cymru yn brydlon er mwyn galluogi'r ail-lunio hwnnw o wasanaethau i ddigwydd heb unrhyw fylchau ar y lefel gymunedol.

Community benefits and procurement policy statement, Minister: we know from the poverty report that the Communities, Equality and Local Government Committee has recently published that in-work poverty is a very major problem for us in Wales and particularly for people trapped in low-wage jobs. I wonder if there's anything in the procurement policy that might enable people not just to get into entry-level jobs—important though that is in itself—but also to progress to more highly skilled and better paid employment once they commence work.

Datganiad manteision cymunedol a pholisi caffael, Weinidog: gwyddom o'r adroddiad tlodi bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi yn ddiweddar bod tlodi yn broblem fawr iawn i ni yng Nghymru, ac yn enwedig i bobl sy'n gaeth mewn swyddi cyflog isel. Tybed a oes unrhyw beth yn y polisi caffael a allai alluogi pobl nid yn unig i gael gafael ar swyddi lefel mynediad—er mor bwysig yw hynny ynddo'i hun—ond hefyd i symud ymlaen i swyddi mwy medrus sy'n talu'n well ar ôl iddyn nhw ddechrau gweithio.

Finally, Minister, I wonder if there's anything you could say in terms of some of the important economic developments with potential in south-east Wales, such as the city business improvement district for the Cardiff capital city region and, indeed, Newport's collaboration with Cardiff and Bristol, in terms of what provision might be possible to support those developments?

Yn olaf, Weinidog, tybed a oes unrhyw beth y gallech chi ei ddweud o ran rhai o'r datblygiadau economaidd pwysig sydd â photensial yn y de-ddwyrain, fel yr ardal gwella busnes dinas ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd ac, yn wir, cydweithrediad Casnewydd gyda Chaerdydd a Bryste, o ran pa ddarpariaeth allai fod yn bosibl i gefnogi'r datblygiadau hynny?

15:45 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, John Griffiths, for those questions. Of course, we are, as a result of the Wales Act 2014, going to have £500 million of borrowing power, on which, I think, in terms of priorities, we would look across Wales, recognising our needs in north and west, as well as south, Wales, and indeed, of course, in terms of the construction costs of an M4 relief road.

Diolch i chi, John Griffiths, am y cwestiynau yna. Wrth gwrs, rydym ni, o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2014, yn mynd i gael £500 miliwn o bŵer benthyg, y byddem, rwy'n credu, o ran blaenoriaethau, yn edrych ar draws Cymru, gan gydnabod ein hanghenion yn y gogledd a'r gorllewin, yn ogystal â'r de, ac yn wir, wrth gwrs, o ran costau adeiladu ffordd liniaru i'r M4.

I think it is important that we recognise that we don't acquire those borrowing powers until 2018, although we have got borrowing powers pre 2018 with respect to the M4 relief road.

Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod nad ydym yn caffael y pwerau benthyca hynny tan 2018, er bod gennym ni bwerau benthyg cyn 2018 o ran ffordd liniaru'r M4.

I think your point about new opportunities in terms of developing a non-dividend, not-for-profit primary healthcare provision is something that I'm working with with the Minister for Health and Social Services.

Rwy'n meddwl bod eich pwynt ar gyfleoedd newydd o ran datblygu darpariaeth gofal iechyd sylfaenol di-ddifidend, dielw yn rhywbeth rwy'n gweithio arno gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Your points about community benefits are also important, because this is a real opportunity, particularly strengthened by the new EU directives and our designation Order to enable us to regulate, so that we can use community benefits to maximise the economic and social benefits of our investment through procurement, and, of course, that includes jobs, and, in terms of our most useful discussions with the Finance Committee and also the Enterprise and Business Committee, that we can use procurement to good effect in terms of our new powers.

Mae eich pwyntiau am fanteision cymunedol hefyd yn bwysig, gan fod hwn yn gyfle gwirioneddol, wedi'i gryfhau'n arbennig gan gyfarwyddebau newydd yr UE a'n Gorchymyn dynodiad i'n galluogi i reoleiddio, fel y gallwn ddefnyddio manteision cymunedol i sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl o'n buddsoddiad trwy gaffael, ac, wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys swyddi, ac, o ran ein trafodaethau mwyaf defnyddiol gyda'r Pwyllgor Cyllid a hefyd y Pwyllgor Menter a Busnes, y gallwn ddefnyddio caffael yn effeithiol o ran ein pwerau newydd.

15:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:46

## 5. Datganiad: Y Diweddaraf ar Borthladdoedd

## 5. Statement: An Update on Ports

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 5 has been postponed to 7 July.

Gohiriwyd Eitem 5 tan 7 Gorffennaf.

15:46

## 6. Datganiad: Buddsoddi mewn Cynlluniau Cyflenwi

## 6. Statement: Investment in Delivery Plans

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 6 has been withdrawn.

Tynnwyd Eitem 6 yn ôl.

15:46

## 7. Datganiad: Camau Gweithredu sy'n Cael eu Cymryd i Fynd i'r Afael â Risgiau sy'n ymwneud â Thanau Glaswellt yng Nghymru

## 7. Statement: Actions Being Taken to Combat the Risks of Grass Fires in Wales

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 7 is a statement by the Minister for Public Services on actions being taken to combat the risk of grass fires in Wales, and I call the Minister, Leighton Andrews.

Eitem 7 yw datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â pheryg tanau glaswellt yng Nghymru, a galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.

15:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Presiding Officer, Members will recall my written statement of 21 April, when we were experiencing a significant number of grassland fires across Wales. South Wales Police detained more people allegedly involved in starting fires than they had in the previous five years, resulting in 10 grass fire related arrests being made from March to the end of May, with a further five arrests in Gwent and three in north Wales.

Ddirprwy Lywydd, bydd Aelodau'n cofio fy natganiad ysgrifenedig dyddiedig 21 Ebrill, pan oeddem yn profi nifer sylweddol o danau glaswelltir ledled Cymru. Cadwodd Heddlu De Cymru fwy o bobl yn y ddalfa am honiadau o ymwneud â chychwyn tanau na a wnaethant yn y pum mlynedd blaenorol, ac arweiniodd hynny at 10 o arestiadau cysylltiedig â thân glaswellt rhwng mis Mawrth a diwedd mis Mai, a bu pump o arestiadau pellach yng Ngwent a thri yn y gogledd.

People and property were put at risk through the criminal acts of a small number of individuals. Setting grass fires is a crime, and people who engage in this criminal practice will be prosecuted. I strongly condemn those who set these fires and support the tough stance taken by the police in bringing them to justice. In south Wales alone, there were 933 fires during April, with 902 of those believed to have been started deliberately. These fires potentially put lives at risk and caused extensive damage to pastureland, which led to the loss of wildlife. There is a significant cost to the public purse in dealing with these fires. Resources could be more productively spent elsewhere. Clearly, we need to find a way to prevent these fires from happening.

Roedd y troseddau hyn gan nifer fechan o unigolion yn rhoi pobl ac eiddo mewn perygl. Mae cynnau tanau glaswellt yn drosedd, a chaiff pobl sy'n troseddu fel hyn eu herlyn. Rwy'n condemnio'r gryf y bobl hynny a gyneuodd y tanau hyn ac yn cefnogi safiad cadarn yr heddlu i'w dwyn o flaen eu gwell. Yn y de yn unig, bu 933 o danau yn ystod mis Ebrill, a chredir bod 902 o'r rheini wedi'u cynnau yn fwriadol. Roedd y tanau hyn yn berygl posibl i fywydau ac fe wnaethant achosi difrod sylweddol i dir pori, a arweiniodd at golli bywyd gwyllt. Mae ymdrin â'r tanau hyn yn peri cost sylweddol i'r pwrs cyhoeddus. Gellid gwario'r adnoddau yn fwy cynhyrchiol mewn mannau eraill. Yn amlwg, mae angen inni ddod o hyd i ffordd i atal y tanau hyn rhag digwydd.

The First Minister held a summit on 29 April, which I attended along with the Ministers for natural resources and for education and skills. The summit brought together key organisations to formulate a co-ordinated programme of action to address the issue of grass fires in the short, medium and long terms, based on education, land management and deterrence, with commitments from the police, fire and rescue, Natural Resources Wales, local authorities and Welsh Government.

Cynhaliodd y Prif Weinidog uwchgynhadledd ar 29 Ebrill; roeddwn i'n bresennol ynddi ynghyd â'r Gweinidog cyfoeth naturiol a'r Gweinidog addysg a sgiliau. Roedd yr uwchgynhadledd yn dod â sefydliadau allweddol at ei gilydd i lunio rhaglen gydlynol o weithredu i ymdrin â thanau glaswellt yn y tymor byr, canolig a hir, yn seiliedig ar addysg, rheoli tir ac ataliad. Cafwyd ymrwymiadau gan yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

In the light of the summit, we have developed a joint action plan and I will receive regular reports on the progress being made by all agencies on the agreed actions. The accessibility of grassland areas and their proximity to Valley communities provides ample opportunities for those who are drawn to setting these fires. Our focus, therefore, must be on educating people on the seriousness of these crimes, changing their attitudes and behaviour, and removing any motivation that they may harbour, as well as other preventative activity.

Yng ngoleuni'r uwchgynhadledd, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu ar y cyd a byddaf yn cael adroddiadau rheolaidd am y cynnydd a wneir gan yr holl asiantaethau o ran y camau y cytunwyd arnynt. Mae hygyrchedd ardaloedd glaswelltir a'u hagosrwydd at gymunedau'r Cymoedd yn darparu digonedd o gyfleoedd i'r bobl hynny sy'n cael eu temtio i gynnau'r tanau hyn. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio, felly, ar addysgu pobl am ddifrifoldeb y troseddau hyn, newid eu hagweddau a'u hymddygiad, a dileu unrhyw gymhelliant a allai fod ganddynt, yn ogystal â gweithgarwch ataliol arall.

The fire and rescue service already has a strong record in this area, which I saw for myself when I visited Tonypandy and Caerphilly fire stations last month. Their flagship Phoenix programme, for those who have offended or are at risk of doing so, has a reoffending rate of under 5 per cent. At the height of the outbreak, fire service officers visited every secondary school in the worst-affected areas to deliver a hard-hitting presentation. We will continue to support these campaigns and the connections between the fire service, the police, schools, local authorities and others.

Mae gan y gwasanaeth tân ac achub eisoes hanes cryf yn y maes hwn; gwelais hynny drosof fy hun pan ymwelais â gorsafoedd tân Tonypandy a Chaerffili y mis diwethaf. Mae eu rhaglen flaenllaw Phoenix, ar gyfer pobl sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o wneud hynny, wedi sicrhau cyfradd aildroseddu o dan 5 y cant. Pan oedd yr achosion hyn yn digwydd amlaf, ymwelodd swyddogion y gwasanaeth tân â phob ysgol uwchradd yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf i roi cyflwyniad di-flewyn ar dafod. Byddwn yn parhau i gefnogi'r ymgyrchoedd hyn a'r cysylltiadau rhwng y gwasanaeth tân, yr heddlu, ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill.

The South Wales Fire and Rescue Service swiftly and safely extinguished all fires without having to call in extra support from other brigades or military sources. This placed extreme demands on firefighters, and, without their professionalism and dedication to duty, the outcome could have been much worse.

Llwyddodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i ddiffodd pob tân yn gyflym ac yn ddiogel heb orfod galw am gefnogaeth ychwanegol gan frigadau eraill na ffynonellau milwrol. Roedd hyn yn gosod gofynion eithafol ar ddiffoddwyr tân, a heb eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad i'w dyletswydd, gallai'r canlyniad fod wedi bod yn llawer gwaeth.

Nevertheless, the fire service needs the best possible tools at its disposal. The south Wales and mid and west Wales services are now actively considering options for airborne surveillance, including drones. This would prove invaluable in informing the effective deployment of fire crews and appliances, especially in upland areas. The same surveillance could also help to identify and deter those trying to set fires in the first place.

Serch hynny, mae ar y gwasanaeth tân angen i'r offer gorau posibl fod ar gael iddo. Mae gwasanaethau'r de a'r canolbarth a'r gorllewin nawr yn mynd ati i ystyried dewisiadau ar gyfer gwyliadwriaeth o'r awyr, gan gynnwys dronau. Byddai hyn yn amhrisiadwy i gael gwybod ble i ddefnyddio criwiau ac offer tân yn effeithiol, yn enwedig mewn ardaloedd ucheldir. Gallai'r un wyliadwriaeth hefyd helpu i adnabod a rhwystro pobl sy'n ceisio cynnau tanau yn y lle cyntaf.

Local authorities will support schools and their pupils to become involved in reducing grass fires through social media campaigns and extra-curricular activity. With the support of Welsh Government funding, the fire and rescue services currently provide a range of programmes in school settings and elsewhere that aim to divert children and young people away from deliberate fire-setting.

Bydd awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion a'u disgyblion i helpu i leihau tanau glaswellt drwy gyfrwng ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau allgyrsiol. Gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru, mae'r gwasanaethau tân ac achub ar hyn o bryd yn darparu ystod o raglenni mewn ysgolion ac mewn mannau eraill sydd â'r nod o ddargyfeirio plant a phobl ifanc oddi wrth gynnau tanau yn fwriadol.

To supplement initiatives on prevention in relation to potential fire-setters, the summit also considered ways to inhibit the spread of fires. Natural Resources Wales is exploring how changes in land and forestry management methods could be used to make grasslands less conducive to fires or be better structured to control the spread of fires. They're working with the fire service and landowners to develop such methods. Firefighters have also been involved in developing fire breaks on some of our valleys hillsides, using the latest techniques learned internationally.

I ategu'r mentrau ar atal pobl a allai gynnau tân, roedd yr uwchgynhadledd hefyd yn ystyried ffyrdd o atal ymlediad tanau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn archwilio sut y gellid newid dulliau rheoli tir a choedwigaeth i wneud glaswelltiroedd yn llai ffafriol i danau neu eu strwythuro'n well i reoli ymlediad tanau. Maent yn gweithio gyda'r gwasanaeth tân a thirfeddianwyr i ddatblygu dulliau o'r fath. Mae diffoddwyr tân hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu rhwystrau tân ar rai o'n bryniau yn y cymoedd, gan ddefnyddio'r technegau diweddaraf a ddysgwyd yn rhyngwladol.

The Welsh Government also has an important role to play. We will work with the fire and rescue services, police, local authorities and Natural Resources Wales to deliver a co-ordinated public engagement strategy. We will ensure adequate planning and co-ordination of work to tackle grass fires through the Wales resilience forum. We are also considering how we could use our schemes to support farmers and landowners, such as Glastir, to promote land management practices that reduce the risk of fire. Working through the joint arson group, the joint emergency services group will continue to co-ordinate multi-agency operations and initiatives across Wales to reduce the instances of grass fires.

Mae gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae hefyd. Byddwn yn gweithio gyda'r gwasanaethau tân ac achub, yr heddlu, awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno strategaeth gydlynol i ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddwn yn sicrhau bod gwaith wedi'i gynllunio a'i gydlynu'n ddigonol i ymdrin â thanau glaswellt drwy fforwm Cymru Gydnerth. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallem ddefnyddio ein cynlluniau i gefnogi ffermwyr a pherchnogion tir, megis Glastir, i hyrwyddo arferion rheoli tir sy'n lleihau'r perygl o dân. Gan weithio drwy'r grŵp llosgi bwriadol ar y cyd, bydd y grŵp gwasanaethau brys ar y cyd yn parhau i gydlynu gweithrediadau a mentrau amlasiantaethol ledled Cymru i leihau nifer yr achosion o danau glaswellt.

It became apparent during the height of the recent spate of grass fires that there was huge public and community concern over grass fires, and a great willingness to help reduce them. Many offered their support to the emergency services by reporting incidents or identifying culprits. I know that the chief fire officer for south Wales has personally met and briefed the community groups that have come forward to help, and that his service will continue to support them. A smartphone app has also been created for those who access the affected areas, such as walkers and commercial companies, to record information and report it to the fire and rescue service.

Daeth yn amlwg pan oedd y tanau glaswellt diweddar ar eu gwaethaf bod pryder enfawr ymysg y cyhoedd a chymunedau ynglŷn â thanau glaswellt, a pharodrwydd helaeth i helpu i'w lleihau. Cynigiodd llawer o bobl eu cefnogaeth i'r gwasanaethau brys drwy adrodd am ddigwyddiadau neu enwi tramgwyddwyr. Gwn fod prif swyddog tân y de wedi cyfarfod yn bersonol â'r grwpiau cymunedol a gynigiodd helpu a'u briffio, ac y bydd ei wasanaeth yn parhau i'w cefnogi. Mae ap ffôn clyfar hefyd wedi cael ei greu i'r bobl hynny sy'n defnyddio'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, megis cerddwyr a chwmnïau masnachol, i gofnodi gwybodaeth a'i rhannu â'r gwasanaeth tân ac achub.

Whilst the weather and environmental conditions are no longer, at the present time, conducive to grass fires, the threat has not gone away. We cannot be complacent.

Er nad yw'r tywydd a'r amodau amgylcheddol bellach, ar hyn o bryd, yn ffafriol i danau glaswellt, nid yw'r bygythiad wedi diflannu. Ni allwn fod yn hunanfodlon.

15:52

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I thank the Minister for his excellent statement this afternoon? It answers a great number of the questions posed to him on previous occasions, and over the years of the Assembly, when Members have raised this. Your action in calling together all the interested parties is certainly greatly appreciated. You quite rightly paid tribute to the South Wales Fire and Rescue Service. I would add to that, if I may, the emergency call centres also, who actually deal with the initial false call on so many occasions.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad ardderchog y prynhawn yma? Mae'n ateb nifer mawr o'r cwestiynau a ofynnwyd iddo ar achlysuron blaenorol, a dros flynyddoedd y Cynulliad, pan fo Aelodau wedi codi hyn. Mae eich galwad ar yr holl bartïon sydd â diddordeb i ddod ynghyd yn sicr yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Gwnaethoch dalu teyrnged haeddiannol i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Byddwn yn ychwanegu at hynny, os caf, y canolfannau galwadau brys hefyd, sy'n ateb yr alwad ffug gychwynnol mewn gwirionedd ar nifer fawr o achlysuron.

Minister, I did raise with you previously whether it was worth while your Government contributing to the sentencing guidelines and whether they need increasing for crimes of this kind. We all know exactly the consequence and the mindless nature of them in the first place. Could I just support what you have said in your statement by giving an example, which fully illustrates the drain upon vital public services both in time and manpower, finance, and destruction of the environment? On Wednesday 10 June, there was a deliberately-lit grass fire on Eglwysilan mountain in Caerphilly. Fire crews were engaged for over six hours at a cost to the taxpayer of approximately £1,200 an hour, and 6 hectares of mountainside were destroyed. Minister, I am grateful that you have called this special meeting. I would ask, in future, if you could also report by statement from time to time as to the progress made by that joint committee.

Weinidog, gofynnais ichi o'r blaen a oedd yn werth chweil i'ch Llywodraeth gyfrannu at y canllawiau dedfrydu ac a oes angen eu cynyddu am droseddau o'r math hwn. Rydym i gyd yn gwybod yn union beth yw eu canlyniad a pha mor ddifeddwl yw eu natur yn y lle cyntaf. A gaf fi ategu'r hyn yr ydych wedi'i ddweud yn eich datganiad drwy roi enghraifft, sy'n dangos yn llwyr y baich ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol o ran amser a gweithlu, cyllid, a dinistrio'r amgylchedd? Ddydd Mercher 10 Mehefin, cafodd tân glaswellt ei gynnau'n fwriadol ar fynydd Eglwysilan yng Nghaerffili. Bu criwiau tân yn ceisio ei ddiffodd am dros chwe awr gan gostio tua £1,200 yr awr i'r trethdalwr, a chafodd 6 hectar o fynydd ei ddinistrio. Weinidog, rwy'n ddiolchgar ichi am alw'r cyfarfod arbennig hwn. Byddwn yn gofyn, yn y dyfodol, a allech chi hefyd roi datganiadau o bryd i'w gilydd ynglŷn â chynnydd y cyd-bwyllgor hwnnw.

15:54

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Deputy Presiding Officer, I'm grateful to the Conservative spokesperson who raised this issue, of course, earlier this year himself. It's very clear to us that this is, sadly, an annual series of events and therefore needs to be properly addressed through our resilience work through the Wales resilience forum. That's why we now have the joint arson group and the joint emergency services group looking actively at what may be done on a planned basis for the future.

Gwnaf. Ddirprwy Lywydd, rwy'n ddiolchgar i lefarydd y Ceidwadwyr a gododd y mater hwn, wrth gwrs, yn gynharach eleni ei hun. Mae'n amlwg iawn i ni bod hyn yn, yn anffodus, yn gyfres flynyddol o ddigwyddiadau ac felly mae angen rhoi sylw priodol iddo drwy ein gwaith cydnerthedd drwy'r fforwm Cymru Gydnerth. Dyna pam mae gennym bellach y grŵp llosgi bwriadol ar y cyd a'r grŵp gwasanaethau brys ar y cyd sy'n edrych o ddifrif ar yr hyn y gellir ei wneud ar sail wedi'i chynllunio ar gyfer y dyfodol.

I discussed these issues in detail this morning with the chief constables and with the police and crime commissioners, and last week with the chief fire officers. I'm glad that he's paid tribute to the work of the emergency call centres. Of course, their work on this has been very important. I think I'm right in saying—and I think I mentioned this in a previous session in this Chamber—that one incident alone in the Gwent area drew hundreds of calls to the emergency call centres. Clearly, they have a role in filtering those calls and ensuring that the demand is properly managed. He's also right, let me say, to draw attention to the cost of these fires. I'm pleased that, over time, there has been a significant reduction in the number of grass fires over the last decade or so. But it is still the case, of course, that the fire and rescue authorities—and so do the police—have to plan for likely events and, therefore, are making budgetary allocations against these events every year.

Trafodais y materion hyn yn fanwl y bore yma gyda'r prif gwnstabliaid a gyda'r heddlu a'r comisiynwyr troseddau, a'r wythnos diwethaf gyda'r prif swyddogion tân. Rwy'n falch ei fod wedi talu teyrnged i waith y canolfannau galwadau brys. Wrth gwrs, mae eu gwaith ar hyn wedi bod yn bwysig iawn. Rwy'n meddwl fy mod yn iawn wrth ddweud—ac rwy'n meddwl fy mod wedi sôn am hyn mewn sesiwn flaenorol yn y Siambr hon—bod un digwyddiad yn unig yn ardal Gwent wedi denu cannoedd o alwadau i'r canolfannau galwadau brys. Yn amlwg, mae ganddynt waith o hidlo'r galwadau hynny a sicrhau bod y galw'n cael ei reoli'n briodol. Mae hefyd yn iawn, gadewch imi ddweud, i dynnu sylw at gost y tanau hyn. Rwy'n falch ein bod, dros amser, wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y tanau glaswellt dros y degawd diwethaf. Ond mae'n dal yn wir, wrth gwrs, bod awdurdodau tân ac achub—ac felly hefyd yr heddlu—yn gorfod cynllunio ar gyfer digwyddiadau tebygol ac, felly, maent yn gwneud dyraniadau cyllidebol yn erbyn y digwyddiadau hyn bob blwyddyn.

In respect of what he said about sentencing guidelines, I think that what I would like to do is to review that question subsequent to the arrests that have proceeded and any observations that we have from the police on those. But I think it's an interesting idea, as I said to him at the time, and I will return to it.

O ran yr hyn a ddywedodd am ganllawiau dedfrydu, rwy'n meddwl mai'r hyn yr hoffwn ei wneud yw adolygu'r cwestiwn hwnnw ar ôl yr arestiadau sydd wedi digwydd ac unrhyw sylwadau a gawn gan yr heddlu am y rheini. Ond rwy'n meddwl ei fod yn syniad diddorol, fel y dywedais wrtho ar y pryd, a byddaf yn dychwelyd ato.

15:56

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, rydych yn cyfeirio at yr uwchgynhadledd a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, ac yn cyfeirio at rai o'r pethau a ddaeth allan o'r uwchgynhadledd honno. A allwch chi amlhau rhyw ychydig ynglŷn â'r math o bethau a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt o ran cydweithio rhwng y gwahanol asiantaethau, nid yn unig i atal y tanau yma ond i geisio sicrhau nad ydynt yn digwydd yn y lle cyntaf, oherwydd, wrth reswm, mae'r gost a'r pwysau ar y gwasanaethau brys yn enfawr eleni? A ydych chi'n cytuno â mi bod yna le i bryderu am ddau beth yng nghyd-destun y gwasanaeth tân ac achub? Rwyf yn ategu'n llwyr yr hyn sydd wedi cael ei ddweud o ran cydnabod gwaith y gwasanaeth hwnnw a'r ganolfan galwadau brys. Maen nhw wedi bod yn hynod o effeithiol yn eu hymateb. Ond mae yna le i bryderu, yn fy marn i o leiaf, yng nghyd-destun y ffaith fod lefel absenoldeb o fewn y gwasanaeth tân ac achub yn cynyddu. A oes yna le i bryderu, o bosibl, bod y pwysau, yng nghyd-destun y math hwn o ddigwyddiad, wedi effeithio ar hynny? A oes yna le hefyd i edrych ar yr hyn sy'n digwydd yng nghyd-destun y gwasanaeth tân ac achub, sef bod yna lawer o swyddogion llawn amser yn gadael y gwasanaeth ar hyn o bryd ond bod yna duedd i gyflogi pobl ar gytundebau rhan amser? A ydyn nhw, mewn gwirionedd, yn mynd i allu cynnal baich y gwaith, o ystyried hynny?

Minister, you referred to the summit held on 29 April, and you referred to some of the things that stemmed from that summit. Could you expand a little on the kinds of issues discussed and agreed in terms of collaboration between the different agencies, not only to prevent these fires, but to try to ensure that they don't happen in the first place, because, of course, the costs and the pressure on the emergency services this year are huge? Do you agree with me that there is room for concern about two issues in the context of the fire and rescue service? I endorse entirely what has been said in acknowledging the work of that service and the call centres. They've been exceptionally efficient and effective in their response. But there is room for concern, in my opinion at least, about the fact that the level of absence within the fire and rescue service is increasing. Is there room for concern, possibly, that the pressure, in the context of this kind of event, has affected those absence rates? Is there room also to look at what is happening in the context of the fire and rescue service, namely that many full-time officers are leaving the service at present but that there is a tendency to employ people on part-time contracts? Are they truly going to be able to shoulder the workload in these circumstances?

Hefyd, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad ar effeithiolrwydd y gwasanaeth tân ac achub, ac fe wnaethoch chi ddatgan bryd hynny eich bod chi am weld cynnydd yn y meysydd canlynol. Yn y lle cyntaf,

Also, the Welsh Government published a report on the efficiency of the fire and rescue service, and you stated at that time that you wanted to see progress in the following areas. First,

'Mynd ati yn barhaus ac yn gynaliadwy i leihau risg a gwneud dinasyddion a chymunedau yn fwy diogel'.

'Continually and sustainably reducing risk and enhancing safety of citizens and communities'.

Yn ail,

Secondly,

'Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i achosion;'

'Responding swiftly and effectively to incidents;'

Yn drydydd,

Thirdly,

‘Bod yn atebol mewn ffordd eglur a chyhoeddus am ddarparu a chyllid, a meithrin y safonau llywodraethu uchaf;

‘Being clearly and publicly accountable for delivery and funding, and manifesting the highest standards of governance;

‘Cadw pwysau i lawr ar gostau a manteisio ar bob cyfle i wneud arbedion effeithlonrwydd;

‘Maintaining downward pressure on costs and taking all opportunities to realise efficiencies;

‘Gweithio’n effeithiol gyda phartneriaid i wella effeithlonrwydd a llesiant dinasyddion a chymunedau’.

‘Working effectively with partners to improve efficiency and citizen and community well-being’.

Ac yn olaf,

And finally,

‘Gwerthfawrogi a datblygu’r gweithlu i’r safonau uchaf.’

‘Valuing and developing the workforce to the highest standards.’

A yw hyn wedi digwydd, Weinidog, ac a ydych chi am weld mwy o gynnydd yn y meysydd hyn?

Has this happened, Minister, and do you want to see more progress in these areas?

15:59

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, the Plaid Cymru spokesperson raises a significant number of issues. Let me start by saying that I think, resulting from the summit, there has been increased collaboration amongst all of the services represented, and that includes, let me say, fire and rescue, police, Natural Resources Wales and, indeed, local authorities, and I think that they are looking in a co-ordinated way at what needs to be done. It was said to me today by one of the chief constables that there has been greater co-operation with, for example, Natural Resources Wales over some of these issues, and I think that's important, and, indeed, with fire and rescue as well. So, I think the way in which we’ve highlighted these issues this year has contributed to something of a push to ensure more collaboration around issues of prevention, and also, not only prevention, which is itself important in many ways, but also in terms of the follow-through on detection and so on.

Ddirprwy Lywydd, mae llefarydd Plaid Cymru yn codi nifer sylweddol o faterion. Gadewch imi ddechrau drwy ddweud fy mod yn credu, o ganlyniad i’r uwchgynhadledd, y bu mwy o gydweithio ymhlith pob un o'r gwasanaethau a gynrychiolir, ac mae hynny'n cynnwys, gadewch imi ddweud, tân ac achub, yr heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru ac, yn wir, awdurdodau lleol, ac rwy’n meddwl eu bod yn edrych mewn ffordd gydgysylltiedig ar yr hyn sydd angen ei wneud. Dywedodd un o'r prif gwnstabliaid wrthyf heddiw y bu mwy o gydweithrediad gydag, er enghraifft, Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â rhai o'r materion hyn, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig, ac, yn wir, â thân ac achub yn ogystal. Felly, rwy’n meddwl bod y ffordd yr ydym wedi tynnu sylw at y materion hyn eleni wedi cyfrannu at ryw fath o ymgyrch i sicrhau mwy o gydweithio ynglŷn ag atal, a hefyd, nid yn unig atal, sydd ynddo’i hun yn bwysig mewn sawl ffordd, ond hefyd o ran y gwaith dilynol ar ganfod ac yn y blaen.

He asked a series of questions more broadly about the fire service. Let me start by saying that the fire service in general has been highly successful in reducing the number of fires—not just grass fires over the last decade, but fires in general since 2004. I think we should show our appreciation of that. He raises issues to do with the level of absence, the balance between full-time and part-time contracts within the service, and, of course, these are matters for the chief fire officers and for the fire and rescue authorities that provide the governance for them. I am satisfied at the present time that the governance model is one that works under the current system. Certainly, we would not want to see a system being adopted, as seems to be suggested in England, where there may be a role for police and crime commissioners in respect of the fire and rescue service. However, I'm sure that there are issues of governance that we may wish to return to at some point in the future.

Gofynnodd gyfres o gwestiynau mwy cyffredinol am y gwasanaeth tân. Gadewch imi ddechrau drwy ddweud bod y gwasanaeth tân yn gyffredinol wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran lleihau nifer y tanau—nid dim ond tanau glaswellt dros y degawd diwethaf, ond tanau’n gyffredinol ers 2004. Rwy’n meddwl y dylem ddangos ein gwerthfawrogiad o hynny. Mae’n codi materion yn ymwneud â lefel yr absenoldeb, y cydbwysedd rhwng contractau amser-llawn a rhan-amser o fewn y gwasanaeth, ac, wrth gwrs, mae'r rhain yn faterion i’r prif swyddogion tân ac i'r awdurdodau tân ac achub sy'n darparu eu trefn lywodraethu. Rwy’n fodlon ar hyn o bryd bod y model llywodraethu yn un sy'n gweithio dan y system bresennol. Yn sicr, ni hoffem weld system yn cael ei mabwysiadu, fel y mae'n ymddangos yr awgrymir yn Lloegr, lle gallai fod lle i’r heddlu a chomisiynwyr troseddu ymwneud â’r gwasanaeth tân ac achub. Fodd bynnag, rwy'n siŵr bod materion llywodraethu yr hoffem ddychwelyd atynt ar ryw adeg yn y dyfodol.

In respect of efficiencies within the service, I think it's fair to say that we've seen significant efficiencies being made within the fire service. They have had to cope, as have all parts of public service, with reduced budgets as a result of the cuts that have been made to the Welsh budget overall.

O ran arbedion effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth, rwy’n meddwl ei bod yn deg dweud ein bod wedi gweld arbedion effeithlonrwydd sylweddol o fewn y gwasanaeth tân. Maent wedi gorfod ymdopi, fel pob rhan o’r gwasanaeth cyhoeddus, â chyllidebau llai yn sgil y toriadau a wnaethpwyd i gyllideb Cymru yn gyffredinol.

16:02

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I fully acknowledge the excellent work that's been done by the fire and rescue service, but I feel that we also need to look at this problem from the other end of the telescope, namely the small number of young people who actually play outside after school and, therefore, their failure to engage with and be passionate about nature and the local environment. I just wondered what could be done using the services of organisations like the Wildlife Trusts, like RSPB, like Plantlife, like the Guides and the Scouts to really engage with young people and give them appreciation of the importance of nature, for the wellbeing of the whole community, but also as a possible future source of livelihood, because there's nothing more fantastic than the views from the Valleys, and I feel there's an awful lot more that can be done to develop tourism as well as leisure amenities in the Valleys. If we can get our young people to appreciate and be comfortable with nature, then, hopefully, they'll be much more minded to be protectors of nature.

Rwy’n cydnabod yn llwyr y gwaith rhagorol y mae’r gwasanaeth tân ac achub wedi'i wneud, ond teimlaf fod angen inni edrych hefyd ar y broblem hon o ben arall y telesgop, sef y nifer fechan o bobl ifanc sydd mewn gwirionedd yn chwarae y tu allan ar ôl ysgol ac, felly, eu methiant i ymgysylltu â byd natur a'r amgylchedd lleol a bod yn angerddol amdanynt. Roeddwn yn meddwl tybed beth y gellid ei wneud drwy ddefnyddio gwasanaethau sefydliadau fel yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, fel RSPB, fel Plantlife, fel y Geidiau a'r Sgowtiaid i wir ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn iddynt werthfawrogi pwysigrwydd natur, er lles y gymuned gyfan, ond hefyd fel ffynhonnell bosibl o fywoliaeth yn y dyfodol, oherwydd does dim byd yn fwy gwych na'r golygfeydd o'r Cymoedd, ac rwy’n teimlo y gellid gwneud llawer iawn mwy i ddatblygu twristiaeth yn ogystal â chyfleusterau hamdden yn y Cymoedd. Os gallwn gael ein pobl ifanc i werthfawrogi natur a bod yn gyfforddus ag ef, byddant, gobeithio, yn llawer mwy tueddol o amddiffyn natur.

16:03

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Presiding Officer, it's obviously the case that we want to encourage young people to enjoy the valley hillsides, the valley countryside, and, of course, the foundation phase has at its heart a great commitment to the outdoors and to the environment. Therefore, within our own education system, formally, we promote the values of the wider environment throughout formal education. There are many third sector organisations. She mentioned some; there are many more on a more local basis that engage with young people specifically around the virtues of the outdoor life, if you like, and they range from walking groups to cycling groups, to groups that are specifically focused on animal welfare, husbandry and so on. So, I'd say that there is a wide range of organisations already engaging with young people in our schools, both in the Valleys and elsewhere.

Ddirprwy Lywydd, mae'n amlwg yn wir yr hoffem annog pobl ifanc i fwynhau bryniau’r cymoedd, cefn gwlad y cymoedd, ac, wrth gwrs, mae ymrwymiad mawr i'r awyr agored ac i'r amgylchedd yn ganolog i’r cyfnod sylfaen. Felly, o fewn ein system addysg ei hun, yn ffurfiol, rydym yn hyrwyddo gwerthoedd yr amgylchedd ehangach drwy gydol addysg ffurfiol. Mae llawer o fudiadau yn y trydydd sector. Soniodd hi am rai; mae llawer mwy o fudiadau mwy lleol sy'n ymgysylltu â phobl ifanc yn benodol ynglŷn â rhinweddau bywyd awyr agored, os mynnwch chi, ac maent yn amrywio o grwpiau cerdded i grwpiau beicio, i grwpiau sy’n canolbwyntio'n benodol ar les anifeiliaid, hwsmonaeth ac yn y blaen. Felly, byddwn yn dweud bod amrywiaeth eang o sefydliadau eisoes yn ymgysylltu â phobl ifanc yn ein hysgolion, yn y Cymoedd ac mewn mannau eraill.

I think it's also important not to make the assumption that these fires are always started by young people. Those arrested by South Wales Police include a man in his 30s and another in his 50s. So, the challenge that we have goes beyond a challenge of addressing concerns about the behaviour of some young people.

Rwy'n meddwl ei bod hefyd yn bwysig peidio â rhagdybio mai pobl ifanc sy’n cynnau’r tanau hyn bob amser. Mae’r bobl a arestiwyd gan Heddlu De Cymru yn cynnwys dyn yn ei 30au ac un arall yn ei 50au. Felly, mae’r her sy’n ein hwynebu yn mynd ymhellach na her o dawelu pryderon am ymddygiad rhai pobl ifanc.

16:04

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to join, if I may, in the condemnation of these reckless individuals who endanger life, directly with the fires that they set and, of course, indirectly from those calls that our fire services are diverted from as a result of their actions. I’d like to put on record my thanks to the South Wales Fire and Rescue Service for the work they do, not only in keeping us safe, but also for the preventative work they do.

Hoffwn ymuno, os caf, yn y condemniad o'r unigolion di-hid hyn sy'n peryglu bywydau, yn uniongyrchol gyda'r tanau y maent yn eu cynnau ac, wrth gwrs, yn anuniongyrchol oherwydd y galwadau hynny y caiff ein gwasanaethau tân eu dargyfeirio oddi wrthynt o ganlyniad i'w gweithredoedd. Hoffwn gofnodi fy niolch i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru am y gwaith y maent yn ei wneud, nid dim ond i’n cadw’n ddiogel, ond hefyd am y gwaith ataliol y maent yn ei wneud.

Thank you, Minister, for your description of some of the actions that you’ve taken since this stark increase in fires in April. I very much welcome the action plan that you are developing, and look forward to the updates that we will receive. Now, clearly, one of the major priorities is identifying the reasons why people are engaged in this behaviour, and then finding ways to prevent them, because prevention is always going to be much better than cure in these circumstances. So, I wonder if you can tell us what assessment you have made, along with the appropriate services, of the reason for the sudden increase in incidents this year. Clearly, dry weather conditions allow fires to take hold, but that doesn’t necessarily account for the incredible number of fires that have been set this year.

Diolch, Weinidog, am eich disgrifiad o rai o'r camau yr ydych wedi’u cymryd ers y cynnydd amlwg hwn mewn tanau ym mis Ebrill. Croesawaf yn fawr y cynllun gweithredu yr ydych yn ei ddatblygu, ac edrychaf ymlaen at y diweddariadau a gawn. Nawr, yn amlwg, un o'r prif flaenoriaethau yw nodi'r rhesymau pam mae pobl yn ymddwyn fel hyn, ac yna dod o hyd i ffyrdd i’w hatal, gan y bydd atal bob amser yn llawer gwell na gwella dan yr amgylchiadau hyn. Felly, tybed a allwch chi ddweud wrthym pa asesiad yr ydych wedi'i wneud, ynghyd â'r gwasanaethau priodol, o’r rheswm am y cynnydd sydyn yn nifer y digwyddiadau eleni. Yn amlwg, mae amodau tywydd sych yn caniatáu i danau gydio, ond nid yw hynny o reidrwydd yn egluro’r nifer anhygoel o danau a gyneuwyd eleni.

You did also talk about the age of those responsible being very varied, actually, and I wonder if there’s any analysis of how that’s changed year on year, and whether or not there are perhaps younger people. I understand some of those caught were perhaps as young as 10, so this is clearly a cause for real concern, and I’m wondering again if there’s some analysis of why those individuals have engaged in this kind of behaviour.

Gwnaethoch sôn hefyd am yr amrywiaeth fawr yn oedran y bobl sy'n gyfrifol, mewn gwirionedd, a thybed a oes unrhyw ddadansoddiad o sut y mae hynny wedi newid o flwyddyn i flwyddyn, ac a oes pobl iau o bosibl. Rwyf ar ddeall bod rhai o'r rheini a gafodd eu dal o bosibl mor ifanc â 10 oed, felly mae hyn yn amlwg yn peri pryder gwirioneddol, a thybed eto a oes rhyw ddadansoddiad o'r rhesymau pam mae’r unigolion hynny wedi cymryd rhan yn y math hwn o ymddygiad.

I refer back to work that was done a few years ago by Cardiff University, particularly by Dr Sue Peattie in the business school, looking at the social marketing techniques that can be used to try and prevent things like grass fires taking place. The research team at the Centre for Business Relationships, Accountability, Sustainability and Society, I understand, were critical in helping set up Project Bernie, which was very successful in trying to control the spread of grass fires. One of the things that they did was first of all look at the reasons why young people particularly were engaging in these kinds of behaviours, and they were suggesting two particular things. You’ve talked about some of the preventative work that the fire service is doing in schools, and looking at, if you like, shock tactics to really bring home to people the impact of their actions, and I think that is incredibly important. But they also looked at diversionary tactics and what you call nudge tactics, to try and encourage people to more positive pathways more gently. I’m wondering if there’s been any further work to look at the effectiveness of these two approaches with different groups of people—different age groups, perhaps—but also to see if there are ways in which we can combine both approaches to even better effect.

Cyfeiriaf yn ôl at y gwaith a wnaethpwyd rai blynyddoedd yn ôl gan Brifysgol Caerdydd, yn enwedig gan Dr Sue Peattie yn yr ysgol fusnes, i edrych ar y technegau marchnata cymdeithasol y gellir eu defnyddio i geisio atal pethau fel tanau glaswellt rhag digwydd. Roedd y tîm ymchwil yn y Ganolfan ar gyfer Cysylltiadau Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas, rwyf ar ddeall, yn allweddol wrth helpu i sefydlu Prosiect Bernie, a fu’n llwyddiannus iawn wrth geisio rheoli lledaeniad tanau glaswellt. Un o'r pethau a wnaethant yn gyntaf oll oedd edrych ar y rhesymau pam yr oedd pobl ifanc yn enwedig yn cymryd rhan yn y mathau hyn o ymddygiad, ac roeddent yn awgrymu dau beth penodol. Rydych wedi sôn am rai o'r gwaith ataliol y mae’r gwasanaeth tân yn ei wneud mewn ysgolion, ac am edrych ar, os mynnwch, dactegau sioc i gyfleu i bobl beth yw effaith eu gweithredoedd, a chredaf fod hynny’n hynod o bwysig. Ond roeddent hefyd wedi edrych ar dactegau dargyfeirio a'r hyn yr ydych yn eu galw’n dactegau procio, i geisio annog pobl i ddilyn llwybrau mwy cadarnhaol mewn modd mwy cynnil. Tybed a oes unrhyw waith pellach wedi’i wneud i edrych ar effeithiolrwydd y ddwy ymagwedd hyn gyda grwpiau gwahanol o bobl—grwpiau oedran gwahanol, efallai—ond hefyd i weld a oes ffyrdd y gallwn gyfuno'r ddau ddull i fod yn fwy effeithiol fyth.

In terms of some of the diversion tactics that have been used in the past, which have been very helpful, activities such as after-school clubs and holiday clubs have been very, very important because they literally take the young people off the streets and give them something purposeful to do with time. They do say that the devil makes work for idle hands; well, one of the solutions there is perhaps to make sure that these hands are not necessarily so idle. I wonder if you can give us some indication of the availability of after-school clubs and these kinds of holiday projects in places badly affected, and also whether transport is available so that those young people can actually access them.

O ran rhai o'r tactegau dargyfeirio sydd wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol, sydd wedi bod o gymorth mawr, mae gweithgareddau fel clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau wedi bod yn bwysig iawn, iawn gan eu bod yn llythrennol yn cymryd y bobl ifanc oddi ar y strydoedd ac yn rhoi rhywbeth pwrpasol iddynt i'w wneud â’u hamser. Maent yn dweud bod y diafol yn gwneud gwaith i ddwylo segur; wel, un o'r atebion yno efallai yw gwneud yn siŵr nad yw’r dwylo hyn o reidrwydd mor segur. Tybed a allwch chi roi rhyw syniad inni o’r clybiau ar ôl ysgol a’r mathau hyn o brosiectau gwyliau sydd ar gael mewn mannau y mae hyn wedi effeithio'n wael arnynt, a hefyd a oes cludiant ar gael er mwyn i’r bobl ifanc hynny allu eu defnyddio mewn gwirionedd.

Another issue mentioned by another Member is of course whether we can encourage young people to feel a sense of ownership about our natural environment. Can we, through some of these after-school clubs and diversionary tactics, encourage that sense of conservation of our local environment, which will make people less likely to want to destroy it?

Mater arall a gododd Aelod arall, wrth gwrs, yw a allwn ni annog pobl ifanc i deimlo ymdeimlad o berchnogaeth am ein hamgylchedd naturiol. A allwn ni, drwy rai o'r clybiau ar ôl ysgol hyn a thactegau dargyfeiriol, annog yr ymdeimlad hwnnw o gadwraeth o'n hamgylchedd lleol, a fydd yn gwneud pobl yn llai tebygol o fod ag eisiau ei ddinistrio?

Finally, when it comes to public engagement, I very much welcome the establishment of the app, which I think, for those who are actively engaged and very involved with the hills, will be a really useful tool. I welcome as well the activities of spotters and volunteers, who did indeed engage with the emergency services on this occasion. I'm wondering what we can do to encourage more people to get involved in that very positive kind of way, and engage with these apps, and, if you like, to pull them towards us rather than try and push information out to them.

Yn olaf, o ran ymgysylltu â'r cyhoedd, croesawaf sefydlu'r ap, a fydd, yn fy marn i, yn arf defnyddiol iawn i'r bobl hynny sy'n weithgar ar y bryniau ac yn ymwneud llawer â hwy. Rwy'n croesawu hefyd gweithgareddau gwylwyr a gwirfoddolwyr, a wnaethant wir ymgysylltu â'r gwasanaethau brys ar yr achlysur hwn. Tybed beth y gallwn ei wneud i annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y ffordd gadarnhaol iawn honno, ac ymgysylltu â'r apiau hyn, ac, os mynnwch, i'w tynnu tuag atom yn hytrach na cheisio gwthio gwybodaeth allan atyn nhw.

16:09

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome what's been said by the Liberal Democrat spokesperson. I think it's fair to say that there are a series of initiatives now under way. Let me start with what she said about research: there was significant research done some time ago on the motivations of people who get involved in fire-setting, including mountain fires, and that work has been drawn on by the fire and rescue service and by others. South Wales Police has very recently, just since the recent spate of grass fires, commissioned the Universities' Police Science Institute at Cardiff University to undertake some action research, focusing on the drivers and cultural conditions of those events, and also to look at the effectiveness of operational interventions and the role of social media. I'm pleased to have had that report just in the last week from the police and crime commissioner for south Wales, which I think is very valuable and repays further reading. My own department is currently looking at what may be done in respect of behavioural techniques in order to discourage fire-setting as well.

Rwy'n croesawu'r hyn y mae llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i ddweud. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod cyfres o fentrau bellach ar y gweill. Gadewch imi ddechrau gyda'r hyn a ddywedodd am ymchwil: gwnaethpwyd ymchwil sylweddol beth amser yn ôl ynglŷn â chymhellion pobl sy'n cynnau tanau, gan gynnwys tanau mynydd, ac mae'r gwasanaeth tân ac achub a phobl eraill wedi tynnu ar y gwaith hwnnw. Yn ddiweddar iawn, ers y nifer o danau glaswellt diweddar hyn, mae Heddlu De Cymru wedi comisiynu Sefydliad Gwyddor Heddlu'r Prifysgolion ym Mhrifysgol Caerdydd i ymgymryd â rhywfaint o ymchwil gweithredu, gan ganolbwyntio ar sbardunwyr ac amodau diwylliannol y digwyddiadau hynny, a hefyd i edrych ar effeithiolrwydd ymyriadau gweithredol a sut y gellir defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Rwy'n falch o fod wedi cael yr adroddiad hwnnw yn yr wythnos ddiwethaf gan gomisiynydd heddlu a throseddau'r de, ac rwy'n meddwl ei fod yn werthfawr iawn ac yn werth ei ddarllen ymhellach. Ar hyn o bryd mae fy adran i'n edrych ar yr hyn y gellir ei wneud o ran technegau ymddygiadol er mwyn anghymell cynnau tanau hefyd.

In relation to activities with young people, I think it's fair to say that, in most of these communities, there are after-school clubs that are undertaking good work, there are good third-sector organisations working with schools and with others, and there is a wide variety of activities being co-ordinated through different networks, including the Boys' and Girls' Clubs as well. So, it's important to bear those things in mind.

O ran gweithgareddau gyda phobl ifanc, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud, yn y rhan fwyaf o'r cymunedau hyn, bod clybiau ar ôl ysgol yn gwneud gwaith da, bod mudiadau trydydd sector da yn gweithio gydag ysgolion a gydag eraill, a bod amrywiaeth eang o weithgareddau'n cael eu cydlynu drwy wahanol rwydweithiau, gan gynnwys Clybiau Bechgyn a Merched hefyd. Felly, mae'n bwysig cadw'r pethau hynny mewn cof.

We have had a long history of educational programmes run by the fire and rescue services and they continue. They intensify those following the April period. It's quite right to pay tribute to the work of projects such as Project Bernie, which has had a significant impact and led to an 80 per cent reduction of instances in some areas. The other community engagement activities include, of course, work with young offenders or those who are at risk of offending. The Phoenix programme, run by the fire and rescue service, has a re-offending rate of under 5 per cent, and, I think, again, that is an indication of success.

Rydym wedi cael hanes hir o raglenni addysgol wedi'u cynnal gan y gwasanaethau tân ac achub ac maent yn parhau. Maent yn dwysáu'r rheini ar ôl cyfnod mis Ebrill. Mae'n gwbl gywir i dalu teyrnged i waith prosiectau fel Prosiect Bernie, sydd wedi cael effaith sylweddol ac wedi arwain at ostyngiad o 80 y cant mewn achosion mewn rhai ardaloedd. Roedd y gweithgareddau eraill i ymgysylltu â'r gymuned yn cynnwys, wrth gwrs, gwaith gyda throseddwyr ifanc neu rai sydd mewn perygl o droseddu. Mae gan y rhaglen Phoenix, a gynhelir gan y gwasanaeth tân ac achub, gyfradd aildroseddu o dan 5 y cant, ac rwy'n meddwl, unwaith eto, bod hynny'n arwydd o lwyddiant.

I think all public services are focused on this issue. It is important, ultimately, to remember also, of course, that there has been a significant reduction over time in the numbers of deliberately set mountain fires. However, one fire, of course, is too many.

Rwy'n meddwl bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio ar y mater hwn. Mae'n bwysig, yn y pen draw, cofio hefyd, wrth gwrs, y bu gostyngiad sylweddol dros amser yn nifer y tanau mynydd bwriadol. Fodd bynnag, mae un tân, wrth gwrs, yn ormod.

16:12 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. Can I thank you for the statement? It's obvious there's an awful lot of good work being done. Like others in the Chamber here, my constituency has been disproportionately affected, I think, by these fires. But, I would like to pay tribute to all those people, the emergency services, who are involved in tackling these fires.

Diolch, Weinidog. A gaf fi ddiolch ichi am y datganiad? Mae'n amlwg bod llawer iawn o waith da'n cael ei wneud. Fel eraill yn y Siambr yma, mae'r tanau wedi cael effaith anghymesur, rwy'n credu, ar fy etholaeth i. Ond hoffwn dalu teyrnged i'r holl bobl hynny, y gwasanaethau brys, sy'n ymwneud â brwydro yn erbyn y tanau hyn.

A number of my questions have already been answered, so I won't go over some of these things. I just want to know—I have a couple of questions—what work is being done with offenders to understand the drivers behind their actions to enable us to better devise preventative solutions. And more generally on this point, I will say that I think there is nothing new about either the deliberate setting of fires, or indeed preventative work. Obviously, the work is very good with, for example, schools and community groups and youth clubs. But I just wonder, Minister, what evaluation has the Welsh Government made of these preventative actions so that we know actually what works and perhaps what doesn't work. The link to poorer areas is also apparent, and back in April the head of the South Wales Fire and Rescue Service's community and safety partnership made this association clear. So I just wonder how the Welsh Government can specifically target and engage with young people in those communities. I may be wrong on this, Minster, but when we talk about young people it does seem to be, in the main, young men or boys involved. So, I think there is a gendered aspect to this, which you may like to consider.

Mae nifer o fy nghwestiynau eisoes wedi cael eu hateb, felly wnaf ailadrodd rhai o'r pethau hyn. Hoffwn wybod—mae gen i un neu ddau o gwestiynau—pa waith sy'n cael ei wneud gyda throseddwyr i ddeall beth sy'n cymell eu gweithredoedd er mwyn ein galluogi i lunio atebion ataliol yn well. Ac yn fwy cyffredinol ar y pwynt hwn, rwyf am ddweud nad wyf yn meddwl bod dim byd newydd naill ai am gynnau tanau bwriadol, nac yn wir am waith ataliol. Yn amlwg, mae'r gwaith yn dda iawn gydag, er enghraifft, ysgolion a grwpiau cymunedol a chlybiau ieuenctid. Ond tybed, Weinidog, pa werthusiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r camau ataliol hyn fel ein bod yn gwybod mewn gwirionedd beth sy'n gweithio ac efallai beth nad yw'n gweithio. Mae'r cyswllt ag ardaloedd tlotach hefyd yn amlwg, ac yn ôl ym mis Ebrill gwnaeth pennaeth partneriaeth gymunedol a diogelwch Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru y cysylltiad hwn yn glir. Felly, tybed sut y gall Llywodraeth Cymru dargedu pobl ifanc yn benodol ac ymgysylltu â hwy yn y cymunedau hynny? Efallai fy mod yn anghywir ynglŷn â hyn, Weinidog, ond pan fyddwn yn sôn am bobl ifanc mae hi yn ymddangos, yn bennaf, mai dynion ifanc neu fechgyn sydd dan sylw. Felly, credaf fod agwedd ar hyn yn seiliedig ar rywedd; efallai yr hoffech ystyried hynny.

We also know the certain factors that seem to increase the likelihood of deliberate grass fires—warm, dry weather, school holidays—so we should be able to predict when we are likely to face the greatest threat from deliberate grass fires. What targeting is being done around this? Finally, has any set of optimum conditions or warning systems been developed so that our emergency services and communities are best placed to rise to the challenge?

Rydym hefyd yn gwybod beth yw'r ffactorau penodol sy'n ymddangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd o danau glaswellt bwriadol—tywydd cynnes, sych, gwyliau ysgol—felly dylem allu rhagweld pan fyddwn yn debygol o wynebu'r bygythiad mwyaf gan danau glaswellt bwriadol. Pa dargedu sy'n cael ei wneud o amgylch hyn? Yn olaf, a oes unrhyw gyfres o amodau optimwm neu systemau rhybuddio wedi'u datblygu fel bod ein gwasanaethau brys a'n cymunedau yn y sefyllfa orau i ymateb i'r her?

16:14 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

My colleague the Member for Cynon Valley has seen these fires habitually in her own constituency over many years. The south Wales Valleys in particular are unique communities where you have a concentration of population in very close proximity to hillsides and to woodland areas. I think it's right that we focus on the research that has been done in respect of the behaviour of offenders in order to look at the work that may be done to diminish the number of fires in future. However, I think it's fair to say that the research that has been undertaken is not necessarily comprehensive. I'm sure that there could be further research that could be undertaken, which is why my own department is looking at behavioural techniques at the present time.

Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Gwm Cynon wedi gweld y tanau hyn yn rheolaidd yn ei hetholaeth ei hun dros lawer o flynyddoedd. Mae cymoedd y de'n benodol yn gymunedau unigryw lle mae gennych grynodiad o boblogaeth yn agos iawn at lechweddau ac at ardaloedd coetir. Rwy'n credu ei bod yn iawn ein bod yn canolbwyntio ar y gwaith ymchwil sydd wedi'i wneud ynglŷn ag ymddygiad troseddwyr er mwyn edrych ar y gwaith y gellir ei wneud i leihau nifer y tanau yn y dyfodol. Fodd bynnag, credaf ei bod yn deg dweud nad yw'r gwaith ymchwil sydd wedi cael ei wneud o reidrwydd yn gynhwysfawr. Rwy'n siŵr y gellid gwneud ymchwil pellach, a dyna pam mae fy adran i'n edrych ar dechnegau ymddygiadol ar hyn o bryd.

I think she's right to say that there are certain conditions where you can predict the likelihood of grass fires, and we know that there are certain times of year—it is in the period up to Easter, very often—that we see the cycles beginning, because of the weather conditions, because of the environmental conditions, because of, probably, the advent of the school holidays, and so on. So, that's why we've taken the step that we have taken now of building this into our resilience work in order to ensure that we are planning across the different public services, in a more co-ordinated way, measures that can be undertaken to diminish the threat. That may mean that we have to adjust the way in which some of those educational programmes are undertaken, the timing of them, and those kinds of interventions. So, she's right to highlight all of those issues. I think people are genuinely engaging with them, but it remains, obviously, a significant challenge.

Rwy'n meddwl ei bod yn gywir wrth ddweud bod yna amodau penodol lle gallwch ragweld y tebygolrwydd o danau glaswellt, a gwyddom fod yna rai adegau o'r flwyddyn—yn y cyfnod hyd at y Pasg, yn aml iawn—pan fyddwn yn gweld y cylchoedd yn dechrau, oherwydd y tywydd, oherwydd yr amodau amgylcheddol, oherwydd, yn ôl pob tebyg, dechrau gwyliau'r ysgol, ac yn y blaen. Felly, dyna pam yr ydym wedi cymryd y cam yr ydym wedi'i gymryd nawr o gynnwys hyn yn ein gwaith cydnerthedd er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio ar draws y gwahanol wasanaethau cyhoeddus, mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, mesurau y gellir eu defnyddio i leihau'r bygythiad. Gallai hynny olygu bod yn rhaid inni addasu'r ffordd y caiff rhai o'r rhaglenni addysgol hyn eu cynnal, eu hamseriad, a'r mathau hynny o ymyriadau. Felly, mae hi'n iawn i dynnu sylw at yr holl faterion hynny. Rwy'n meddwl bod pobl yn wirioneddol yn ymgysylltu â hwy, ond mae'n dal i fod, yn amlwg, yn her sylweddol.

16:16

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In your statement, you refer to the worrying figure of 933 fires in south Wales; I know in north Wales, in March and April alone, there were 145 fires set, including 62 grass fires, and North Wales Fire and Rescue Service's arson reduction manager, Kevin Jones, put out an appeal to parents and guardians,

Yn eich datganiad, rydych yn cyfeirio at y ffigur sy'n achosi pryder o 933 o danau yn y de; rwy'n gwybod bod 145 o danau wedi'u cynnau yn y gogledd, gan gynnwys 62 o danau glaswellt, ym mis Mawrth a mis Ebrill yn unig, a bod rheolwr lleihau tanau bwriadol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Kevin Jones, wedi cyflwyno apêl i rieni a gwarcheidwaid,

'to be more aware of the whereabouts of their children and impress upon them the important message that deliberate fires endanger lives'.

'i fod yn fwy ymwybodol o ble mae eu plant a phwysleisio iddynt y neges bwysig bod tanau bwriadol yn peryglu bywydau'.

What role do you, therefore, believe parents can play in this? Could you be considering the actions taken by north Wales and monitoring the outcomes to see whether that might be something worth also developing?

Felly, pa ran yr ydych yn credu y gall rhieni ei chwarae yn hyn? A allech chi ystyried y camau a gymerwyd yn y gogledd a monitro'r canlyniadau i weld a allai hynny hefyd fod yn rhywbeth gwerth ei ddatblygu?

You referred to the summit on 29 April, and to an action plan agreed with a range of public sector bodies—I believe the Met Office were also there. In the Welsh Government's statement following the summit, you're quoted as saying,

Cyfeiriasoch at yr uwchgynhadledd ar 29 Ebrill, ac at gynllun gweithredu y cytunwyd arno gydag amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus—rwy'n credu bod y Swyddfa Dywydd yno hefyd. Yn natganiad Llywodraeth Cymru ar ôl yr uwchgynhadledd, cewch eich dyfynnu'n dweud,

'Communities themselves want to be involved in the fight against these crimes',

'Mae cymunedau eu hunain yn awyddus i fod yn rhan o'r frwydr yn erbyn y troseddau hyn',

and you refer to a range of community groups. Were community groups involved in the summit? Given the importance that you quite rightly place upon them, will you, or are you engaging them in helping to design as well as to deliver the solutions to the problems that you've quite rightly identified?

ac rydych yn cyfeirio at ystod o grwpiau cymunedol. A oedd grwpiau cymunedol yn rhan o'r uwchgynhadledd? O ystyried y pwysigrwydd cwbl briodol yr ydych yn ei roi iddynt, a wnewch chi, neu a ydych chi yn, eu cynnwys wrth helpu i lunio yn ogystal â darparu yr atebion i'r problemau yr ydych wedi eu nodi'n gwbl briodol?

16:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Make this the last point, please.

Gwnewch hwn y pwynt olaf, os gwelwch yn dda.

16:17 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, the final question: further to outbreaks in the past, the fire and rescue services also referred to landowners who had not prevented fires spreading quickly, and that landowners were not reporting or seeking advice on controlled burning in advance. What action has the Welsh Government taken since that was raised in 2011, where that was the second, I believe, highest suspected cause, after deliberate fire-starting, of grass fires?

Iawn, y cwestiwn olaf: ar ôl achosion yn y gorffennol, cyfeiriodd y gwasanaethau tân ac achub hefyd at dirfeddianwyr nad oeddent wedi atal tanau rhag ymledu'n gyflym, gan ddweud nad oedd tirfeddianwyr yn adrodd neu'n chwilio am gyngor ar losgi dan reolaeth o flaen llaw. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ers y codwyd hynny yn 2011, lle mai dyna, rwy'n credu, oedd yr ail reswm a amheuwyd fwyaf dros danau glaswellt, ar ôl cynnau bwriadol?

16:18 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the Conservative Member for North Wales raises a number of points that I think I've largely covered, but let me just return to one or two of them. The advice given by the arson manager in north Wales was common, I think, across the fire and rescue authorities in Wales in respect of parents knowing where children were. I certainly saw that message going out from the South Wales Fire and Rescue Service in my own area during this period. They send those messages out, of course, through conventional media, but also now through social media as well, and I think that's been an important element of this.

Wel, mae'r Aelod Ceidwadol dros Ogledd Cymru yn codi nifer o bwyntiau yr wyf yn meddwl fy mod wedi rhoi sylw iddynt i raddau helaeth, ond gadewch imi ddychwelyd at un neu ddau ohonynt. Roedd y cyngor a roddodd y rheolwr llosgi bwriadol yn y gogledd yn gyffredin, rwy'n meddwl, ar draws yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru o ran rhieni'n gwybod lle mae eu plant. Yn sicr, gwelais y neges honno'n cael ei hanfon gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn fy ardal fy hun yn ystod y cyfnod hwn. Maent yn anfon y negeseuon hynny allan, wrth gwrs, drwy gyfryngau confensiynol, ond hefyd erbyn hyn drwy gyfryngau cymdeithasol yn ogystal, a chredaf fod hynny wedi bod yn elfen bwysig o hyn.

In respect of community groups, in a sense, there are almost too many community groups to involve in the summit, but what we have done is engage directly with those, largely through the fire and rescue services, although I've had some personal direct contact with them as well. I know the chief fire officer himself in south Wales, for example, has met with a significant range of community groups that have come forward offering their assistance in fire prevention, and I commend that work.

O ran grwpiau cymunedol, mewn un ystyr, mae bron gormod o grwpiau cymunedol i'w cynnwys yn yr uwchgynhadledd, ond yr hyn yr ydym wedi'i wneud yw ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheini, yn bennaf drwy'r gwasanaethau tân ac achub, er fy mod wedi cael rhywfaint o gyswllt uniongyrchol personol â hwy hefyd. Rwy'n gwybod bod y prif swyddog tân ei hun yn y de, er enghraifft, wedi cyfarfod ag amrywiaeth sylweddol o grwpiau cymunedol sydd wedi cynnig eu cymorth i atal tân, a chymeradwyaf y gwaith hwnnw.

In respect of landowners, I think there are a number of ways in which we as a Government are engaged. There is provision that we've been discussing through the Glastir scheme in terms of ensuring in the future that proper land management takes place. Natural Resources Wales has been contributing in this regard as well, and certainly I know that, in fire and rescue authorities themselves, the fire officers do discuss these issues with landowners.

O ran tirfeddianwyr, rwy'n meddwl ein bod ni fel Llywodraeth yn ymgysylltu mewn nifer o ffyrdd. Rydym wedi bod yn trafod darpariaeth drwy'r cynllun Glastir i sicrhau bod rheoli tir priodol yn digwydd yn y dyfodol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi bod yn cyfrannu yn hyn o beth, ac yn sicr rwy'n gwybod, o fewn awdurdodau tân ac achub eu hunain, bod y swyddogion tân yn trafod y materion hyn gyda thirfeddianwyr.

16:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

16:20

Senedd.tv Fideo Video

## 8. Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i 'Addysgu Athrawon Yfory—Dewisiadau ar gyfer Dyfodol Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru'

## 8. Statement: Welsh Government Response to 'Teaching Tomorrow's Teachers—Options for the Future of Initial Teacher Education in Wales'

Y

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 8 is a statement by the Minister for Education and Skills on the Welsh Government's response to 'Teaching Tomorrow's Teachers'. I call the Minister, Huw Lewis.

Eitem 8 yw datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am ymateb Llywodraeth Cymru i 'Addysgu Athrawon Yfory'. Galwaf ar y Gweinidog, Huw Lewis.

16:20 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. In March, I welcomed the findings of Professor John Furlong's report, 'Teaching Tomorrow's Teachers', on the future of initial teacher education in Wales. Since March, we have been looking closely at the options for reform and today I want to address the recommendations for change contained in the report.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ym mis Mawrth, croesawais ganfyddiadau adroddiad yr Athro John Furlong, 'Addysgu Athrawon Yfory', ar ddyfodol addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru. Ers mis Mawrth, rydym wedi bod yn edrych yn ofalus ar y dewisiadau ar gyfer diwygio a heddiw rwyf am sôn am yr argymhellion ar gyfer newid sydd yn yr adroddiad.

I will not cover every aspect of reform that is likely to result from taking forward the recommendations in detail, as we need to be mindful of the ongoing developmental work being undertaken following the review of the curriculum and the work required to develop our vision of pedagogical excellence outlined in Professor Graham Donaldson's 'Successful Futures' report, as well as developments emerging to shape the new deal for existing practitioners. All these strands of work are inextricably linked and we will need to work together to establish the collaborative culture that characterises excellent education systems.

Ni wnaf roi sylw manwl i bob agwedd ar ddiwygio sy'n debygol o ddeillio o fwrw ymlaen â'r argymhellion, gan fod angen inni fod yn ymwybodol o'r gwaith datblygu parhaus sy'n cael ei wneud i ddilyn yr adolygiad o'r cwricwlwm a'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu ein gweledigaeth o ragoriaeth mewn addysg a amlinellir yn adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yr Athro Graham Donaldson, yn ogystal â datblygiadau sy'n dod i'r amlwg i lunio'r cytundeb newydd ar gyfer ymarferwyr presennol. Mae cysylltiad annatod rhwng yr holl elfennau hyn ar y gwaith a bydd angen inni gydweithio i sefydlu'r diwylliant cydweithredol sy'n nodweddiadol o systemau addysg rhagorol.

I accept that we need to revise and align the qualified teacher status standards to the wider professional standards for the education workforce. I have commissioned an internal reference group to start work on developing the professional standards with a view to consulting on the draft revised standards later this year. Raising the standards required of providers should they wish to deliver, or continue to deliver, accredited teacher training programmes in the future is crucial, as is the role of the accrediting body. I accept fully that the criteria for accreditation should be revised to be improved, and that the benchmark for both prospective providers and prospective candidates via the entry requirements should be raised. I have asked Professor Furlong to chair a task and finish group, to include a membership of sector stakeholders, experts in initial teacher education and training, consortia and school representatives to review each accreditation criterion. Robust criteria will result in providers having to evidence the very highest standards of delivery before their course programmes can be accredited. I expect to see evidence of strong and genuine partnership arrangements with excellent lead schools, with creative teaching methodologies and action-centred research as central to the training available, along with evidence of robust quality assurance arrangements.

Rwy'n derbyn bod angen inni adolygu'r safonau statws athro cymwysedig a'u cysoni â'r safonau proffesiynol ehangach ar gyfer y gweithlu addysg. Rwyf wedi comisiynu grŵp cyfeirio mewnol i ddechrau gweithio i ddatblygu'r safonau proffesiynol gyda golwg ar ymgynghori ar y safonau diwygiedig drafft yn ddiweddarach eleni. Mae'n hanfodol codi'r safonau sy'n ofynnol gan ddarparwyr pe byddent yn dymuno darparu, neu barhau i ddarparu, rhaglenni hyfforddiant athrawon achrededig yn y dyfodol, ac mae gwaith y corff achredu hefyd yn hanfodol. Rwy'n derbyn yn llwyr y dylid adolygu'r meini prawf achredu i'w gwella, ac y dylid codi'r meincnodau ar gyfer darpar ddarparwyr a darpar ymgeiswyr fel ei gilydd drwy'r gofynion mynediad. Rwyf wedi gofyn i'r Athro Furlong gadeirio grŵp gorchwyl a gorffen, ag aelodau'n cynnwys rhanddeiliaid y sector, arbenigwyr ym maes addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon, consortia a chynrychiolwyr ysgolion i adolygu pob maen prawf achredu. Bydd meini prawf cadarn yn golygu y bydd yn rhaid i ddarparwyr ddangos tystiolaeth o'r safonau darparu uchaf un cyn y gellir achredu eu rhaglenni cyrsiau. Rwy'n disgwyl gweld tystiolaeth o drefniadau partneriaeth cryf a dilys gydag ysgolion arweiniol rhagorol, gyda methodolegau addysgu creadigol ac ymchwil yn ganolog i'r hyfforddiant sydd ar gael, ynghyd â thystiolaeth o drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd.

I agree in principle that the Education Workforce Council would be the most appropriate body to take forward the accreditation process in the future; after all, it is the professional regulatory body for Wales, and this function is undertaken by the professional regulatory bodies elsewhere in the UK. We need to look closely at the implications for the workforce council in leading the accreditation process. Initially, I want the workforce council to concentrate on its core functions; however, I would expect them to fully engage with this area of work. I will make a further announcement about the future role and functions of the Education Workforce Council in the summer.

Rwy'n cytuno mewn egwyddor mai'r Cyngor Gweithlu Addysg fyddai'r corff mwyaf priodol i fwrw ymlaen â'r broses achredu yn y dyfodol; wedi'r cyfan, ef yw'r corff rheoleiddio proffesiynol ar gyfer Cymru, a gwneir y swyddogaeth hon gan y cyrff rheoleiddio proffesiynol mewn rhannau eraill o'r DU. Mae angen inni edrych yn ofalus ar y goblygiadau i'r cyngor gweithlu o ran arwain y broses achredu. I ddechrau, hoffwn i'r cyngor gweithlu ganolbwyntio ar ei swyddogaethau craidd; fodd bynnag, byddwn yn disgwyl iddynt ymgysylltu'n llawn â'r maes gwaith hwn. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad pellach am waith a swyddogaethau'r Cyngor Gweithlu Addysg ar gyfer y dyfodol yn yr haf.

We want to attract the best trainee teachers: those with a real aptitude for teaching and the academic qualifications to support the transfer of good subject knowledge, and the personal qualities required to be an effective, reflective practitioner. Alongside the review of trainee entry requirements, the Welsh Government will commission an independent review of the effectiveness that the financial training incentives currently available are actually having on recruitment. We will also consider a targeted trainee scholarship programme for Wales to support teacher recruitment in certain science, technology, engineering and mathematics subjects, digital competency, literacy and numeracy.

Hoffem ddenu'r athrawon dan hyfforddiant gorau: y rhai sydd â dawn wirioneddol i addysgu ac sydd â'r cymwysterau academaidd i'w cynorthwyo i drosglwyddo gwybodaeth bynciol yn dda, a'r rhinweddau personol sydd eu hangen i fod yn ymarferwr myfyriol, effeithiol. Ochr yn ochr â'r adolygiad o ofynion mynediad athrawon dan hyfforddiant, bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd gwirioneddol y cymhellion hyfforddi ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd o ran recriwtio. Byddwn hefyd yn ystyried rhaglen ysgoloriaeth dan hyfforddiant wedi'i thargedu ar gyfer Cymru i gefnogi recriwtio athrawon mewn rhai pynciau penodol ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd.

Estyn will continue to have a role in initial teacher education and training provision. While its role will inevitably evolve with time, we will ask Estyn to consider how school inspections can be used to gather evidence of excellent practice in practitioner development, including the school's role in the delivery of ITET. I also expect Estyn to be involved fully in the development of the professional standards and the work to revise the accreditation criteria. There is also an advisory role envisaged in terms of undertaking thematic reviews in initial teacher training as the wider reforms are implemented.

Bydd Estyn yn parhau i chwarae rhan mewn addysg gychwynnol athrawon a darpariaeth hyfforddiant. Er y bydd eu gwaith yn anochel yn esblygu gydag amser, byddwn yn gofyn i Estyn ystyried sut y gellir defnyddio arolygiadau ysgol i gasglu tystiolaeth o arfer rhagorol yn natblygiad ymarferwyr, gan gynnwys gwaith yr ysgol wrth ddarparu AHCA. Rwyf hefyd yn disgwyl i Estyn chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu'r safonau proffesiynol a'r gwaith i ddiwygio'r meini prawf achredu. Hefyd, rhagwelir gwaith ymgynghorol o ran cynnal adolygiadau thematig mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon wrth i'r diwygiadau ehangach gael eu rhoi ar waith.

Deputy Presiding Officer, primary undergraduate training provision needs to be strengthened. I agree with Professor Furlong's recommendation that a four-year course leading to QTS is needed to enhance subject knowledge. However, I am not convinced that a trainee having a full two years study in a university subject department is necessarily the most appropriate approach for primary trainees. As an alternative, I have asked Professor Furlong to consider how we might include a greater Master's element of training in a four-year undergraduate programme whilst also ensuring that an appropriate level of subject enhancement is undertaken. This proposal would dovetail with the proposals emerging from the work on the new deal to establish a new Master's programme. This work strand focuses on how we can support pedagogical excellence and build research capacity, undertaking research, reflecting on the outcomes, and implementing and sharing best practice across all stages of a teacher's career to strengthen, support and share what works best across our key priority areas—those being additional learning needs, the Welsh language, the foundation phase, digital competence and literacy and numeracy.

Ddirprwy Lywydd, mae angen cryfhau'r ddarpariaeth hyfforddiant cynradd i israddedigion. Rwy'n cytuno ag argymhelliad yr Athro Furlong bod angen cwrs pedair blynedd sy'n arwain at SAC i wella gwybodaeth am bwnc. Fodd bynnag, nid wyf yn argyhoeddedig mai dwy flynedd lawn o astudio mewn adran bwnc prifysgol yw'r dull mwyaf priodol o reidrwydd i hyfforddeion cynradd. Fel dewis arall, rwyf wedi gofyn i'r Athro Furlong ystyried sut y gallem gynnwys mwy o elfen o hyfforddiant Meistr mewn rhaglen israddedig bedair blynedd gan sicrhau hefyd bod lefel briodol o wella mewn pwnc yn digwydd. Byddai'r cynnig hwn yn cyd-fynd â'r cynigion sy'n deillio o'r gwaith ar y cytundeb newydd i sefydlu rhaglen Meistr newydd. Mae'r elfen waith hon yn canolbwyntio ar sut y gallwn gefnogi rhagoriaeth addysgol a meithrin gallu ymchwil, gan wneud gwaith ymchwil, myfyrio ar y canlyniadau, a gweithredu a rhannu arfer gorau ar draws pob cyfnod mewn gyrfa athro i gryfhau, cefnogi a rhannu'r hyn sy'n gweithio orau ar draws ein prif feysydd blaenoriaeth—sef anghenion dysgu ychwanegol, y Gymraeg, y cyfnod sylfaen, cymhwysedd digidol a llythrennedd a rhifedd.

Although not specifically mentioned in the report, I know Professor Furlong is keen to look more closely at the availability and the quality of alternative routes into teaching, including employment-based teacher training. We will therefore review how programmes such as the graduate teacher programme operate to ensure that schools and local consortia work in partnership with university providers to deliver a flexible training route, geared to meet local demand for teachers in areas and subjects where recruitment is difficult, particularly in the Welsh-medium sector.

Er na chaiff ei grybwyll yn benodol yn yr adroddiad, rwy'n gwybod bod yr Athro Furlong yn awyddus i edrych yn fanylach ar ansawdd y gwahanol lwybrau i mewn i addysgu a sut y maent ar gael, gan gynnwys hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth. Felly, byddwn yn adolygu sut y mae rhaglenni fel y rhaglen athrawon graddedig yn gweithredu i sicrhau bod ysgolion a chonsortia lleol yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr prifysgol i ddarparu llwybr hyfforddiant hyblyg, wedi'i drefnu i ateb y galw lleol am athrawon mewn ardaloedd a phynciau lle mae recriwtio'n anodd, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Finally, I want to confirm that in order to teach in Wales teachers will still be required to hold qualified teacher status. Of course, gaining QTS will not be the end of a professional's training, but merely the start of career-long professional development and practice. They will be expected to learn, improve and reflect throughout their careers. I see the opportunities available through the new deal as enabling teachers to continue to grow and develop in this way, and I see the links between these two initiatives as very important indeed.

Yn olaf, hoffwn gadarnhau y bydd yn dal i fod yn ofynnol i athrawon fod â statws athro cymwysedig er mwyn addysgu yng Nghymru. Wrth gwrs, nid ennill SAC fydd diwedd hyfforddiant gweithiwr proffesiynol, ond yn hytrach bydd yn ddechrau datblygiad proffesiynol ac ymarfer gydol gyrfa. Bydd disgwyl iddynt ddysgu, gwella a myfyrio drwy gydol eu gyrfaoedd. Rwy'n credu y bydd y cyfleoedd sydd ar gael drwy gyfrwng y fargen newydd yn galluogi athrawon i barhau i dyfu a datblygu yn y modd hwn, ac rwy'n meddwl bod y cysylltiadau rhwng y ddwy fenter hyn yn bwysig iawn yn wir.

16:27

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement. As we are both aware, there is much change coming to the Welsh curriculum and it's imperative that teachers are prepared to deliver it to learners. In 2006, Professor Furlong's review into initial teacher training stated that the teachers of tomorrow would have to be both experts in teaching something—i.e. history or chemistry—and experts in teaching their students to learn how to learn. That was nine years ago, and the fact that Professor Furlong has had to produce yet another report on initial teacher training doesn't reflect well on the Welsh Government's progress in improving provisions for educating student teachers. So, Minister, how can you reassure us that this report will lead to action?

Weinidog, diolch am eich datganiad. Fel yr ydym ill dau'n gwybod, mae llawer o newid ar ei ffordd i gwricwlwm Cymru ac mae'n hanfodol bod athrawon yn barod i'w ddarparu i ddysgwyr. Yn 2006, nododd adolygiad yr Athro Furlong o hyfforddiant cychwynnol i athrawon y byddai'n rhaid i athrawon y dyfodol fod yn arbenigwyr mewn addysgu rhywbeth—h.y. hanes neu gemeg—ac yn arbenigwyr mewn addysgu eu myfyrwyr i ddysgu sut i ddysgu. Roedd hynny naw mlynedd yn ôl, ac nid yw'r ffaith fod yr Athro Furlong wedi gorfod llunio adroddiad arall eto am hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn adlewyrchu'n dda ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gwella darpariaethau i addysgu athrawon dan hyfforddiant. Felly, Weinidog, sut y gallwch chi ein sicrhau y bydd yr adroddiad hwn yn arwain at weithredu?

Professor Furlong also notes the need for schools to play a greater role in a student teacher's initial training, and that one way of doing it would be through a collaboration between schools and universities. So, Minister, what will you do to address this in the short terms, so that the current student teachers and student teachers in the very near future can benefit from a better initial teacher experience from these Welsh providers, because it would be unfair to just put them into the old system and expect them to muddle through while the new system is being created?

Mae'r Athro Furlong hefyd yn nodi bod angen i ysgolion chwarae mwy o ran mewn hyfforddiant cychwynnol i athro dan hyfforddiant, ac mai un ffordd o wneud hynny fyddai drwy gydweithrediad rhwng ysgolion a phrifysgolion. Felly, Weinidog, beth fyddwch chi'n ei wneud i ymdrin â hyn yn y tymor byr, fel y gall yr athrawon sydd dan hyfforddiant ar hyn o bryd ac athrawon dan hyfforddiant yn y dyfodol agos iawn elwa ar well profiad cychwynnol athrawon gan ddarparwyr Cymru, oherwydd byddai'n annheg eu rhoi yn yr hen drefn a disgwyl iddynt ddod drwyddi rywsut tra bod y system newydd yn cael ei chreu?

Professor Furlong's report also states there's a clear lack of links between regional consortia, the centres that currently provide training and the providers of CPD. Minister, what will you do to address this issue, again in the short term?

Mae adroddiad yr Athro Furlong hefyd yn datgan bod diffyg clir o gysylltiadau rhwng consortia rhanbarthol, y canolfannau sydd ar hyn o bryd yn darparu hyfforddiant a darparwyr DPP. Weinidog, beth fyddwch chi'n ei wneud i ymdrin â'r mater hwn, unwaith eto yn y tymor byr?

Do you believe, Minister, that your review of trainee entry requirements will address the very key issues that people like the Royal Society of Chemistry, for example, have raised, where it's extremely difficult to get good quality graduates into the teacher training programme? With regard to the report's recommendation of extending undergraduate teaching degrees to four years, Minister, have you considered the financial implications of these longer degrees on potential applicants and how they might be able to be funded? Have you also considered the current difficulty that many teachers get in acquiring that initial one year out there in the schools that so many of them find hard to do and they end up, for example, being in the supply industry?

A ydych chi'n credu, Weinidog, y bydd eich adolygiad o ofynion mynediad athrawon dan hyfforddiant yn ymdrin â'r materion allweddol iawn y mae pobl fel y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, er enghraifft, wedi'u codi, lle mae'n anodd iawn cael graddedigion o ansawdd da i mewn i'r rhaglen hyfforddi athrawon? O ran argymhelliad yr adroddiad o ymestyn graddau addysgu israddedig i bedair blynedd, Weinidog, a ydych chi wedi ystyried goblygiadau ariannol y graddau hirach hyn ar ymgeiswyr posibl a sut y gellid eu hariannu? A ydych chi hefyd wedi ystyried y sefyllfa anodd bresennol sy'n wynebu llawer o athrawon o ran cael gafael ar y flwyddyn gychwynnol honno allan yna yn yr ysgolion y mae cynifer ohonynt yn ei chael hi'n anodd ei wneud ac maent yn y pen draw, er enghraifft, yn mynd i'r diwydiant cyflenwi?

Finally, Minister, I'd just like to touch on the Master's programme, which you briefly mentioned in your statement today. I note your very positive comments re the Education Workforce Council and where you think further development of initial teacher training might sit, but you don't make any real reference to continuing professional development, and I wondered if you might be able to elaborate on that, because I would think that any new person entering a career would like to be able to see a clearly defined way forward to achieving their career goals. Thank you.

Yn olaf, Weinidog, hoffwn sôn yn gyflym am y rhaglen Meistr y soniasoch amdani'n gryno yn eich datganiad heddiw. Nodaf eich sylwadau cadarnhaol iawn am y Cyngor Gweithlu Addysg a ble'r ydych yn credu y gallai datblygiad pellach hyfforddiant cychwynnol i athrawon ddigwydd, ond nid ydych yn gwneud unrhyw gyfeiriad gwirioneddol at ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac roeddwn yn meddwl tybed a allech efallai ymhelaethu ar hynny, oherwydd byddwn yn meddwl yr hoffai unrhyw unigolyn newydd sy'n dechrau gyrfa allu gweld ffordd ymlaen wedi'i diffinio'n glir tuag at gyflawni nodau eu gyrfa. Diolch.

16:31

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Presiding Officer, could I thank Angela Burns for those questions? I'll attempt to answer them as best I can. She's quite right to say there is considerable curriculum change coming. We are going to be rewriting the curriculum for Wales from the ground floor up. Essentially, the days of the old 1988 national curriculum are well nigh over. But it is not just about curriculum change. That is not the sole driver for embracing the recommendations from John Furlong. This is also about standards, and there is, very clearly, running through John Furlong's report, the concern that standards should be raised, both in terms of the students recruited at the beginning of the process and what is offered to them in terms of training while they are trainee teachers. I think John Furlong's report challenges us to raise things to an unprecedented level in terms of expectation—expectation of the trainee and expectation of the HEI that is involved in offering their training; much more challenge and a great deal more support.

Ddirprwy Lywydd, a gaf fi ddiolch i Angela Burns am y cwestiynau yna? Ceisiaf eu hateb gystal ag y gallaf. Mae hi'n berffaith iawn i ddweud bod newid sylweddol i'r cwricwlwm ar ei ffordd. Byddwn yn ailysgrifennu cwricwlwm Cymru o'r llawr gwaelod i fyny. Yn y bôn, mae dyddiau hen gwricwlwm cenedlaethol 1988 bron ar ben. Ond nid dim ond mater o newid y cwricwlwm yw hyn. Nid dyna'r unig sbardun ar gyfer cofleidio'r argymhellion gan John Furlong. Mae hyn hefyd yn ymwneud â safonau, ac, yn amlwg iawn, drwy adroddiad John Furlong i gyd, ceir pryder y dylid codi safonau, o ran y myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio ar ddechrau'r broses ac o ran yr hyn a gynigir iddynt o ran hyfforddiant tra eu bod yn athrawon dan hyfforddiant. Rwy'n credu bod adroddiad John Furlong yn ein herio i godi pethau at lefel ddigynsail o ran disgwyliad—disgwyliad yr hyfforddai a disgwyliad y SAU sy'n ymwneud â chynnig yr hyfforddiant; llawer mwy o her a llawer mwy o gefnogaeth.

I cannot speak for reports that might have been written nine years ago. This is the first report to have landed in my lap as education Minister from John Furlong, and I am implementing it as fast as I am able. I have today stood before the Assembly and accepted John's recommendations, and we will move to act upon them as quickly as is humanly possible.

Ni allaf siarad dros adroddiadau a all fod wedi eu hysgrifennu naw mlynedd yn ôl. Dyma'r adroddiad cyntaf i ddod i'm rhan fel Gweinidog addysg gan John Furlong, ac rwyf yn ei roi ar waith cyn gynted ag y gallaf. Heddiw, rwyf wedi sefyll gerbron y Cynulliad ac wedi derbyn argymhellion John, a byddwn yn ceisio gweithredu arnynt cyn gynted byth â phosib.

In terms of schools in the system now, what I would envisage happening is that we would have lead schools—we may call them training schools, if you like, in the way that we have teaching or training hospitals—that would connect themselves as equal partners to HEIs that are involved in initial teacher training. Now, what I would envisage happening here is that these schools would enable trainee teachers to be exposed to the very best practice, and I mean the very best in an international sense, as part of their training—those schools working actively every day with the HEIs concerned, both in terms of practical classroom delivery and the excellence that's required of the very best in that regard and also in terms of research, which is intended to act as a positive feedback loop into the system, making sure that we have the very best evidence base for everyone concerned with this work.

O ran ysgolion yn y system nawr, yr hyn y byddwn yn ei ragweld yn digwydd yw y byddai gennym ysgolion arweiniol—gallwn eu galw'n ysgolion hyfforddi, os mynnwch, fel y mae gennym ysbytai addysgu neu hyfforddi—a fyddai'n eu cysylltu eu hunain fel partneriaid cyfartal â Sefydliadau Addysg Uwch sy'n ymwneud â hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Nawr, yr hyn y byddwn yn ei ragweld yn digwydd yma yw y byddai'r ysgolion hyn yn rhoi cyfle i athrawon dan hyfforddiant brofi'r arfer gorau oll, ac rwy'n golygu'r gorau oll mewn ystyr ryngwladol, yn rhan o'u hyfforddiant—yr ysgolion hynny'n mynd ati i weithio bob dydd gyda'r SAUau dan sylw, o ran darpariaeth ymarferol yn yr ystafell ddosbarth a'r rhagoriaeth sydd ei hangen gan y gorau oll yn y cyswllt hwnnw, a hefyd o ran ymchwil; bwriad ymchwil yw gweithredu fel dolen adborth cadarnhaol i mewn i'r system, gan wneud yn siŵr bod gennym y sail dystiolaeth orau un i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith hwn.

The consortia, of course, will have to step up their role in terms of the school improvement aspects of this. One critical aspect of the consortia's new involvement in this new system would be to ensure that what's going on in those training schools is dispersed across the system as we discover what rock solid good practice looks like—that we make sure that schools everywhere in Wales are able to take advantage of what is being learned in the training schools.

Wrth gwrs, bydd yn rhaid i'r consortia wneud mwy o ran yr agweddau gwella ysgolion ar hyn. Un agwedd hollbwysig ar gyfranogiad newydd y consortia yn y system newydd fyddai sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgolion hyfforddi hynny'n cael ei wasgaru ar draws y system wrth inni ddarganfod sut y mae arfer da cwbl gadarn yn edrych—ein bod yn sicrhau bod ysgolion ym mhob man yng Nghymru yn gallu manteisio ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgolion hyfforddi.

I'm aware of the concerns of the Royal Society of Chemistry and others, of course. As I mentioned in my statement, we do need to look, I think, at things like financial incentives and financial implications. A four-year degree, obviously, sounds like it would be around 30 per cent more expensive than a three-year degree. We need to crunch the numbers on this. I am convinced, however, that, if we aim very high, my ambition would be a teaching qualification that is internationally portable—by this I mean in the same way that one might take a law degree or a medical degree and not necessarily be considered by an employer as someone who's only qualified to do law or only qualified to do medicine. In other words, you have a bullet-proof qualification that could take you anywhere in life, in any sphere, and would be respected as such a qualification. That would be the aim; that is what I've been speaking to vice chancellors about in terms of the kind of course that we will be seeking to purchase from the HEI system, and indeed it is the kind of qualification that is available in some northern European countries.

Rwy'n ymwybodol o bryderon y Gymdeithas Gemeg Frenhinol ac eraill, wrth gwrs. Fel y nodais yn fy natganiad, mae angen inni edrych, rwy'n meddwl, ar bethau fel cymhellion ariannol a goblygiadau ariannol. Mae gradd pedair blynedd, yn amlwg, yn swnio fel y byddai tua 30 y cant yn fwy costus na gradd tair blynedd. Mae angen inni edrych ar y rhifau ynglŷn â hyn. Rwy'n argyhoeddedig, fodd bynnag, os bydd ein nod yn uchel iawn, mai fy uchelgais i fyddai cymhwyster addysgu sy'n rhyngwladol gludadwy—rwy'n golygu hyn yn yr un ffordd ag y gallai rhywun gael gradd yn y gyfraith neu radd feddygol ac na fyddai cyflogwr o reidrwydd yn ei ystyried fel rhywun sydd ddim ond yn gymwys i wneud y gyfraith neu ddim ond yn gymwys i wneud meddygaeth. Mewn geiriau eraill, mae gennych gymhwyster cadarn a allai fynd â chi i unrhyw le mewn bywyd, mewn unrhyw faes, ac a gâi ei barchu fel cymhwyster o'r fath. Dyna fyddai'r nod; dyna beth yr wyf wedi bod yn siarad ag is-gangellorion amdano o ran y math o gwrs y byddwn yn ceisio ei brynu gan y system SAU, ac yn wir dyna'r math o gymhwyster sydd ar gael mewn rhai o wledydd gogledd Ewrop.

I think that the financial implications of the extra expense of an individual course might be considerably mitigated by those courses becoming attractive to more people, because they are seen, very simply, as the best in the UK. We have to start with the assumption—start with the expectation—that these qualifications will be the best available in the United Kingdom, beyond all doubt.

Rwy'n meddwl y gallai goblygiadau ariannol cost ychwanegol cwrs unigol gael eu lliniaru'n sylweddol gan y ffaith y byddai'r cyrsiau hynny'n dod yn ddeniadol i fwy o bobl, am eu bod yn cael eu hystyried, yn syml iawn, y gorau yn y DU. Mae'n rhaid inni ddechrau gyda'r dybiaeth—dechrau gyda'r disgwyliad—mai'r cymwysterau hyn fydd y gorau sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig, y tu hwnt i bob amheuaeth.

Continuing professional development—your final point—is, of course, what the new deal is all about. It's what the Master's in educational practice is all about. The system that's beginning to take shape here is one in which the Education Workforce Council rationalises that journey of professional development for an individual. That individual professional lodges a record of their professional development with their workforce council, where it will be kept and where the best advice could be sought in terms of following the best possible professional development options for particular career choices and career directions. All this, of course, being tied up with an expectation that the generality of professional development from now on will be operating at a Master's level, because, after all, everyone in the system, by a certain point in the future, will already be a graduate.

Datblygiad proffesiynol parhaus—eich pwynt olaf—yw, wrth gwrs, prif bwynt y fargen newydd. Dyna yw prif bwynt y cwrs Meistr mewn ymarfer addysgol. Mae'r system sy'n dechrau ymddangos yma yn un lle mae'r Cyngor Gweithlu Addysg yn rhesymoli'r daith datblygiad proffesiynol honno ar gyfer unigolyn. Mae'r gweithiwr proffesiynol unigol hwnnw'n cofnodi ei ddatblygiad proffesiynol gyda'i gyngor gweithlu, lle caiff ei gadw, a lle gellid ceisio'r cyngor gorau o ran dilyn y dewisiadau datblygu proffesiynol gorau posibl ar gyfer dewisiadau gyrfa a chyfeiriadau gyrfa penodol. Bydd hyn i gyd, wrth gwrs, yn cyd-fynd â disgwyliad y bydd cyffredinolrwydd datblygiad proffesiynol o hyn ymlaen yn gweithredu ar lefel Meistr, oherwydd, wedi'r cyfan, bydd pawb yn y system, erbyn rhyw bwynt penodol yn y dyfodol, eisoes yn raddedig.

16:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. A gaf i ddweud ar y cychwyn, wrth gwrs, fod adroddiad John Furlong yn disgrifio'n glir iawn sut mae safon ac ansawdd hyfforddiant ymarfer dysgu yng Nghymru wedi dirywio dros y naw mlynedd ddiwethaf? Mae hwn yn cael ei danlinellu i fi pan wyf yn siarad â phrif athrawon sy'n dweud yn glir wrthyf fi bod athrawon sydd wedi'u cymhwyso yn Lloegr yn fwy parod ar gyfer y dosbarth na'r athrawon newydd sydd wedi'u cymhwyso yng Nghymru. Nid ydynt yn dweud eu bod yn fwy galluog, ac nid ydynt yn dweud nad ydynt yn gallu chwarae rhan lawn yn yr ysgol yn y pen draw: beth maen nhw yn ei ddweud yw eu bod yn gadael hyfforddiant athrawon yn Lloegr yn fwy parod ar gyfer y dosbarth nag ydym ni'n paratoi ein hathrawon fan hyn.

Thank you to the Minister for his statement. May I say at the outset, of course, that the John Furlong report describes very clearly how the quality and standard of teacher training in Wales has declined over the past nine years? That's highlighted to me when I speak to headteachers who tell me very clearly that teachers who have qualified in England are better prepared for the classroom than the newly qualified teachers in Wales. They are not saying that they are more able or that they can't play a full part in the school ultimately: what they are saying is that they leave teacher training in England better prepared for the classroom than is the case here in Wales.

Felly, mae'r adroddiad yn hollbwysig ar gyfer y pwrpas o godi safonau proffesiynol yng Nghymru a chynnal y safonau hynny. Felly, rwy'n croesawu'r adroddiad, ond rwyf hefyd yn croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog heddiw. Ond mae nifer o bethau nad yw wedi cyffwrdd â nhw heddiw y byddwn i'n hoffi gofyn cwestiynau yn eu cylch. Rwyf hefyd yn meddwl bod ei atebion i Angela Burns wedi cymylu'r darlun yn hytrach na chrisialu'r darlun ynglŷn â'r fath o hyfforddiant y mae'r Gweinidog yn ei rhagweld.

Therefore, the report is crucially important in terms of raising professional standards in Wales and maintaining those standards. Therefore, I welcome the report, but I also welcome what the Minister has said today. But there are a number of things that he hasn't touched upon today that I would like to question him on. I also think that his responses to Angela Burns have actually muddied the waters a little in terms of the kind of training that the Minister anticipates.

Felly, a gaf i ofyn, yn y lle cyntaf, a ydych chi nawr yn dweud wrthym ni mai'ch delfryd chi ar gyfer athrawon a'r proffesiwn yng Nghymru yw ei fod yn broffesiwn MA i bawb, a bod hyfforddiant proffesiynol parhaus yn rhan orfodol o'r proffesiwn hwnnw? Oni bai fod y ddau beth yna'n cael eu dodi yn eu lle, rwy'n meddwl bod eich datganiad heddiw'n llawn gobeithion ond heb ddigon o gynsail i ddarparu.

So, may I ask, in the first place, whether you are now telling us that your ambition for teachers and the profession in Wales is that it should be an MA profession for all, and that CPD should be a required part of that profession? Unless those two things are put in place, then I think that today's statement is full of aspiration, but doesn't have the necessary foundations to provide what's required.

Yr ail gwestiwn sy'n dilyn yn sgil hynny yw: a yw'r Cyngor Gweithlu Addysg newydd wedi'i ariannu a'i gyllido ac yn ddigon cadarn i ddarparu'r gwaith yr ydych chi, yn fwyfwy, yn gosod ar ei ysgwyddau? Rwy'n ymwybodol bod y cyngor o'r farn, er enghraifft, y dylid wedi codi ffioedd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Penderfynodd y Llywodraeth i gadw'r ffioedd lle maen nhw. Mae eisiau gofyn y cwestiwn, felly: a oes digon o adnoddau yn y system i ddarparu ar gyfer hwn?

The second question following on from that is whether the new Education Workforce Council is funded properly and is robust enough to provide the increasing responsibilities that you're placing on its shoulders. I'm aware that the council is of the opinion, for example, that it should have raised fees during this financial year. It was the Government's decision to keep the fees where they are. There's a question, therefore, as to whether there are sufficient resources in the system to provide for this.

Y trydydd cwestiwn sy'n codi yw'r un ynglŷn â'r ddarpariaeth ar lefel addysg uwch. Dyma beth mae John Furlong yn ei ddweud, nid yn ei adroddiad, ond mewn blog a ysgrifennodd i Gyngor y Gweithlu Addysg yn sgil cyhoeddiad ei adroddiad, yn esbonio beth sy'n digwydd yn y colegau ar hyn o bryd:

The third question arising is a question on the higher education provision. This is what John Furlong says: not in his report, but in a blog that he wrote for the Education Workforce Council in light of the publication of his report, explaining what's happening in colleges at present:

'Currently there is virtually no research capacity in Wales in key areas such as bi-lingual education, Mathematics and Science or Foundation Phase teaching. Without it how can the sector keep up to date with developments internationally let alone become a "self-improving system"?'

'Ar hyn o bryd nid oes prin ddim gallu ymchwil yng Nghymru mewn meysydd allweddol megis addysg ddwyieithog, Mathemateg a Gwyddoniaeth nac addysgu Cyfnod Sylfaen. Hebddo sut y gall y sector barhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau rhyngwladol, heb sôn am ddod yn "system sy'n hunan-wella"? '

Nid wyf i wedi clywed gan y Gweinidog heddiw ei ymateb i'r her yna gan John Furlong, oni bai bod y Gweinidog yn dweud ein bod ni'n symud at symleiddio'r system hyfforddi athrawon yng Nghymru drwy gadw'r hen golegau, cadw'r un partneriaethau a chadw'r hen drefn sydd wedi ein methu ni mor belled. Fe wnaeth John Furlong, wrth gwrs, awgrymu un ganolfan i Gymru, efallai. Rwyf i, o'r blaen yn y Senedd hon, wedi sôn am y posibiliad o ddwy ganolfan i Gymru. Beth yw meddylfryd y Llywodraeth erbyn hyn? Ai un ganolfan yn darparu addysg sydd ei hangen, ai dwy, neu a ddylid cadw'r rhai presennol, gyda'r tair partneriaeth, wrth gwrs?

I haven't heard from the Minister this afternoon his response to that challenge from John Furlong, unless the Minister is telling us that we are moving towards rationalising the teacher training system in Wales by keeping the old colleges, keeping the old partnerships and the old system that has failed us to date. John Furlong, of course, suggested that there should perhaps be one centre for Wales. I, in the past in this Senedd, have mentioned the possibility of two centres for Wales. What is the Government's thinking now? Do we need a single centre, or two, or should we retain the current provision, with the three partnerships, of course?

Y pwynt olaf yr wyf am ei godi yw dulliau amgen i mewn i ddysgu. Fel mae'r Gweinidog yn ei ddweud, nid yw John Furlong yn ymdrin â hwn yn llwyr, ond mae cynnydd mewn systemau a projectau megis Teach First yma yng Nghymru a phethau amgen sydd yn cyflwyno addysgu i bobl sydd â'r sgiliau a'r potensial i dyfu yn y maes yma. Ym mha ffordd y bydd projectau fel Teach First, ac ati, yn cael eu cymhwyso i mewn i'r broses yma ac, yn arbennig, i mewn i broses proffesiwn sy'n hunanarfarnu, sy'n datblygu a lle mae pobl yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus, pan fo rhai o'r cynlluniau yma yn dodi pobl broffesiynol yn y dosbarth am gyfnod byr yn unig a bron yn eu hannog nhw i adael ar ddiwedd y broses?

The last point I want to raise here is alternative pathways into teaching. As the Minister says, John Furlong doesn't deal with this comprehensively, but there is an increase in projects such as Teach First here in Wales, and alternative approaches that introduce teaching to people who have the skills and the potential to develop in this area. How will projects such as Teach First be applied into this process, and, particularly, into the process of a self-evaluatory profession, which develops and where people are involved with CPD, when some of these schemes put professionals in the classroom for only very short periods of time and almost encourage them to leave at the end of the process?

Rydym ni o'r farn, ym Mhlaid Cymru, fod angen buddsoddi mewn ymarfer dysgu, a bod angen symud i system lle mae datblygu proffesiynol parhaus yn rhan orfodol, bron, o'r system, a lle mae pob un athro yn meddu ar sgiliau Meistr ac felly yn meddu ar sgiliau sydd yn rhan o system sydd yn hunanarfarnu ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd, a lle, efallai, mae ambell i ysgol hefyd yn dod yn ysgol enghreifftiol o ran y ffordd y maen nhw'n dangos i ysgolion eraill sut mae gwneud ymarfer dysgu mewn perthynas â'r colegau ac addysg uwch. Mae yna dipyn i'w croesawu yn yr adroddiad heddiw, ac mae sawl argymhelliad gan John Furlong wedi ei dderbyn gan y Llywodraeth, ond nid wyf eto o'r farn bod gan y Llywodraeth y crap ar y cysyniad yma o gontinwwm o ddysgu parhaol a pharhaus tu fewn i'r proffesiwn nac, ychwaith, yr atebion eto i rai o'r diffygion sydd yn ein colegau addysg uwch ni ar hyn o bryd.

We are of the view, in Plaid Cymru, that we need to invest in teacher training, and that we need to move to a system where CPD is almost a required part of the system, and where each and every teacher does have Master's skills and therefore has skills that are part of a system that self-evaluates and learns lessons from itself, and where, perhaps, some schools also become exemplar schools in the way in which they demonstrate to other schools how teacher training should be done in co-operation with the colleges and higher education. There is a fair bit to be welcomed in today's report, and there are a number of recommendations made by John Furlong that the Government has accepted, but I'm not yet of the view that the Government has a grasp of this concept of a continuum of education and CPD within the profession, nor yet the responses to some of the deficiencies within our HE colleges at present.

16:43

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can assure the Plaid Cymru spokesperson that my grasp of these issues is as total as it could be. It is very clear—and John Furlong echoes this in his review—that higher education institutions in Wales have under-invested in initial teacher training year upon year upon year. That has left us with a deracinated system, really, which is delivering courses as it delivered courses the year before, and as it delivered courses the year before that, with no live link to real research, and the linkage with the actual school system being far too tenuous and distant as well. I don't think our students are being offered the degree of support that they need, or anywhere near the degree of challenge that ought to be offered to them as part of an exacting training for such an important job.

Wel, gallaf sicrhau llefarydd Plaid Cymru bod fy ngafael ar y materion hyn mor gryf ag y gallai fod. Mae'n glir iawn—ac mae John Furlong yn adleisio hyn yn ei adolygiad—bod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi tanfuddsoddi mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon, flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hynny wedi ein gadael gyda system ddiwreiddiedig, mewn gwirionedd, sy'n darparu cyrsiau fel y darparodd gyrsiau y flwyddyn flaenorol, ac fel y darparodd gyrsiau y flwyddyn cyn hynny, heb ddim cyswllt byw ag ymchwil go iawn, ac mae'r cysylltiad â'r system ysgolion ei hun hefyd yn llawer rhy wan a phell. Nid wyf yn credu bod ein myfyrwyr yn cael cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, nac unrhyw beth yn agos at yr her y dylid ei chynnig iddynt, yn rhan o hyfforddiant manwl ar gyfer swydd mor bwysig.

So, here is the challenge to the higher education system within Wales, because the Welsh Government is about to go shopping. We're going to describe the product we want to buy on behalf of the public. John Furlong has very ably sketched out the bare bones of what that product will look like. We will add detail to that as we decide exactly what that four-year course, for instance, for primary school teachers should actually look like. There are some interesting models across Europe that we are looking at presently about how exactly that should be made up. Then, we will set about challenging the higher education sector to deliver what we're hoping to purchase with public money. If that leads to fewer centres within the Welsh HE landscape, so be it. What we need is an absolute commitment to the degree of excellence that we are aiming for here in terms of what is on offer to these very, very important future professionals. If there are certain aspects of what we need as a country that may not be purchasable within Wales, then that won't worry me in the least. We will make sure that the very best is on offer to the students of the future. So, how many centres? Too early to answer that question. But, everyone involved in our HEI management across Wales should be aware that we are deadly serious about seeking out the very best and only spending public money on the very best. The old system is about to die, and everyone should be well aware of that. There will be no sentiment attached, as far as I'm concerned.

Felly, dyma'r her i'r system addysg uwch yng Nghymru, oherwydd mae Llywodraeth Cymru ar fin mynd i siopa. Rydym yn mynd i ddisgrifio'r cynnyrch yr hoffem ei brynu ar ran y cyhoedd. Mae John Furlong wedi creu braslun medrus iawn o esgyrn sychion sut y bydd y cynnyrch hwnnw'n edrych. Byddwn yn ychwanegu manylion at hynny wrth inni benderfynu sut yn union y dylai'r cwrs pedair blynedd, er enghraifft, i athrawon ysgol gynradd edrych mewn gwirionedd. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar fodelau diddorol ledled Ewrop ynglŷn â sut yn union y dylid eu llunio. Yna, byddwn yn mynd ati i herio'r sector addysg uwch i gyflawni'r hyn yr ydym yn gobeithio ei brynu ag arian cyhoeddus. Os yw hynny'n arwain at lai o ganolfannau o fewn tirwedd AU Cymru, dyna ni. Yr hyn sydd ei angen arnom yw ymrwymiad llwyr i'r math o ragoriaeth yr ydym yn ceisio ei chyrraedd yma o ran yr hyn sydd ar gael i'r bobl hyn a fydd yn weithwyr proffesiynol pwysig iawn, iawn yn y dyfodol. Os oes rhai agweddau ar yr hyn sydd ei angen arnom fel gwlad nad ydynt efallai ar gael i'w prynu yng Nghymru, ni fydd hynny'n poeni dim arnaf. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y pethau gorau un ar gael i fyfyrwyr y dyfodol. Felly, faint o ganolfannau? Mae'n rhy gynnar i ateb y cwestiwn hwnnw. Ond, dylai pawb sy'n ymwneud â rheoli ein Sefydliadau Addysg Uwch ledled Cymru fod yn ymwybodol ein bod yn gwbl o ddifrif am chwilio am y pethau gorau un a dim ond gwario arian cyhoeddus ar y pethau gorau un. Mae'r hen system ar fin marw, a dylai pawb fod yn ymwybodol iawn o hynny. Ni fydd unrhyw sentimentaliaeth ynghlwm â hynny, cyn belled ag yr wyf fi yn y cwestiwn.

In terms of pathways and CPDs, I'm sorry if the Plaid Cymru spokesperson thinks that I've muddied the water somehow. I thought it seemed plain enough. There is an expectation here, both for the current workforce and the workforce of the future, that everybody is working towards Master's-level professional development that is both an entitlement to them, as a professional, and a requirement of them in terms of keeping their portfolio as a professional up to date, and that they would lodge that progression—that career path plan, if you like, which is theirs; it's their property, as professional—with their professional body, the workforce council.

O ran llwybrau a DPP, mae'n ddrwg gen i os yw llefarydd Plaid Cymru yn meddwl fy mod wedi cymylu'r dŵr rywsut. Roeddwn yn meddwl ei fod yn ymddangos yn ddigon plaen. Ceir disgwyliad yma, ar gyfer y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol, bod pawb yn gweithio tuag at ddatblygiad proffesiynol ar lefel Meistr sy'n hawl iddynt, fel gweithwyr proffesiynol, a hefyd yn ofyniad oddi wrthynt o ran cadw eu portffolio fel gweithwyr proffesiynol yn gyfoes, ac y byddent yn cofnodi'r cynnydd hwnnw—y cynllun llwybr gyrfa hwnnw, os mynnwch, sy'n eiddo iddynt hwy; nhw sy'n berchen arno, fel gweithwyr proffesiynol—gyda'u corff proffesiynol, y cyngor gweithlu.

Is the workforce council funded enough to deal with this new system that I'm describing? Well, of course it's not. Of course it's not. The workforce council, at the moment, is an embryonic organisation, and to grow into what we will require it to be, the current levels of funding, of course, will not be sufficient. That is why I've made no secret of my contention that the teaching profession and the wider educational workforce will have to debate with ourselves and amongst themselves about co-funding elements of professional development over time. That may be pooled funding through the workforce council, or it may be individualised funding. I wouldn't see it as my role to dictate to the teaching profession how that should be made up. It is for them, really, I suppose, through the workforce council, to decide, as so many other professions do, how best to organise a fair and transparent system of co-funding professional development.

A yw'r cyngor gweithlu yn cael digon o arian i ymdrin â'r system newydd hon yr wyf yn ei disgrifio? Wel nac ydy wrth gwrs. Nac ydy wrth gwrs. Mae'r cyngor gweithlu, ar hyn o bryd, yn sefydliad embryonig, ac er mwyn tyfu i fod yr hyn y bydd arnom angen iddo fod, ni fydd y cyllid presennol, wrth gwrs, yn ddigon. Dyna pam nad wyf wedi'i gwneud yn gyfrinach o gwbl fy mod o'r farn y bydd yn rhaid i'r proffesiwn addysgu a'r gweithlu addysgol ehangach drafod â ni ac ymhlith ei gilydd ynglŷn ag elfennau o gydgyllido datblygiad proffesiynol dros amser. Gall hynny olygu cyfuno cyllid drwy'r cyngor gweithlu, neu gall olygu cyllid unigol. Ni fyddwn yn ystyried mai fy swyddogaeth i fyddai dweud wrth y proffesiwn addysgu sut y dylid gwneud hynny. Mater iddynt hwy, mewn gwirionedd, am wn i, drwy'r cyngor gweithlu, yw penderfynu, fel y mae cynifer o broffesiynau eraill yn ei wneud, beth yw'r ffordd orau o drefnu system deg a thryloyw o gydariannu datblygiad proffesiynol.

16:48 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the statement this afternoon. I think there are two points that I want to quickly get over. I agree with Simon Thomas that CPD is a critical element as you progress through your career, and it is important that we link ITT into the CPD programme. I look forward to seeing more of that in time to come. I also agree with you that HEIs now have to rise to the challenge that Furlong has identified in the Welsh Government. We, as politicians, recognise that it needs to be delivered for our future teachers and the profession.

Weinidog, diolch am y datganiad y prynhawn yma. Rwy'n credu yr hoffwn godi dau bwynt yn gyflym. Rwy’n cytuno â Simon Thomas bod DPP yn elfen hanfodol wrth ichi symud ymlaen drwy eich gyrfa, ac mae'n bwysig ein bod yn cysylltu HCA â’r rhaglen DPP. Rwy'n edrych ymlaen at weld mwy o hynny yn y dyfodol. Rwyf hefyd yn cytuno â chi bod yn rhaid i SAUau ymateb bellach i'r her y mae Furlong wedi’i nodi yn Llywodraeth Cymru. Rydym ni, fel gwleidyddion, yn cydnabod bod angen cyflwyno hynny ar gyfer ein hathrawon yn y dyfodol ac ar gyfer y proffesiwn.

I’ve got a couple of questions on the statement and the direction we are moving in. In relation to the Education Workforce Council, Furlong identified, actually, there was a vacuum in leadership, in a sense. Is it the intention of the Welsh Government that the EWC will actually fill that vacuum and take the leadership role that we expect? It’s not quite clear in the statement that you expect that. I get that impression, but it is not explicit enough for me. In relation to accreditation, we should understand that every course should be validated every five years, and, therefore, accreditation should be checked on that. So, there will be some programmes that will be validated shortly before perhaps any new system comes into place. Will there be automatic accreditation transferred over for any of the new programmes, or will every programme that is up and running at that point in time need to be re-accredited by any new system? If that's the case, will the EWC actually set out the specifications it requires for accreditation with sufficient time for programme developers and HEIs to establish within their programmes these systems and specifications and programmes to meet the accreditation requirements?

Mae gen i un neu ddau o gwestiynau am y datganiad a'r cyfeiriad yr ydym yn symud iddo. O ran y Cyngor Gweithlu Addysg, nododd Furlong, mewn gwirionedd, fod gwactod o ran arweinyddiaeth, mewn ffordd. Ai bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y Cyngor Gweithlu Addysg mewn gwirionedd yn llenwi'r gwactod hwnnw ac yn gwneud y gwaith arwain yr ydym yn ei ddisgwyl? Dyw hi ddim yn hollol glir yn y datganiad eich bod yn disgwyl hynny. Rwy'n cael yr argraff honno, ond nid yw'n ddigon eglur imi. O ran achrediad, dylem ddeall y dylid dilysu pob cwrs bob pum mlynedd, ac, felly, dylid gwirio achrediad ar hynny. Felly, caiff rhai rhaglenni eu dilysu ychydig cyn i unrhyw system newydd fod ar waith, efallai. A gaiff achrediad ei drosglwyddo’n awtomatig ar gyfer unrhyw un o'r rhaglenni newydd, ynteu a fydd angen i unrhyw system newydd ail-achredu pob rhaglen sydd ar waith ar yr adeg honno? Os felly, a fydd y Cyngor Gweithlu Addysg mewn gwirionedd yn nodi'r manylebau sydd eu hangen arno ar gyfer achrediad mewn da bryd er mwyn i ddatblygwyr rhaglenni a sefydliadau addysg uwch sefydlu yn eu rhaglenni y systemau hyn a’r manylebau a’r rhaglenni i fodloni’r gofynion achredu?

You talk in your statement, Minister, about a targeted trainee scholarship programme. I would like to have a little bit more information about what that is and what level we are targeting it at. Is it primary or secondary? You talk about certain STEM subjects. Which ones? What criteria will be used for the particular STEM subjects we are talking about? So, I would like to have some explanation on that. Particularly, also, Angela Burns and Simon Thomas talked about science being an issue. I was at a conference this morning on women in engineering, where I spoke, and I believe that science is critical. You yourself as a science teacher will obviously understand that. Then, what level of science do we want at primary, and what are the requirements for primary education? I think the Royal Society of Chemistry was actually talking about secondary level, more focused on subject specialists for secondary subjects. What about science at primary? It is clear that if we want to develop our children into people who will take up careers in these areas, we must get them enthused and excited at an early age, and good science teachers are needed at that early age. So, what will we be doing to ensure that?

Rydych yn sôn yn eich datganiad, Weinidog, am raglen ysgoloriaeth dan hyfforddiant wedi'i thargedu. Hoffwn gael ychydig mwy o wybodaeth am beth yw hynny ac at ba lefel yr ydym yn ei thargedu. Ai cynradd ynteu uwchradd? Rydych yn sôn am rai pynciau STEM. Pa rai? Pa feini prawf a ddefnyddir ar gyfer y pynciau STEM penodol yr ydym yn sôn amdanynt? Felly, hoffwn gael rhywfaint o eglurhad o hynny. Yn arbennig, hefyd, dywedodd Angela Burns a Simon Thomas fod gwyddoniaeth yn broblem. Roeddwn mewn cynhadledd y bore yma ar fenywod mewn peirianneg, lle y gwnes i siarad, ac rwy’n credu bod gwyddoniaeth yn hanfodol. Byddwch chi eich hun fel athro gwyddoniaeth yn amlwg yn deall hynny. Felly, pa lefel o wyddoniaeth sydd ei heisiau arnom mewn ysgolion cynradd, a beth yw'r gofynion ar gyfer addysg gynradd? Rwy'n meddwl bod y Gymdeithas Frenhinol Cemeg mewn gwirionedd yn sôn am lefel uwchradd, gan ganolbwyntio mwy ar arbenigwyr pwnc ar gyfer pynciau uwchradd. Beth am wyddoniaeth mewn ysgolion cynradd? Mae'n amlwg, os ydym am ddatblygu ein plant i fod yn bobl a fydd yn dilyn gyrfaoedd yn y meysydd hyn, bod yn rhaid inni greu brwdfrydedd a chyffro ar oedran ifanc, a bod angen athrawon gwyddoniaeth da ar yr oedran cynnar hwnnw. Felly, beth fyddwn ni’n ei wneud i sicrhau hynny?

The four-year programme: you talk about elements of Master’s in that. Is that going to become a sort of element of the PGCE, which is going to be at Master’s level, or are they going to be separate totally? In other words, what's the crossover between the four-year programme and a PGCE and where some accreditation may be linked into that?

Y rhaglen pedair blynedd: rydych yn siarad am elfennau o gwrs Meistr yn hynny. A fydd hynny'n rhyw fath o elfen ar y cwrs TAR, a fydd ar lefel Meistr, ynteu a fyddant ar wahân yn llwyr? Mewn geiriau eraill, beth yw'r gorgyffwrdd rhwng y rhaglen pedair blynedd a TAR a lle gellid cysylltu rhywfaint o achredu i hynny?

And on the aspect that Simon Thomas asked about, the graduate teacher programme. It is crucial here. What are we actually talking about? Are we talking about graduates who have not gone through a PGCE but may go into education? Are we talking about individuals who may not even be graduates but have worked in school environments, who have been, through other means, working with teachers and may want to follow a pathway into the teaching profession? Will there be different titles, such as associate teachers and so on? Effectively, again, it's the qualifications level. We have set qualifications now for going into initial teacher education. Are we talking about different levels of qualifications as well in that aspect? I think I'll leave it at that point.

Ac ynglŷn â’r agwedd y gofynnodd Simon Thomas amdani, y rhaglen athrawon graddedig. Mae'n hanfodol yn y fan yma. Beth yr ydym ni’n sôn amdano mewn gwirionedd? A ydym ni’n sôn am raddedigion sydd ddim wedi mynd drwy TAR ond a all fynd i mewn i addysg? A ydym ni’n sôn am unigolion nad ydynt efallai hyd yn oed yn raddedigion ond sydd wedi gweithio mewn ysgolion, sydd wedi bod, drwy ddulliau eraill, yn gweithio gydag athrawon ac efallai yn dymuno dilyn llwybr i mewn i'r proffesiwn addysgu? A fydd yna wahanol deitlau, fel athrawon cyswllt ac yn y blaen? I bob pwrpas, unwaith eto, mae'n fater o lefel cymwysterau. Mae gennym gymwysterau penodol nawr ar gyfer mynd i addysg gychwynnol athrawon. A ydym ni’n sôn am lefelau gwahanol o gymwysterau yn hynny o beth hefyd? Rwy’n meddwl y gwnaf orffen ar y pwynt hwnnw.

16:52

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank David Rees for those very detailed questions, many of which, I will have to say, are unanswerable at present. But, to take your first question: yes, leadership, in terms of continuing professional development, through an evolutionary process, because, of course, the workforce council has just been born, really, but that is where I would envisage over time the leadership of this whole system of professional development being lodged. In other words, with the profession itself, because, as has been said here, earlier this afternoon, the aim of all these reforms is to instil momentum in a self-improving system—a system that does not need politicians reforming it from outside as some kind of continual process, as has been happening year after year after year, but a profession and a system that has structures that drive themselves forward and are never satisfied with the situation as it is at present.

Hoffwn ddiolch i David Rees am y cwestiynau manwl iawn yna; mae llawer ohonynt, mae’n rhaid imi ddweud, yn amhosibl eu hateb ar hyn o bryd. Ond, i ateb eich cwestiwn cyntaf: ie, arweinyddiaeth, o ran datblygiad proffesiynol parhaus, drwy broses esblygol, oherwydd, wrth gwrs, mae'r cyngor gweithlu newydd gael ei eni, mewn gwirionedd, ond dyna lle y byddwn yn rhagweld arweinyddiaeth yr holl system hon o ddatblygiad proffesiynol yn ymddangos dros amser. Mewn geiriau eraill, gyda'r proffesiwn ei hun, oherwydd, fel y dywedwyd yma, yn gynharach y prynhawn yma, nod yr holl ddiwygiadau hyn yw ennyn momentwm mewn system sy’n hunan-wella—system nad oes angen i wleidyddion ei diwygio o'r tu allan fel rhyw fath o broses barhaus, fel sydd wedi bod yn digwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn, ond proffesiwn a system sydd â strwythurau sy'n sbarduno eu hunain ymlaen ac nad ydynt byth yn fodlon ar y sefyllfa fel y mae ar y pryd.

In terms of accreditation, well, I've mentioned the task and finish group, which Professor Furlong will chair, to look into —. Many of the questions, I think, that you’ve raised this afternoon, David, are questions for Professor Furlong to look more deeply into in the work of that task and finish group. But I don't think I'm in a position, and I don't think you would be right, for instance, for me at this point to describe exactly what that four-year course looks like in terms of its content, whether it's a Master’s course of itself, or whether it leads into a Master’s with an additional year, perhaps, which is being worked through on the job as a teacher. There are possibilities here. There are very interesting models, as I say, that are being looked at. We will need to describe that product very soon, but that work is ongoing. It would be a bit premature of me, I think, to describe it too precisely at this point in time.

O ran achredu, wel, rwyf wedi sôn am y grŵp gorchwyl a gorffen, y bydd yr Athro Furlong yn gadeirydd arno, i edrych ar—. Mae llawer o'r cwestiynau, rwy’n meddwl, yr ydych wedi’u gofyn y prynhawn yma, David, yn gwestiynau i'r Athro Furlong edrych yn ddyfnach arnynt yng ngwaith y grŵp gorchwyl a gorffen. Ond nid wyf yn credu fy mod mewn sefyllfa, ac nid wyf yn credu y byddai’n iawn, er enghraifft, i mi ar hyn o bryd ddisgrifio sut yn union y bydd y cwrs pedair blynedd yn edrych o ran ei gynnwys, boed yn gwrs Meistr ynddo’i hun, neu ei fod yn arwain at gwrs Meistr gyda blwyddyn ychwanegol, efallai, sy'n cael ei chyflawni wrth weithio fel athro. Mae gennym bosibiliadau. Mae modelau diddorol iawn, fel y dywedais, yn cael eu hystyried. Bydd angen inni ddisgrifio’r cynnyrch hwnnw yn fuan iawn, ond mae’r gwaith hwnnw’n mynd rhagddo. Byddai'n gynamserol braidd imi, rwy’n meddwl, ei ddisgrifio’n rhy fanwl ar hyn o bryd.

16:54 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, diolch i chi am y datganiad. Rydych chi wedi ei gwneud hi'n berffaith amlwg y prynhawn yma nad ydych chi'n fodlon ar y gyfundrefn bresennol, ond rwy'n meddwl bod Angela Burns wedi gwneud pwynt dilys trwy ofyn i chi am yr adroddiad yn 2006 achos roedd union yr un pethau yn cael eu dweud bryd hynny: bod angen cyfundrefn o safon, a buasai'n rhaid i golegau a phrifysgolion ymateb a chreu sefyllfa—. Felly, beth rŷm ni'n awyddus i'w ddeall ydy sut y gallwn ni gael unrhyw fath o hyder bod y sefyllfa yr ydym yn edrych arni yn ystod y pump neu chwe blynedd nesaf yn mynd i fod yn wahanol i'r hyn yr ydym wedi ei weld ers 2006.

Minister, thank you for your statement. You make it perfectly clear this afternoon that you're not content with the current regime, but I do think that Angela Burns made a valid point by asking you about the 2006 report because exactly the same things were said at that time: that there is a need for a quality regime, and that the colleges and the universities would have to respond and create a situation—. So, what we're eager to understand is how we can have any kind of confidence that the situation that we're looking at over the next five to six years is going to be different to what we've seen since 2006.

A gaf i ofyn i chi am rai materion penodol? Ynglŷn â Chyngor y Gweithlu Addysg, rydych chi wedi dweud eich bod chi'n meddwl nad yw eu harian nhw'n ddigonol ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl fod nifer ohonom ni yn poeni, yn cynnwys yr undebau, ynglŷn â chapasiti'r corff yna i ymateb i'r holl ofynion arno fo. Mi roeddech chi, ym mis Ebrill, wedi datgan mai'r cyngor fyddai'n gyfrifol am y pasbort ynglŷn â datblygiad proffesiynol, er enghraifft, ond dim adnoddau ychwanegol. Rydych chi rŵan yn rhoi'r cyfrifoldeb arnyn nhw i arwain y broses achredu, ond, eto, dim adnoddau ychwanegol. Rwy'n meddwl beth yr ydym yn pryderu amdano yw eich bod yn dweud yn y datganiad yma eich bod chi'n credu eich bod chi'n mynd i wneud rhyw fath o gyhoeddiad yn ystod yr haf ynglŷn â rôl a swyddogaeth y cyngor, ond a fydd hynny'n rhoi digon o amser i chi gael y trafodaethau yma efo'r undebau ac efo'r proffesiwn ynglŷn â maint y cyfrifoldeb y maen nhw yn ei dderbyn o ran ariannu?

May I ask you about some specific matters? In relation to the Education Workforce Council, you've said that you believe that its funding isn't sufficient at present. I think many of us are concerned, including the unions, about the capacity of that body to respond to all of its requirements. In April you stated that the council would be responsible for the passport in relation to professional development, for example, but with no additional resources. You're now giving it the responsibility to lead the accreditation process, but, again, with no additional resources. I think that what we're concerned about is that you say in your statement that you believe that you're going to make some sort of announcement during the summer about the role and function of the council, but will that give you sufficient time to have these discussions with the unions and the profession about the size of responsibility that they are shouldering in terms of funding?

A gaf i hefyd ofyn i chi: un o argymhellion eraill yr Athro Furlong ydy—? Mae o'n dweud bod yna gwestiynau ynglŷn â pharhad Estyn o fewn y gyfundrefn achredu. Roeddech chi'n dweud yn eich datganiad heddiw eich bod chi'n gweld parhad yn y berthynas yna, ac eto mae Furlong yn dweud, unwaith mae'r gyfundrefn newydd mewn lle, ei fod o'n gweld bod yna gwestiwn penodol ynglŷn ag a ddylai'r Estyn barhau efo'r rôl yna ar ôl hynny. Felly, a ydych chi'n mynd i ddweud eich bod chi'n mynd yn ôl at hynny unwaith y mae'r gyfundrefn newydd mewn lle? Neu a ydych chi'n dweud eich bod chi'n gweld parhad o ran swyddogaeth Estyn yn hynny o beth?

May I also ask you: one of the recommendations made by Professor Furlong was—? He says that there are questions about the continuation of Estyn within the accreditation regime. You said in your statement today that you see that relationship continuing, and, again, Furlong says, once the new regime is in place, that he believes that there's a specific question there about whether Estyn should continue to have that role after that. So, are you going to say that you're going to go back to that once the new regime is in place? Or do you believe that there will be a continued function for Estyn in that regard?

Rydych chi hefyd yn sôn am adolygiad annibynnol o effaith y cynnig ariannol ar gyfer recriwtio. Beth ydy'r amserlen o ran yr adolygiad pellach yna? Mae Furlong yn dweud mai'r cwbl mae o'n gweld sydd ei angen ydy i Lywodraeth Cymru fonitro'r gwahaniaethau mewn recriwtio rhwng Lloegr a Chymru i weld a ydy'r cynigion ariannol sydd ar gael, sydd yn uwch yn Lloegr, yn cael effaith ar recriwtio.

You also talk about an independent review of the effect of the financial offer for recruitment. What's the timetable for that in terms of that further review? Furlong says that all he sees that's necessary is for the Welsh Government to monitor the differences in recruitment between England and Wales to see whether the funding offer that's available, which is higher in England, has an effect on recruitment.

Yn olaf, rydych chi wedi'i gwneud yn glir rŵan—. Roeddwn yn mynd i ofyn i chi os oeddech chi am dderbyn argymhelliad 9 yr Athro Furlong ynglŷn â thendro cystadleuol rhwng y sefydliadau. Rydych chi wedi dweud eich bod chi'n awyddus i weld hynny'n digwydd, ond rwyf jest am ofyn i chi: a ydych chi wedi gwneud unrhyw waith ar hyn o bryd ynglŷn â'r ffaith nad oes presenoldeb erbyn hyn yn y gogledd-ddwyrain, lle mae nifer o ieuenctid erbyn hyn yn mynd dros y ffin, naill ai i Gaer neu Lerpwl, i gael eu hyfforddi fel athrawon achos nad ydyn nhw'n medru teithio naill ai i lawr i Aberystwyth neu i Fangor? Felly, os ydych chi'n mynd i weld beth ydy'r sefyllfa o ran hyfforddi ar draws Cymru, a ydych chi'n benodol yn mynd i weld a oes yna bobl yn mynd draw dros y ffin i Loegr o'r gogledd ddwyrain achos bod addysg blynyddoedd cynnar wedi cael ei thynnu allan o Wrecsam o dan yr adroddiad blaenorol?

Finally, you've made it clear now—. I was going to ask you about whether you were going to accept Professor Furlong's recommendation 9 about competitive tendering between the institutions. You say that you're eager to see that happen, but I just wanted to ask you: have you done any work at present about the fact that there is no presence in the north east, where a number of young people by now go over the border, either to Chester or Liverpool, to be trained as teachers because they can't travel either down to Aberystwyth or to Bangor? So, if you are going to consider what the situation is in terms of training across Wales, are you going to specifically look at whether people are going over the border to England from the north east because early years education has been withdrawn from Wrexham under the previous report?

16:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, my congratulations to Aled Roberts in making the first geographical bid for the new teacher training set-up. I think that's the first one out of the traps; I'm sure there will be many more. I'm not going to answer that directly, obviously, but what I will say is that I don't think we should be particularly bothered about whether it is long-established centres that are bidding here or wholly new actors on the stage, if you like, who may put themselves forward. I'm completely relaxed about that. It is going to be competitive, and the only question that really needs to be answered is: will they be able to rise to the accreditation criteria that the task and finish group will recommend, and, in time, the Welsh Government will pore over and probably endorse? Is this stuff going to be of a high enough standard, as I've described it this afternoon? That, I hope, will make every bit of difference as compared to nine years ago. You revisit that report of nine years ago because I think there was an expectation at that time that the system would wake up, smell the coffee, and reform itself. Unfortunately, Taberrer and then Furlong showed us that the HEIs in particular had not reformed themselves from within and much was the same as it had been before. So, this is the Welsh Government giving notice: we're not buying that stuff anymore. We are now seeking to place the considerable investment that the Welsh people make in teacher training in a very different product. We're simply not going to pay for what is currently being produced in the near future. We're just simply not going to pay for it any more.

Wel, fy llongyfarchiadau i Aled Roberts am wneud y cais daearyddol cyntaf am y trefniant hyfforddi athrawon newydd. Rwy'n meddwl mai dyna'r cyntaf; rwy'n siŵr y bydd llawer mwy. Dydw i ddim yn mynd i ateb hynny'n uniongyrchol, yn amlwg, ond yr hyn yr wyf am ei ddweud yw nad wyf yn credu y dylem boeni gormod pa un ai canolfannau sefydledig sy'n gwneud cais yma ynteu a oes actorion cwbl newydd ar y llwyfan, os hoffech, yn cynnig eu hunain. Rwy'n gwbl ddigyffro am hynny. Bydd yn gystadleuol, a'r unig gwestiwn sydd angen ei ateb mewn gwirionedd yw: a fyddant yn gallu bodloni'r meini prawf achredu y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn eu hargymell, ac, ymhen amser, y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried ac yn ôl pob tebyg yn eu cymeradwyo? A fydd y pethau hyn o safon ddigon uchel, fel yr wyf wedi eu disgrifio y prynhawn yma? Bydd hynny, rwy'n gobeithio, yn gwneud gwahaniaeth mawr o'i gymharu â naw mlynedd yn ôl. Rydych yn ailedrych ar yr adroddiad hwnnw naw mlynedd yn ôl oherwydd rwy'n meddwl bod disgwyliad ar y pryd y byddai'r system yn deffro, yn arogli'r coffi, ac yn ei diwygio ei hun. Yn anffodus, dangosodd Taberrer ac yna Furlong inni nad oedd y sefydliadau addysg uwch yn benodol wedi diwygio eu hunain o'r tu mewn a bod llawer yr un fath ag yr oedd o'r blaen. Felly, dyma Lywodraeth Cymru'n rhoi rhybudd: nid ydym yn prynu'r pethau hynny mwyach. Rydym nawr yn ceisio gwneud y buddsoddiad sylweddol y mae pobl Cymru'n ei wneud mewn hyfforddiant athrawon mewn cynnyrch gwahanol iawn. Yn syml, nid ydym yn mynd i dalu am yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd yn y dyfodol agos. Yn syml, nid ydym yn mynd i dalu amdano mwyach.

On recruitment incentives and so on, I've asked for these to be reviewed because, although they're there and there's much concern about whether they're as attractive as the English equivalents and so on, we don't actually know whether or not they work. There has been, up until now, no research or no study or no evidence to show that they're having the effect that was intended. I have the feeling that they're probably quite crude as instruments of policy. I think there may be better ways, including—coming back to some of the points that David Rees said—alternative routes into teaching for various types of well-qualified persons—professional people perhaps—that might serve us better.

O ran cymhellion recriwtio ac yn y blaen, rwyf wedi gofyn am i'r rhain gael eu hadolygu oherwydd, er eu bod yno a bod llawer o bryder ynghylch a ydynt mor ddeniadol â fersiynau cyfatebol Lloegr ac yn y blaen, nid ydym yn gwybod mewn gwirionedd a ydynt yn gweithio ai peidio. Hyd yn hyn, ni fu unrhyw ymchwil nac astudiaeth na thystiolaeth i ddangos eu bod yn cael yr effaith a fwriadwyd. Rwy'n cael y teimlad eu bod yn fwy na thebyg yn eithaf amrwd fel offerynnau polisi. Rwy'n meddwl y gallai fod ffyrdd gwell, gan gynnwys—i ddod yn ôl at rai o'r pwyntiau a nododd David Rees—llwybrau amgen i mewn i addysgu ar gyfer gwahanol fathau o bobl â chymwysterau da—pobl broffesiynol efallai—a allai ein gwasanaethu'n well.

I think what will serve us better than any financial incentive is the incentive of excellence, of bullet-proof excellence, which everybody accepts is the best teacher training offer anywhere in the UK. That would deliver us recruitment incentives of the very first order, in my view.

Rwy’n meddwl mai’r hyn a fydd yn ein gwasanaethu’n well nag unrhyw gymhelliant ariannol yw cymhelliad rhagoriaeth—rhagoriaeth bendant—y mae pawb yn ei derbyn fel y cynnig gorau o hyfforddiant athrawon yn unman yn y DU. Byddai hynny'n creu cymhellion recriwtio o’r radd flaenaf inni, yn fy marn i.

17:02 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for your statement, Minister. Professor Donaldson and indeed you yourself are ambitious for a greater presence for the Welsh language in our English-medium primary schools. I think you do mention Welsh-medium in your statement, but I don’t think that teacher training can ignore the fact that we need some improvement of Welsh-language skills for those who are entering our English-medium streams. I know your statement doesn’t cover everything, but could you give us some sort of indication of your thinking on how these skills might be developed within the workforce in a way that doesn’t disadvantage candidates with no skills at the beginning, or even actually part-way through their career, and in a way that doesn’t discourage them from being willing to look at those skills?

Diolch am eich datganiad, Weinidog. Mae'r Athro Donaldson ac yn wir chi eich hun yn uchelgeisiol am fwy o bresenoldeb i’r iaith Gymraeg yn ein hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Rwy'n credu eich bod yn sôn am ysgolion cyfrwng Cymraeg yn eich datganiad, ond nid wyf yn credu y gall hyfforddiant athrawon anwybyddu'r ffaith fod angen sgiliau iaith Gymraeg ychydig gwell ar y rhai sy'n mynd i mewn i’n ffrydiau cyfrwng Saesneg. Rwy’n gwybod nad yw eich datganiad yn cynnwys popeth, ond a allech roi rhyw fath o syniad inni o'ch syniadau am sut y gellid datblygu’r sgiliau hyn o fewn y gweithlu mewn ffordd nad yw’n peri anfantais i ymgeiswyr nad oes ganddynt sgiliau ar y dechrau, neu hyd yn oed, mewn gwirionedd, ran o’r ffordd drwy eu gyrfa, yn wir, ac mewn modd nad yw'n eu hanghymell rhag bod yn barod i edrych ar y sgiliau hynny?

17:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you; a very specific question, and a very specific answer. I think Suzy Davies is quite right: I’m not in the business here of brow-beating professionals into professional development that they feel is not for them, particularly if they are in their career, or later. This is not the way we want to operate the system in Wales. But, it’s clear that, if we are to do better in terms of young people acquiring the Welsh language, the same logic applies in terms of the new professionals coming into the profession. We need more people with a subject specialism that they are comfortable with in that particular area. So, whether it’s the Welsh language, that would be a priority for me; modern foreign languages, would also be a priority; STEM, to answer David Rees’s point, an obvious priority there too; and, of course, all the new teachers having to have a much higher level of digital competence, no matter what subject specialism they bring to their classroom.

Diolch; cwestiwn penodol iawn, ac ateb penodol iawn. Rwy’n meddwl bod Suzy Davies yn llygad ei lle: nid fy musnes i yma yw gorfodi gweithwyr proffesiynol i mewn i ddatblygiad proffesiynol y maent yn teimlo nad yw’n iawn iddynt hwy, yn enwedig os ydynt yn eu gyrfa, neu'n ddiweddarach. Nid dyma’r ffordd yr hoffem weithredu'r system yng Nghymru. Ond, mae'n amlwg, os ydym am wneud yn well o ran pobl ifanc yn caffael yr iaith Gymraeg, bod yr un rhesymeg yn berthnasol o ran y gweithwyr proffesiynol newydd sy’n dod i mewn i'r proffesiwn. Mae arnom angen mwy o bobl ag arbenigedd pwnc y maent yn gyfforddus ag ef yn y maes penodol hwnnw. Felly, pa un a yw hynny yn yr iaith Gymraeg, byddai hynny'n flaenoriaeth i mi; ieithoedd tramor modern, byddai hynny hefyd yn flaenoriaeth; STEM, i ateb pwynt David Rees, blaenoriaeth amlwg yno hefyd; ac, wrth gwrs, byddai’n rhaid i’r holl athrawon newydd feddu ar lefel llawer uwch o gymhwysedd digidol, ni waeth pa arbenigedd pwnc y maent yn ei gyflwyno i’r ystafell ddosbarth.

I think, to get to grips with Suzy’s central point, the new deal has to have a better offer in terms of incentivising current teachers to become more comfortable and confident about their Welsh-language skills. In English-medium primaries, we need better materials. A great deal of this could possibly be worked through with partners like the Open University, in terms of an online uplift in skills, which would be an accredited part of their CPD. It would, in the end, I feel, be the responsibility of headteachers and local authorities to make sure that they had a good balance of subject-specialist skills within their schools. That should be achieved either by the intelligent recruitment of newly qualified people or people with those subject specialisms, or the upskilling of the current workforce, but there is no question that we would be trying to shoehorn unwilling existing teachers into subject specialism areas for which they have no enthusiasm. It would defeat, I think, the object of the whole mission.

Rwy’n meddwl, i ymdrin â phwynt canolog Suzy, bod yn rhaid i’r fargen newydd roi cynnig gwell o ran cymell athrawon presennol i ddod yn fwy cyfforddus a hyderus am eu sgiliau iaith Gymraeg. Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae angen gwell deunyddiau arnom. Mae’n bosibl y gellid gweithio drwy lawer o hyn gyda phartneriaid fel y Brifysgol Agored, ar ffurf cynyddu sgiliau ar-lein, a fyddai'n rhan achrededig o'u DPP. Yn y pen draw, rwy’n teimlo, cyfrifoldeb penaethiaid ac awdurdodau lleol fyddai gwneud yn siŵr bod ganddynt gydbwysedd da o sgiliau pwnc-arbenigol o fewn eu hysgolion. Dylid cyflawni hynny naill ai drwy recriwtio pobl sydd newydd gymhwyso neu bobl â'r arbenigeddau pwnc hynny mewn modd deallus, neu drwy uwchsgilio'r gweithlu presennol, ond nid oes amheuaeth y byddem yn ceisio gorfodi athrawon presennol amharod i feysydd arbenigedd pwnc nad ydynt yn frwdfrydig amdanynt. Byddai'n mynd yn groes, yn fy marn i, i ddiben yr holl fwriad.

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

17:05

## 9. Datganiad: Gweithrediadau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i Drechu Tlodi

## 9. Statement: European Structural Fund Operations to Tackle Poverty

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 9 is a statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty on the European structural fund operations to tackle poverty. I call the Minister, Lesley Griffiths.

Eitem 9 yw datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi am weithrediadau'r gronfa strwythurol Ewropeaidd i drechu tlodi. Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

17:05 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I wish to update Members following the launch of the Communities for Work programme. Bolstered by vital EU funds, Communities for Work will make a significant contribution to the Welsh Government's key priority of supporting people into work and developing the skills of our workforce. It will offer a full programme of support to help people, including those who have many complex barriers to employment and need intensive one-to-one mentoring and personal support. In these times of austerity, it is essential we make the best use of our resources by working collaboratively, across Welsh Government and the private sector, and fully involving relevant external partners. The Welsh Government does not have control over many of the levers that affect how and where jobs are created. However, there are some things we can and are doing to make a difference.

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar ôl lansio'r rhaglen Cymunedau am Waith. Ategir y rhaglen hon gan arian hanfodol yr UE, a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at flaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru o gefnogi pobl i gael gwaith a datblygu sgiliau ein gweithlu. Bydd yn cynnig rhaglen lawn o gefnogaeth i helpu pobl, gan gynnwys pobl sydd â llawer o rwystrau cymhleth rhag cael cyflogaeth ac sydd ag angen mentora dwys un i un a chymorth personol. Yn y cyfnod hwn o gyni, mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau bosibl drwy weithio ar y cyd, ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector preifat, a chan gynnwys partneriaid allanol perthnasol yn llawn. Nid oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros lawer o'r ysgogiadau sy'n effeithio ar sut a ble y caiff swyddi eu creu. Fodd bynnag, mae rhai pethau y gallwn eu gwneud, ac yr ydym yn eu gwneud, i wneud gwahaniaeth.

A total initial investment of nearly £30 million from Welsh Government and EU funds will help support over 6,000 individuals into sustainable employment. This represents the first phase of a three-year programme of work. I am pleased to report over 60 community employment and parent employment advisors are already in place in Communities First areas, establishing the programme on the ground and directly engaging participants at an early stage. This first phase of Communities for Work will specifically support economically inactive and long-term unemployed individuals over 25 years of age who have complex barriers to employment to re-engage with the labour market. The programme will provide advisers from Jobcentre Plus to work within communities in a way that is unique within the UK and builds on previous work such as our parent employment advisor pilot.

Bydd cyfanswm buddsoddiad cychwynnol o bron i £30 miliwn gan Lywodraeth Cymru a chronfeydd yr UE yn helpu i gefnogi dros 6,000 o unigolion i mewn i gyflogaeth gynaliadwy. Dyma gam cyntaf rhaglen tair blynedd o waith. Rwy'n falch o ddweud bod dros 60 o gynghorwyr cyflogaeth cymunedol a chyflogaeth rhieni eisoes yn gweithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, i sefydlu'r rhaglen ar lawr gwlad a chynnwys cyfranogwyr yn uniongyrchol ar gam cynnar. Bydd cam cyntaf Cymunedau am Waith yn rhoi cymorth penodol i unigolion dros 25 oed sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn yr hirdymor sydd â rhwystrau cymhleth rhag cael cyflogaeth i ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur. Bydd y rhaglen yn darparu cynghorwyr o'r Ganolfan Byd Gwaith i weithio o fewn cymunedau mewn ffordd sy'n unigryw yn y DU ac sy'n adeiladu ar waith blaenorol fel ein cynllun arbrofol cynghorydd cyflogaeth rhieni.

'Building Resilient Communities' made clear the Welsh Government's commitment to supporting people into work. Paid employment provides an income to sustain a family. A job can be the start of a route that leads to greater skills, higher income, better housing and a more fulfilled life and the chance to be part of the growing Welsh economy. The second phase of Communities for Work will further support the Welsh Government's strategic approach to reducing the proportion of young people aged 16 to 24 years who are not engaged in education, employment or training, as set out in the youth engagement and progression framework. I will be bringing forward details of this element of support at a later date.

Dangosodd 'Creu Cymunedau Cryf' yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl i gael gwaith. Mae gwaith cyflogedig yn darparu incwm i gynnal teulu. Gall swydd fod yn gam cyntaf ar lwybr sy'n arwain at fwy o sgiliau, mwy o incwm, gwell tai a bywyd mwy bodlon a'r cyfle i fod yn rhan o economi Cymru sy'n tyfu. Bydd ail gam Cymunedau am Waith yn gwneud mwy i gefnogi dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru i leihau cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, fel y nodir yn y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Byddaf yn cyflwyno manylion am yr elfen hon ar y gefnogaeth yn y dyfodol.

Communities for Work builds on the early success of the Lift programme, which is committed to providing 5,000 training and employment opportunities to people from workless households by the end of 2017. Lift is being delivered in nine areas across Wales, and up to the end of last month had provided over 1,800 training and employment opportunities, with over 300 people from workless households supported into employment. Communities for Work extends elements of the Lift programme across all Communities First areas, providing intensive guidance and support to jobseekers. It aims to balance participants' aspirations and expectations with local labour demands.

Mae Cymunedau am Waith yn adeiladu ar lwyddiant cynnar y rhaglen Esgyn, sydd wedi ymrwymo i ddarparu 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl o aelwydydd di-waith erbyn diwedd 2017. Mae Esgyn yn cael ei chyflwyno mewn naw ardal ledled Cymru, a hyd at ddiwedd y mis diwethaf roedd wedi darparu dros 1,800 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, gan gefnogi dros 300 o bobl o aelwydydd di-waith i gael cyflogaeth. Mae Cymunedau am Waith yn ymestyn elfennau ar y rhaglen Esgyn ar draws holl ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan roi arweiniad a chymorth dwys i geiswyr gwaith. Ei nod yw cydbwyso dyheadau a disgwyliadau cyfranogwyr â gofynion llafur lleol.

We know employment provides the most sustainable route out of poverty. Communities for Work will contribute to our goal of reducing the number of people who are workless, which is at the heart of our tackling poverty action plan. We talk about the different levers we can use as a Government to help people out of poverty; the Communities First programme is a key lever in the action plan, offering support to many people in our poorest communities. Communities for Work combines experience and best practice from previous successful EU-funded programmes, such as Want to Work; Communities First-funded programmes, such as the parent employer adviser; working in outreach, such as the shared outcome initiative and the Lift programme. Communities for Work will build on these experiences, expand best practice, and complement existing activity.

Rydym yn gwybod mai cyflogaeth sy'n darparu'r llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi. Bydd Cymunedau am Waith yn cyfrannu at ein nod o leihau nifer y bobl sy'n ddi-waith, sydd wrth wraidd ein cynllun gweithredu ar drechu tlodi. Rydym yn sôn am y gwahanol ddulliau y gallwn eu defnyddio fel Llywodraeth i helpu pobl allan o dlodi; mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn rhan allweddol o'r cynllun gweithredu, gan gynnig cefnogaeth i lawer o bobl yn ein cymunedau tlotaf. Mae Cymunedau am Waith yn cyfuno profiad ac arfer gorau o raglenni llwyddiannus blaenorol a ariannwyd gan yr UE, megis Yn Awyddus i Weithio; rhaglenni a ariannwyd gan Cymunedau yn Gyntaf, megis y cynghorydd cyflogwr rhieni; gweithio ym maes allgymorth, megis y fenter canlyniadau ar y cyd a'r rhaglen Esgyn. Bydd Cymunedau am Waith yn adeiladu ar y profiadau hyn, yn ehangu arfer gorau, ac yn ategu gweithgareddau presennol.

Communities for Work employment advisers and mentors will identify and engage with long-term unemployed and economically inactive individuals. They will provide support, encouragement and motivation and build confidence. They will promote training and employment opportunities as part of an individual's journey and develop an agreed personal action plan. This will assist people to secure sustainable employment and in the long term help lift them out of poverty. Participation in the programme is voluntary and focused on the needs of individuals. The programme will add value and complement existing Welsh Government programmes including Communities First.

Bydd cynghorwyr cyflogaeth a mentoriaid Cymunedau am Waith yn canfod unigolion di-waith hirdymor ac economaidd anweithgar ac yn ymgysylltu â hwy. Byddant yn darparu cefnogaeth, anogaeth a chymhelliant ac yn adeiladu hyder. Byddant yn hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth fel rhan o daith unigolyn ac yn datblygu cynllun gweithredu personol y cytunwyd arno. Bydd hyn yn helpu pobl i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy ac yn yr hirdymor yn helpu i'w codi allan o dlodi. Mae cymryd rhan yn y rhaglen yn wirfoddol ac mae'n canolbwyntio ar anghenion unigolion. Bydd y rhaglen yn ychwanegu gwerth at raglenni presennol Llywodraeth Cymru ac yn eu hategu, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf.

I am committed to continuing to support the most deprived communities in Wales, building on the success of programmes already delivering results, ensuring we spread the benefits as widely as possible. Communities for Work is a significant step forward in offering employment support in our poorest communities. It shows our commitment to giving continued support to people living in the most deprived communities in Wales. It also shows how vital EU funds are being used to help vulnerable people and communities across Wales and how important UK membership of the EU is to Wales.

Rwyf wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan adeiladu ar lwyddiant rhaglenni sydd eisoes yn cyflwyno canlyniadau, a sicrhau ein bod yn lledaenu'r manteision mor eang â phosibl. Mae Cymunedau am Waith yn gam sylweddol ymlaen o ran cynnig cymorth cyflogaeth yn ein cymunedau tlotaf. Mae'n dangos ein hymrwymiad i roi cefnogaeth barhaus i bobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hefyd yn dangos sut caiff arian hanfodol yr UE ei ddefnyddio i helpu pobl a chymunedau agored i niwed ledled Cymru a pha mor bwysig ydyw i Gymru bod y DU yn aelod o'r UE.

Within Communities for Work, as part of the EU-funded provision, I am developing a proposal for an innovation fund to support and trial new and innovative ideas for supporting people into employment. In addition, the programme will be offering a range of bespoke training for individuals to supplement existing provision where needed. Alongside Communities for Work, I am developing a proposal to support economically inactive parents to prepare for and to access employment, where childcare is their main barrier to work. The parents, childcare and employment programme will offer a targeted service to eligible parents who live near Flying Start settings and Families First areas that are outside of the Communities First areas. I will bring forward more detail on this at a later date.

O fewn Cymunedau am Waith, yn rhan o'r ddarpariaeth a ariennir gan yr UE, rwy'n datblygu cynnig ar gyfer cronfa arloesi i gefnogi a threialu syniadau newydd ac arloesol i gynorthwyo pobl i gael cyflogaeth. Bydd y rhaglen hefyd yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant pwrpasol i unigolion i ategu'r ddarpariaeth bresennol pan fo angen. Ochr yn ochr â Chymunedau am Waith, rwy'n datblygu cynnig i gynorthwyo rhieni economaidd anweithgar i baratoi am gyflogaeth a chael cyflogaeth, pan mai gofal plant yw eu prif rwystr i weithio. Bydd y rhaglen rhieni, gofal plant a chyflogaeth yn cynnig gwasanaeth wedi'i dargedu i rieni cymwys sy'n byw'n agos i leoliadau Dechrau'n Deg ac i ardaloedd Teuluoedd yn Gyntaf sydd y tu allan i'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Rhof fwy o fanylion am hyn yn ddiweddarach.

I want Wales to develop a model of employment support that offers individuals a chance to secure their future, reduces poverty and helps individuals and families to strengthen resilience to the challenges in their lives. Communities for Work and PaCE will make a significant contribution to these aims.

Rwyf eisiau i Gymru ddatblygu model o gymorth cyflogaeth sy'n cynnig cyfle i unigolion sicrhau eu dyfodol, sy'n lleihau tlodi ac sy'n helpu unigolion a theuluoedd i gryfhau cydnerthedd i'r heriau yn eu bywydau. Bydd Cymunedau am Waith a PaCE yn cyfrannu'n sylweddol at y nodau hyn.

17:12 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you say, employment provides the most sustainable route out of poverty. You say that the Communities for Work scheme will contribute to our goal of reducing the number of people who are workless at the heart of your tackling poverty action plan. As you will have heard from Alan Milburn's report on the state of the nation, Wales has the second lowest working age employment rate among the UK nations and regions, a higher unemployment rate, a higher proportion of the working age population without any qualifications and pay levels 8 per cent below the UK average. Wales, of course, remains the poorest part of the UK with economic activity consistently above the UK average.

Fel y dywedwch, cyflogaeth sy'n darparu'r llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi. Rydych yn dweud y bydd y cynllun Cymunedau am Waith yn cyfrannu at ein nod o leihau nifer y bobl sy'n ddi-waith wrth wraidd eich cynllun gweithredu ar drechu tlodi. Fel y byddwch wedi'i glywed yn adroddiad Alan Milburn am gyflwr y genedl, Cymru sydd â'r ail gyfradd isaf o gyflogaeth o oedran gweithio ymysg cenhedloedd a rhanbarthau'r DU, mae gennym gyfradd ddiweithdra uwch a chyfran uwch o'r boblogaeth o oedran gweithio heb ddim cymwysterau, a lefelau tâl 8 y cant yn is na chyfartaledd y DU. Mae Cymru, wrth gwrs, yn parhau i fod y rhan dlotaf o'r DU ac mae ein gweithgaredd economaidd yn gyson uwch na chyfartaledd y DU.

Why do you think it is that parts of Wales remain among the poorest parts of Europe, which is why we qualified for a third round of EU funding, despite almost £4 billion of EU funds having already been spent by yourself and previous Governments led by your party since 2000? Why do you think that GVA per head in Wales, according to the figures published in December, is still the lowest among the devolved UK nations and also the regions, at 72.3 per cent of the UK average, which is actually 5 per cent below the figure at the start of devolution, which in itself wasn't very good, of course, back in 1999? There was collective responsibility for that too. Why do you believe that those GVA figures show that Wales is the worst performing part of the UK in terms of money generated by the economy? Particularly, why is west Wales and the Valleys the worst performing sub-region in the UK and Anglesey the worst performing local area in the UK, 16 years after devolution?

Pam yr ydych yn meddwl bod rhannau o Gymru'n parhau i fod ymhlith y rhannau tlotaf o Ewrop, sef y rheswm pam yr oeddem yn gymwys am drydedd rownd o arian yr UE, er eich bod chi a Llywodraethau blaenorol o dan arweiniad eich plaid eisoes wedi gwario bron i £4 biliwn o arian yr UE ers 2000? Pam yr ydych chi'n meddwl bod GYC y pen yng Nghymru, yn ôl y ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn dal i fod yr isaf o blith gwledydd datganoledig y DU a hefyd y rhanbarthau, ar 72.3 y cant o gyfartaledd y DU, sydd mewn gwirionedd 5 y cant yn is na'r ffigur ar ddechrau datganoli, nad oedd ynddo'i hun yn dda iawn, wrth gwrs, yn ôl yn 1999? Roedd cyfrifoldeb ar y cyd am hynny hefyd. Pam yr ydych chi'n credu bod y ffigurau GYC hynny'n dangos mai Cymru yw'r rhan o'r DU sy'n perfformio waethaf o ran arian a gynhyrchir gan yr economi? Yn arbennig, pam mai'r gorllewin a'r Cymoedd yw'r is-ranbarth sy'n perfformio waethaf yn y DU ac Ynys Môn yw'r ardal leol sy'n perfformio waethaf yn y DU, 16 mlynedd ar ôl datganoli?

Referring specifically to your report, you refer to the support this will give to people over 25 who have complex barriers to employment to re-engage with the labour market. That is word for word what the UK Work Programme also states, but, of course, is delivered in Wales by two contractors, and I know that the Welsh Government has a role in that through an agreement with the UK Government. I understand that the Work Programme has exceeded its performance targets on the basis of mandatory referrals for both under 25s and over 25s. So, how will this correlate with the UK Work Programme as it's being applied in Wales to ensure it adds to, rather than duplicates, the investment in the Work Programme? I note you refer to provision from advisers from Jobcentre Plus, which, of course, I greatly welcome, with the DWP therefore engaged with this. But does that mean that this will not duplicate, noting, of course, that it's the difference between a voluntary and a mandatory programme? Will you allow people onto this programme who have also already been referred onto the Work Programme? Unlike Jobs Growth Wales, of course, people don't have a choice about going on the Work Programme, but the two working together, as the Welsh Affairs Committee shows, could maximise the benefits for the people we're all seeking to help?

Gan gyfeirio'n benodol at eich adroddiad, rydych yn cyfeirio at y cymorth y bydd hyn yn ei roi i bobl dros 25 oed sydd â rhwystrau cymhleth rhag cael cyflogaeth i ail-ymgysylltu â'r farchnad lafur. Mae Rhaglen Waith y DU hefyd yn datgan hynny air am air, ond, wrth gwrs, fe'i darperir yng Nghymru gan ddau gontractwr, a gwn fod Llywodraeth Cymru'n chwarae rhan yn hynny drwy gytundeb gyda Llywodraeth y DU. Deallaf fod y Rhaglen Waith wedi rhagori ar ei thargedau perfformiad ar sail cyfeiriadau gorfodol ar gyfer pobl o dan 25 oed a phobl dros 25 oed. Felly, sut y bydd hyn yn cydberthyn â Rhaglen Waith y DU fel y'i defnyddir yng Nghymru i sicrhau ei bod yn ychwanegu at y buddsoddiad yn y Rhaglen Waith, yn hytrach na'i ddyblygu? Nodaf eich bod yn cyfeirio at ddarpariaeth gan ymgynghorwyr o'r Ganolfan Byd Gwaith, yr wyf, wrth gwrs, yn ei chroesawu'n fawr, sy'n golygu bod yr Adran Gwaith a Phensiynau'n ymwneud â hyn. Ond a yw hynny'n golygu na fydd hyn yn dyblygu, gan nodi, wrth gwrs, mai dyna'r gwahaniaeth rhwng rhaglen wirfoddol a rhaglen orfodol? A wnewch chi ganiatáu i bobl ddefnyddio'r rhaglen hon sydd eisoes wedi'u cyfeirio at y Rhaglen Waith? Yn wahanol i Dwf Swyddi Cymru, wrth gwrs, nid yw pobl yn cael dewis ynglŷn â mynd ar y Rhaglen Waith, ond gallai cydweithio rhwng y ddwy, fel y dengys y Pwyllgor Materion Cymreig, sicrhau'r manteision mwyaf i'r bobl yr ydym i gyd yn ceisio eu helpu?

Moving on, you refer to Communities First, indicating that this is an area-based approach. Of course, the Work Programme and most other welfare-to-work schemes are person-centred rather than area-based. How will you therefore propose to reach those who do not live within the target areas, or, if so, how are you proposing to do so to ensure that a person-centred approach predominates over an area-based approach, which may end up with poor prioritisation for some people in great need? I'll stop at that point. Thank you.

I symud ymlaen, rydych yn cyfeirio at Gymunedau yn Gyntaf, sy'n dynodi bod hwn yn ddull sy'n seiliedig ar ardaloedd. Wrth gwrs, mae'r Rhaglen Waith a'r rhan fwyaf o gynlluniau budd-dal i waith eraill yn canolbwyntio ar unigolion yn hytrach na'u bod yn seiliedig ar ardaloedd. Sut, felly, y byddwch yn bwriadu cyrraedd pobl nad ydynt yn byw o fewn yr ardaloedd targed, neu, os ydynt, sut yr ydych yn bwriadu gwneud hynny i sicrhau bod dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cael blaenoriaeth ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar ardaloedd, a allai arwain at flaenoriaethu gwael i rai pobl mewn angen mawr? Rhof y gorau iddi ar y pwynt yna. Diolch.

17:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mark Isherwood for his questions. He began by outlining many of the complex issues that do face people in Wales, and the reason why, to combat these very stubborn areas of poverty, we have come forward with this programme.

Diolch i Mark Isherwood am ei gwestiynau. Dechreuodd drwy amlinellu llawer o'r materion cymhleth sy'n wynebu pobl yng Nghymru, a'r rheswm pam yr ydym, i frwydro yn erbyn yr ardaloedd ystyfnig iawn hyn o dlodi, wedi cyflwyno'r rhaglen hon.

Communities for Work combines the experience and the best practice from previous successful programmes, and you mentioned Want2Work and other programmes that have been supported through Communities First, such as the parent employer adviser shared outcome initiative and the recent Lift programme, which is obviously still ongoing, and I expect to see the outcomes from the Lift programme reached as well. This is a very different programme, but it's been expanded across all areas of Communities First, rather than just the nine areas with Lift. And you are right—it is an area-based programme, if you like. It covers all 52 Communities First areas, and the reason for this is that they are our most deprived communities and that's where we want to put this support in.

Mae Cymunedau am Waith yn cyfuno profiad ac arfer gorau rhaglenni llwyddiannus blaenorol, a gwnaethoch sôn am Yn Awyddus i Weithio a rhaglenni eraill a gafodd eu cefnogi drwy Gymunedau yn Gyntaf, fel y fenter rhannu canlyniadau cynghorydd cyflogwr rhieni a'r rhaglen Esgyn ddiweddar, sydd yn amlwg yn dal i fynd, ac rwy'n disgwyl gweld deilliannau'r rhaglen Esgyn yn cael eu cyrraedd hefyd. Mae hon yn rhaglen wahanol iawn, ond mae wedi cael ei ehangu ar draws holl ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, nid dim ond y naw ardal Esgyn. Ac rydych yn iawn —mae'n rhaglen sy'n seiliedig ar ardaloedd, os mynnwch. Mae'n cynnwys pob un o'r 52 ardal Cymunedau yn Gyntaf, a'r rheswm am hyn yw mai'r rhain yw ein cymunedau mwyaf difreintiedig a dyna lle'r hoffem roi'r cymorth hwn.

You specifically asked about the Work Programme. And, no, if somebody's on the Work Programme, they won't be supported with this programme. It's very important—you spoke about duplication as well—there is no duplication of activity, but I think it's very important that this complements other programmes.

Gofynasoch yn benodol am y Rhaglen Waith. Ac, na, os yw rhywun ar y Rhaglen Waith, ni chaiff gymorth gan y rhaglen hon. Mae'n bwysig iawn—gwnaethoch sôn am ddyblygu hefyd—nad oes dyblygu gweithgarwch, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod hyn yn ategu rhaglenni eraill.

I too welcome the relationship with Jobcentre Plus; the UK Government are a partner in this with us. Jobcentre Plus will be supporting both the parent employment advisers and the community employment advisers working in clusters throughout Wales. And I think it's given us the opportunity to work very flexibly with Jobcentre Plus here in Wales so that they can deliver their services in the best way that suits our communities.

Rwyf finnau'n croesawu'r berthynas gyda'r Ganolfan Byd Gwaith; mae Llywodraeth y DU yn bartner yn hyn gyda ni. Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn cefnogi'r cynghorwyr cyflogaeth rhieni a'r cynghorwyr cyflogaeth cymunedol sy'n gweithio mewn clystyrau ledled Cymru. Ac rwy'n credu bod hynny wedi rhoi cyfle i ni weithio'n hyblyg iawn gyda'r Ganolfan Byd Gwaith yma yng Nghymru er mwyn iddynt allu darparu eu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf addas i'n cymunedau ni.

You are quite right; this is significant funding that we're getting—European funding—and this programme is in line with our commitment to tackling poverty by investing significant resources to meet the needs of those people in our most deprived communities.

Rydych yn llygad eich lle; mae hwn yn arian sylweddol yr ydym yn ei gael—arian Ewropeaidd—ac mae'r rhaglen hon yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i drechu tlodi drwy fuddsoddi adnoddau sylweddol i ddiwallu anghenion y bobl hynny yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig

17:18

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, yn y lle cyntaf a gaf i ddweud fod y datganiad yma, sydd i'w groesawu'n fawr iawn, yn tanlinellu unwaith yn rhagor pa mor bwysig yw aelodaeth Cymru fel rhan o'r Deyrnas Unedig o fewn yr Undeb Ewropeaidd, a'r budd mawr yr ydym yn ei gael o'r cronfeydd yma, a'r modd y mae'r cronfeydd yma yn rhoi cyfleoedd i ni fuddsoddi yng Nghymru ac i greu cynlluniau ar gyfer adfywio? Ac nid oes sicrwydd, wrth gwrs, pe bai'r Deyrnas Unedig yn penderfynu gadael Ewrop, y byddem ni yn cael y math yma o fuddsoddiad oddi wrth y Trysorlys yn San Steffan.

Minister, in the first instance may I say that this statement is to be very much welcomed and underlines once again how important Wales's membership is as part of the United Kingdom within the European Union, and the great benefit that we derive from these funds, and the way that these funds give us opportunities to invest in Wales and to create schemes for regeneration? And there's no certainty, of course, if the United Kingdom were to decide to leave Europe, that we would receive this kind of investment from the Treasury in Westminster.

Mae gen i dri chwestiwn yn benodol ar y datganiad yma. Rydych yn sôn am greu 6,000 o swyddi cynaliadwy. Beth yn union yr ydych chi'n ei olygu gan 'swyddi cynaliadwy'? A ydym yn sôn am swyddi hirdymor neu a ydym yn sôn am swyddi y mae pobl yn gallu symud iddyn nhw ond nad oes sicrwydd am eu dyfodol nhw? Cyn ein bod yn gallu ceisio edrych ar ba mor werthfawr yw'r cynlluniau yma, mae'n rhaid i ni gael y diffiniadau yma er mwyn deall yn iawn beth yr ydych yn ceisio ei ddweud. Rŷch chi yn datgan hefyd, yn y datganiad yma, fod gwaith yn ffordd allan o dlodi, ond fe fyddwch chi'n gwybod bod yna adroddiad wedi'i gyhoeddi gan un o bwyllgorau'r Cynulliad yr wythnos diwethaf sydd yn dangos yn glir iawn fod yna lawer iawn o bobl sydd mewn gwaith ond eto yn byw o dan lefel tlodi ac yn gorfod dibynnu ar bethau fel banciau bwyd. Felly, sut allwch chi sicrhau bod y swyddi yma yn swyddi sydd, mewn gwirionedd, yn arwain pobl allan o dlodi, yn hytrach na'u gosod mewn sefyllfa lle mae eu cyflogau nhw mor isel y mae hynny'n golygu eu bod yn dal i fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau?

I have three specific question on the statement. You talk about creating 6,000 sustainable jobs. What exactly do you mean by 'sustainable jobs'? Are we talking about long-term jobs or are we talking about jobs that people can move into but where there is no certainty about their future? Before we can try to look at how valuable these schemes are, we need to get these definitions right to know what you are trying to say. You also state in the statement that work is a way out of poverty, but you'll know that a report was published by one of the Assembly's committees last week that shows very clearly that very many people who are in work do live beneath the poverty line and have to depend on things like food banks. So, how can you ensure that these jobs are genuinely jobs that do lead people out of poverty rather than leaving them in a situation where their wages are so low that they remain dependent on benefits?

Yn olaf, mae’r math hyn o gynlluniau yn y gorffennol wedi creu problemau gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau. A alwch chi ein sicrhau ni y prynhawn yma nad oes problemau felly yn mynd i godi yng nghyd-destun y swyddi yma? Hynny yw, yn y gorffennol, mae pobl wedi colli budd-daliadau o ganlyniad i’r math yma o gynlluniau, ac mae hynny wedi arwain iddyn nhw fod mewn sefyllfa hyd yn oed yn fwy bregus nag oeddent ynddi cyn dechrau ar y cynlluniau yma. A ydych wedi cael trafodaethau gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau nad oes problemau o’r fath y tro yma? Ond rydym ni yn croesawu’n fawr iawn y buddsoddiad yma a’ch datganiad chi y prynhawn yma.

Finally, these kinds of schemes in the past have created problems with the Department for Work and Pensions. Can you reassure us this afternoon that there are no problems going to arise in terms of these jobs? In the past, people have lost benefits as a result of these kinds of schemes, and that’s led them to be in an even more vulnerable situation than they were in before embarking on the schemes. Have you had discussions with the Department for Work and Pensions to ensure that there are no problems of this kind arising this time? Having said that, we do very much welcome this investment and your statement this afternoon.

17:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Rhodri Glyn Thomas for his support, and you’re absolutely right—it does show the benefit of Wales and the UK being part of the European Union. You ask about sustainable jobs and what we mean by that, and then your second question was around in-work poverty. We know, actually, there are more people in in-work poverty now than there are in out-of-work poverty, but I still believe that the best route out of poverty is with a sustainable job. So, what we mean by sustainable jobs is a job that is not, you know, happening one week, maybe, and not the next. It’s really important that we look very much at what employment is being offered and what skills are needed, because, again, it’s about making sure that the jobs that are out there are suitable for the people that we are working with.

Diolch i Rhodri Glyn Thomas am ei gefnogaeth, ac rydych yn hollol gywir—mae'n dangos mantais aelodaeth Cymru a'r DU o'r Undeb Ewropeaidd. Rydych yn gofyn am swyddi cynaliadwy a beth yr ydym yn ei olygu wrth hynny, ac yna roedd eich ail gwestiwn yn ymwneud â thlodi mewn gwaith. Rydym yn gwybod, mewn gwirionedd, bod mwy o bobl mewn tlodi mewn gwaith nawr nag sydd mewn tlodi allan o waith, ond rwy’n dal i gredu mai swydd gynaliadwy yw’r llwybr gorau allan o dlodi. Felly, yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth swyddi cynaliadwy yw swydd nad yw, wyddoch chi, yn digwydd un wythnos, efallai, ac nid y nesaf. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych yn fanwl ar ba gyflogaeth sy'n cael ei chynnig a pha sgiliau sydd eu hangen, oherwydd, unwaith eto, mae'n fater o sicrhau bod y swyddi sydd ar gael yn addas i’r bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy.

You mention also about the DWP, and can I say that there won’t be problems? My officials have worked very, very closely with the DWP and, as I said in answer to a question from Mark Isherwood, I think we very much welcome the opportunity to work flexibly with Jobcentre Plus and DWP here in Wales so that they can deliver their services in a way that is unique to Wales, is specific to Wales and is best suited to the communities. The programme is co-sponsored by Jobcentre Plus. Some of the people who are now advisers for the programme previously worked in Jobcentre Plus; they have come. I think lessons have been learned from the previous programmes with DWP, and we have been able to look at the experiences of those programmes in bringing forward this programme.

Rydych yn sôn hefyd am yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac a gaf fi ddweud na fydd dim problemau? Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos iawn, iawn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac, fel y dywedais wrth ateb cwestiwn gan Mark Isherwood, rwy’n meddwl ein bod yn croesawu'n fawr iawn y cyfle i weithio'n hyblyg gyda'r Ganolfan Byd Gwaith a’r Adran Gwaith a Phensiynau yma yng Nghymru er mwyn iddynt allu darparu eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n unigryw i Gymru, yn benodol i Gymru ac sydd fwyaf addas i'r cymunedau. Mae'r rhaglen wedi’i noddi ar y cyd gan y Ganolfan Byd Gwaith. Roedd rhai o'r bobl sydd bellach yn gynghorwyr ar gyfer y rhaglen yn arfer gweithio yn y Ganolfan Byd Gwaith; maent wedi dod. Rwy’n credu bod gwersi wedi'u dysgu o'r rhaglenni blaenorol gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau, ac rydym wedi gallu edrych ar brofiadau’r rhaglenni hynny wrth gyflwyno’r rhaglen hon.

I think it’s very important to stress that the work we will be undertaking with JCP will not involve any sanctions or mandation, and the programme, as I said, is entirely voluntary. I am launching Communities for Work here in Wales because what we want to do is work with and support our poorest communities in a very positive and effective way. As I say, it’s very unique in the UK, and the current UK provision via Jobcentre Plus does not provide for this.

Credaf ei bod yn bwysig iawn pwysleisio na fydd y gwaith y byddwn yn ei wneud gyda JCP yn cynnwys unrhyw gosbau na mandadu, a bod y rhaglen, fel y dywedais, yn gwbl wirfoddol. Rwy’n lansio Cymunedau am Waith yma yng Nghymru oherwydd yr hyn yr hoffem ei wneud yw gweithio gyda’n cymunedau tlotaf a’u cefnogi mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol iawn. Fel y dywedaf, mae'n unigryw iawn yn y DU, ac nid yw darpariaeth bresennol y DU drwy gyfrwng y Ganolfan Byd Gwaith yn darparu ar gyfer hyn.

17:24 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for this statement, which I think is very positive. I'm very supportive of it, and I certainly echo the points that have already been made. This shows how important EU funding is to Wales and what we would lose if we were no longer members of the EU. I particularly welcome the effort to provide childcare where it is the barrier to work, which the Minister referred to towards the end of the statement. Did the Minister mean that this group of people, who'd be mainly women, would be able to access childcare or nursery care in Flying Start settings? I was uncertain about what that bit of the statement actually meant, but I certainly welcome it, because I think childcare is a barrier to employment for many people, and I think it's beneficial for the parents and for the children. So, I'd be grateful if she could clarify that. I'm very glad that she is going to aim to reach the most deprived communities and I wondered if the Minister had had the opportunity to consider how to involve the Gypsy, Traveller and Roma community in this programme, which is, obviously, one of the most disadvantaged groups in Wales. I think that the second phase of the programme, targeting young people not in education, employment or training, could be very important for young members of that community.

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad hwn; rwy'n meddwl ei fod yn gadarnhaol iawn. Rwy'n gefnogol iawn iddo, ac rwy'n sicr yn adleisio'r pwyntiau sydd eisoes wedi eu gwneud. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw cyllid yr UE i Gymru a beth y byddem yn ei golli pe na baem yn aelodau o'r UE mwyach. Croesawaf yn arbennig yr ymdrech i ddarparu gofal plant lle mai dyna yw'r rhwystr i weithio, fel y cyfeiriodd y Gweinidog ato tua diwedd y datganiad. A oedd y Gweinidog yn golygu y byddai'r grŵp hwn o bobl, a fydd yn fenywod gan fwyaf, yn gallu cael mynediad at ofal plant neu ofal meithrin mewn lleoliadau Dechrau'n Deg? Nid oeddwn yn siŵr beth oedd y darn hwnnw o'r datganiad yn ei olygu mewn gwirionedd, ond rwy'n sicr yn ei groesawu, oherwydd credaf fod gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth i lawer o bobl, ac rwy'n meddwl ei fod yn fuddiol i'r rhieni ac i'r plant. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallai hi egluro hynny. Rwy'n falch iawn ei bod yn mynd i geisio cyrraedd y cymunedau mwyaf difreintiedig ac roeddwn i'n meddwl tybed a gafodd y Gweinidog gyfle i ystyried sut i gynnwys y gymuned Sipsiwn, Teithwyr a Roma yn y rhaglen hon, sydd, yn amlwg, yn un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Credaf y gallai ail gam y rhaglen, sy'n targedu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, fod yn bwysig iawn i aelodau ifanc o'r gymuned honno.

Finally, does she have any examples of what she would see the innovation fund providing?

Yn olaf, a oes ganddi unrhyw enghreifftiau o'r hyn y byddai hi'n rhagweld y gronfa arloesi'n ei ddarparu?

17:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. In relation to the PaCE programme, we're still having discussions with WEFO and they're going very well, and I do hope to be able to say more in due course. Childcare is definitely a barrier, and, as you say, it's mainly for women. I mentioned about the support being there for people who live near Flying Start settings and Families First areas. What I want to do—again, with the Communities for Work programme—is use the structures that we have in place with Communities First, for instance, because I know that these areas have built up trust and confidence in their communities, so I think it's very important that we use the structures that have been there for a long time in taking forward new programmes. So, I'm afraid I can't say too much about PaCE at the moment, but I will be updating Members as soon as those discussions have come to a conclusion.

Diolch yn fawr. O ran y rhaglen PaCE, rydym yn dal i gael trafodaethau gyda WEFO ac maent yn mynd yn dda iawn, ac rwyf yn gobeithio gallu dweud mwy maes o law. Mae gofal plant yn bendant yn rhwystr, ac, fel y dywedwch, rhwystr i fenywod ydyw yn bennaf. Soniais am y ffaith fod y gefnogaeth yno i bobl sy'n byw'n agos at leoliadau Dechrau'n Deg ac ardaloedd Teuluoedd yn Gyntaf. Yr hyn yr hoffwn ei wneud—eto, gyda'r rhaglen Cymunedau am Waith—yw defnyddio'r strwythurau sydd gennym ar waith gyda Chymunedau yn Gyntaf, er enghraifft, oherwydd gwn fod yr ardaloedd hyn wedi meithrin ymddiriedaeth a hyder yn eu cymunedau, felly rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn defnyddio'r strwythurau sydd wedi bod yno ers talwm wrth fwrw ymlaen â rhaglenni newydd. Felly, yn anffodus ni allaf ddweud gormod am PaCE ar hyn o bryd, ond byddaf yn rhoi diweddariad i'r Aelodau cyn gynted ag y bydd y trafodaethau hynny wedi dod i gasgliad.

I think you raise a very good point about Gypsy and Traveller communities, and, yes, we will be working closely with them, as long as they live in a Communities First area. Again, the second phase of this programme will be aimed at under 25s who are not in employment, education or training, and, again, I will ask officials to make sure that those groups are included and offered the support that this very intensive mentoring will be able to provide.

Rwy'n meddwl eich bod yn codi pwynt da iawn am gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, a, byddwn, byddwn yn gweithio'n agos gyda hwy, cyn belled â'u bod yn byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Unwaith eto, bydd ail gam y rhaglen hon wedi'i yn targedu pobl o dan 25 nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, ac, unwaith eto, byddaf yn gofyn i swyddogion wneud yn siŵr bod y grwpiau hynny'n cael eu cynnwys ac yn cael cynnig y cymorth y bydd y mentora dwys iawn hwn yn gallu ei ddarparu.

17:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the statement. Like other speakers have said, I think this does demonstrate the value of being in the European community, whereby we can direct European funding towards trying to support people back into work. However, I do have a similar question to Rhodri Glyn Thomas, which I notice wasn't adequately answered, in terms of the 6,000 sustainable jobs. You say in your statement that:

'A total initial investment of nearly £30 million from Welsh Government and EU funds will help support over 6,000 individuals into sustainable employment.'

And my question is: what is your definition of 'sustainable employment', and where are these jobs coming from? I think, if you noticed, in the report that the Communities, Equality and Local Government Committee recently produced on its inquiry into poverty in Wales, there was quite stark criticism of the Welsh Government in terms of the failure to link up programmes across Government. I'd be interested in how the economic development portfolio is helping you to deliver this particular ambition in terms of creating those 6,000 jobs that these newly trained and empowered individuals will be able to take up.

So, I would be interested if you could tell me in what sectors and what areas these 6,000 sustainable jobs will be created and what the timescale is that you expect these 6,000 jobs to appear over. I think it's quite evident that Wales is falling behind the rest of the United Kingdom in terms of its unemployment statistics and, clearly, something needs to be done to reverse that. If this programme can help to do that, I very much welcome it, but I do need, I think, some assurance that, once you've trained these individuals, and once they've done these programmes, they're not going to go back on to the dole, but they are going to have jobs to go to, and where those jobs are going to come from.

The other issue I wanted to raise with you, Minister, was around how these programmes are going to be monitored. Again, the committee's review looking at poverty was very stark in its criticism in terms of the monitoring arrangements of current programmes showing that they can

'demonstrate tangible progress in poverty reduction, or the lack thereof...policy developed in the absence of evidence; performance monitored in the absence of data'

et cetera. So, it would be interesting if you could outline what monitoring protocols will be in place to ensure the success of this particular programme, what reporting milestones are involved, and what sort of targets, at each milestone, you'll be aiming to meet to ensure that this programme stays on track.

Weinidog, diolch am y datganiad. Fel y mae siaradwyr eraill wedi'i ddweud, rwy'n meddwl bod hyn yn dangos y gwerth o fod yn y gymuned Ewropeaidd, sy'n golygu y gallwn gyfeirio cyllid Ewropeaidd tuag at geisio cefnogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith. Fodd bynnag, mae gen i gwestiwn tebyg i un Rhodri Glyn Thomas—sylwais na chafodd ateb digonol—am y 6,000 o swyddi cynaliadwy. Rydych yn dweud yn eich datganiad:

'Bydd cyfanswm buddsoddiad cychwynnol o bron i £30 miliwn gan Lywodraeth Cymru a chronfeydd yr UE yn helpu i gefnogi dros 6,000 o unigolion i gael cyflogaeth gynaliadwy.'

A fy nghwestiwn yw: beth yw eich diffiniad o 'gyflogaeth gynaliadwy', ac o ble mae'r swyddi hyn yn dod? Rwy'n meddwl, os gwnaethoch sylwi, yn yr adroddiad a gynhyrchodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ddiweddar ar ei ymchwiliad i dlodi yng Nghymru, y bu beirniadaeth eithaf llym o Lywodraeth Cymru o ran y methiant i gydgysylltu rhaglenni ar draws y Llywodraeth. Hoffwn wybod sut y mae'r portffolio datblygu economaidd yn eich helpu i gyflawni'r uchelgais penodol hwn o ran creu'r 6,000 o swyddi hynny y bydd yr unigolion hyn sydd newydd gael eu hyfforddi a'u grymuso yn gallu eu derbyn.

Felly, byddai gennyf ddiddordeb pe gallech ddweud wrthyf ym mha sectorau a pha feysydd y caiff y 6,000 o swyddi cynaliadwy hyn eu creu a dros ba amserlen yr ydych yn disgwyl i'r 6,000 o swyddi hyn ymddangos. Rwy'n credu ei bod yn eithaf amlwg bod Cymru'n colli tir i weddill y Deyrnas Unedig o ran ei hystadegau diweithdra ac, yn amlwg, mae angen gwneud rhywbeth i wrthdroi hynny. Os gall y rhaglen hon helpu i wneud hynny, rwyf yn ei chroesawu'n fawr iawn, ond mae arnaf angen, rwy'n meddwl, rhywfaint o sicrwydd, unwaith y byddwch wedi hyfforddi'r unigolion hyn, ac unwaith y byddant wedi gwneud y rhaglenni hyn, na fyddant yn mynd yn ôl ar y dôl, ond y bydd ganddynt swyddi i fynd iddynt, ac o ble y daw'r swyddi hynny.

Roedd y mater arall yr oeddwn yn dymuno ei godi gyda chi, Weinidog, yn ymwneud â sut y caiff y rhaglenni hyn eu monitro. Unwaith eto, roedd adolygiad y pwyllgor i edrych ar dlodi yn llym iawn ei feirniadaeth o ran trefniadau monitro'r rhaglenni cyfredol i ddangos eu bod yn gallu

'dangos cynnydd pendant o ran lleihau tlodi, neu ddiffyg hynny... datblygu polisi yn absenoldeb tystiolaeth; monitro perfformiad yn absenoldeb data'

ac ati. Felly, byddai'n ddiddorol pe gallech amlinellu pa brotocolau monitro fydd ar waith i sicrhau llwyddiant y rhaglen benodol hon, pa gerrig milltir sy'n gysylltiedig o ran llunio adroddiadau, a pha fath o dargedau, ar bob carreg filltir, y byddwch yn ceisio eu cyrraedd i sicrhau bod y rhaglen hon yn aros ar y trywydd iawn.

Finally, Minister, in terms of childcare, I very much welcome any initiative that helps people get back to work by providing childcare. However, as you will have heard earlier on in First Minister's questions, there are issues about the consistency of childcare provision around Wales. David Rees and I both raised the issue around Flying Start in Croeserw and Glyncorrwg, which is under threat because of Neath Port Talbot's incompetent commissioning of that particular programme. We also have issues, again in Neath Port Talbot, where currently the 15 hours of childcare can only be taken in a school setting, and the rising threes money to schools has been stopped. So, lots of schools are only taking three-year-olds in the term after their birthday rather than on the day after, as before. So, it looks to me like that particular provision is under threat, and I think there is a similar situation in other local authorities as well. How are you ensuring that we have consistent childcare provision across Wales in line with your own Government's aspirations, so as to ensure that people are able to access that childcare as you intend it rather than as local authorities seem to be delivering it? Thank you.

Yn olaf, Weinidog, o ran gofal plant, rwy'n croesawu'n fawr iawn unrhyw fenter sy'n helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith drwy ddarparu gofal plant. Fodd bynnag, fel y byddwch wedi'i glywed yn gynharach yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, ceir problemau ynghylch cysondeb darpariaeth gofal plant ledled Cymru. Cododd David Rees a minnau y mater yn ymwneud â Dechrau'n Deg yng Nghroeserw a Glyncorrwg, sydd o dan fygythiad oherwydd dulliau anghymwys Castell-nedd Port Talbot o gomisiynu'r rhaglen benodol honno. Mae gennym hefyd broblemau, unwaith eto yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle mai dim ond mewn ysgol y gellir cymryd y 15 awr o ofal plant ar hyn o bryd, ac mae'r arian troi'n dair i ysgolion wedi ei atal. Felly, mae llawer o ysgolion nad ydynt yn cymryd plant tair oed tan y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn hytrach nag ar y diwrnod ar ei ôl, fel o'r blaen. Felly, mae'n edrych i mi fel bod y ddarpariaeth benodol honno o dan fygythiad, ac rwy'n credu bod sefyllfa debyg yn bodoli mewn awdurdodau lleol eraill hefyd. Sut yr ydych chi'n sicrhau bod gennym ddarpariaeth gofal plant gyson ledled Cymru, yn unol â dyheadau eich Llywodraeth eich hun, er mwyn sicrhau bod y gofal plant ar gael i bobl fel yr ydych yn ei fwriadu, yn hytrach na fel y mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn ei ddarparu? Diolch.

17:31

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Okay. Thank you. If I could start with the childcare issue, first of all, in relation to the specific setting you're talking about within Neath Port Talbot, officials have been in contact regularly with Neath Port Talbot, and I'm reassured that there isn't going to be a gap in provision: the new provision will be able to start in September. I very much heard what David Rees said to the First Minister during FMQs today, and I will be writing to all Members who've written to me on this issue later this week.

Iawn. Diolch. Os caf ddechrau gyda'r mater gofal plant, yn gyntaf oll, o ran y lleoliad penodol yr ydych yn sôn amdano yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae swyddogion wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Chastell-nedd Port Talbot, ac rwyf wedi fy sicrhau na fydd bwlch yn y ddarpariaeth: bydd y ddarpariaeth newydd yn gallu dechrau ym mis Medi. Clywais yn glir yr hyn a ddywedodd David Rees wrth y Prif Weinidog yn ystod y cwestiynau iddo heddiw, a byddaf yn ysgrifennu at yr holl Aelodau sydd wedi ysgrifennu ataf am y mater hwn yn nes ymlaen yr wythnos hon.

Local authorities provide childcare. I work very closely with the childcare sector. On the point that you raised about consistency, I met this morning with the inspector of CSSIW to talk about the inspection of childcare settings. Clearly, there is inconsistency in places, and it's something that the inspector is addressing. Also, we're working very closely with local authorities. As I say, I will say more about PaCE when the discussions with WEFO have concluded.

Mae awdurdodau lleol yn darparu gofal plant. Rwyf fi'n gweithio'n agos iawn gyda'r sector gofal plant. O ran y pwynt a godwyd gennych ynghylch cysondeb, cyfarfûm y bore yma gydag arolygydd AGGCC i siarad am arolygu lleoliadau gofal plant. Yn amlwg, ceir anghysondeb mewn mannau, ac mae hynny'n rhywbeth y mae'r arolygydd yn rhoi sylw iddo. Hefyd, rydym yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol. Fel y dywedaf, byddaf yn dweud mwy am PaCE pan fydd y trafodaethau gyda WEFO wedi dod i ben.

You mentioned the report from the Communities, Equality and Local Government Committee, which I've read. Obviously, I will be responding to the recommendations that have been brought forward. You are right: there is definitely a link between what we're trying to do in tackling poverty and the economy. I work very closely with my colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, in relation to this. You will have heard me say previously we've got a much more cross-Government approach now. All Ministers are responsible for tackling poverty. It's really important that all the programmes work together. The reason for using the structure of Communities First and basing Communities for Work on the Lift programme is one of the reasons for doing that.

Soniasoch am yr adroddiad gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, yr wyf wedi'i ddarllen. Yn amlwg, byddaf yn ymateb i'r argymhellion sydd wedi cael eu dwyn ymlaen. Rydych yn iawn: ceir cysylltiad pendant rhwng yr economi a'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud i drechu tlodi. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn y maes hwn. Byddwch wedi fy nghlywed yn dweud cyn hyn bod gennym ymagwedd lawer mwy trawslywodraethol yn awr. Mae pob Gweinidog yn gyfrifol am drechu tlodi. Mae'n bwysig iawn bod yr holl raglenni'n gweithio gyda'i gilydd. Y rheswm dros ddefnyddio strwythur Cymunedau'n Gyntaf a seilio Cymunedau am Waith ar y rhaglen Esgyn yw un o'r rhesymau dros wneud hynny.

The 6,000 jobs are over the three years. The figure has been worked out in a similar way to how we worked out the figure for people to whom we're offering training opportunities with Lift. We will rely on our partners for that, there are no two ways about it. Government can't do this on their own. It's really important. So, again, working very closely with ministerial colleagues, everyone has come forward with opportunities for Lift, and people will come forward with the opportunities for the 6,000 jobs. Officials are having discussions with a variety of sectors to make sure that we have those 6,000 jobs in three years.

Mae'r 6,000 o swyddi dros y tair blynedd. Cafodd y ffigur ei gyfrifo mewn modd tebyg i'r ffordd y gwnaethom ni gyfrifo'r ffigur ar gyfer pobl yr ydym yn cynnig cyfleoedd hyfforddi iddynt gydag Esgyn. Byddwn yn dibynnu ar ein partneriaid am hynny, nid oes dwywaith amdani. Ni all y Llywodraeth wneud hyn ar ei phen ei hun. Mae'n bwysig iawn. Felly, unwaith eto, gan weithio'n agos iawn gyda chydweithwyr gweinidogol, mae pawb wedi cyflwyno cyfleoedd ar gyfer Esgyn, a bydd pobl yn cyflwyno'r cyfleoedd am y 6,000 o swyddi. Mae swyddogion yn cynnal trafodaethau gydag amrywiaeth o sectorau i wneud yn siŵr ein bod yn cael y 6,000 o swyddi hynny mewn tair blynedd.

There are other outputs that I will expect to see. It will be closely monitored. You asked about monitoring. I've established teams within my department who will visit and monitor all the Communities for Work delivery teams on a regular basis. They will receive their funding via the Communities for Work programme. All the organisations that are receiving funding have had to pass due diligence tests. We have very rigorous standards for handing out the funding, and officials will be monitoring it very closely. I want to see quarterly reports, to see where we are on the variety of outputs that we have in relation to the over-25s. Once the second phase comes in, for the under-25s, that will be exactly the same.

Byddaf yn disgwyl gweld allbynnau eraill. Caiff ei fonitro'n ofalus. Gwnaethoch ofyn am fonitro. Rwyf wedi sefydlu timau o fewn fy adran a fydd yn ymweld â holl dimau cyflawni Cymunedau am Waith ac yn eu monitro'n rheolaidd. Byddant yn cael eu cyllid drwy gyfrwng y rhaglen Cymunedau am Waith. Mae'r holl sefydliadau sy'n cael cyllid wedi gorfod llwyddo mewn profion diwydrwydd dyladwy. Mae gennym safonau llym iawn ar gyfer dosbarthu'r cyllid, a bydd swyddogion yn monitro hynny'n ofalus iawn. Hoffwn weld adroddiadau chwarterol, i weld lle yr ydym ar yr amrywiaeth o allbynnau sydd gennym ar gyfer y bobl dros 25 oed. Unwaith y daw'r ail gam i mewn, ar gyfer y rhai o dan 25 oed, bydd hwnnw'n union yr un fath.

As I say, it does build on best practice and learning from Lift programmes, and we've developed very strong working relationships with Lift in those areas where they both operate. The two will work hand in hand.

Fel y dywedais, mae'n adeiladu ar arfer gorau ac yn dysgu oddi wrth raglenni Esgyn, ac rydym wedi datblygu perthynas waith gref iawn gydag Esgyn yn yr ardaloedd hynny lle maent ill dau'n gweithredu. Bydd y ddau'n gweithio law yn llaw.

17:34

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank you, Minister, for this very comprehensive statement? I very much welcome the outline of the programme. This is a critical programme, I think, for the future wellbeing of Wales. As you know, other Members have mentioned that the Communities, Equality and Local Government Committee has published the findings of our inquiry into poverty and inequality. I think today's statement is a really good opportunity to just highlight some of that. I know you will be responding formally.

A gaf fi ddiolch i chi, Weinidog, am y datganiad cynhwysfawr iawn hwn? Rwy'n croesawu amlinelliad y rhaglen yn fawr. Mae hon yn rhaglen hanfodol, rwy'n meddwl, er lles Cymru yn y dyfodol. Fel y gwyddoch, mae Aelodau eraill wedi dweud bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi canfyddiadau ein hymchwiliad i dlodi ac anghydraddoldeb. Rwy'n meddwl bod datganiad heddiw yn gyfle da iawn i dynnu sylw at rywfaint o hynny. Rwy'n gwybod y byddwch yn ymateb yn ffurfiol.

One key finding for me was the need for Welsh Government to ensure it listens to people's experiences of poverty, and that this underpins policy making. I think this seems even more of a challenge when the move within European funds has been towards larger-scale, more strategic initiatives. That needs to be done as well, but I think it is important, and what the report highlighted for us was making sure that the voices of the people in our communities who are being affected by poverty are not lost, and that they are part of the solution.

Un canfyddiad allweddol i mi oedd bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn gwrando ar brofiadau pobl o dlodi, a bod hyn yn rhoi sail i lunio polisïau. Rwy'n credu bod hyn yn ymddangos yn fwy fyth o her pan fo'r symud o fewn cronfeydd Ewropeaidd wedi bod tuag at fentrau mwy strategol ar raddfa fwy. Mae angen gwneud hynny hefyd, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, a'r hyn y dangosodd yr adroddiad inni oedd gwneud yn siŵr nad yw lleisiau'r bobl yn ein cymunedau sy'n teimlo effaith tlodi yn cael eu colli, a'u bod yn rhan o'r ateb.

Professor Jane Millar gave evidence to the committee, and she argued strongly that we need to fill existing data gaps to make sure we are targeting resources appropriately. So, I just wondered how the Welsh Government can make sure that the Communities for Work programme and other ESF initiatives that are tackling poverty are sufficiently robust and evidence based, and that we are managing to get to the right people. You will also know, Minister, that in our report, we also welcomed the in-depth approach taken by Crew Regeneration Wales in their deep-place study of Tredegar. I know you've had meetings with the people involved in that, so I'm pleased with that, but I would be keen—it may be too early today—for the Minister's reflections on how this could inform an approach, this particular programme.

Rhoddodd yr Athro Jane Millar dystiolaeth i'r pwyllgor, ac roedd hi'n dadlau'n gryf bod angen inni lenwi bylchau data presennol i sicrhau ein bod yn targedu adnoddau'n briodol. Felly, roeddwn yn meddwl tybed sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhaglen Cymunedau am Waith a mentrau Cronfa Gymdeithasol Ewrop eraill i drechu tlodi yn ddigon cadarn a seiliedig ar dystiolaeth, a'n bod yn llwyddo i gyrraedd y bobl iawn. Byddwch hefyd yn gwybod, Weinidog, ein bod, yn ein hadroddiad, hefyd wedi croesawu'r dull manwl a ddefnyddiodd Criw Adfywio Cymru yn eu hastudiaeth ddofn o Dredegar. Rwy'n gwybod eich bod wedi cael cyfarfodydd gyda'r bobl a fu'n ymwneud â hynny, felly rwy'n falch o hynny, ond byddwn yn awyddus—efallai ei bod yn rhy gynnar heddiw—i gael myfyrdodau'r Gweinidog am sut y gallai hyn lywio dull gweithredu, y rhaglen arbennig hon.

Finally, I know other Members have mentioned it, and like other Members, I know that your statement talks about employment providing the most sustainable route out of poverty. Well, as evidence shows—and, again, this is highlighted in our report—this is true up to a point. There are others who are left out of this, so I just wonder how we can ensure that the Community for Work programme leads to quality jobs, because I think that's an important part of making these sustainable.

Yn olaf, rwy'n gwybod bod Aelodau eraill wedi sôn am hyn, ac fel Aelodau eraill, rwy'n gwybod bod eich datganiad yn sôn am y ffaith mai cyflogaeth sy'n darparu'r llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi. Wel, fel y mae tystiolaeth yn ei ddangos—ac, unwaith eto, mae hyn yn cael ei amlygu yn ein hadroddiad—mae hyn yn wir i ryw raddau. Mae yna bobl eraill sy'n cael eu hepgor o hyn, felly rwy'n meddwl tybed sut y gallwn sicrhau bod y rhaglen Cymunedau am Waith yn arwain at swyddi o ansawdd, oherwydd rwy'n meddwl bod hynny'n rhan bwysig o wneud y rhain yn gynaliadwy.

17:37

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank Christine Chapman for her questions. I think listening to people who are experiencing poverty is really important, but there is a difficulty I have found since I've been in portfolio. It happened again to me last week when I was talking to somebody in a Communities First setting, who said to me, 'I don't recognise that I live in poverty.' I can remember visiting the ward that came top in the Welsh index of multiple deprivation, and I was told very clearly, 'We don't think we live in poverty.' So, it's very important that we do hear from people and hear about their experiences.

Diolch i Christine Chapman am ei chwestiynau. Rwy'n meddwl bod gwrando ar bobl sy'n dioddef tlodi yn bwysig iawn, ond mae un anhawster yr wyf wedi'i gael ers imi fod yn y portffolio. Digwyddodd unwaith eto imi yr wythnos diwethaf pan oeddwn yn siarad â rhywun mewn lleoliad Cymunedau yn Gyntaf, a ddywedodd wrthyf, 'Nid wyf yn cydnabod fy mod yn byw mewn tlodi.' Gallaf gofio ymweld â'r ward a oedd ar frig y mynegai amddifadedd lluosog, a dywedwyd wrthyf yn glir iawn, 'Nid ydym yn credu ein bod yn byw mewn tlodi.' Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn clywed gan bobl ac yn clywed am eu profiadau.

One of the things I've done also is set up a tackling poverty practitioner group, working with people—there are people on that group—who are out there on the front line: working in Communities First areas, working in DWP, working in Flying Start settings, and working in Families First settings. They can bring the experiences of people who are living in poverty to me also, and we can have that discussion and look at our policies. Certainly, Communities First is a classic example. It's been Welsh Government's flagship tackling-poverty programme for 15 years. We need to make sure that it's suitable and fit for purpose now, and we're looking very closely at Communities First going forward.

Un o'r pethau yr wyf wedi eu gwneud hefyd yw sefydlu grŵp ymarferwyr trechu tlodi, gan weithio gyda phobl—mae yna bobl ar y grŵp hwnnw—sydd allan yna ar y rheng flaen: yn gweithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, yn gweithio yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn gweithio mewn lleoliadau Dechrau'n Deg, ac yn gweithio mewn lleoliadau Teuluoedd yn Gyntaf. Gallant hwythau rannu profiadau pobl sy'n byw mewn tlodi â mi, a gallwn gael y drafodaeth honno ac edrych ar ein polisïau. Yn sicr, mae Cymunedau yn Gyntaf yn enghraifft glasurol. Hon fu rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi ers 15 mlynedd. Mae angen inni wneud yn siŵr ei bod yn briodol ac yn addas i'w diben nawr, ac rydym yn edrych yn ofalus iawn ar Gymunedau yn Gyntaf wrth symud ymlaen.

At least 20 per cent of the European social fund will help tackle poverty through sustainable employment, and it is absolutely right that those jobs are quality jobs. Again, we'll be working with the various sectors. Going back to the Lift programme, we have now over 300 people who've been through the training opportunities—. We've had 1,800 people go through the training opportunities, and 300 people now have moved into employment. Again, I've had discussions and meetings with those people to hear their experiences, to hear how they were helped with the training opportunities, and how that really intensive mentoring and one-to-one support helped them go on to secure a job. I'm absolutely adamant that is the best route out of poverty.

Bydd o leiaf 20 y cant o gronfa gymdeithasol Ewrop yn helpu i drechu tlodi drwy gyfrwng cyflogaeth gynaliadwy, ac mae'n hollol iawn bod y swyddi hynny'n swyddi o safon. Unwaith eto, byddwn yn gweithio gyda'r sectorau gwahanol. I droi'n ôl at y rhaglen Esgyn, mae gennym bellach dros 300 o bobl sydd wedi bod drwy'r cyfleoedd hyfforddi—. Mae gennym 1,800 o bobl sydd wedi bod drwy'r cyfleoedd hyfforddi, ac mae 300 o bobl bellach wedi symud i mewn i gyflogaeth. Unwaith eto, rwyf wedi cael trafodaethau a chyfarfodydd gyda'r bobl hynny i glywed eu profiadau, i glywed sut y cawsant eu helpu gyda'r cyfleoedd hyfforddi, a sut y gwnaeth y mentora gwirioneddol ddwys hwnnw a'r cymorth un i un eu helpu i fynd ymlaen i gael swydd. Rwy'n gwbl benderfynol mai dyna'r llwybr gorau allan o dlodi.

The deep-place study is fascinating in how they looked at one place and did this very intensive, holistic view of it. Officials are looking very closely at how we can use that then to look at what policies we are bringing forward as a Government.

Mae'r astudiaeth ddofn yn hynod ddiddorol o ran y ffordd yr edrychwyd ar un lle a chael yr olwg ddwys, gyfannol iawn hon arno. Mae swyddogion yn edrych yn ofalus iawn ar sut y gallwn ddefnyddio hynny wedyn i edrych ar ba bolisïau yr ydym yn eu cyflwyno fel Llywodraeth.

17:39

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for her statement today? The use of European structural funds is an important part of our tackling poverty agenda. While the nature of poverty has changed in recent years, particularly as we start to feel the full impact of the UK Government's welfare reforms, I agree with her—and, indeed, most of those who have spoken today—that the best way of getting people out of poverty is creating skilled, sustainable jobs and getting people into those jobs. Now, whether it's ERDF money being spent on infrastructure projects, or ESF money being spent on creating apprenticeships and employment opportunities through schemes such as Jobs Growth Wales, and particularly for those in our most deprived areas, perhaps in association with Lift, EU structural funds remain important in tackling poverty from the employment angle, as well as being used to improve the overall environment and life chances of those harder-to-reach individuals in our more deprived communities. So, it's clear that EU funds are extremely important for us in Wales. So, would you agree with me, Minister, in conclusion, that it's essential that we make the best use of such funding to help bring employment and prosperity levels in our targeted areas up to the EU average and for the benefit of all?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw? Mae defnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn rhan bwysig o'n hagenda ar gyfer trechu tlodi. Er bod natur tlodi wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig wrth inni ddechrau teimlo effaith lawn diwygiadau lles Llywodraeth y DU, rwy'n cytuno â hi—ac, yn wir, â'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi siarad heddiw—mai'r ffordd orau o gael pobl allan o dlodi yw creu swyddi medrus, cynaliadwy a rhoi'r swyddi hynny i bobl. Nawr, boed yn arian ERDF sy'n cael ei wario ar brosiectau seilwaith, neu arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael ei wario ar greu prentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth drwy gynlluniau fel Twf Swyddi Cymru, ac yn enwedig ar gyfer y bobl yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, efallai ar y cyd ag Esgyn, mae cronfeydd strwythurol yr UE yn parhau i fod yn bwysig wrth drechu tlodi o safbwynt cyflogaeth, yn ogystal â chael eu defnyddio i wella amgylchedd a chyfleoedd bywyd cyffredinol yr unigolion mwy anodd eu cyrraedd hynny yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Felly, mae'n amlwg bod arian yr UE yn hynod o bwysig inni yng Nghymru. Felly, a fyddech chi'n cytuno â mi, Weinidog, i gloi, ei bod yn hanfodol ein bod yn defnyddio cyllid o'r fath yn y modd gorau posibl i helpu i godi lefelau cyflogaeth a ffyniant yr ardaloedd yr ydym yn eu targedu hyd at gyfartaledd yr UE ac er budd pawb?

17:41

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I absolutely agree with you. As I said, the 2014-20 ESF programmes are hugely significant, and they will, in line with the Welsh Government's commitment to tackle poverty, invest significant resources to support some of the most vulnerable and disadvantaged people in our communities. The ESF programmes have a number of priorities that offer opportunities for added value. Again, I think it's not just to Welsh Government; it's to the public sector, the third sector and the private sector, and we will work in partnership to support the people in most need.

Byddwn, rwy'n cytuno'n llwyr â chi. Fel y dywedais, mae rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-20 yn hynod o bwysig, a byddant, yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drechu tlodi, yn buddsoddi adnoddau sylweddol i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig yn ein cymunedau. Mae gan y rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop nifer o flaenoriaethau sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer ychwanegu gwerth. Unwaith eto, nid dim ond meddwl am Lywodraeth Cymru yr wyf; mae'r cyfleoedd hyn ar gael i'r sector cyhoeddus, i'r trydydd sector ac i'r sector preifat, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi'r bobl sydd mewn mwyaf o angen.

I mentioned at least 20 per cent of ESF will help to tackle poverty through sustainable employment. There are also dedicated investment priorities to support youth employment and attainment in Wales and, when the second phase comes through, to support the under-25s who are not in employment, education or training, or are at highest risk of becoming NEET. I think that's also important. They will help them to gain access to employment and, again, address the barriers that could be there to their being unemployed. So, I think it's absolutely vital that we use the funding in the very best possible way that we can.

Dywedais y bydd o leiaf 20 y cant o'r arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn helpu i drechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy. Ceir blaenoriaethau buddsoddi pwrpasol hefyd i gefnogi cyflogaeth a chyrhaeddiad ieuenctid yng Nghymru a, phan ddaw'r ail gam, i gefnogi'r rheini dan 25 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, neu sydd mewn mwyaf o berygl o fod yn NEET. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig hefyd. Byddant yn eu helpu i gael mynediad at gyflogaeth ac, unwaith eto, yn ymdrin â'r rhwystrau a all fod yn eu gwneud yn ddi-waith. Felly, rwy'n credu ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn defnyddio'r arian yn y ffordd orau bosibl y gallwn.

17:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

17:42

# 10. Datganiad: Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) Drafft

# 10. Statement: The Draft Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 10 is a statement by the Minister for Education and Skills on the draft additional learning needs and educational tribunal (Wales) Bill. I call the Minister, Huw Lewis.

Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar Fil drafft anghenion dysgu ychwanegol a'r tribiwnlys addysg (Cymru) yw Eitem 10. Galwaf ar y Gweinidog, Huw Lewis.

17:42

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

This Welsh Government is determined to build an education system that works for all learners at all levels. As I set out in my ministerial statement on 18 June, I believe that, to achieve this, it is vital that we remain committed to improving the system of support for children and young people with additional learning needs. We published a White Paper in May 2014 entitled 'Legislative proposals for additional learning needs'. This set out a comprehensive suite of proposals for constructing a new legislative framework within which support for learners with ALN should be planned and provided. Since the publication of the White Paper, and paying close attention to the responses to it made by stakeholders, we have been preparing an additional learning needs Bill that gives effect to ambitious and radical plans. I am pleased to say that the drafting process is now complete.

Mae'r Llywodraeth hon yn benderfynol o ddatblygu system addysg sy'n gweithio ar gyfer pob dysgwr ar bob lefel. Fel y nodais yn fy natganiad gweinidogol ar 18 Mehefin, rwyf yn credu, er mwyn cyflawni hyn, ei bod yn hanfodol i ni barhau i ymrwymo i wella'r system o gymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Cyhoeddwyd Papur Gwyn gennym ym mis Mai 2014 o'r enw 'Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol'. Mae hwn yn nodi cyfres gynhwysfawr o gynigion ar gyfer datblygu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer cynllunio a darparu cymorth i ddysgwyr ag ADY. Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, a chan roi sylw manwl i'r ymatebion iddo gan randdeiliaid, rydym wedi bod yn paratoi Bil anghenion dysgu ychwanegol sy'n gweithredu cynlluniau uchelgeisiol a radical. Rwyf yn falch o ddweud bod y broses ddrafftio bellach wedi'i chwblhau.

Significant progress has been made across a number of key areas where stakeholders considered that our White Paper proposals could be improved. In particular, we have been able to draft provisions in the Bill that will better underpin successful multi-agency working, especially in relation to the planning, co-ordination and delivery of provision across education and health services.

Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud mewn nifer o feysydd allweddol lle'r oedd rhanddeiliaid o'r farn y gellid gwella ein cynigion yn y Papur Gwyn. Yn benodol, rydym wedi gallu drafftio darpariaethau yn y Bil a fydd yn rhoi gwell sail i waith amlasiantaethol llwyddiannus, yn enwedig ynglŷn â chynllunio, cydgysyllu a chyflwyno darpariaeth ar draws yr holl wasanaethau addysg ac iechyd.

We've also been able to design a robust legislative architecture, which provides clear lines of responsibility and accountability in connection with our proposed new statutory plan, the individual development plan. Although there are areas where we are aware that further work might be required, I am satisfied that the Bill we have drafted is a coherent and comprehensive piece of legislation. However, before we move on to the introduction of this legislation to the National Assembly, I want to be certain that the draft Bill delivers a system that has the confidence and support of all key stakeholders, but particularly those across the education profession. I also wish to ensure that the legislation is as good as it can possibly be.

Rydym hefyd wedi gallu cynllunio strwythur deddfwriaethol cadarn, sy'n rhoi llinellau clir o gyfrifoldeb ac atebolrwydd mewn cysylltiad â'n cynllun statudol newydd arfaethedig, y cynllun datblygu unigol. Er bod meysydd lle rydym yn ymwybodol y gallai fod angen mwy o waith, rwyf yn fodlon bod y Bil yr ydym wedi ei ddrafftio yn ddarn cydlynol a chynhwysfawr o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, cyn i ni symud ymlaen i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon i'r Cynulliad Cenedlaethol, rwyf eisiau bod yn sicr fod y Bil drafft yn darparu system y mae gan yr holl randdeiliaid allweddol hyder ynddi a'u bod yn ei chefnogi, ond yn enwedig y rhai ym mhob rhan o'r proffesiwn addysg. Rwyf hefyd yn dymuno sicrhau bod y ddeddfwriaeth cystal ag y gallai fod.

The successful implementation of the legislation depends fundamentally on our workforce, their skills and their capacity. Consequently, our proposed reform of the system for supporting children and young people with additional learning needs cannot be seen in isolation. It is part and parcel of that much wider reform agenda.

Mae gweithrediad llwyddiannus y ddeddfwriaeth yn dibynnu yn y bôn ar ein gweithlu, eu sgiliau a'u gallu. O ganlyniad, ni ellir ystyried ein gwaith diwygio arfaethedig o'r system ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ar wahân. Mae'n rhan annatod o agenda diwygio llawer ehangach.

Other elements include the new deal for the education workforce,the vision articulated by Professor Donaldson in 'Successful Futures', which puts inclusion at the heart of the new curriculum, and the recommendations for initial teacher education set out in Professor John Furlong's report 'Teaching Tomorrow's Teachers'.

Mae elfennau eraill yn cynnwys y fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg, y weledigaeth a fynegwyd gan yr Athro Donaldson yn 'Dyfodol Llwyddiannus', sy'n rhoi cynhwysiad wrth wraidd y cwricwlwm newydd, a'r argymhellion ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon a nodwyd yn adroddiad yr Athro John Furlong yn 'Addysgu Athrawon Yfory'.

One of the consistent themes running through this whole agenda is that we need to ensure that we bring the workforce with us as we roll out reform. More than that, the success of our reform of additional learning needs requires the workforce to embrace the new child and young person-centred ethos, which is the very cornerstone of the way we are trying to work. I want more than just legislative compliance for our children and young people with additional learning needs. I want professionals working in our schools and colleges to embrace their needs in a meaningful and holistic way, not just within the confines of what is legally required. To achieve that, our plans for additional learning needs legislation need the fullest possible debate and discussion, to ensure that the reforms are owned by the profession. If we are successful in fostering this sense of ownership, I think we will be far more successful in making the reforms work for learners.

Un o'r themâu cyson sydd ym mhob rhan o'r agenda hon yw bod angen i ni sicrhau ein bod yn dod â'r gweithlu gyda ni wrth i ni gyflwyno'r newidiadau. Yn fwy na hynny, mae llwyddiant ein gwaith o ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithlu gofleidio'r ethos newydd sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r person ifanc, sef conglfaen y ffordd yr ydym yn ceisio gweithio. Rwyf eisiau mwy na dim ond cydymffurfio deddfwriaethol ar gyfer ein plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rwyf eisiau i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein hysgolion a'n colegau gofleidio eu hanghenion mewn ffordd ystyrlon a chyfannol, nid dim ond o fewn ffiniau'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. I gyflawni hynny, mae angen trafod a dadlau ynglŷn â'n cynlluniau ar gyfer deddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y modd llwyraf posibl, er mwyn sicrhau bod y proffesiwn yn perchnogi'r diwygiadau. Os byddwn yn llwyddiannus wrth feithrin yr ymdeimlad hwn o berchnogaeth, rwyf yn credu y byddwn yn llawer mwy llwyddiannus wrth wneud y diwygiadau weithio ar gyfer dysgwyr.

I will therefore shortly publish a draft of the additional learning needs and education tribunal (Wales) Bill, together with a consultation document. This will allow Assembly Members and stakeholders to comment on and respond to the detailed legislative proposals before they are introduced to the formal Assembly scrutiny process. I know that Members found the process of pre-legislative scrutiny during the Qualifications Wales Bill very helpful and productive, as did I. I will of course commit to working closely with the opposition spokespeople and the Children, Young People and Education Committee during the consultation period. I can also assure Members that my officials will continue to work with stakeholders to consider how best to bring forward implementation of those aspects of our reform that do not require legislation and that clearly align with, or are delivered through, our curriculum review and the new deal.

Byddaf cyn bo hir felly yn cyhoeddi drafft o Fil anghenion dysgu ychwanegol a’r tribiwnlys addysg (Cymru), ynghyd â dogfen ymgynghori. Bydd hyn yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid gynnig sylwadau ac ymateb i'r cynigion deddfwriaethol manwl cyn iddynt gael eu cyflwyno i broses graffu ffurfiol y Cynulliad. Rwy’n gwybod bod Aelodau wedi gweld bod y broses o graffu cyn deddfu yn ystod Bil Cymwysterau Cymru yn ddefnyddiol a chynhyrchiol iawn, fel y gwnes innau. Byddaf wrth gwrs yn ymrwymo i weithio'n agos gyda llefarwyr y gwrthbleidiau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gallaf hefyd sicrhau’r Aelodau y bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried y ffordd orau o weithredu’r agweddau hynny ar ein gwaith diwygio nad oes angen deddfwriaeth ar eu cyfer ac sy'n cyd-fynd yn glir â’n hadolygiad cwricwlwm, neu sy’n cael eu darparu trwy hwnnw a’r fargen newydd.

In particular, the roll-out of person-centred practice across educational settings will be given further momentum by our making available electronically, from this September, resources that help settings to develop this essential aspect of our reforms. Furthermore, an independent study that we had commissioned into workforce development needs has recently been completed, and a report entitled ‘An Assessment of SEN Workforce Development Requirements’ has been published. We are now working with stakeholders to identify and develop the support necessary to meet those workforce development needs identified within the report. In particular, through our new deal programme, we want to develop the skills of all practitioners so that they are better able to support differentiated teaching and properly equipped to meet a wider range of needs in the classroom. We are also seeking ways to improve the workforce planning arrangements for those specialist services that provide professional advice and support to schools, and directly to children and young people with special educational needs. The aim is to ensure that our most vulnerable learners are able to receive the right specialist support at the right time.

Yn arbennig, bydd y broses o gyflwyno arfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob lleoliad addysgol yn derbyn mwy o fomentwm gan y byddwn, o fis Medi eleni, yn sicrhau bod adnoddau ar gael yn electronig sy'n helpu lleoliadau i ddatblygu'r agwedd hanfodol hon ar ein newidiadau. Ar ben hynny, mae astudiaeth annibynnol a gomisiynwyd gennym ar anghenion datblygu'r gweithlu wedi ei gwblhau yn ddiweddar, ac mae adroddiad o'r enw 'Asesiad o ofynion datblygu’r gweithlu AAA' wedi ei gyhoeddi. Rydym bellach yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi a datblygu’r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn diwallu yr anghenion datblygu’r gweithlu hynny a nodwyd yn yr adroddiad. Yn arbennig, trwy ein rhaglen ar gyfer y fargen newydd, rydym eisiau datblygu sgiliau’r holl ymarferwyr er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa well i gefnogi dulliau addysgu gwahaniaethol a bod ganddynt yr adnoddau priodol i fodloni ystod ehangach o anghenion yn y dosbarth. Rydym hefyd yn chwilio am ffyrdd o wella trefniadau cynllunio'r gweithlu ar gyfer y gwasanaethau arbenigol hynny sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth broffesiynol i ysgolion, ac yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Y nod yw sicrhau bod ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn gallu derbyn y cymorth arbenigol iawn ar yr adeg iawn.

I want to stress, though, that, for the time being, all the responsibilities and requirements connected with the existing legislative framework for special educational needs remain in place. I will be writing to local authorities to remind them of this. The consultation on the draft Bill will enable us to continue developing the Bill, so that it will be ready to be introduced early in the next Assembly. I am sure that all the parties represented here will want to want to work together to make that a reality.

Rwyf am bwysleisio, fodd bynnag, y bydd yr holl gyfrifoldebau a’r gofynion sy'n gysylltiedig â'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn aros ar waith am y tro. Byddaf yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hatgoffa am hyn. Bydd yr ymgynghoriad ar y Bil drafft yn ein galluogi i barhau i ddatblygu'r Bil, er mwyn iddo fod yn barod i gael ei gyflwyno yn gynnar yn y Cynulliad nesaf. Rwyf yn siŵr y bydd yr holl bartïon a gynrychiolir yma yn awyddus i weithio gyda'n gilydd i wireddu hynny.

17:49 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, you will not be surprised if I stand here and say to you that we are deeply disappointed that this Bill is not going to be coming to the Assembly in this term. Not only am I utterly dismayed, but so are the people who've contacted me in the past week, ranging from parents of young boys with autism through to some of the lobbying groups and, indeed, some of the charities that work with children with special educational needs. It's incredibly frustrating, because this is a group of people who are very badly served at present in our system. Before I pick up on the points in your statement, I thought the Assembly might like to be aware of the scale of the problem, because 23 per cent of our current school population—and that is children in primary and secondary school—have a definition of additional or special educational needs. That's 23 per cent of Wales's children that we are not doing what we could do for. This Bill, with complete cross-party support, would have brought that to the table and would have solved the problems—or gone a long way to mitigate the problems—that these parents, carers and students face.

Weinidog, ni fyddwch yn synnu fy mod yn sefyll yma ac yn dweud wrthych ein bod yn siomedig iawn nad yw'r Bil hwn yn mynd i ddod yn ystod tymor hwn y Cynulliad. Nid fi yn unig sy'n hynod o siomedig. Mae'r bobl sydd wedi cysylltu â mi yn ystod yr wythnos ddiwethaf, yn amrywio o rieni bechgyn ifanc ag awtistiaeth hyd at rai o'r grwpiau lobïo ac, yn wir, rhai o'r elusennau sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig yn siomedig hefyd. Mae'n anhygoel o rwystredig, oherwydd maent yn grŵp o bobl sy'n cael eu gwasanaethu'n wael iawn ar hyn o bryd yn ein system. Cyn i mi ymateb i'r pwyntiau yn eich datganiad, rwyf yn meddwl efallai y byddai'r Cynulliad yn hoffi bod yn ymwybodol o faint y broblem, gan fod 23 y cant o'n poblogaeth ysgol bresennol—hynny yw plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd—â diffiniad o anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig. Mae hynny'n 23 y cant o blant Cymru nad ydym yn gwneud yr hyn y gallem ei wneud drostynt. Byddai'r Bil hwn, gyda chefnogaeth drawsbleidiol lawn, wedi dod â hynny at sylw pawb a byddai wedi datrys y problemau—neu wneud llawer o waith i liniaru'r problemau—y mae'r rhieni, gofalwyr a myfyrwyr hyn yn eu hwynebu.

So, the first question I'd like to ask you, Minister, is: what discussions, if any, have you had with any of the political parties represented in the Assembly, or indeed Assembly staff themselves, as to how we might have been able to bring this Bill to fruition before the end of this Assembly, because it was a commitment of you and your Government in January 2014? That's two years you'll have had, and it's not a big Bill—I know that already—and they don't normally take that long to get to the statute book.

Felly, y cwestiwn cyntaf yr hoffwn ei ofyn i chi, Weinidog, yw: pa drafodaethau, os o gwbl, yr ydych chi wedi eu cael ag unrhyw un o'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad, neu yn wir staff y Cynulliad eu hunain, ynghylch sut y gallem fod wedi dwyn y Bil hwn i ffrwyth cyn diwedd y Cynulliad hwn, oherwydd roedd yn ymrwymiad gennych chi a'ch Llywodraeth ym mis Ionawr 2014? Dyna ddwy flynedd y byddwch wedi eu cael, ac nid yw'n Fil mawr—rwy'n gwybod hynny'n barod—ac nid ydynt fel arfer yn cymryd mor hir i gyrraedd y llyfr statud.

As I say, I don't just speak for myself and my own disappointment, because this is an absolute commitment from the Welsh Conservatives, but I speak on behalf of those people who are contacting me, literally, some of them, in tears. I also fail to see how you can bind an incoming Government to the promise of bringing this Bill to the statute book. After all, you may not be the next education Minister, and, indeed, let's be clear about this, elections are not merely a blip on the supremacy of the Labour Party in Wales, and your Government may not be in power in 2016. So, I say here and now, to all the stakeholders, the Welsh Conservatives will be making bringing this Bill part of our manifesto commitment. And, I would ask, Minister, that you would do that so we can have faith that this Bill will be dealt with by whatever Government is in power come May 2016.

Fel y dywedais, nid wyf yn siarad ar fy rhan fy hun yn unig, a fy siom fy hun, oherwydd mae hwn yn ymrwymiad llwyr gan y Ceidwadwyr Cymreig, ond rwyf yn siarad ar ran y bobl hynny sy'n cysylltu â mi, rhai ohonynt, yn llythrennol, mewn dagrau. Rwyf hefyd yn methu â gweld sut y gallwch rwymo Llywodraeth newydd i'r addewid o ddod â'r Bil hwn i'r llyfr statud. Wedi'r cyfan, efallai nad chi fydd y Gweinidog addysg nesaf, ac, yn wir, gadewch i ni fod yn glir am hyn, nid rhwystr dros dro yn unig yw etholiadau i oruchafiaeth y Blaid Lafur yng Nghymru, ac mae'n bosibl na fydd eich Llywodraeth mewn grym yn 2016. Felly, rwyf yn dweud yma nawr, wrth yr holl randdeiliaid, y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwneud sefydlu'r Bil hwn yn rhan o'n hymrwymiad yn ein maniffesto. Ac rydym yn gofyn, Weinidog, i chithau wneud hynny er mwyn i ni gael ffydd y bydd pa bynnag Lywodraeth sydd mewn grym erbyn mis Mai 2016 yn ymdrin â'r Bil hwn.

May I ask if you are still intending to bring the draft Bill to be published on 6 July, as you had intended with the main Bill, and will it still focus on there being a co-ordinated assessment process, involving co-operation between schools, healthcare professionals and social workers that meet the needs of children and young people between 0 and 25?

A gaf fi ofyn a ydych chi'n dal yn bwriadu dod â'r Bil drafft i gael ei gyhoeddi ar 6 Gorffennaf, fel yr oeddech yn bwriadu gyda'r prif Fil, ac a fydd yn parhau i ganolbwyntio ar sefydlu proses asesu cydlynol, sy'n cynnwys cydweithredu rhwng ysgolion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol, a fydd yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed?

Now, there's already been extensive consultation on this, so I would like to understand more clearly why you feel that we need yet another very lengthy and extensive consultation process. I do totally agree with one point you make, which is the point that, having got this, we want to get it right. I utterly support you on this. That has not changed; I'm unwavering in that. But, there's a difference between making sure we get it right and allowing procrastination to allow something to fall. I simply don't want to see that. There's not much else to say in terms of the Bill itself because, until we see it, we can't scrutinise it properly. But, I would ask, Minister, if you would make a commitment here to bringing forward a debate to the Assembly once this Bill is in the public domain so that we may have a view of it and be able to discuss it.

Nawr, mae ymgynghori helaeth eisoes wedi ei gynnal ar hyn, felly hoffwn ddeall yn fwy eglur pam rydych chi'n teimlo bod angen proses ymgynghori hir a helaeth arall eto. Rwyf yn cytuno'n llwyr ag un pwynt yr ydych yn ei wneud, sef y pwynt, ar ôl cael hyn, rydym eisiau ei gael yn iawn. Rwyf yn eich cefnogi'n llwyr ar hyn. Nid yw hynny wedi newid; rwy'n ddiwyro yn hynny o beth. Ond, mae gwahaniaeth rhwng gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud hyn yn iawn a chaniatáu i oedi wneud i rywbeth fethu. Nid wyf eisiau gweld hynny yn bendant. Nid oes llawer mwy i'w ddweud o ran y Bil ei hun oherwydd, hyd y byddwn ni wedi ei weld, ni allwn graffu arno'n iawn. Ond, byddwn yn gofyn, Weinidog, i chi wneud ymrwymiad yn y fan yma i ddod â dadl gerbron y Cynulliad pan fydd y Bil hwn yn gyhoeddus er mwyn i ni gael golwg arno a gallu ei drafod.

I was very pleased to note in your statement that you say you're going to be writing out to local authorities to remind them of their obligations, because, I can tell you now that, of the 23 per cent of young people out there, which equates to some 105,000 individuals, only some 12,000 of them have a statement. That means that some 92,000 individuals, every year, are fighting to get the support and help they need. Now, I don't know whether it's because we've been talking about this additional learning needs Bill and it has been in the media a little bit, but I know that I can say absolutely truthfully that, in the last six weeks, since I've been back holding surgeries in my constituency, I've had five new cases turn up of people who are struggling with the local government to get the support that they need for their children. So, I'm really grateful that you're going to write out and urge these councils to support people, because, essentially, their mood music is, 'We're not doing anything because the Government's bringing out an ALN Bill. We're going to have independent learning plans. Everything's going to change. So, we're not going to statement anything.' It is happening out there, Minister, out on the streets of Wales. If this Bill is going to take another year or so before it even sees the light of day, we have to make sure that people are not suffering in the meantime.

Roeddwn yn falch iawn o weld yn eich datganiad eich bod yn dweud eich bod yn mynd i ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau, oherwydd, gallaf ddweud wrthych yn awr, o blith y 23 y cant o bobl ifanc allan yna, sy'n cyfateb i ryw 105,000 o unigolion, dim ond rhyw 12,000 ohonynt sydd â datganiad. Mae hynny'n golygu bod ryw 92,000 o unigolion, bob blwyddyn, yn brwydro i gael y gefnogaeth a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Nawr, nid wyf yn gwybod a yw hyn oherwydd ein bod wedi bod yn siarad am y Bil anghenion dysgu ychwanegol hwn, ac y bu rhywfaint o sôn amdano yn y cyfryngau, ond rwy'n gwybod y gallaf ddweud yn hollol onest, yn y chwe wythnos diwethaf, ers i mi fod yn ôl yn cynnal cymorthfeydd yn fy etholaeth, rwyf wedi cael pum achos newydd o bobl sy'n cael trafferthion gyda llywodraeth leol i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar gyfer eu plant. Felly, rwy'n ddiolchgar iawn eich bod yn mynd i ysgrifennu ac annog y cynghorau hyn i gefnogi pobl, oherwydd, yn y bôn, eu safbwynt nhw yw 'Nid ydym yn gwneud unrhyw beth oherwydd mae'r Llywodraeth yn cyflwyno Bil ADY. Byddwn yn cael cynlluniau dysgu annibynnol. Mae popeth yn mynd i newid. Felly, nid ydym yn mynd i roi datganiad i unrhyw beth.' Mae'n digwydd allan yna, Weinidog, allan ar strydoedd Cymru. Os bydd y Bil hwn yn cymryd blwyddyn neu ddwy arall cyn iddo hyd yn oed weld golau dydd, mae'n rhaid i ni wneud yn siwr nad yw pobl yn dioddef yn y cyfamser.

I also have a slight concern regarding the delay in producing this Bill: will it have any effect on the work that you're doing, either in your new deal or with Donaldson? Until we understand what ALN is, how we define it and how we can structure the response to the needs of those young people, then it's going to be very hard to reflect that in the teacher training and education programmes that we need to run, and very hard to reflect that in Professor Donaldson's view of a more inclusive education system in Wales.

Rwyf i hefyd yn pryderu rhywfaint am yr oedi wrth lunio'r Bil hwn: a fydd yn cael unrhyw effaith ar y gwaith yr ydych yn ei wneud, naill ai yn eich bargen newydd neu gyda Donaldson? Hyd nes y byddwn yn deall beth yw ADY, sut yr ydym yn ei ddiffinio a sut y gallwn strwythuro'r ymateb i anghenion y bobl ifanc hynny, yna mae'n mynd i fod yn anodd iawn adlewyrchu hynny yn y rhaglenni hyfforddiant ac addysg athrawon y mae angen inni eu cynnal, ac yn anodd iawn i adlewyrchu hynny yn safbwynt yr Athro Donaldson o gael system addysg fwy cynhwysol yng Nghymru.

I think all I'm going to end up saying now, Minister is: I know that you personally really want to see this happen, and I know that I do, and I'm absolutely sure, without wishing to speak for other parties around this Chamber, that they feel the same, but I am deeply disappointed and, as I said, 23 per cent of our school population out there are struggling to be served by our current curriculum. An awful lot of those children are either educated outside of a school setting or in pupil referral units, and I feel passionately that every day, every week, every month is just a day, a week or a month too long for them.

Rwyf yn credu mai'r cyfan yr wyf am ei ddweud nawr, Weinidog yw: Gwn eich bod chi yn bersonol wir am weld hyn yn digwydd, ac rwyf yn gwybod fy mod innau am weld hynny'n digwydd hefyd, ac rwy'n gwbl sicr, heb ddymuno siarad dros bartïon eraill yn y Siambr hon, eu bod hwythau yn teimlo yr un fath, ond rwyf yn siomedig iawn ac, fel y dywedais, mae 23 y cant o boblogaeth ein hysgolion allan yna yn cael trafferth i gael ei gwasanaethu gan ein cwricwlwm cyfredol. Mae llawer iawn o'r plant hynny naill ai'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad ysgol neu mewn unedau cyfeirio disgyblion, ac rwyf yn teimlo'n gryf bod pob diwrnod, pob wythnos, pob mis yn ddiwrnod, wythnos neu fis yn rhy hir iddyn nhw.

17:56

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Angela Burns's disappointment is tangible and, in a sense, I share it, but I think in taking what is essentially a judgment call here, I do believe that I have made the right call for the young people for whom we all care so very much, and I know that it is a cross-party sentiment, without any shadow of a doubt. She does speak, though, as if the Bill has gone away. The Bill has not gone away. The Bill will be published in draft form and, indeed, I was speaking to the third sector additional needs group that's been helping us so much with the drafting of the Bill, just a couple of days ago, who are very much looking forward to getting their teeth into that substantial document and making sure that they can make as much of a contribution as they can in terms of turning it into the best piece of legislation it can possibly be.

Mae siom Angela Burns yn amlwg ac, mewn ffordd, rwy'n ei rannu, ond yn ym marn i, rwyf yn credu fy mod wedi gwneud y peth iawn ar gyfer y bobl ifanc hyn sydd mor bwysig i ni, a gwn bod hwn yn deimlad trawsbleidiol, heb unrhyw amheuaeth. Er hyn, mae hi'n siarad fel pe byddai'r Bil wedi mynd i ffwrdd. Nid yw'r Bil wedi mynd i ffwrdd. Bydd y Bil yn cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft ac, yn wir, diwrnod neu ddau yn ôl roeddwn yn siarad â'r grŵp anghenion ychwanegol yn y trydydd sector, sydd wedi bod yn helpu cymaint arnom wrth ddrafftio'r Bil, ac maent yn edrych ymlaen yn fawr at gael eu dannedd i mewn i'r ddogfen sylweddol honno a gwneud yn siŵr eu bod yn gallu gwneud cymaint o gyfraniad ag y gallant o ran ei droi i mewn i'r darn gorau o ddeddfwriaeth y gall fod.

You're right that it's not a big Bill, but it does deal with big issues, and complex issues, and getting it right is the first priority for me. No, I can't bind an incoming Government—no-one can do that—but I will join you, and I've already made the request that Welsh Labour should include as a manifesto commitment that this would be one of the very earliest pieces of legislation to be picked up if it were in our power, post the Assembly elections of 2016, and I would hope that Plaid Cymru and the Liberal Democrats would take a similar view.

Rydych chi'n iawn nad yw'n Fil mawr, ond mae'n ymdrin â materion mawr, a materion cymhleth, a gwneud pethau'n iawn yw'r flaenoriaeth gyntaf i mi. Na, ni allaf rwymo Llywodraeth newydd—nid oes unrhyw un sy'n gallu gwneud hynny—ond mi wnaf ymuno â chi, ac rwyf eisoes wedi gwneud y cais, y dylai Llafur Cymru gynnwys fel ymrwymiad maniffesto y byddai hwn yn un o'r darnau cyntaf un o ddeddfwriaeth i gael sylw, pe byddai o fewn ein gallu, ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016, ac rwyf yn gobeithio bod Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol o'r un farn.

In terms of the draft Bill in the first week of July, 'yes' is the simple answer to that. That will be happening during the first week of July—if not precisely on the sixth, then perhaps, actually, a little earlier than that.

O ran y Bil drafft yn ystod wythnos gyntaf mis Gorffennaf, 'bydd' yw'r ateb syml i hynny. Bydd yn digwydd yn ystod wythnos gyntaf mis Gorffennaf—os nad yn union ar y chweched, yna efallai, mewn gwirionedd, ychydig yn gynharach na hynny.

I think it is important to understand—and you returned to this point towards the end of your remarks—that the new deal and Furlong are profound and fundamental changes about the way we offer support to teachers and to the wider educational workforce and, indeed, what we might expect from them in terms of their professional capacity. There will be things to learn in terms of cross-referencing this piece of legislation against those policy developments—things that may alter what we want to see in the draft Bill, but, more likely, I think, ways in which we would want to alter non-legislative reform that runs parallel in terms of its purpose. So, I take on board very much Angela Burns's sincerely held views on this, and she's absolutely right that this does not accord with the timescales that we set out previously and that I had hoped to fulfil, but I do believe that giving this pre-legislative scrutiny, essentially, a chance to gain traction will give us better law, which will serve these young people better because of it.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig deall—ac fe wnaethoch ddychwelyd at y pwynt hwn tuag at ddiwedd eich sylwadau—bod y fargen newydd a Furlong yn newidiadau pwysig a sylfaenol ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn cynnig cymorth i athrawon ac i'r gweithlu addysgol ehangach ac, yn wir, yr hyn y gallem ei ddisgwyl ganddynt o ran eu swyddogaeth broffesiynol. Bydd pethau i'w dysgu o ran croesgyfeirio'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn erbyn y datblygiadau polisi hynny—pethau a allai newid yr hyn yr ydym yn dymuno ei weld yn y Bil drafft, ond, yn fwy tebygol, yn fy marn i, ffyrdd y byddem yn dymuno newid diwygio anneddfwriaethol sy'n cyd-fynd o ran ei ddiben. Felly, rwyf yn sicr yn derbyn, safbwyntiau diffuant Angela Burns, ac mae hi'n hollol iawn nad yw hyn yn cyd-fynd â'r amserlenni a nodwyd gennym yn flaenorol, ac yr oeddwn wedi gobeithio eu cyflawni, ond rwyf yn credu bod rhoi cyfle i'r craffu hwn cyn y broses ddeddfu sefydlu ei hun, yn ei hanfod, yn darparu deddf well i ni, a fydd yn gwasanaethu'r bobl ifanc hyn yn well o'r herwydd.

18:00

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae Plaid Cymru hefyd yn rhannu'r siom rwy'n meddwl y bydd nifer yn ei deimlo yn y Siambr hon a thu allan ynglŷn â'r ffaith nad yw'r Llywodraeth mewn sefyllfa i fwrw ymlaen nawr gyda deddfwriaeth lawn yn y maes yma. Rydym ni wedi bod yn galw'n gyson am Fil penodol ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol ers i hynny gael ei ollwng o'r Bil addysg dros ddwy flynedd yn ôl. Ac roedd rhesymau da iawn i'w ollwng o'r Bil addysg, achos roedd angen i'r peth gael ei drafod a'i drin fel darn o ddeddfwriaeth benodol. Fe dderbyniodd y Llywodraeth hynny, ac fe ddododd y Llywodraeth y Bil yma yn ei rhaglen ddeddfwriaethol a heddiw mae'n cadarnhau nad oes modd bwrw ymlaen gyda'r rhaglen honno.

Plaid Cymru shares the disappointment that I think many in this Chamber, and many outside, will feel about the fact that the Government is not now in a position to proceed with full legislation in this area. We have consistently called for a specific Bill for children with additional learning needs since that was dropped from the education Bill over two years ago. There were very good reasons for dropping it from the education Bill, because it needed to be discussed and treated as a discrete piece of legislation. The Government accepted that, and the Government placed this Bill in its legislative programme and today they've confirmed that it will not be possible to proceed with that programme.

Mae'n siŵr y bydd hynny yn siom i nifer o bobl. A gawn ni jest fod yn glir? Nid yw hyn oherwydd bod y maes yma yn un lle mae yna anghytuno gwleidyddol rhwng y pleidiau, na chwaith oherwydd nad oes gan y Cynulliad y capasiti neu'r gallu i ddelio â'r Bil yma. Mae'r penderfyniad heddiw yn un y Llywodraeth ac o eiddo'r Llywodraeth ar sail, am wn i, y diffyg capasiti sydd gan y Llywodraeth i ddarparu a delifro ar y Bil. Mae'r Gweinidog wedi crybwyll rhai o'r materion pwysig—nid oes dowt amdanyn nhw—sydd gan y Llywodraeth, fel Donaldson a Furlong, yr oeddem yn ei drafod gynnau fach. Ond beth sy'n ymddangos i mi sy'n fwy clir yw bod tair neu bedair blynedd o wahanol adroddiadau, comisiynau a mentrau—pob math o 'initiatives' gan y Llywodraeth—wedi pentyrru nawr ar ddiwedd cyfnod y Cynulliad, ac nid yw hynny'n caniatáu i'r Llywodraeth fwrw ymlaen gydag un o'i meysydd deddfwriaethol craidd. Mae hynny lawr i'r ffaith ein bod wedi gweld nifer o adroddiadau yn dod blith draphlith—Hill yn cael ei ddilyn gan y consortia yn cael eu dilyn gan Donaldson—ac mae'r holl beth wedi dod i 'logjam', ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth nawr wneud y gorau o sefyllfa o'i chreadigaeth ei hun.

I'm sure that will disappoint many people. Let us just be clear: it is not because this area is one where there is political disagreement between the parties, and neither is it because the Assembly doesn't have the capacity to deal with this Bill. The decision today is the Government's decision and the Government's alone, on the basis, as far as I know, of the lack of capacity within Government to provide and deliver on the Bill. The Minister has mentioned some of the important issues—there is no doubt about those—that the Government faces, such as Donaldson and Furlong, which we were discussing a little earlier. But it seems to me that three or four years of different reports, commissions and initiatives—all sorts of initiatives put in place by Government—have now bottle-necked at the end of this Assembly period, and that doesn't allow the Government to proceed with one of its key areas of legislation. That is down to the fact that we have seen a number of reports coming across each other—Hill followed by the consortia, followed by Donaldson—and everything has come to a logjam, and the Government must now make the best of the situation that it created for itself.

Wedi dweud hynny, rwy’n croesawu’r ffaith bydd gyda ni Fil drafft achos mae cael Bil drafft wastad yn gwella’r broses ddeddfwriaethol, rwy’n teimlo, ond nid Bil drafft oedd y bwriad yn y lle cyntaf yn y maes yma. Bydd Plaid Cymru yn chwarae rôl lawn yn craffu ar y Bil drafft ac yn rhannu ein syniadau ni. Byddwn ni hefyd yn ymrwymo i gefnogi deddfwriaeth o’r math yn y Cynulliad nesaf, pa bynnag rôl rydym ni’n ei chwarae yn y Cynulliad hwnnw. Ond, ac mae yna ‘ond’ yn y sefyllfa bresennol, achos rwy’n cael nifer o etholwyr, gan fy mod yn Aelod rhanbarthol ac felly yn cynrychioli mwy nag un awdurdod lleol, yn dod ataf gyda’u problemau presennol, sef anghysonderau rhwng beth sy’n cael ei gynnig mewn un awdurdod ac un arall. Mae rhai awdurdodau yn defnyddio datganiadau, a rhai sydd ddim. A beth sy’n llinell gyson rhwng hyn yw’r awdurdodau a'r cynghorau sy’n dweud wrth etholwyr, rhieni a disgyblion, ‘Wnawn ni ddim bwrw ymlaen ar hyn o bryd achos mae yna Fil ar y gorwel, a bydd yr holl beth yn newid ac fe wnawn ni ei ail-wneud e pan fydd Bil newydd’. Nid yw hynny, wrth gwrs, yn esgus bellach.

Having said that, I welcome the fact that we have a draft Bill because a draft Bill always enhances the legislative process, I feel, but the draft Bill wasn’t the intention initially in this area. Plaid Cymru will play its full part in scrutinising the draft Bill and share our ideas in this area. We will also commit to supporting such legislation in the next Assembly, whatever role we will play in that Assembly. But, and there is a significant ‘but’ in the current situation, because I have a number of constituents, as I’m a regional Member representing more than one authority, approaching me with their current problems, such as, inconsistencies in what is provided by one authority as compared to another, and some authorities using statements, others not. What binds all of this is the authorities and councils telling constituents, parents and pupils, ‘We won’t proceed at present because there is a Bill in the pipeline and everything will change and we will review the situation when we have the Bill’. That, of course, is no longer an excuse.

Rwy’n sylwi yn y datganiad bod y Gweinidog yn dweud ei fod yn mynd i ysgrifennu at awdurdodau lleol i’w hatgoffa o’u cyfrifoldebau presennol, ond hoffwn glywed mwy heddiw ynglŷn â pha gamau mae’r Llywodraeth yn mynd i’w cymryd nawr i gysoni’r hyn sy’n cael ei gynnig i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol, gan fod cymaint yn anghyson ar lawr gwlad a gan fod aros am y Bil yma wedi gorfodi nifer o gynghorau i ohirio rhai penderfyniadau allweddol yn y maes yma. Mae’n mynd i fod o leiaf dwy flynedd nes ein bod yn cael deddfwriaeth nawr, ac felly rwy’n meddwl bod angen i’r Gweinidog wneud mwy na jest ysgrifennu at awdurdodau i’w hatgoffa o’u dyletswyddau. Mae angen iddyn nhw gymryd camau penodol i sicrhau bod y gwasanaeth yn un cyson a theg i bob plentyn sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

I note from the statement that the Minister says that he will write to local authorities to remind them of their current responsibilities, but I would like to hear more today on what steps the Government will now take in order to standardise what is provided for children with additional learning needs, because there is such inconsistency on the ground and the wait for this Bill has forced a number of councils to defer some crucially important decisions in this area. It’ll be at least two years before we have legislation now, and therefore I do think that the Minister needs to do more than simply write to authorities to remind them of their responsibilities. They need to take specific steps to ensure that the service is consistently and fairly provided for all children who need additional support.

18:04

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise, Deputy Presiding Officer, Simon Thomas’s frustrations and disappointments here too, although I think he does perhaps overstate some of his case. There is no logjam here; I don’t accept there is a logjam. We are proceeding: a draft Bill will be published; pre-legislative scrutiny will immediately begin. All this will be very, very public, and that public stance, if you like, in terms of offering the actual draft Bill out there, remains a part of this Government’s absolute commitment—my party’s absolute commitment—to delivering on this essential piece of legislation.

Dirprwy Lywydd, rwyf yn cydnabod rhwystredigaethau a siomedigaethau Simon Thomas yma hefyd, er fy mod yn meddwl ei fod o bosibl yn gorbwysleisio rhywfaint o'i achos. Nid oes unrhyw dagfa yma; nid wyf yn derbyn bod tagfa. Rydym yn symud ymlaen: bydd Bil drafft yn cael ei gyhoeddi; bydd gwaith craffu cyn y broses ddeddfu yn dechrau ar unwaith. Bydd hyn i gyd yn gyhoeddus iawn, iawn, ac mae’r safiad cyhoeddus, os mynnwch chi, o ran cynnig y Bil drafft gwirioneddol allan yna, yn parhau i fod yn rhan o ymrwymiad llwyr y Llywodraeth hon—ymrwymiad llwyr fy mhlaid i—i ddarparu’r darn hanfodol hwn o ddeddfwriaeth.

I think it’s a little unfair to assume that there will be a two-year delay here; that’s not necessarily the case, and if all parties are agreed, whatever the combination of forces after the next election, I’m sure that things could be expedited a little more quickly than that. But it is true that the timetable is to be a little longer than was originally hoped for. As I say, this is a judgment call in the same way that Simon Thomas might have stood, in a year’s time, opposite me—or, I don’t know, maybe our positions will be reversed, Simon—and may well have criticised me for a piece of legislation that bumps into the new professional development regime around teachers, because the two things haven’t been thought through together, or indeed that the thing ran into the buffers in terms of timescales, with the next election, because the party political consensus that we say we share here, perhaps, might have broken down as we head closer and closer towards the next election. There are imponderables here, but the one certainty is that we must deliver a piece of legislation that best serves the young people for whom it’s intended to work.

Rwy'n credu ei bod ychydig yn annheg i gymryd yn ganiataol y bydd oedi o ddwy flynedd yma; nid yw hynny'n wir o reidrwydd, ac os bydd yr holl bleidiau yn cytuno, beth bynnag fydd y cyfuniad o rymoedd ar ôl yr etholiad nesaf, rwy'n siŵr y gallai pethau gael eu symud ymlaen ychydig yn gyflymach na hynny. Ond mae'n wir y bydd yr amserlen ychydig yn hwy nag y gobeithiwyd yn wreiddiol. Fel y dywedais, mae hyn yn fater o farn, yn yr un ffordd ag y gallai Simon Thomas fod wedi sefyll, ymhen blwyddyn, gyferbyn â mi—neu, nid wyf yn gwybod, efallai y byddwn wedi cyfnewid ein safleoedd, Simon—ac mae’n bosibl iawn y byddai’n fy meirniadu i am ddarn o ddeddfwriaeth sy'n gwrthdaro â’r gyfundrefn datblygiad proffesiynol newydd ar gyfer athrawon, gan nad yw'r ddau beth wedi cael eu hystyried yn drwyadl gyda'i gilydd, neu yn wir bod y peth wedi methu o ran yr amserlenni, gyda’r etholiad nesaf, gan fod y consensws rhwng y pleidiau gwleidyddol yr ydym yn dweud ein bod yn ei rannu yma, efallai, wedi peidio â bod wrth i ni fynd yn nes ac yn nes at yr etholiad nesaf. Mae elfennau annelwig yma, ond un sicrwydd yw y bydd yn rhaid i ni gyflwyno darn o ddeddfwriaeth sy'n gwasanaethu’r bobl ifanc y bwriedir iddi weithio ar eu cyfer yn y modd gorau.

The best and surest way of making sure that happens, to my mind, is to take this approach. We will proceed now; there will be activity; there will be forward momentum; and there will be a debate, a public debate, around the draft Bill, which will improve the legislation we intend to enact.

Y ffordd orau a mwyaf sicr o wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd, yn fy marn i, yw’r dull hwn. Byddwn yn bwrw ymlaen yn awr; bydd gweithgaredd; bydd momentwm ymlaen; a bydd dadl, trafodaeth gyhoeddus, am y Bil drafft, a fydd yn gwella'r ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei deddfu.

18:07

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, diolch am y datganiad. Nid wyf yn meddwl bod unrhyw un ohonom ni’n cwestiynu’r ffaith ei bod yn bwysig ein bod yn cael Deddf sy’n gweithredu, ac, hwyrach, a fydd yn gwella’r sefyllfa y mae Angela Burns a rhai eraill wedi’i hamlinellu. Ond, rwy’n meddwl beth sy’n syndod ydy’r ffaith ein bod yn dod i’r casgliad yma ryw bythefnos cyn i’r Bil cael ei gyflwyno i’r Senedd. Fel rydych chi’n ei ddweud, mater o’ch barn bersonol chi ydy o, ac rydym yn derbyn hynny, ond hwyrach y dylem ni fod wedi bod mewn sefyllfa lle’r oedd yna ryw awgrym bod yna broblemau.

Minister, thank you for the statement. I don’t think that any of us question the fact that it is important that we do have legislation in operation that may improve the situation that Angela Burns and others have outlined. But, I think that what is surprising is the fact that we are coming to this conclusion a fortnight before the Bill was to be introduced to the Senedd. As you say, it’s a matter of personal opinion on your part, and we accept that, but perhaps we should have been in a situation where there was some sort of suggestion that there were issues.

Roedd yr amserlen yma a’r holl adolygiadau yma’n glir o ran y Llywodraeth ym mis Ionawr 2014, a hwyrach beth sydd yma ydy gwers o ran yr addewid a roddwyd gan y Llywodraeth bryd hynny i’r plant a’u rhieni o ran gwella eu sefyllfa. Ond, rwyf yn derbyn eich barn chi ei fod yn bwysicach ein bod yn cael Deddf sy’n gwella’r sefyllfa, felly rwy’n ddigon parod i ymgymryd, yn adeiladol, efo’r gwaith cyn deddfu a’r craffu a fydd yn digwydd o fewn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rwy’n meddwl ein bod ni i gyd yma, o ran egwyddor, yn dweud ein bod yn barod iawn i sicrhau ein bod yn gweithredu ar unrhyw ddeddfwriaeth yn syth ar ôl i’r Cynulliad nesaf gael ei ethol. Ond, rwy’n meddwl hefyd bod yna gwestiynau ariannol ynglŷn â’r adnoddau. Rydych chi wedi datgan bod yr holl welliannau hyn, ar hyn o bryd, o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Felly, rwy’n meddwl bod yna gwestiynau anodd, o’n rhan ni, fel gwleidyddion, i’w hateb, os ydym am weld y sefyllfa yma yn gwella.

The timetable and all of these reviews were clear from the Government’s point of view in January 2014, and perhaps what we see here is a lesson in terms of the promise made by Government at the time to those children and their parents in terms of improving their situations. But, I accept your opinion that it is more important that we do have legislation that improves the situation, so I’m more than willing to engage constructively with the pre-legislative work and the scrutiny process within the Children, Young People and Education Committee. I think that all of us here, in principle, say that we’re very willing to ensure that we do act on any legislation immediately after the next Assembly is elected. But, I do think that there are financial questions in terms of resources. You state that all of these improvements at present come within the resources that are available. Therefore, I think that there are difficult questions for us as politicians to answer if we want to see this situation improving.

A gaf i jest ofyn i chi—? Rwy’n cofio cyn 2010, fel arweinydd cyngor Wrecsam, roedd yna bwysau oddi wrth y Llywodraeth yma yng Nghaerdydd i ni leihau nifer y plant a oedd yn cael datganiad. Felly, nid jest mater o gynghorau’n defnyddio’r esgus yma bod yna Ddeddf newydd yn dŵad ydy o; mae yna bwysau ar lefel genedlaethol yng Nghymru wedi bod i leihau’r datganiadau sydd ar gael. Roeddwn i’n gefnogol o hynny, i ryw raddau, achos roedd rhai rhieni’n meddwl bod datganiad yn rhoi cyfle iddyn nhw gael adnoddau neu wasanaethau nad oedd ar gael heb y datganiad. Felly, roeddwn i’n ddigon parod i dderbyn hynny. A gaf ofyn i chi a fydd y pwysau yna yn dal i fod mewn lle o ran eich Llywodraeth chi, wrth i ni gael y cyfnod yma o flwyddyn neu 18 mis o oedi?

May I just ask you—? I remember before 2010, when I was the leader of Wrexham council, that there was pressure from the Government here in Cardiff for us to decrease the number of children who had a statement. So, it’s not just a matter of councils using the excuse of a new Bill coming forward; there is pressure on a national basis in Wales to decrease the number of statements made. I supported that, to some extent, because some parents did think that a statement was an opportunity for them to gain resources or services that weren’t available without the statement. So, I was prepared to accept that. May I ask you whether that pressure will continue in terms of your Government as we go through this 18-month or a year’s delay?

A gaf i ofyn i chi hefyd a ydy’r Llywodraeth hefyd yn barod i ystyried y sefyllfa ariannol sydd y tu ôl i anghenion ychwanegol, lle ar hyn o bryd mae yna broblemau o fewn yr RSG—y ffordd y mae hyn yn cael ei ariannu o fewn llywodraeth leol? Rydych chi’n ymwybodol, hyd yn oed o fewn y flwyddyn yma, fod yna newidiadau wedi bod yn y ffordd y mae addysg ôl-16 yn cael ei ariannu o fewn y colegau addysg bellach. Felly, a fyddech chi’n barod i fonitro’r effaith y mae’r newidiadau yna’n eu cael, o achos, wrth gwrs, roedd y colegau addysg bellach, a’r cynghorau, yn barod, hwyrach, i dderbyn rhai newidiadau o achos eu bod nhw’n gweld mai cyfnod byr iawn oedd y newid yma? Felly, dyma ofyn ichi fel Llywodraeth a ydych chi’n barod i fonitro’r sefyllfa yna. Mae yna bwysau cynyddol ar y colegau addysg bellach ac ar y cynghorau, a beth sy’n fy mhoeni i ydy: tra byddwn ni hwyrach yn gwneud y gwaith craffu yma, a thra byddwn ni’n ceisio sicrhau bod yna well Fil, mae yna blant yn y gyfundrefn na fydd ganddynt ond un cyfle, ac rwy’n gobeithio na fydd yr oedi yma ddim yn eu rhoi nhw ar eu colled tra byddwn ni’n trafod.

May I also ask you whether this Government is willing to consider the financial situation behind additional learning needs, where at present there are problems within the RSG—the way that this is funded within local government? You are aware, even within this year, that changes have been made to the way that post-16 education provision is funded in the further education colleges. So, will you be willing to monitor the effect that those changes are having, because, of course, the further education colleges and the councils were willing, perhaps, to accept some changes because they saw it as being a very short period of time that those changes would be active? So, I ask you as a Government whether you’re willing to monitor that situation. There is increasing pressure on FE colleges and on councils, and what concerns me is that whilst we are undertaking this scrutiny work, whilst we are trying to ensure that there is a better Bill, there are children in the educational regime that will have only one opportunity and I hope that this delay will not disbenefit them as we continue our discussions.

18:11 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank Aled Roberts for those considered comments? He's quite right; when it boils down to it, this is a question of my judgment as Minister and my view of what constitutes the best way forward. All I can say is that, in good faith, I really think that this is the best way to ensure the delivery of good law to assist these children and young people, and we will have to see whether I am proved right. I hope that I am—I believe that I will be.

A gaf i ddiolch i Aled Roberts am y sylwadau ystyriol yna? Mae'n hollol iawn; yn ei hanfod, mae hyn yn fater o fy marn i fel Gweinidog a fy marn i o ran y ffordd orau o symud ymlaen. Y cyfan y gallaf ei ddweud, yn ddidwyll, yw fy mod yn sicr yn meddwl mai dyma'r ffordd orau o sicrhau y byddwn yn cyflwyno deddf dda i gynorthwyo’r plant a’r bobl ifanc hyn, a bydd yn rhaid i ni aros i weld pa un a ydw i’n iawn. Rwyf yn gobeithio fy mod i—rwyf yn credu y byddaf.

We will, of course, proceed now to engage with the draft Bill, and I welcome Aled Roberts’s commitment to do so on behalf of the Welsh Liberal Democrats. Simon Thomas did likewise on behalf of Plaid Cymru. I think that that stage is a stage that consists of forward momentum towards a consensual goal. The other key element, of course, of the pre-legislative side of what's coming next is, to my mind, the increased likelihood of maintaining consensus right through the process. I think that that is made more likely because of the necessities of the process itself, which makes even more cast-iron the commitments we have made to pick this up early in the next Assembly term—and it's very hard to envisage a future where that would not happen.

Byddwn, wrth gwrs, yn symud ymlaen bellach i drafod y Bil drafft, ac rwyf yn croesawu ymrwymiad Aled Roberts i wneud hynny ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Gwnaeth Simon Thomas yr un peth ar ran Plaid Cymru. Credaf fod y cam hwnnw yn gam sy'n cynnwys momentwm ymlaen tuag at nod cydsyniol. Yr elfen allweddol arall, wrth gwrs, o'r ochr cyn deddfu ar beth sy'n dod nesaf yw, yn fy marn i, y tebygolrwydd cynyddol o gynnal consensws drwy gydol y broses. Credaf fod hynny'n fwy tebygol oherwydd hanfodion y broses ei hun, sy'n gwneud yr ymrwymiadau a wnaed gennym i godi hwn yn gynnar yn nhymor y Cynulliad nesaf hyd yn oed yn fwy cadarn—ac mae'n anodd iawn dychmygu dyfodol lle na fyddai hynny'n digwydd.

Now, in terms of monitoring the current situation, Aled Roberts is right to be concerned; we should all, as local representatives, be alive to what our local authorities are doing in these very tough times and how they are prioritising and making the difficult decisions they have to make. But it is clear that part of the Welsh Government's rationale behind some of the changes in the way that money flows is that a lot of that has been intended to ensure that we assist local government as much as we possibly can in giving them a little bit more flexibility in some very tough times indeed. But we all have the responsibility, myself most of all, of making sure that the current responsibilities of local authorities are delivered upon, and, as I say, I've undertaken to write to each of the 22 local authorities with that in mind, and if Members should alert me to any kind of bad practice going on out there, I will commit immediately to act upon that information.

Nawr, o ran monitro'r sefyllfa bresennol, mae Aled Roberts yn iawn i fod yn bryderus; dylem i gyd, fel cynrychiolwyr lleol, fod yn effro i'r hyn y mae ein hawdurdodau lleol yn ei wneud yn y cyfnod anodd hwn a sut y maent yn blaenoriaethu ac yn gwneud y penderfyniadau anodd y mae'n rhaid iddynt eu gwneud. Ond mae'n amlwg bod rhan o resymeg Llywodraeth Cymru y tu ôl i rai o'r newidiadau o ran y modd y mae arian yn llifo yw bod llawer o hynny wedi'i fwriadu i sicrhau ein bod yn cynorthwyo llywodraeth leol gymaint ag y gallwn wrth roi ychydig mwy o hyblygrwydd iddynt mewn cyfnod anodd iawn yn wir. Ond mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb, fy hun yn anad neb, o wneud yn siŵr bod cyfrifoldebau presennol yr awdurdodau lleol yn cael eu cyflawni, ac, fel y dywedais, rwyf wedi ymrwymo i ysgrifennu at bob un o'r 22 awdurdod lleol gyda hynny mewn golwg, a phe byddai Aelodau yn rhoi gwybod i mi am unrhyw fath o arfer gwael yn digwydd allan yna, byddaf yn ymrwymo ar unwaith i weithredu ar sail y wybodaeth honno.

18:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And finally, Mark Isherwood.

Ac yn olaf, Mark Isherwood.

18:13

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. Well, I know all the motivations for this legislation from the committee inquiry carried out in the second Assembly—a three-stage committee inquiry into SEN, of which I was part. We took evidence from Baroness Warnock, whose initial report led to the statementing process, when her intention was that, perhaps, 1 per cent of pupils would need a statement as a safety net. In fact, 5 per cent had a statement, because it had become a certificate of entitlement in too many areas—something I encountered as a parent myself when fighting for a statement for one of my children some years ago. So, how will you ensure that the individual development plan cannot be used as a certificate of entitlement for services that a child, on a personal basis, should have access to, particularly when resources are tight? It is something that does happen—one of the reasons why the original committee report back in the second Assembly recommended the retention of statements for 'severe and complex needs'. I know you make reference to the development of staff, but how will you ensure that the concerns around training, which were addressed in that report, are addressed where there's growing evidence, from a range of professional bodies, that the absence of a generation of teachers specifically trained in SEN/ALN has led to a deficit in provision, no matter how well the intentions of the staff?

Diolch yn fawr. Wel, rwyf yn gwybod yr holl gymhellion dros y ddeddfwriaeth hon o'r ymchwiliad pwyllgor a gynhaliwyd yn yr ail Gynulliad—ymchwiliad pwyllgor tri chyfnod i AAA, yr oeddwn yn rhan ohono. Cawsom dystiolaeth gan y Farwnes Warnock, a'i hadroddiad cychwynnol hi a arweiniodd at y broses o lunio datganiad, a'i bwriad hi oedd, y byddai angen datganiad ar 1 y cant o'r disgyblion, efallai, fel rhwyd ddiogelwch. Yn wir, cafodd 5 y cant ddatganiad, gan ei fod wedi dod yn dystysgrif hawl mewn gormod o ardaloedd—rhywbeth yr wyf wedi dod ar ei draws fel rhiant fy hun wrth ymladd am ddatganiad i un o fy mhlant rai blynyddoedd yn ôl. Felly, sut y byddwch chi'n sicrhau na all y cynllun datblygu unigol gael ei ddefnyddio fel tystysgrif hawl i wasanaethau y dylai fod ar gael i blentyn, ar sail bersonol, yn enwedig pan fo adnoddau'n dynn? Mae'n rhywbeth sy'n digwydd—mae'n un o'r rhesymau pam mae adroddiad y pwyllgor gwreiddiol yn ôl yn yr ail Gynulliad yn argymell cadw datganiadau ar gyfer 'anghenion difrifol a chymhleth'. Rwyf yn gwybod eich bod yn cyfeirio at y gwaith o ddatblygu staff, ond sut y byddwch chi'n sicrhau bod y pryderon ynghylch hyfforddiant, a gafodd sylw yn yr adroddiad hwnnw, yn cael sylw pan fod tystiolaeth gynyddol, gan ystod o gyrff proffesiynol, bod absenoldeb cenhedlaeth o athrawon wedi'u hyfforddi'n benodol mewn AAA / ADY wedi arwain at ddiffyg yn y ddarpariaeth, ni waeth pa mor dda yw bwriadau'r staff?

Finally, how, in the legislation, do you propose to address the concerns highlighted about the growing numbers of exclusions over the last decade of children—not statemented, but children in the SEN school category—where, despite their needs, it would appear it's been more helpful for certain authorities to take them out of the classroom, rather than deliver that child-centred approach that is so much needed?

Yn olaf, sut, yn y ddeddfwriaeth, ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd am y nifer cynyddol o waharddiadau dros y degawd ddiwethaf o blant—nad oes ganddynt ddatganiad, ond yn blant yng nghategori AAA yr ysgol—lle, er gwaethaf eu hanghenion, mae'n ymddangos y bu'n fwy defnyddiol i awdurdodau penodol eu tynnu allan o'r ystafell ddosbarth, yn hytrach na chyflwyno'r dull hwnnw sy'n canolbwyntio ar y plentyn y mae cymaint o angen amdano?

18:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Okay, well, Deputy Presiding Officer, I think Mark Isherwood really is getting into the next stage of the debate, and is interrogating issues in a way that we'll all be able to do as soon as the draft Bill is published. Of course, part of the main thrust of this legislation is to overturn issues like that of the statement becoming a certificate of entitlement and taking on a wholly different role to that which was intended—a different child-centred structure and a legislative framework that does not allow that sort of thing to happen. So, that's what we need to discuss when the draft Bill is published.

He's also quite correct to point, again, to the connection between what this legislation says and what we do in policy terms about professional development and teacher training. Whilst reading the draft Bill and interrogating it, we do need also to be cognisant of the lessons that we should learn about how the new deal unfolds and how the Furlong agenda is attended to, as well.

Iawn, wel, Ddirprwy Lywydd, rwyf yn meddwl bod Mark Isherwood wir yn mynd i gam nesaf y ddadl, ac yn holi am faterion mewn modd y byddwn ni i gyd yn gallu ei wneud cyn gynted ag y bydd y Bil drafft wedi ei gyhoeddi. Wrth gwrs, rhan o brif fyrdwn y ddeddfwriaeth hon yw gwrthdroi materion fel y datganiad yn dod yn dystysgrif hawl ac yn cyflawni swyddogaeth hollol wahanol i'r hyn a fwriadwyd—strwythur gwahanol sy'n canolbwyntio ar y plentyn a fframwaith deddfwriaethol nad yw'n caniatáu i'r math hwn o beth ddigwydd. Felly, dyna beth y mae angen i ni ei drafod pan fydd y Bil drafft yn cael ei gyhoeddi.

Mae ef hefyd yn hollol gywir i dynnu sylw, unwaith eto, at y cysylltiad rhwng yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei ddweud a'r hyn yr ydym ni yn ei wneud o ran polisi am ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant athrawon. Wrth ddarllen y Bil drafft a holi cwestiynau amdano, mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r gwersi y dylem eu dysgu am sut y bydd y fargen newydd yn datblygu a sut yr ymdrinnir ag agenda Furlong, yn ogystal.

18:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, and that concludes today's proceedings.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:17.*

Diolch i chi, Weinidog, ac mae hynny'n dod â thrafodion heddiw i ben.

*The meeting ended at 18:17.*